Rhobert iddoi hun oedd Rhan Iestyn sef Pennaduriaeth a Brenhiniaeth Morganwg, ar Cestyll ar tiroedd ar Cyfiawnder a berthynai ar y Rhan hynny, sef Castell Caerdyf a'r tir perthyn, a Chastell Cynffig ar tir perthyn, hefyd Breiniolaethau Tir Iarll a Glynrhodne, a chyda hynny Maenoldir y Bont faen a'r Cyfryddid, a Maenoldir Tref Beferad a Llanilltud fawr, ar Cyfryddid a'r ddwy faenoldref hynn at yd ac enllyn ei deuly a Phlasdy gwych oedd gantho yn nhref beferad lle arferai aros yn yr haf a chynal yno ei Lÿs, y Sir Robert hynn ac ef unwaith yn hela yn nhref Beferad efe a gwymppodd ac a dorrodd ei goes a'r Ceffyl wedi cilio 'mhell ac ef oddiwrth ei gyfeillion heb neb iw gynhorthwyo, ar Ledfyr o amser efe a welai wr a elwid — Qu yn dyfod y ffordd honno ac am dano gleddyf ac arfau eraill, yr oedd Syr Rhobert wedi dwyn oddiarno ei dir ac am hynny yn disgwyl am ddim llai nag angau oddiar law'r gwr arfoc eithr y Gwr a gymerth Sir Robert i fynnu ac ai dyccodd i dy bychan yng nghilfach coed ar ddull meudwyfa ac a ddodes ynghyd yr asgrwn ac a ddanfones am wyr Syr Rhobert iw Warchadw yn ddiogel oni wellodd ei goes, ac wedi gwella e fynnai Syr Robert roi mawr anregion i — eithr nis cymmerai gan ddywedyd ti a ddygaist fy nghyfoeth a bywyd fy ngwraig am plant a'r rhan fwyaf o'm ceraint ac nid yw'th gyfoeth oll ddim iawn imi am danynt ond gwêl nad wyf yn caru dial ar elyn yn ei anallu. dos adref yn ddiogel a chofia nid oes arnaf fi nam gwladwyr eisiau dim ond gallu i ymddial ar yr holl estroniaid a'n digyfoethawdd yn ddiachos gan nas gwnaeth erioed itti niwed lleiaf, Syr Rhobert a aeth adref yn bendrist iawn ac a alwodd ynghyd ei farchogion ag a beris roddi yn ol ei cyfoeth i bob un ni fu'n y Rhyfel yn ei erbyn a diliaw'r Caethiwed a osodwyd ganthynt ar y wlad, eithr ni fwytodd Syr Robert fara iach byth a bu farw o'r diwedd o wallgof a chynddaredd. yn amser Syr Robert y cymerth Harri frenin y cymtaf Nest ferch Rhys ab Tewdwr yn rhith gwraig iddo ac a fu fyw gyda hi yng nghastell Caerdydd ai Ystafell oedd yn Nhwr y llew lle arosai Brenin bob amser a fyddai ynghaerdydd, a mab a fu i'r Brenin o nest ac ef a elwid Robert ac a fagwyd gyda merch Syr Robert yr hon a elwid mabilia a phan ddaethant i oedran hwy a briodasant a'r Brenin a wnaeth ef yn Iarll Caerloyw ai wraig ef oedd unig blentyn a thifeddes Sir Robert ac felly ar ol ei farwol-aeth ef yndaeth y Iarll Robert yn Dywysog neu Arlwydd Morganwg ynghyfiawnder ei wraig ef Rhyfelwr Dewr iawn oedd y Rhobert hynn a'r glewaf o'i gyfoediawn, efe a gymerth Ran gyda'r ymherodres Mallt yn erbyn y Brenin a phan a gymerwyd y Brenin

yn garcharor efe a newidiwyd yn lle'r Brenin, yn ei amser ef y gwnaethpwyd llawer cyfraith dda er lles y wlad ac a roddwyd ei cysefin fraint i frodorion Morganwg ac y caewyd lawer iawn o dir-oedd y frô a'r Rhobert hynn gan ei eni'n gymro a fu fawr ei gariad yn ei wlad, ac a gyflawnodd lawer iawn ar y diffyg a fu o achos Rhyfel Iestyn, un mab a fu iddynt a elwid William ac ef a etifeddodd yr Arlwyddiaeth.

William ab Robert Arlwydd Morganwg ac Iarll Caerloyw a fu Arlwydd Llonydd iawn ac heddychol ac iddo y bu dwy ferch Amic ac Ysbel, Ysbel a briodes y Brenin Sion o Lundain Brenin Lloegr, yr hwn Sion oedd 4^{da} fab i Harri'r ail Brenin Llundain ac ynghyfiawnder ei wraig yn Arlwydd Morganwg. amic a briodes Gilbert Iarll y Glâr ac ef ynghyfiawnd ei wraig a fu gydben Arlwydd Morganwg a'r Brenin Sion, a mab a fu i Gilbert ac Amic a elwid

Gilbert Iarll y Clar a Chaerloyw, ac Arlwydd Morganwg yn gydran gydben a'r Brenin, eithr y Brenin a roddes ei ran o'r Cyfoeth ar Penneigiaeth i Gilbert a'i etifeddion mewn hawl drosto a'r Brenhinoedd ar ei ol ef a hynny a beris dyfod a dull Cyfraith Lundain ar y wlad, y Gilbert hwn a briodes Ysbel merch Rhisiart Marsial Iarll Penfro a mab fu iddynt a elwid Rhisiart

Rhisiart Iarll y Clar a Chaerloyw ac Arlwydd ar holl Forganwg a aned yn nhref Beferad a gwr dewr oedd ef efe a wnaeth lawer o les i'r wlad a mab iddo a elwid Gilbert a ddaeth ar ei ol,

Gilbert Iarll y Clar a Chaerloyw ac Arlwydd Morganwg a gafodd fab a elwid Gilbert

Gibert Iarll y Clar a Chaerloyw ac Arlwydd Morganwg a fu wr hael iawn i Forganwg ac a wnaeth lawer o dai i dlydion a rhoddi iddynt bloryn o dir Gardd a pherllan a gwyr o Norddmandi i' ddysgu trin y tir yn y wlad, mab a fu iddo a elwid Gilbert a merch a elwid Eleanor.

Gilbert Iarll y Clâr a Chaerloyw ac Arlwydd Morganwg a gafodd ei ladd yn yr ymladdfa fawr rhwng y Brenin Edwart yr ail ai Saeson yn erbyn Rhobert Bruce ai yscotiaid lle cafodd 30000 o scotiaid y trechaf o lawer ar 100000 o Saeson ar ymladd hon a fu mewn lle a elwid Bannwg Cingsbwrw, ac am nad oedd i Gilbert wraig fe fu farw yn ddietyfedd ai chwaer Eleanor a gafas yr Arlwyddiaeth ac Iarlaeth Caerloyw ar ei ol ef.

Eleanor chwaer a thifeddes i'r Arlwydd Gilbert a briodes Hugh*

* Mae y Cyfysgrif ymma yn anghyflawn.—AB Iolo.

BREHINOEDD GLYWYSYG,

SEF Y WLAD A ELWIR Y WEITH HONN CANTREF GWAUNLLWG Y
RWNG AFON WYSG O DU GWENT, AC AFON ELERCH SEF HONNO
RHYMNI FAWR O DU CIBWYR YM MORGANWC,

SEF cyntaf wedi adynnill eu coron o'r Bryttaniaid yn nawdd Owain Finddu ap Masgen wledig ydoedd Glywys ab Tegid ab Cadell hen Brenin Teyrnllwg. ac efe a gafas Frenhiniaeth ar Gantref Gwaunllyg y dan y Terfynau a gyfeirydwyd, ac oi enw ei hun y galwes efe y wlad honno Glywysyg, a'r ymgynnal yng Nghaerllion ar Wysg.

Ail y bu Gwynlliw Filwr ap Glywys lle ydd oedd ef yn ymgynnal Caerfule lle y gwnaeth efe Eglwys Gwynlliw fal ag ai gwelir heddyw, Mab Gwynlliw ydoedd Cattwg Sant o Lancarfan ac efe ni fynnai'r frenhinaeth, namyn ymfueudwyaw yn yr Eglwys a wnaethoedd efe yn Llancarfan, ac efe a roddes frenhiniaeth Glewysyg iddei Gar cyflin Morgan Morganwg, a elwir Morgan Mwynfawr, ac efe yn Frenin Penrhaith ar holl Forganwg o Afon Wysg ar oced Gwent hyd Afon Tawy am Dir Gwyr a Rhiaeth Rheged, ac efe nid amgen y Morgan hwnnw ydoedd y Trydydd Frenin Glywysyg. ac ar ol Morgan y daeth ei fab ef sef

Ithel fab Morgan yn bedwerydd, ac efe a roddes roddion anrhydeddus o diroedd a daoedd byd, yn wartheg, ac aur, ac ariant, a thlysau i'r Eglwysydd a'r Corau Saint.

Rhodri mab Ithel, mab Morgan frenin, a fu'r bummed Frenin Glywysyg, ac efe a ddodes lawer o roddion i Dduw a'r Saint yn dragywydd.

Meyryg ab Rhodri mab Ithel mab Morgan Mwynfawr, a fu'n chweched Brenin Glywysyg, efe a wnaeth Gastell yng Nghaerllion ar wysg, ag un arall yn y lle a elwir Meigen Cil Ceincoed, ar agos afon Rhymini. gwr creulawn oedd efe, ag efe a laddwyd gan wyr Morganwg, lle ai tafasant ef bendramwnwg dros y glogwyn i'r mor, am a fynnai yng ngham a merch gwr o Bendefig anrhydeddus.

Rhys ab Rhodri mab Ithel a fu'n Seithfed Frenin Glywysyg, efe a wnaeth lawer o Eglwysydd yn ei wlad, ac laddws lawer o Saeson, lle ydd oeddent naw am bob un oi wyr ef, ar lan Afon Elerch lle daethant i dir, a'r lle a welir hyd heddyw, yn gaerau cedyrn cyfamgylch. ac ni chad mab iddaw gwedi ei fyned ni wy-

buwyd fyth i ba le, Yna ymhen y tair blynedd Cyfraith, rhoddwyd y Frenhinaeth iddei frawd Ffernfail.

Ffernfail ab Rhodri mab Ithel mab Morgan frenin a fu yr wythfed frenin Glywysyg, efe a wnaeth elusenau o dai a thiroedd a daoedd bydawl, i'r Saint ac i'r tylodion, ac ymhen Blynnyddau fe ddaeth Rhys ei frawd yn ol o'r coll a welwyd arno yn briod a phedefiges o Rufain a hithau'n gares o waed iddaw, yna Ffernfail a fynnai roddi'n ol y frenhinaeth iddaw, ag ni fynnai Rys hynny. a gwedi marw Ffernfail, ydd aeth Hywel fab Rhys yn nawfed frenin Glywysyg, a'r Saeson a laddasant ei holl blant ef o frad Cynllwyn yn nyfnder heddwch a thwng tangnef cywlad. a gwedi marw Hywel ab Rhys, fe aeth Frenhinaeth Glywysyg ym Mraint hawl o Ben raith yn un a Brenhinaeth Morganwg fal y bu cyn nog amser Glywys ap Tegid. ac felly terfyna'r gyfarwyddyd parth Ach a bonedd am Naw Brenin Glywysyg. gwedi hynny fe fynnai'r Saeson yrru Brenhinoedd ar wlad Glywysyg, ag ni bu nemmor haws iddynt. canys gwyr y wlad ai lladdaint yr holl wyr difrawd a ddodwyd yn frenhinoedd arnynt gan y Saeson. a'r gyfarwyddyd honn a ddodwyd ar gof Llyfr gan Gradawe offeiriad yn Llancarfan yn Amser Harri frenin y cyntaf o'i ddirfawr wybodau ar bob llyfrau Cyfarwyddyd, ac achau bonedd, a gwybodau Treigl gwlad a Chenedl y Cymry.*

* O ach Iestin ap Gwrgan, Llyfr Watkin Giles o Langanna.

IESTYN AB GWRGAN.

Yr achos o'r Rhyfel rhwng Iestyn a Rhys ab Tewdwr oedd hyn wedi marw owain ab Hywel dda y daeth Meredydd ei fab i Lywodraeth a darparu Rhyfel a wnaeth yn erbyn Owain Arglwydd Morganwg o achos yr hen amryson a fu rhwng Owain ab Hywel ag owain ab Morgan am dir Gwyr ystrad yw ag Eas, a gorfu owain ar feredydd, ag yn y flwyddyn 998 bu farw meredydd ab Owen, ag yr aeth Aedan ab Blegwryd ab Morgan mynfawr yn frenin ar holl Gymru ac ef a laddwyd gan Lywelyn ab seisyllt yr hwn Lywelyn a aeth yn frenin holl Gymry ag wedi iddo farw I cymerth Iago ab Eidwal Gyfoeth Gwynedd âi llywodraeth a Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgan drwy nerth ei ewythr a gymerth arno Dywysogaeth y Deau ag ef a wnaeth Gastell er cynnal ei Lys ynddo ynghaerdydd ag yno y cynneiliau a thyna'r pryd y gwnaethpwyd Castell gyntaf ynghaerdydd, eithr Hywel ab Edwin ab Einion ab Owain ab Hywel dda ai frawd Meredydd a ddaethant i Gymru a llu cadarn o wyddelod ag a laddasant Rhydderch ag fal hynny cawsant hwy lywodraeth y Deau eill dau. eithr meibion Rhydderch a Llu o wyr Morganwg a Gwent a brofasant adynill y dywysogaeth a dial Lladdiant eu tad, a Hywel a meredydd a gwrddodd a nhwy yn y Rhaethwy a gwedi mawr ymladd y gorfuwyd ar feibion Rhydderch y flwyddyn wedi hynny y llas feredydd ab Edwin gan feib Cynan ab Seisyllt brawd Ll^a. ab Seisyllt er dial angeu eu hewyrth yr hwn a laddwyd Gan Hywel a Meredydd feibion Edwin. y flwyddyn nesaf yr anogawydd Hywel ab Edwin lu o saeson i ddyfod i went er difa cyfoeth Caradoc ab Rhydderch ab Iestyn Arglwydd Caerlleon a Gwaunllwg a dwywent isaf ag yno y lladdwyd Caradoc yr hyn a wnaeth I Iestyn gyffroi yn erbyn Hywel. ag anog Gruff ab Llywelyn ab Seisyllt Tywysog Gwynedd a wnaeth ef Iestyn yn erbyn Hywel ai yrru ef ar ffo a wnaeth ef, yny flwyddyn 1038.

Yny flwyddyn 1042 y bu farw Hywel ab Owain Arlwydd Morganwg Brenin da oedd ef ai amcan ar heddwch pei cawsai gan ei berthyniaid, ag ar ol Hywel y daeth ei frawd Ithel yn dywysog ag ef a fu wr da yn y wlad ond a fu farw yn ebrwydd ag wedi ei farw y daeth ei fab Gwrgan i liwio Morganwg a Hywel ab Edwin yn yr amser hynny a geisiodd ddadynill ei deyrnas oddiar Ruffydd ab Llywelyn brenin Gwynedd eithr Hywel a gruffydd a orfu ar ei wyr ef wedi marw Hywel ef a amcanasant Rydderch a Rhys

meibion Rhydderch ab Iestyn adynill Deheubarth a gwladychu arni, yn hawl arfau eu tad, y ddauwr hyn a gynnullasant lu mawr o wyr Gwent a Morganwg, ag a gyfarfuant a Gruff ab Llywelyn a gruff a ddaeth iw cyfarfod ag ymladd gwaedlyn iawn a fu oni orfu ar Ruffydd dan gel nos fyned ymaith ef ai wyr tua Gwynedd ag ofn ar Rydderch a Rhys eu Calyn herwydd y colled a gawsant mewn Gwŷr. ag fal hyn y dywelodd pob ochr iw Gwledydd er ymgryfhau ym mhellach mewn Gwŷr a moddion Rhyfel wedi hyn y bu heddwch dros ryw ychydig o flwyddynau.

Yny flwyddyn 1060 y bu farw owain ab Gruff ab Rhydderch ab Iestyn yna Caradoc ab Gruff ab Rhydderch ab Iestyn a gasglodd lu mawr o wyr Gwent a Morganwg ag a geisiasant gyda hynny gynnorthiant gan Harallt a Thosti ei frawd ag a aethant i ddeheubarth ag hwy a weithiasant felly ar wyr Gruff Twysog Gwynedd fal y lladdasant hwy ef a gwedi colli'r tywysog y buant yn hawdd fuddugawl ar wyr Gwynedd, oed Crist pan fu hyn oedd 1061.

Wedi marw Gruff ab Ll^a y daeth Meredydd ab Owain ab Edwin ab Hywel dda i wladych Deheubarth, yr amser hyn y deoles y Brenin Edward Dosti Bencynnadl y Gogledd o'r Deyrnas ag y darfu i wyr y Gogledd ddewis Marser yn Iarll arnynt a gofyn cynnorthwy o Gymry yn ei plaid a wnaethant a hynny a gawsant gan Wrgan ab Ithel ai fab Iestyn Arlwyddi Morganwg a buant fuddugawl a'r Arlwyddi hyn o Gymry a ddychwelasant adref yn llawn cyfoeth ag anrydedd

Yn y flwyddyn 1068 y cymmerth Wrgan ag Iestyn blaid Bleddyn ab Cynfyn yn erbyn Meredydd mab Gruff ab Ll^a. a buant fuddugawl ar feredydd ag ynyllodd Bleddyn Dywysogaeth Gwynedd a Phowys oll.

Yr oedd Iestyn ab yr Arlwydd Gwrgan yn briod a Denis ach Bleddyn ab Cynfyn oi wraig gyntaf sef oedd honno Haer ach Cyhylan, ag am hynn yr oedd mawr gariadaeth ryingtyn, yny flwyddyn 1070 y daeth Caradoc ab Gruff ab Rhydderch ab Iestyn a a llu o normaniaid gydag ef yn gymmorth yn erbyn meredydd ab Owain ab Edwin Brenin y Deau, ag ymhlaid Caradoc y daeth Iestyn ab Gwrgan a llu mawr o wyr Morganwg yn y frwydr hon y Llas feredydd ar lan afon Rhymni yn y Lle a elwir y Rhath agos i Gastell Caerdyf ag yna y daeth Garadoc i wladychu Deheubar eithr yn ebrwydd wedi hynny y bu ef farw ai fab Rhydderch ab Caradoc a wladychodd ar ei ol ai Lys oedd yn Nhref Beferad,

Yny flwyddyn 1072 y cymmerth Garadoc ab Gruff ab Rhydderch blaid Gronwy a Llywelyn meibion Cadwgan ab Bleddyn ab

Cynfyn, yn erbyn Rhys ab Owain ab Edwin yr hwn a laddasai eu tad Cu a buddugawl y buant

Yny flwyddyn 1074 y lladdwyd Rhydderch drwy dwyll Meirchion ab Rhys ab Rhydderch ei gefnderw wedi marw Rhydderch y Llywiodd Rhys ab Owain Ddeheubarth ei hun Lle'r oeddent o'r blaen y cydwladychu ar cyttundeb oedd y cai Etifeddion y Gwladychiad fyned i eppil Rhydderch ab Caradoc, yn ebrwydd wedin y llas Rhys ab Owain Tywysog Deheubarth a Hywel ei frawd yn agos i Lanilltud fawr Lle y ffoasaint yn nawdd Seintwar Illtud.

Yn y flwyddyn 1077, y dechreuodd Rhys ab Tewdwr wladychu Deheubarth megis cyfiawn Difedd dad i dad o Rodri mawr, yr un amser y daeth Gruff ab Cynan y iawn Difedd i Dywysogaeth Gwynedd, a Chymru ynawr oll gan eu hiawn Difeddion a da iawn a fuasai i'r wlad pei felly y cawsai fod ag aros, ond Iestyn ab Gwrgan ynawr wedi dyfod i wladychu Morganwg ar ol ei Dad yr hwn a fuasai farw yn cheugein mlwydd oed a saith ag Iestyn yntef yn gant a chwemlwydd oed ag felly y dybygid yn rhy hen i arddelw Brenhiniaeth ddaearol, eithr ei harddelw a wnaeth ef, sef arddelw Brenhiniaeth Ddeheubarth ymhlaid ei Dylwyth sef ei orwyron, ag am hynn y cynnillawdd lu mawr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a chydag ef Madog Cadwgan a Rhyryd meibion Bleddyn ab Cynfyn, a gorfu ar Rys ffoi i'r Werddon lle cafodd ef lawer o gariad a nerth gwyr a moddion Rhyfel a dychwel a wnaeth ef a Llynges drom i Ddeheubarth ag a fu fuddugawl arnynt yngwaith Llechryd lle llas Madog a Rhyryd a gorfu ar Gadwgan ffoi o'r wlad yn llwyr, a heddwch dros ryw faint o flwyddi sef hyd y flwyddyn 1089 pan fu farw Cadifor ab Collwyn Arlwydd Dyfed ai feibion ef sef Llywelyn ag Einion a anogasant Ruffydd ab Meredydd i frwydr yn erbyn eu harlgwydd a'u Brenin Rhys ab Tewdwr, (ag felly hyd ddiwedd yr hanes)

Wedi digyfoethogi Iestin fal hyn gan y Ffreinge yr aeth efe ar gil, ag a fu farw ynghensan yn gant ag unmlwydd ar ddeg oed gan adael ar ei ol naw mab a merch trugain a chwech o wyron Cant ag un ar deugain o orwyron deucant a naw goresgynydd a phymtheg gorchaw. ag un mab a fu farw oi flaen naw wyr pump orwyr a dau oresgynydd ac un gorchaw, sef oeddent oll oi dylwyth. i gyd yn bedwar cant a deugain a naw. ag ef oedd y Tywysog amlaf ei dylwyth a fu erioed yn Ynys Prydain ag ef a gafodd Iestyn weled mab gorwyr a goresgynydd yn frenhinoedd yr hyn ni chafas Ddyn erioed o'r blaen ei weled.

TYWYSOGAETH IESTIN AB GWRGAN.

IESTIN ab Gwrgan oedd Dywysog ar Wlad Forgan yn Amser y Brenin William Goch, ag yng Ngwlad Forgan ydd oedd y gwledydd hynn yn cael eu cyfrif yr amser hynny. yn Gyntaf a Phennaf, Morganwg, a than yr enw hynny ydd oedd yr holl Wlad o Afon Wysg hyd Afon Nedd, ac or mor in mynyddau duon.

Yn ail Gwent, a than yr enw hynny yr holl wlad rhwng wysg ag Wy, ar parthau uchaf o went a elwir Ergain ag Eäs ag ystrad yw, a elwir Tair Llawes Gwent,

Yn Drydydd y Cantre Coch rhwng Gwy a hafren hyd Bont Gaerloyw. ag oddi yno hyd Henffordd.

Yn bedweryd ydd oedd y Cantre a elwir hefyd yr hwndrwd mewn rhai lyfrau, rhwng Nedd a Thawe.

Yn bummed Gwyr rhwng Tawe a Thywi cy belled ac y mae'r Trichwmwd yn cyrraedd ar holl Wledydd hynn yn perthyn i Ben Arlwyddiaeth neu dywysogaeth Morganwg Er Amser y Brenin Arthur. ond pan rhannwys Rhodri Mawr ei Arlwyddiaeth rhyng ei dri mab fe gas Cadell y mab hena Ddeheubarth, a Chadell ai Eppil a fynnent taw nhwy a ddylasant Arlwyddiaeth ar Wledydd Gwyr a Charwyllon, a hynn an achos Rhyfel rhwng Gwlad forgan a Deheubarth, lawer gwaith o amser Cadell hyd amser Iestin ab Gwrgan, Pan oedd Gwrgan ap Ithel ap Morgan Hen yn Dywysog Morganwg fe gwmnwys Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgan lu mawr o wyr ag a ennillwys Arlwyddiaeth Deheubarth ag a fu'n dywysog ar Ddeheubarth a mab iddo ar ei ol, ag. ar ol hynny bu wyron iddo'n Dywysogion Deheubarth, ond or diwedd fe nillwys Rhys ap Tewdwr rann fawr o Ddeheubarth oddiar wyron Iestin yn ôl, ond parhau wnaeth y Rhyfel, ag fel ag oedd wyr arall i Iestin a elwid Treharn ab Cradog wedi bod yn Dywysog Gwynedd yn hir ac or diwedd wedi cael y gwaetha ai ladd gan Ryffydd ab Cynan fe drows Gruffydd o blaid Rhys yn erbyn Iestin, ag yn erbyn pob Pendefig a fu o blaid meibon ag wyron Iestin tra buon nhwy yn Dywysogion Deheubarth ag ym mysg eraill ydd oedd Pendefig urddasol yn Arlwydd Maenor deifi ai enw Einon ab Collwyn, a Rhys ab Tewdwr a gymmerwys ei holl feddiant ai foddion ag a gynnigwys drichan pen o wartheg a mil o erwi o dir

rhydd Arlwyddiaethol i'r un a ddalai. Einon nag a ddelai ac efe at Rys ab Tewdwr y naill nag yn fyw nag yn farw. ag o achos hynn gan fod lle iddo ofni brad fe Gilwys Einon ab Collwyn i wlad Forgan at Iestin ab Gwrgan yr hwn oedd ewythr iddo, a gwedi gwneuthur ei Gwyn ag adrodd y cyfan Iestin a gynghorwys iddo fyned i Lundain lle'dd, oedd ef yn gydnabyddus a gwyr mawrion y Brenin Wiliam Rhiwffws, ag mewn parch gýda'r Brenin ei hunan cans efe Einion a fuasai'n dwyn swydd anrhydeddus dan y Brenin yn ei ryfeloedd.

LLYMA DDANGOS PLANT IESTIN AB GWRGAN.*

GWRAIG gyntaf Iestin ab Gwrgan oedd Denys ferch Bleddyn ab Cynfyn Tywysog Pywys, ag yn oddawl gyda hi Arlwyddiaeth Cibwr ym Morganwg, yna gwneuthur Castell yng Nghaer Dydd a wnaeth Iestin ag iddei wraig gastell arall yn y lle a elwir o honi Denys Pywys, a threfnu Arlwyddiaeth arddelw i'r Castell. ag i'r Castell a'i gyfoeth Braint Brenin a Llys ag o'r wraig honno ganed I Iestin, ac y bu wyth o blant, nid amgen,

1. Rhydderch ab Iestin a gafas Arlwyddiaeth Gwaun Llwg, a'r Pencyfeistedd yng Nghaer llion ar wysg, ag efe a ennillwys Dywysogaeth Deheubarth, a phlant hefyd ac wyron iddo a fuant yn Dywysogion yn Neheubarth, ac yn hawl ammod Priodas ei dad ai Fam dan rhwymau gweithredol i Fleddyn ab Cynfyn y cafas Rydderch ag efe'n fab Hynaf Arlwyddiaeth Caerllion ar Wysg yn Wresgynaeth,

2. Meredydd ab Iestin,

3. Cadwgan ab Iestin,

4. Gruffydd ab Iestin a gafas Arlwyddiaeth y Coetty yn wresgynaeth ac yn ddyled talu nobl aur yn y flwyddyn iddei Frawd Caradawc ab Iestin a wnaethpwyd gan ei Dad yn Arlwydd Morganwg.

* Llyfr Watkin Giles.

I Ruffydd ab Iestyn o'r Coetty y bu fab ai enw Meuryg goreu o neb yn ei amser am bob campau Bonedd a milwriaeth ac o hynny y cafwyd y ddiareb

Enw mawr yw enw Meyrig

I'r Meyrig hwnnw y bu fab ai enw Morgan ab Meyrig, ag i'r Morgan hwn y bu ferch a'i henw Sara yn unig blentyn a Thiffeddes, a honno a briodes Syr Paen Twrbil yr hwn a gafas o hynny gyfiawnder ar Arlwyddiaeth y Coetty. ag ni chaid oddiar ei law na thal, na gwarogaeth, na gwrogaeth I Syr Robert ffitsaimon—am hynny Paen Gythraul y galwai'r Ffrancod efe.

5. Rhiwallon ab Iestin, a gafas Diroedd yn y Cortwyl yn Ffrainc gan Syr Robert ffitsaimwn.

6. Morgan Hir ab Iestin, a gafas Dir Cyfoeth ym Meisgin.

7. Elen ferch Iestin a briodes Trym ab Maenarch Arlwydd Brycheiniog. a honno a Elwid *Elen deg*.

8. Gwenllian ferch Iestin, a briodawdd Ynyr Brenin Gwent yr hwn oedd yn byw yn Llannffwyst yn amser EDWARD GONFESSOR.

Ail Wraig Iestyn ab Gwrgan oedd Angharad ferch Elystan Glodrydd Brenin rhwng Gwy a Hafren, a chyda hi yn oddol y CANTREF COCH *rwng Gwy a Hafren*, ac i Iestyn ab Gwrgan o'r Angharad honn y bu bump o blant. nid amgen

1. Caradawg ab Iestyn, ac efe a gafas Gyfoeth rwng Nedd ag Afan ac a wnaeth Gastell yn Nhref Aberafan ag yno'r Pencyfeistedd, ac a roddes Diroedd a Breiniau Dinasaid i'r Dref,

2. Madog ab Iestin a gafas Arglwyddiaeth Rhuthin gan Syr Robert ffitsaimwn.

3. Morgan ab Iestin, a fu farw cyn oed gwr.

4. Rhys ab Iestin. a gafas Arlwyddiaeth Soflen rwng Nedd a Thawy.

5. Nest ferch Iestin a gafas Einion ab Collwyn yn wraig iddo gan Syr Robert Ffitsaimwn. a chyda hi yn oddowl Arglwyddiaeth Sainghenydd, a Meisgyn.

Hywel ab Madog ab Iestin a gafas Arlwyddiaeth Llan Tryddy, gan Syr Robert Ffitsaimwn, a mab i Hywel ab Madog oedd Cynfrig ab Hywel gwrolaf o neb yn ei amser, ag efe a ddug y Cymry yn erbyn y Ffrancod ag a gafas y gorau arnynt, a chadw ei dda ai ddwrn er gwaetha gwyr Syr Robert Ffitsaimwn.

LLYMA WEHELYTH CAERLLION AR WYSG.*

1. Rhydderch ab Iestin Arlwydd Caerllion ar wysg a Gwaun Llwg. ab Gwrgan ab Ithel ab Morgan Mawr Brenin Gwent a Morganwg ar Gwledydd hynn ydynt un a'r wlad a elwid Essyllwg yn yr hen amseroedd, eithr yn Essyllwg yr oedd yr holl wlad rwng Gwy a Thywy, ar Cantref coch, sef rhwng Gwy a Hafren hyd Bont Caerloyw hyd y cerddo'r wlad o Gaer Ffawydd hyd Gaerloyw.

2. Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin. Tywysawg Caerllion ar wysg.

3. Caradawg ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin ab Gwrgan.

4. Rhydderch ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin.

5. Meredydd ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin a fu'n Arlwydd Caerllion, a Hywel ei fab ef a fu'n Arlwydd y Cantre Bychan lle bu Meredydd ei Dad ef yn Arglwydd ac o hynny y gelwid y Cantref Bychan Cyfoeth Meredydd ym Morganwg.

6. Owain ab Caradog ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin ab Gwrgan a fu ar ol Meredydd yn Arlwydd Caer Llion ar Wysg.

7. Iorwerth ab Owain ei fab a fu'n Arlwydd Caerllion ac ef a wnaeth Gastell Mechain, a Chastell Celligaer. ac efe a briodes Angharad ferch Uchtryd Escob Llandaf.

8. Hywel ab Iorwerth ab Owain arglwydd Caer Llion ar wysg.

9. Morgan ab Iorwerth ab Owain, Arglwydd Caer Llion ar wysg, yn amser y Brenin Edwart y Cyntaf y dygwyd ei gyfoeth oddiarnaw gwedi Lladd y Tywysog Llewelyn ab Gruffydd o Wynedd, ag yna ynghylch oed Crist mil a thrichant y darfu'n lan am Forgan ab Hywel ab Iorwerth ai Freinioldeb ynghaer Llion ar wysg cans Madog fradwr o Wynedd a'i bradyches ef onis daliwyd gan y Brenin Edward yn Garcharwr ac yngharchar Castell Caer Dydd y bu efe farw ymhen Blynnyddau lle ai coronwyd ychydig or blaen yn Frenin ar holl Gymru ; a chwedl'r gortrech hynn arnaw ni allawdd un Tywysawg yng Nghymru ymgynnal o nerth arfau yn erbyn Brenin Lloegr.

PEDWAR PENCYFEISTEDD MORGANWG YN AMSER IESTIN
AB GWRGAN.†

Un, Caerllion ar Wysg yng Nghantref Gwaun Llwg.

Ail. Caer Dydd, lle y gwnaeth Iestin ab Gwrgan Gastell a chaerau cedyrn o newydd.

Trydydd, Tref Byfered

Pedwerydd, Castell Din Dryfan

} Ag yng Nghantref Gor-
wenydd y ddau hynn

* Llyfr Meyryg Dafydd o Lanisan.

† O'r un llyfr.

LLYMA WEHELYTH RIAL Y COETTY.*

Y DIWETHAF OF Britaniaid a fu Arlwydd y Coetty oedd Morgan, ab Meyryg, ab Gruffydd, ab Iestyn, ab Gwrgan. A merch oedd iddaw ef a elwid Assar, a Sar yw ei henw mewn rhai lyfrau. y Ferch honno a briodwys a'r Twrbwrfil. a hwnnw oedd un o'r Tri Marchog anrhaith ar ddeg a ddaethant i Forganwg. yn amser Iestyn ab Gwrgan i Wladychu gan ddwyn y Frenhiniaeth oddiar Iesyn, a'u cyfoethoedd oddiar au perchenogaint a hynn a fu yn y flwyddyn oedran Mab Duw 1089.

Gruffydd ab Iestyn oedd yn dala dan ei Frawd Caradoc ab Iestyn, ag yn dwyn nobl iddo bob blwyddyn meis ydd ys yn dwyn i'r Brenin y sydd Arlwydd Morganwg yn awr.

1. Paen Twrbwrfil a briodes Assar ferch ag unig blentyn ag o hynny Etifeddes Morgan ab Meyryg ab Gruffydd ab Iestyn ab Gwrgan Brenin Morganwg a Thywysog Saith Cantref Essyllwg sef yw hynny yr holl dir o Bont Caerloyw hyd afon Tywy.

2. Syr Simwnt Twrbil ab Syr Paen ag Assar Ferch Forgan, efe a wnaeth yr Hen Gastell y sydd ym Mhen y Bont ar Ogwyr.

3. Syr Paen yr ail ab Syr Simmwnt. ai wraig ef oedd Mallt, ferch Morgan Gam, ab Morgan, ab Caradoc ab Iestyn ab Gwrgan.

4. Syr Silbart Twrbil, ab Syr Paen yr ail o ferch Morgan Gam.

5. Syr Paen Twrbil y drydydd. ab Syr Silbert.

6. Syr Silbart ei frawd a ddaeth ar ei ol ef. ag a fu briod a Meiwen ferch Cadwgan, ab Ithel, ab Ifor, ab Morgan, ab Caradog ab Iestyn Arlwydd Castell ar Alain.

7. Syr Silbart y trydydd, ab Syr Silbert yr ail, a fu ar ei ol ef.

8. Syr Risiart ab Syr Silbart y drydydd, a fu wedi hynny.

9. Syr Paen Twrbil y drydydd ab Syr Risiart, a briodwys Wenllian ferch Syr Risiart Tawbot, ag iddo y bu pedwar Mab a phedair Merch. . Sef Silbart a Rhisiart, a Simmwnt, ag Edwart. ar Merched oeddynt Annes a fu briod a Syr Sion Dalabar Arlwydd Gweble. a Marged a fu briod a Syr Rhisiart Ystagbwl ym Mhenfro. a Challin a fu briod a Syr Rhosser Berelos o'r Berllan Newydd a elwir y Norsied yn Llandathan. ag efe oedd Arglwydd Llandathan, ag Assar a fu briod a Syr William Gamais Arlwydd y Rhogiaid yng Ngwent.

* O Lyfr Thomas Hopein o Langrallo—*medd Iolo Morganwg.*

10. Syr Silbart y pedwerydd, ab Syr Paen y Trydydd.

11. Syr Silbart y bummed ei fab a fu ar ei ol. ag ni bu iddo blant o briod

12. Syr Risiart ab Syr Paen y trydydd a fu ar ei ol ef. ag ni bu iddo blant o briod. Mab iddo o'i gariadwraig a elwid Simmwnt a gymmerwys y cyfoeth a'r meddiant ond ni chas efe eu cadw gan iddei Dad rwymo'r cyfan wrth Syr Lawrens Berelos Arlwydd Llandathan, ei Nai fab Callin ei chwaer a fu briod a Syr Rhosser Berelos.

13. Syr Lawrens Berelos, a fu ar ol hynny yn Arlwydd y Coety, ai wraig ef oedd Mallt ferch Syr Thomas Ysbenser Arlwydd Morganwg, ag ynghastell Ffili yr oedd yn byw, a honno a wenwynwys ei gwr Syr Lawrens Berelos ag efe a fu farw a hithau a gladdwyd yn fyw gan farn Gwlad a'r Arlwydd Syr Rhisiart Began, yr hwn oedd Arlwydd Morganwg.

Gwedi marw Syr Lawrens Berelos y daeth y meddiant i

14. Syr William Gamais, ab Syr Silbart, ab Syr William Gamais ag Assar ferch Syr Paen Twrbil y drydydd, ag yna gan i'r cyfoeth ar meddiant ddisgyn dros dair gwaith yng nghogail sef ym mraint Merch, y collwyd Arlwyddiaeth Rial y Coetty a myned i Syr Risiart Began a wnaeth yn Sied, fel ag y mae cyfraith yn gofyn sef cyd y dychyn meddiant ni ddychyn Braint ddigwydd ar go gaidros dairgwaith olynol. a'r Brenin y sydd yn awr yn Arlwydd Llys y Coetty ag yn Benrhaith gwlad a Llys, a'r Gamisiaid yw'r Arlwyddi Cyfoeth, ag iddynt y perthyn y meddiant a Llys Cyfoeth. ag i'r Brenin Llys Gwlad a'r Rhianaeth.

Ieuan Deulwyn a ddywaid yn y Llyfr a naeth efe o son am Arlwyddi a Marchogion Morganwg, taw cam yw galw y Twrbwlfil yn Farchawg Anrhaith, herwydd fe a briodwys a merch a thifeddes y perchen Morgam Amheyrig, a chael wrth hynny difeddiaeth gyfiawn ar y Cyfoeth ar lle ym marn Duw a Dŷn. ag na waeth o bwy Genedl y prioder yn gyfiawn cyd bo a brioder o'r ffydd ynghrist ag yn berchen Cred a Bedydd. a charedig ir Cymry y bur Twrbiliaid lawn gyhyd ag y buont berchenorion ar y Rianaeth, a Breninaeth y Coetty; yr hynn a ddygwyd oddiar y Gamais yn amser Syr Rhisiart Began, Brenin Morganwg, fal y dywespwyd o'r blaen, a chyd bo iawn iawn Llys Cyfoeth a Chyfraith iddynt etto, nid iawn iddynt Raith a Llys Gwlad onid gan gwyn fel ac y mae i bob Cynhenid arall. ar un a fo Arglwydd Morganwg a biau'r Pendodaeth, ac y sydd Benrhaith, heb air neb ar ei air ef

Yn amser Iarll y Clâr diweddaf y collwyd y frenhinaeth yng Nghenedl Caradog ab Iestyn yng Nghyfoeth Aberavan am iddynt ddial lladd yr Arglwydd Llywelyn ab Gruffydd o Wynedd, a thrais Gwlad oedd dwyn hynny oddiar y Genedl Rwng Nedd ag Afan, a honno a fu'r Frenhinaeth Rial ddiweddaf ynghymry heb air neb ar eu gair hwy, oddierth y Coetty. a'r ddwy Arlwyddiaeth hyn a fuont megis Pentewynion yn cynnal yn anniffod y Braint a ddyly'r Genedl Gymry, ar Fraint honn a gollason ni am ein Pechodau a digio Duw oni ddaeth dial a difraint a dwyn ein cyfoeth a'n Hawl an Braint Penrhaith oddiarnom; ag nid oes inni o barth Cenedl onid Enw a'n Hiaith yr honn a ddylyon ni ei chadw ai harfer yn ddileidiaith ac ymarfer a phob gwybodau a champau a deddfau daionus fal ydd ennillon ni fodd Duw a chlod gan ddynion, ag o hynny y daw i ben ag yn wir a broffwydai y Beirdd sef y caffant y Cymry eu Tir a'u Braint a'u Coron etto, a bod yn Genedl Benrhaith Ynys Prydain etto, a pharhau fal hynn tra bo Byd ym Myd, a dyweded pawb amen a phoed felly y bo.

ENGLYNION COFIADUR.

1. MIL deucant oesant Naf Iesu wyth deg
Eilwaith dau'n chwanegu.
Pan llas Llywelyn Pen llu,
Glyw digamrhwysg Gwlad Gymru.
Ieuan Gethin ab Ieuan ab Lleision ai cant 1420.
2. Mil trichant gwarant gwirian a deunaw
Fe dynwyd yn gyfan
Gan drais mawr i lawr yn lân
Hyneifiaeth Brenin Afan
3. Dau Seithgant honant hynny a deuddeg
Diweddwyd y Coetty,
Rhoed llwyr dawl ar bob hawl hy
Rhag camraith ar y Cymry.
4. Dau Seithgant gwarant gywrain cof ydyw
Y cyfodes Owain
I dorri lawr a dur lain
Einioes Brad Ynys Brydain.
Ieuan Gethin ab Ieuan ab Lleision ai Cant 1420.

DOSPARTH TEYRNEDD RHODRI MAWR.*

BRENIN Penrhaith Brenin a ddodid yn benn ar y Breninoedd eraill ai air ef yn air ar eu gair hwy, ag ar air pob un o honynt, a'r Brenin a geffid yn ddoethaf ag yn wrolaf o'r holl Frenhinoedd a ddodid yn Benn Rhaith, ag ar hwnnw ydd oedd Braint Tywysogaeth ar holl Ynys Prydain ai holl Frenhinoedd

Gwraig Rhodri Mawr oedd Angharad ferch Meyryg ab Dyfnwal, ab Arthen, ab Seisyllt Brenin Dyfed a Cheredigion, ag iddynt y bu pedwar o blant, sef merch a elwid Elen yr honn oedd hynaf oll, a hi a fu briod a Morgan Hen Brenin Morganwg a Thywysawg o Bont Gaerloyw hyd afon Tywi.

Tri meibion oedd i Rodri Mawr. sef yr hynaf o honynt Cadell Brenin Dyfed a Cheredigion; Ail oedd Anarawd Brenin Gwynedd; Trydydd Merfyn Brenin Pywys.

Bu hefyd i Rodri, o'i gariadwraedd, bum mab. sef Rhodri Goch ab Rhodri Mawr. a Meyryg, ag Eidwal, a Gwryriad, a Gathelig: a dwy ferch, sef Elgain a Chreirwy; a phan oedd oed Crist yn ddeuddeg a thrugain ag wyth cant y lladdwyd Rhodri Mawr gan y Saeson yn Ynys Fôn a chydag ef ei fab Gwryriad, a hefyd Rhydderch ail fab Morgan Hen Tywysog Morganwg, ag ef yn bumtheg oed yn rhyfela gyda ei Dad y eu. sef Rhodi Mawr.

Llyma fal y rhannodd Rhodri Mawr ei gyfoeth rhwng ei dri meibion,

Cadell y mab hynaf a gafas Dalaith Dinefwr, sef Dyfed a Cheredigion dan eu therfynau, ag iddaw Deyrnwialen y Dywysogaeth. canys i'r hynaf o'r Tri Brenhinoedd Gwlad Gymru y dylid hynny. Pencyfeistedd Dyfed a Cheredigion Caerfyrddin.

Anarawd yr ail fab a gafas Wynedd dan ei therfynau, ag yn Aberffraw'r Pencyfeistedd. rhai lyfrai a ddywedant mai'r trydydd sef y Ieuangaf o'r meibion oedd anarawd.

Merfyn y Trydydd mab a gafas Dalaith Mathrafal sef holl Bywys dan ei therfynau a'r Pencyfeistedd oedd ym Mhen Gwern Pywys, sef y Mwythig.

Llyma fal y trefnwys Rhodri Mawr lle cefid ymryson rhwng neb rhai o'r Tair Talaith, er Barn a therfyn yr ymryson.

O bydd ymryson rhwng Talaith Dinefwr a Thalaith y Berffraw ym Mon, ym Mwlech y Pawl yng Nglann Dyfi y dylai fod yr Eisteddfa, a Brenin Pywys yn Benn Rhaith a Barn.

* O Lyfr Thomas Hopcin o Llangrallo.

O bydd ymryson rhwng Talaith Mathrafel a Thalaith Dinefwr, yn y Rhyd Helig ar Wy y dylai fod yr Eisteddfa, a Brenin Gwynedd yn Benn Rhaith a Barn.

O bydd ymryson rhwng Talaith Mathrafal a Thalaith y Berffraw ym Mon. yn Nol yr Hunedd yn Iâl y dylai fod yr Eisteddfa a Brenin Dinefwr yn Ben Rhaith a Barn.

A pha le bynnag y byddai'r Eisteddfa, bid yno Deyrnedd y Tair Talaith. sef ydynt,

Teyrnedd Dinefwr. Brenin, Arlwyddi Llys a Gorsedd, a Gwlad, sef yw Gwlad Perchennyddion Tir gan eu Pencenedloedd.

Teyrnedd y Berffraw, Brenin, Pymtheg Llwyth Gwynedd gan eu Pencenedloedd. ag Yngnaid Llys.

Teyrnedd Mathrafal, Brenin, Gwelygorddau Pywys gan Bencenedloedd, ag Yngnaid Llys.

Teyrnedd Cymry Benbaladr yr Hynaf o'r Tri Thywysawg Taleithiawg, Brenhinoedd Gorseddog a'u Cyffon Teyrnedd, sef yw Cyff Teyrnedd y peth y wnelir o honaw y Deyrnedd yn berffaith. ag nid unrhyw Cyff Teyrnedd ym mhob un o'r Tair Talaith. eithr mal y dangoswyd eisioes.

Braint Teyrnedd Cymru Benbaladr dewis y doethaf a'r Gwrolaf o'r Brenhinoedd ai ddodi'n Ben Tywysawg ac yn Ben Rhaith ar holl Ynys Prydain.

Pencenedl yw'r Hynaf o lwyth Cenedl, a Gwelygordd o wr cyfallwy, ai nawdd iddei genedl o lwyth a Gwelygordd hyd y nawfed ach ar hyd ag ar draws. Sef yw gwr Cyfallwy. na fytho nag ynfyd, na llesg anwrawl. na dall. na mud. na byddar. na chloff. nag anghyfaith, nag yn Anwybodus nag anysgedig, ag na fytho Briod ag Estrones gynhenid, ag na fytho eneidfaddau, ag na fytho arno hawl galanas, na hawl sarhâd, ag nas ciliawdd yn Nydd brwydr ag ymladd, ag a wypo holl Ddefodau Teyrnedd Ynys Prydain a breiniau pob Cymro Cynhenid. ag a fo felly o hynafiaid Llwyth a Gwelygordd fe wedd iddo fod yn Bencenedl yng Ngorsedd Teyrnedd ag ym mhob Llys Gwlad a Chenedl, ag ym mhob Llys Barn a Chyfraith. a braint Tad iddaw ar bob amddifad o dad yn ei lwyth Cenedl a Gwelygordd. ag iawn iddaw geryddu a fytho ar y cam o'i lwyth ai genedl. ac nis tal sarhâd. a Braint i Bencenedl gynhyrfu Rhaith a Dygygnnull Gwlad a Chenedl lle bo achos cyfreithiawl. ag nid oes a gae yn erbyn hynny. canys cysswllt Teyrnedd y sydd ar Bencenedl. ag attaw y mae pob cwyn am gam ag anghyfraith a wneler a neb un o'i genedl.

LLYMA BUMP BRENHINLLWYTH CYMRU,*

NID AMGEN,

CADELL ab Rhodri Mawr yn Neheubarth.
Merfyn ab Rhodri mawr ym Mhywys.
Anarawd ab Rhodri mawr yng Ngwynedd.
Morgan Mwynfawr ym Morganwg.
Elystan Glodrydd rhwng Gwy a Hafren.

Ag fal hynn mewn llyfrau eraill.

Rhys ab Tewdwr yn Neheubarth.
Gruffydd ab Cynan yng Ngwynedd.
Bleddyn ab Cynfyn ym Mhywys.
Iestin ab Gwrgan ym Morganwg.
Elystan Glodrydd rhwng Gwy a Hafren.

LLYMA DDOSPARTH TEYRNEDD YMHOB UN O'R PUMP TYWYSOGAETH NID AMGEN

Teyrnedd Deheubarth, Brenin o Baladr, Arlwyddi Llys a Gorsedd, a gwlad a chenedl gan Bencenedloedd o berchen tiroedd.

Teyrnedd Morganwg, Arlwydd Penrhaith yn Frenin o Baladr, Deuddeg Arlwydd Gorseddog o Lys a chyfoeth o leiaf, a'r rif a fythynt dros benn hynny Brehyriaid, sef Tiriogaethwyr gan Bencenedloedd.

Teyrnedd Powys Arlwydd Penrhaith o Frenin, Gwelygorddau Pywys gan eu Pencenedloedd, ag yngneid Llys a Gorsedd.

Teyrnedd Aberffraw Brenin, Pymtheg Llwyth Gwynedd gan eu Pencenedloedd, ag yngneid Llys a Gorsedd.

* O'r un Llyfr.—Yn canlyn y Pump Brenhinllwyth blaeniadol y mae Dosparth Teyrnedd yn cael ei roddi yr eilwaith; ond gydag *ychwanegiadau*; herwydd *hynny* bernais ei fod yn ofynol arnaf osod y cyfryw yn gyflawn, etto, i lawr.—AB IOLO.

Teyrnedd rhwng Gwy a Hafren Brenin Tiriogion Gwlad gan Bencenedloedd. Yngneid Llys a Rhaith Deuddeg.

Penteyrnedd, yr hynaf o'r Tri thywysog Taleithiog. sef rhai Gwynedd, a Phywys a Deheubarth, a braint cynnal Dygynnull gwlad Gymru i hwnnw o fewn y Tair Talaith

Braint Pen Rhaith i Dywysog Morganwg rhag Cyrch gelyn a gormes yn Neheubarth, ag yna braint pen cyngor i Dywysog rhwng Gwy a Hafren. a Phenllyuddiaeth i Dywysog. Pywys, canys goreu y gwyddant hwy achos ag ansawdd rhag lleoedd eu gwledydd, lle cyrch o gelyn a gormes o dir. a phan ymgyrch o For Braint Penrhaith i'r un ai Tywysog Deheubarth ai un Gwynedd y bo y delo'r ormes i Dir. a braint pen cyngor i'r llall o'r ddau Dywysog hynny

Rhai a ddywedant mai rhwng Tywysog Morganwg ac un Pywys y saif Braint Pen Rhaith lle delo gelyn a gormes o dir yn ôl y goror y delo ai yn Nhywysogaeth yr un ai yn eiddo'r llall o honynt, a lle delo ar un o honynt hynn o fraint yna Braint pen cyngor ar y llall, heb son am Fraint yn y Byd ar Dywysog o lwyth Elystan Glodrydd.

Nid oes Braint Penteyrnedd a darparu Dygynnull ar wlad Gymru oll i Dywysog Morganwg. eithr ar Forganwg, a Gwent, a Gwyr, ac a berthyn i'r Gwledydd hynny, yn unig. a'r un peth i lwyth Elystan Glodrydd.

Nid oes Ben Teyrnedd gan un o'r Tri Thywysog Taleithiog ar Forganwg nag ar Gyfoeth Elystan Glodrydd.

Gwedi dyfod gelyn a gormes i Wlad Gymru, Braint Pen Teyrnedd a dygynnull Gwlad a saif ar a fo pellaf oddiwrth yr Ormes o'r ddau dywysawg Taleithiog hynn, sef un Gwynedd ag un Deheubarth, canys cadarnaf a diogelaf eu gwledydd hwy, ag o'r ddwy. a fo bellaf, oddiwrth yr ormes. a lle bo pen teyrn yr un, Pen Hynaif y llall, a dylit cyngor o Bywys, a braint Cyngor i Gyfoeth Elystan Glodrydd ag i Forganwg.

Os trwy for o Wlad Estron y daw'r Ormes, Braint Penteyrnedd a saif ar Frenin Lloegr, canys cyfoethoccaf a chadarnaf efe o'r holl frenhinoedd, a mwya lluyddwr. a Braint cyngor i bob Brenin yn Ynys Prydain yn Nygynnull Brenin Lloegr, ai orchymmyn ef a saif arnynt rhag cyrch Estron yn rhyfel a gormes. a'r Drefn honn a wnaethpwyd yn amser Edgar Brenin y Saeson o gyngor Pump Brenhinllwyth y Cymru.

LLYMA ARFAU Y PENDEFIGION

A DDIFEDDIANWYD O'U TIROEDD AU DA GAN SYR RHOBERT AB AMON. A'I FARCHOGION ANRHAITH.*

1. IESTIN ab Gwrgan Brenin Morganwg a Thywysawg o Dywi hyd Bont Gaerloyw. [Tywysog Morganwg a Gwent ag Eyas.] ef a ddug aur. Tri chwpl ^{coch} _{arian} [a ddyg aur. Tri chwpl arian.] efe a fu farw ym Monachlog Censam, i ba un y rhoddes efe diroedd cyfoeth yng Ngwaun Llwg, ai oedran chweugein mlwydd a chwech. [chwech ugain mlwydd]

2. Marchell, ab Gwynn ab Arthrwys ab Ithel ab Morgan Mawr, Arlwydd Llandathan, ef a ddug Asur. Tair mwyalchen euraid. [ddy]

3. Gruffudd ab Cadwgan Ddu Arlwydd Llansanffraid fawr ag Aberogwr, a ddug maes Du, Tri Eryr daupennog ariant.

4. Llywelyn ap Hywel fawr, Arlwydd Llann Ilari [St. Hilari] a Llanfleiddan fawr, efe a ddug arian, chwech pen saeth o'r mwrai au blaenau'n waedlyd.

5. Caradawg ab Arthen ab Bleiddryn. Arlwydd Glynn Nedd, ef a ddug maes du, Cwpl aur, Triphen Llew o'r arian, a'u tafodau o'r Sinobl.

6. Aedd ab Craffnaw ab Cynfarth, Arlwydd Tal y Fann, ef a ddug sinobl. Tair bwyail aur. [asyr.]

7. Idnerth ab Ifor Arlwydd Glynn Rhondde. ef a ddug Asur, chwech mwled aur.

8. Llywelyn Brenn Hen a elwir Llywelyn hagr, Arlwydd Sainghenydd, ab Gruffydd, ab Llywelyn ab Ifor, ab Einion, ab Rhiallon, ab Selyf, ab Dafydd, ab Morgan, ab Maglawn. Tywysog yr Alban. ef a ddug aur. Cwpl Asur, Tri phen March Sinobl.

9. Ynyr ab Rhyddwal ab Meuryg, Arlwydd Meisgyn, a ddyg Sabl, Bend o aur, chwech pen gwalech o arian.

10. Gweirydd ab Seisyllt hên Arlwydd Lancarfan a Phen Mark, ef a ddug sabl, Triphen Carw euraid [o'r Sinobl, a'u Cyrn o Ayr.] Seisyllt Hen a fu fyw naw ugeinmlwydd ag un

11. Meyryg ab Hywel ab Elgad, Arlwydd Llanffagan, ef a ddug o Ffagan Sant sabl, Tair allwedd aur. llyfrau eraill a ddywedant

* O Lyfr Mr. Cobb, o Gaer Dydd.—Y darlleniadau gwahanol, a welir rhwng cromfachau, ydynt yn ol ysgrif arall o'r un hanes, yn Llyfr Mr. Trueman, sef un o lyfrau Pantllwydd.—AB Iolo.

tair allwedd arian. [ariant, neu ayr fal y gwelir mewn rhai lyfrau.]

12. Caeron ab Hywel ab Elged, Arlwydd Llanfaes Illtyd, a ddug Asur, [sabl] Triphorth Castell yn egored o'r aur, bu fyw chweugeinmlwydd a phumtheg

13. Morgan ab Hywel ab Gwrgan, Arlwydd Rhuthin, a ddug Sabl, chwe mesen deri o'r aur.

14. Gwyddbwyll ab Ceraint ab Gruffydd ab Ynyr, Arlwydd Aber Barri a Phorth Ceri a ddug asur [sabl] o Geri Hirlyngwyn, Tri phen hwyllbren o aur.*

16. Einion fawr, ab Uthrod Goch, ab Blegywryd hên, ab Owain, Arlwydd Llanwerydd [ab Blegywryd hên Arglwydd, &c.] sef yw hynny San Dunwyd, ef a ddug Sinobl. Tri cheiliog o'r aur. medd llyfrau eraill Tri llew ar naid o aur.

17. Meirchion Hir, ab Gruffydd, ab Ithel, Arlwydd Tresigin a Llan Dw, a ddug yn gwarterog aur a Sinobl, pedwar Saled penn o'r asur ar arian [Pedwar Saled Penn or ariant.]

18. Llywelyn ab Meyryg ab Llywarch Arlwydd y Rhws a Ffwl y mŵn, (Aberbernant *in al.*—*Iolo Morganwg*,) efe a ddug asur, chwech meillionen aur.

19. Braint ab Meredydd falch ab Engir Benwyn, Arlwydd Llan Fair a Llanfihangel y Twyn (sef Treflemin) (Llanfihangel y twyn *in al.*—*Iolo Morganwg*,) [Llanfair a Threflemin] efe a ddug wyrdd, chwech gwenynen aur.

20. Arthael frych, Arlwydd Llys y Fronydd a Thre-Golwyn, efe a ddug Sabl, Dwy waywffon aur Sawter.

21. Dafydd ab Owain Goch ab Ithel, Arlwydd Llangynwyd a Thir Iarll, efe a dug Sabl, Cwpl arian, a thri phenn Blaidd o'r aur yn drwyn-waedlyd.

22. Hywel ab Gruffydd ab Anawrodd ab Blegywryd Hên, Arlwydd y Dyffryn olwg a Gwaunfoe, efe a ddug yn bedryfannog aur a Sabl, pedair olwyn o'r arian ar asur.

23. Edwin ab Trahayarn ab Ithel, Arlwydd Castell Conan a'r Soflen, a ddug arian [wyrdd] chwech rosyn coch.

A'r Pendefigion hyn a ddygwyd oddiarnynt y rhann fwyaf o'u Tiroedd a'u Da, a rhai o'honynt a gawsant diroedd gan Syr Rhobert fab Amon yn y Corbwyl a lleoedd eraill yn Ffrainc. . a rhai a gawsant ychydig o'u Tiroedd yn eu hol.

* Mae y rhifedi, ymma, yn myned o 14 i 16, gan adael 15 i maes ; ac yn y ddadysgrif yn ol llyfr Pantlliwydd, mae rhif 14 yn eisiau, a Gwyddbwyll yw'r 15fed. Einion fawr yw'r 16eg yn y ddau.—AB IOLO.

AMSEROEDD COF A CHYFRIF.

LLYMA amseroedd Cof a Chyfrif herwydd Hen Ddosparth Beirdd Ynys Prydain ar Gof a Chyfrif cyn caffael o Genedl y Cymry y Ffydd yng Nghrist, a gwedi hynny doded Gof a Chyfrif ar amser dyfodiad Crist yng nghnawd, fal ag y mae ym mhob Gwlad hyd y cerdd Cred a Bedydd.

O'r amser y daeth Genedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain hyd yr amser y gwnaed Efrawe gadarn ab Mymbyr ab Madawc 500 herwydd cof cadwedig Doethion au Cyfarwyddyd, ar Efrawe hwn a wnaeth Gaerau gyntaf yn Ynys Prydain Caer nid amgen, &c.

O amser Efrawe Gadarn hyd amser y gwnaed Lleon Gawr yn Frenin ar Genedl y Cymry dau canmlynedd namyn deng mlynedd, efe a wnaeth Gaer ar Lann afon Dyfrdwy, ag ai gelwis hi Gaer Llion Gawr. a Chaerllion ar Wysg ym Morganwg, a Chaer Manc, ag ni wyddis yn awr ymha le ydoedd. ag yn ei amser ef y bu Tes Angerddawl.

O amser Lleon Gawr trugain mlynedd a chwech, hyd yr amser Bleiddydd ab Rhun Baladr bras, a'r Bleiddydd hwnnw a gafas yr Enaint twym yn Nant Baddon ac a ddysges i Genedl y Cymry Lawer o Wybodau daionus a Chof cyfarwyddyd arnynt.

O amser Bleiddydd ab Rhun, hyd amser Llyr Llwyd ab Bleiddydd ugain mlynedd, ar Llyr hwnnw a wnaeth Gaer Llyr, a Chaer Eithras yng Ngwent, a elwir heddyw y Bryn Biga.

O amser Llyr Llwyd hyd amser Prydain ab Aedd Mawr ab Ancwn ab Seisyllt ap Rhwallon ab Rhegan ferch Llyr Llwyd dau can mlynedd a saith a phedwar ugain. A'r Prydain hwnnw a wnaeth ddosparth Gadarn ar Deyrnedd Ynys Prydain gyntaf ac a fu frenin Cadarn a doeth a thrugarawc ar holl Ynys Prydain ac a ddyges ar ddarwain Lawer o wybodau a Chyfarwyddyd i Genedl y Cymry, ag a fu byw bedwar ugain mlynedd a saith wedi cael ei wneythur yn frenin.

O amser Prydain ab Aedd Mawr hyd Amser Dyfnfarth Prydain a elwir Dyfnwal Moelmud yn Iaith Cerniw. Ugain mlynedd a naw. ar Dyfnfarth hwnnw a wnaeth ddosparth wastadrefn gyntaf ar Gyfreithiau Cenedl y Cymry, ag a wnaeth Ffaint ac Ammraint

gadarn ar au dirperynt, ag un o dri Doethion Brenhinoedd Ynys Prydain ai gelwir ef, ag a wnaeth Lys Gwlad a Dinasyddiaeth ddosparthus ynghaerllion ar wysg a honno oedd y Ddinas bennaf yn holl Ynys Prydain a Braint Cyfnewid iddi ymhob Dinas arall yn holl Ynys Prydain.

O amser Dyfnwal Moelmud hyd amser Gwrgan farfdrwch ab Beli ab Arthan ab Pyll hir, ab Beli hen ab Dyfnwal Moelmud, Gan mlynedd ag ugain ag wyth. Ac yn amser y Gwrgan hwnnw y bu rhyferthwy aruthrawl ym moroedd Ynys Prydain ag y boddes lawer o Gantre'r Gwaelod, ag achaws y morgymmladd hynny y daeth y Gwyddelod gyntaf i Ynys Prydain ag a gawsant gan Wrgan diroedd yn y Werddon lle yddaethanti yn Genedl luosawc a Chadarn ac yn amseroedd y Gwrgan hwnnw y daeth Gwyr Llychlyn gyntaf yn Ynys Prydain ac a gawsant fodd i fyw yn yr Alban lle y maent hyd y dydd heddyw. A Dinas a wnaeth ef a elwir Caer werydd, ag a fu fyw yno bedair blynedd ar bumtheg yn frenin Molianus. ac yna bu farw.

O'r amser y bu farw Gwrgan farfdrwch hyd amser Morydd ap Daned ap Aeddán, ap Cynfarch ap Seisyllt ap Eidrym, ap Cyhelyn ap Gwrgan farfdrwch. dau can mlynedd a phedair, ag yn amser y Morydd hwnnw y daeth anghenfil mawr angherddawl pedair adeiniawg i For y Werddon ag a ddaeth i dir yn Nyfed ag a laddes lawer o Genedl y cymry a Morydd a fynnai ymladd ag ef ag ai llyfesis yn wrawl eithr yr anghenfil a'i lladdes ef, ag Asgell oi adain a fwriasai ef at y Brenin,

O'r pan y llas Morydd gan yr Anghenfil hyd amser Owain a Pheredur Meibion y Morydd hwnnw deugain mlynedd a saith. ar Ddau frodyr hynn a wnaethant Gaer neu ddinas ardderchawc ai henw Caer Brodyr. Yna cymhwyl a'r saith mlynedd bu farw Owain ab Morydd a Pheredur ei frawd a gafas yr holl ynys iddo ei hunan yn frenhiniaeth hyd ymhen dwy flynedd ag yna y bu farw.

O'r pan y bu farw Peredur ab Morydd hyd amser Blegywryd Frenin, Canmlynedd a deunaw, a'r Blegywryd hwnnw a wnaeth wellhâd a Chyfarwyddydd ddosparthus ar gerdd dannau ag nis gellid neb ai atebai. Ag efe a gladdwyd yng Nghaerllion ar wysg yn anrhydeddus.

O amser Blegywryd hyd Amser Beli Mawr ab Manogan, Pedwar ugain mlynedd namyn un. ag efe a fu Frenin Doeth a gwybodus ag a wyddai lawer o gyfarwyddydd, ag au dysges i genedl y Cymry, ac ymhen dwyflynedd wedi ei goroni y bu ef farw, a mab

a fu iddaw a elwid Llydd ab Beli mawr ab Manogan, ag efe a wnaeth ddinas a Chaerau rhyfeddolion iddi ar lan Afon Dain ac ai gelwis hi Caer Ludd ac a elwir heddyw Caer Lundain. mab arall ei enw Caswallawn.

O amser Beli Mawr hyd amser Llyr Llediaith chweugain mlynedd, a mab i Lyr oedd, a elwid Brân fendigaidd a'r gwr mwyaf a welpwyd erioed oedd efe. a mwynaf a haelaf ei roddion, glewaf yn Nhrin a chaled, ag efe a yrres y Gwyddelod oi wlad lle yddoedd-ynt wedi gwladychu er amser Gwrgan Farfdrwch. ag a wnaeth Gaer ar lan Afon Llychwr ag ai gelwis hi Dinmorfael o Enw ei ferch anwylaf a fu farw yno, gwedi hynny efe a wnaeth Lann yno a Llanmorfael ai gelwir, a Chastell Llychwr yr awr honn.

O amser Bran ap Llyr hyd amser Lles ap Coel ap Cyllin, ap Caradawg ap Bran fendigaidd ap Llyr Llediaith, Canmlynedd a deg ar Lles hwnnw a elwir Lleirwg Sant a Lleufer Mawr, Ag efe a ddanfones am wyr Duwiol o Rufain i dysgu'r ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry ag a wnaeth Eglwys gyntaf yn Llandaf ag a ddodes Esgyb ynnddi i ddodi Bedydd ar genedl y Cymry, a chyntaf or Eglwysi y bu honno, a Bonheddiceaf ei braint. ag efe a ddodes ysgolion yno i ddyysgu'r ffydd ynghrist a gwybod ar Lyfrau Cymreig.

O amser Lles ab Coel hyd amser Coel Godebawc saith ugain mlynedd a'r Coel Godebawc hwnnw a fu frenin a merch iddaw a elwid Elen Lueddawc a honno a aeth i Gaersalem ac yno hi a gafas y Groes fendigaidd ac ai dug i ynys Prydain. sef y dodes Bardd hynny ar Englyn yn llynn,

Diboen ferch Coel Godeboc
I gred a ddyges y Groc
Ugain trichant ai wrantu
Oedd oed Iesu Dduw dwysoc.

O amser Coel Godebawc hyd amser Magsant Wledic, Canmlynedd a deuddeg ar Magsant hwnnw a fu yn Ymherawdr Ynys Prydain ag yn Rhufain. ag a ddodes fraint Teyrnedd Freiniawl ar Ynys Prydain ag a wnaeth Lawer o Eglwysi a Gwyndai Crefydd yn yr Ynys honn ag addysg gwybodau dwyfolion a gwladolion ynddynt, Ag efe a ddodes Diroedd a Breiniau i Genedl y Cymry yn Llydaw a Chynan Meriadawc. yn Dywysawc arnynt. ag yno yddaethant ugain mil o Genedl y Cymry yn amgen gwragedd a phlant, ag yno ydd arosasant hyd y dydd heddyw,

O amser Coel Godebawc hyd amser Cysteint ab Cystenin ab Aldwr Brenin Llydaw trugain mlynedd. ag achaws nad oedd ef Tywysawg o Baladr rhai o Genedl y Cymry nis mynnent ef yn Frenin arnynt, ac nis ymwrhaent iddaw, a Gwrtheyrn Gwrtheneu yn dywysawc iddynt, a'r Gwrtheyrn hwnnw a wnaeth frad a Chynllwyn a lladd Cysteint, ag a wahoddes y Saeson yn gyfnerth iddaw i Ynys Prydain ag a ddodes Diroedd a daoedd a Breiniau iddynt yn yr Ynys honn nid amgen no thiroedd Gwyr o Fonedd Rhufain yn Ynys Daned a Gwlad Cent ag eraill o wledydd. ar Saeson a arosasant yn yr ynys hon hyd heddyw yn un o dair gormes anraith Ynys Prydain. ag yn amser Cysteint y bu Teilaw sant yn Benescob Ynys Prydain, ag a ddug lawer o'r Paganiait i'r ffydd ynghrist, ag a ddug gan nawdd a Dawn y Brenin Dau Escob duwiol ir Ynys honn nid amgen na Garmon a Bleiddan i wellhâu ag adnewyddu Cred a bedydd a gwybodau dwyfolion. Merddn yn Prophwydaw.

O amser Cysteint hyd amser Gwrthefyr fendigaidd ugain mlynedd ag un.

O amser Gwrthefyr fendigaidd hyd amser Arthur ymherawdr deugain mlynedd a thair ar ddeg. Taliesin yn Prophwydaw.

O amser Arthur ymherawdr hyd Amser Cadwaladr fendigaidd, wyth ugain mlwydd. ag efe oedd y diwedd o frenhinoedd ynys Prydain o Baladr a gwaed Cynhwynawl y Bryttaniaid nes caffael y Brenin Harri'r Seithfed yr hwn sydd yn awr boed Duw'n amddiffyn iddaw Amen.

O Amser Cadwaladr fendigaidd hyd Amser Rhodri fab Idwal ugain mlynedd a dwy ar bymtheg ac efe a ryfeles ar Saeson ag ai lladdes yn dost.

O Amser Rhodri fab Idwal hyd amser Rhodri mawr ab Merfyn frych, Canmlynedd namyn tair: ar Rhodri hwnnw a rannes wlad gymru yn dair rhan.

O amser Rhodri Mawr ab Merfyn hyd Amser Hywel Brenin Cymry oll Cant namyn tair o flynyddoedd. A'r Hywel a ddodes gyfreithiau doethion a Chyfiawn ar wlad a Chenedl y Cymry, ag a ddodes Gadw Cof a Chyfrif ar oedran Crist fab Duw ai ddyfodiad ynghnawd, fal ag y mae hyd heddyw.

Ag fal hynn y mae'r gyfarwyddyd parth Amseroedd Cof a Chyfrif blynyddoedd ag ar a ryfu yn y blynyddoedd hynny gan graf ar flynyddoedd ag amseroedd hysbysion a bannogion y rhai yddynt warantedig o gof a Chadw herwydd cyfarwyddyd a Chof a gwybodau yr hen wyr Doethion ar gwyr wrth Lyfr, a gwybodau llythrolion.

Sef er pan ddaethant y Cymry i'r Ynys honn herwydd Cyfarwyddyd Cof a Chyfrif ddosparthus nid amgen no dwy fil o flynyddoedd a phumcant a saith a hynny hyd amser Hywel Dda, ag er amser Hywel Dda hyd y flwyddyn honn a goraniad y Brenin Harri'r Seithfed ab Edmunt am Owain Tudur Cymry Cynhwynawl o baladr hen frenhinoedd y Cymry pumcant mlynedd a phump a deugain. ag o ddyfodiad y Cymry gyntaf i'r Ynys hon hyd y flwyddyn honn Tair mil o flynyddau a deuddeg mlynedd a deugain.

LLYMA GOF CYFARWYDDYD

AMSEROEDD A DICHWEINIAI SELWEDIGION, NID AMGEN NA RHYFELAU A RHYFEDDODAU. AG ENWOGION O DDYNION AC O BETHAU.*

OED Crist 55, y cawsant Genedl y Cymry y ffydd yng Nghrist. ag a gredasant yn Nuw, ac y cafwyd ddeall gyntaf ar Iaith y Lladingwyr yng Nghymru,

154, Y cafwyd bedydd gyntaf yn Ynys Prydain ac Esgyb a Llannau o ddawn Lles ap Coel a'r Pab Elidir

180, Y gwnaethpwyd Eglwys yn Llan Daf gyntaf, a Lles ap Coel a elwir Lleufer mawr yn Esgob yno, yn dyscu Cred a Bedydd.

210, y Gwnaeth Severys amherawdr y clawdd mawr yn y Gogledd rhag rhuthr y Gwyddyl Ffichti, a gwir Llychlyn.

218, Bu farw holl ysgrublaidd a Gwartheg A meirch Ynys Prydain, achos gwlybanaeth ac amhwynt ac ardyimmer ariach yr hin

220, Bu rhew cadarn, ag y bu farw llawer o ddynion ac anifeilod achaws yr oerfel.

240, Bu clefyd cadarn, a bu farw llaweroedd gan yr haint.

* Llyfr Watkin Pywel o Ben y Fai, o Lyfr Caradawc Llancarfan.

242, Y Gwnethpwyd Caerllion ar wysg o newydd ac yn waith maen a chalch, lle cynno hynny Gwaith coed ydoedd a mynych ai llosged yng nghyfrangeu.

250 Bu rhew cadarn a marwolaeth fawr ar Anifeiliaid a'r Manysgrubl ac y bu prinder yd ac enllyn yr haf ar ol hynny, a marwolaethau ar ddynion achos hynny.

260, y Gwnaethpwyd Caer Baddon gan wŷr Rhufain, ac y bu ymladd rhwng y Cymry a'r Rhufeinwyr o achos hynny, ac y llas lawer iawn o'r Cymry.

269, Gwelwyd yr wybren megis ar dân ag y bu goleu'r nos fal y dydd dros naw niwarnod, ac ar ol hynny Tes mawr a diffyg dwr yn yr afonydd a'r Ffynonau.

272, Bu newyn cadarn a gorfod myned yng Ngwyllys Estroniaid a gwyr yr Ormes am fodd bywyd yn fwyd a rhysgwydd. a'r flwyddyn wedi hynny bu marwolaethau mawrion ar werin y wlad achos nychdod a drigwys ynddynt er pan y bur newyn a'r prinder, lle gorfu ar ddynion Armerth bywyd o risg y celyn, a rhise helygwydd, a rhise llwyfeni a gwreidda rhedyn. lle nis gellid o'r rhai hynny a fai digon, a thrymed y newyn fal y gorfu trin daear ac ar er cael yd, a achos bwyttar gwartheg a'r ysgrublaid agos ag oedd o henynt tra pharathair newyn.

290 Llas gwyr Rhufain yn greulawn gan y Cymry, achos dwyn oddiarnynt eu gwragedd a'u plant o drais a gorfod, yna y dug y Cymry hwynt yn ol, a dwyn eu tiroedd gyda hynny.

291 Bu'r gaeaf caled a'r rhew cadarn. A rhewi llawer o'r afonydd, a'r adar yn marw yn y Coedydd.

293. Doded ysgolion i ddysgu syberyd ym mhob Tref yn Ynys Prydain. a nawdd ar Gelfyddydau Dinas a Theulu.

294 Llas y Gwyddyl Ffichti a ddaethant o wlad Beitwy, ar un flwyddyn y cad Llundain ac ai hadeiladu o'r Newydd.

297 y Cad Aberllychwr a lladd Gwyr Rhufain yno. ac ar ol hynny cad Caerfyrddin a Chaer Gynfarwy yn Nyfed

300 y cad Cae Lwydcoed a Chaerdrynau, A Chaer wyrangon, A'r flwyddyn wedi hynny cad Caer worgorn a Chaer went, a Chaer Loyw,

307, Bu haint mawr achos Celaneddau ymladdau a bu farw anferthrif yn wir a gweision a merched a Gwragedd cyflawnoed gwr a gwraig a mwy na hanner plant Ynys Prydain, achos hynny y bu Gormes y Gwyddyl Ffichti yn y Gogledd a'r Gwyddyl gafflachawg a'r Llychlynwys ym Môn ag Arfon a'r Cwmwd.

314. Y Bu Newyn a drudaniaeth sef y llygrwyd yr yttir gan y Gwyddyl ar Llychlynwys ffordd y cerddynt, yn nawdd gwyr Rhufain er dial am nas caint Brodorion Ynys Prydain yn eu gwyllys. hefyd lladd yr Anifeiliaid ffordd ydd elai yr Ormes.

320. Y bu llif o fynnydd yn un a Morgymmlawdd Rhyfeddol yn y Gogledd ac y boddas lawer o'r Tiroedd ar hyd Glan mor Tawch. a llawer o ddyinion ag anifeiliod.

331 y Bu llifeiriant mawr o fôr ac o Dir, ac y boddas Gyfoeth Helig ap Glannog o Dyno helig ac ai collwyd yn anesgorol. sef oedd y Cyfoeth hynny am ydd elai Glwyd yn Aerfen hyd ydd elai Afon Branc ym Mor y y Gogledd.

335 Bu newyn angerddol ac y bu farw mwy na hanner Gwyr Ynys Prydain ac y cawsant Wyr Rhufain y goreu ar holl Ynys Prydain o For i for ar hyd ac ar draws ac y lladdasant ddeugain mil or Gwyddyl Ffichti yn y Gogledd.

338 y Cafas y Cymry Gaerllion ar wysg; a gwledd yno achos y cael a'r Gorfoledd deugain niwarnod

339, Daliwyd llawer o'r gwylliaid Gwyddelig ac a'u llosgwyd yn fyw am eu brad er gwaethaf pob cymmod heddwch a damdwng. A chylch yr Un amser y dodwyd nawdd a braint ar Lafuriaw daear, ac arodraeth yd a ffrwythau Coedydd, a gyrechid o'r Eidal ar Ysbaen, a'r Un flwyddyn y boddas Morfeydd Gwynedd a Cheredigion.

340 Y cafwyd melinau wrth wynt a dwr gyntaf yng Nghymru, lle cyn hynny nid oedd amgen na melin law.

353 Y colled Morfeydd Gwynedd a Cheredigion achos Morlif aruthrol a daearlif trwm ar ei gefn, ac y colled llawer o bentrefydd Dinesig

380 y bu gwynt angerddol ag y llosges lawer o dai ac yd.

Cyfergyd a'r amseroedd hyn y bu Cwstenin Amherawdr yn ymherodraethu yn ynys Prydain ag yn gwared y ffydd yn Nghrist rhag ai gwaharddai, A goreu a golychwydoccaf or holl amherodron y bu ef ag Elen ferch Coel Godebog Brenin Penrhaith Ynys Prydain oedd ei fam ef, yr hon a gafas y Groes fendigaidd y dan y garn a fwriesid arni gan yr anffyddloniaid yn Iddewon a phaganiaid.

Cyfergyd a'r amseroedd hyn y bu Morien ap Arfad Fardd yn ddysgedicaf o neb yn y byd, ac efe a fu yn Ammau bedydd ag Aberth Corph Crist, ac achos hynny y bu casineb ac ymrysonau ac ymladdau nid bychain ac Hud Morien a fu un o Dri hud ddargoll Ynys Prydain Cyntaf oedd Hud Urb Luyddawg o Lychlyn

a ddug agos bawb a fedraint wrth arf a rhyfel o Ynys Prydain au dwyn ar ddargoll yng Ngwledydd y Mor marw, ail y bu Hud Morien, sef oi achos y colled bedydd ag Aberth yn Ynys Prydain ac ydd aeth holl werin yr ynys yn Iddewon difedydd Trydydd Hud oedd un Gwydion ap Don yng Ngwynedd a gafas o dwyll fraint Coron a Phendefigaeth Ar Fon ac Arfon a'r Cwmmwd y Gan amherawdr Rhufain am yrru Cenedl y Cymry o'u Tiroedd a rhoi rhoi y tiroedd hynny ir Gwyddelod a Gwir Llychlyn.

382. Bu gwynt angerddol yr ail waith ac y dodes y Gwyddyl Ffichti dan wrth adanedd yr Adar Gwyllion yn y Gogledd, achos hynny llosged llawer iawn o dai ac ysguborau a Deisydd Yd.

390. Cyfergyd a'r amseroedd hynn y bu Cwstenyn ymherawdr yn gyfnoddwr, y ffydd yng Nghrist ac y Bu Martin Esgob yn Gwrthammau Hud Morien yn yr Eidal ag Yn ynys Prydain, Ag yn dygu bedydd ag Aberth modd au dysgwyd gan bawl Abostol sef y dywed Pawl wrth yr Esgyb a'r Offeiriaid Bedyddier pob dyn yn y Byd yn Enw y Tad o'r Nef, ag yn Enw y Mab rhad, Ac yn Enw yr Yspryd glan yr hwn a fydd fal terydr y Tes yn gyrru goleuni Duw ir man yddelo a'r man ydd agorer calon a Chydwybod iddo, sef ydd aeth goleu'r yspryd glan i groth y Wen forwyn Mair cyn oed gwra ac o hynny y beichioges ar Fab Duw nid amgen noc ar Iesu Grist y Mab Rhad, yr hwn a fu yn yspeilio Uffern ag yn dwyn pummoes byd o gaethiwed y Cythraul i Baradwys, Lle y maent yr Awr hon a gwyn ei fyd fyth a gaffo fyned attynt.

400. y daeth y Gwyddyl Ffichti i Gymru, ac addrygasant yn angerddol, Ac o'r diwedd cael y Goreu arnynt au lladd yn greulawn a'u gyrru ar ffo dros for i'r lle ydd hanoeddynt.

410, Bu clefydau a marwolaethau mawrion achos yr Haint melyn, ac achos hwnnw celaneddau nas cleddyd yn pydru ar wyneb daear ;

Cyfergyd ar un Amseroedd y dodes yr amherawdr Tewdws fraint ar ddysg a gwybodau Anrhydeddus yn Ynys Prydain, ac y bu Bradric Sant yn ben Athraw Cenedl y Cymry yn nawdd y freint honno, a'r gwyddyl gaflachog a ddaethant am ben y lle ydoedd, ag ai dygasant yn anrhaith i'r Werddon lle bu ef yn Sant gloywaf ei glod yn y Byd yn dysgu'r ffydd ynghrist ir Gwyddyl a chyn hynny Paganiaid di fedydd oeddynt.

425 Y Daeth Garmon Sant o Dir Gal a chydag ef Bleiddan Sant i Ynys Prydain i adnewyddu Bedydd ac Aberth a chred gyfiawn ar y ffydd yng nghrist. ac lle ydd oedd wedi myned ar edwin.

430, Daeth y Gwyddyl Ffichti i Fon ac Arfon a Gwyddyl y Gwledydd hynny yn ymuno a nhwy yn erbyn Coron Ynys Prydain, a Brenhinoedd a Thywysogion Cymry yn eu herbryn a gyda nhwy y ddau Sant nid amgen Garmon a Blaiddan a gweddio Duw a wnaethant, a Duw a wnaeth erddynt eu nerthu yn erbyn y brad ar estroniaid yn hylwydd a rhoi'r Gorau iddynt ar eu gelynion, a bu mawl gorfoledd yn archlod i Dduw am y fuddugoliaeth honno yn holl Ynys Prydain gan Genedl y Cymry, er gwaethafoedd Gwŷr Rhufain yn cyfarddal y gorddwy Brad ac estrawn.

Cyfergyd a'r un amser y llosgwyd Caerllion ar Wysg, ac y Gwnaethpwyd Llancafarn a honno a fu'r Fonachlog freiniol gyntaf a gad yn Ynys Prydain sef nid Monachlog Bangor Dewdws yn Nghaerworgorn eithr ysgol freiniol i ddangos a dysgu Gwybodau anrhydeddus a chelfyddydau ardderchogion fal ac ydoedd yn Ninás Rhufain a chan y Rhufeiniaid yng Nghaerllion ar Wysg,

Cyfamser a hynn bu morlif mawr, ac y colled holl forfaedd Gwynedd a Dyfed, a Chernyw a Dyfnaint, a Gwlad yr haf, a Morganwg a Gwent. a llawer iawn yn y gogledd.

436, Gwnaethpwyd Dyfrig Sant yn Archesgob yn Llan Daf, ag Illtud Sant, yn Ben athraw ym Mangor Dewdws, a elwid o'i enw ef Bangor Illud ac yn awr Llanilltud fawr, a Llanilltud y fro. ac am hyn o amser y bu Haint mawr yn Ynys Prydain yn ddial Duw am pechodau y Cymry, ac eraill o Genhedloedd Ynys Prydain a'r Gwyddyl Ffichti a ddaethant i Gymru, ond drwy weddiau Saint cafad y goreu arnynt a gwared da.

448. Y Gwnaed Gwrthefyr Fendigaid yn Frenin coronog Ynys Prydain. ac y Doded Dyfrig yn Archesgob yng Nghaerllion ar wysg. A Theilaw Sant yn Llandaf yn Archesgob, a chwedi hynny Lladd Gwrthefyr Fendigaid a gwisgaw Coron y Deyrnas am ben Gwrtheyrn Gwrtheneu, a hanpu gwaeth o hynny i genedl y Cymry sef y bu achos cyn pen diwedd dwyn Braint Coron y Deyrnas oddiarnynt lle y bu yn eu braint er pan ddaethant gyntaf i Ynys Prydain pymtheg Canmlynedd cyn dyfod Crist yng Nghnawd.

450, Dug Gwrtheyrn Gwrtheneu y Saeson i Ynys Prydain yn Bleidyddion iddaw yn erbyn a ddylit y Goron iddaw nid amgen nag Uthyr Bendragon mab Gwrthefyr Fendigaid.

552* Gwrtheyrn Gwrtheneu a ysgares ai wraig ac a gymmerth yn wraig iddaw nid llai na phaganes ddifedydd nid amgen nag

* Camsyniad diau yn lle 452.—AB IOLO.

Alis Ronwen ferch Hengist Tywysog y Saeson. arhwymaw Coron y Deyrnas i Fab a aned o heni, ac enw y Mab hwnnw oedd Octa, ac yn ei hawl ef ydd achubasant y Saeson Goron Teyrnas Ynys Prydain ac ai cadwasant yn Lathlud hyd y dydd heddyw. a blinaf o bob Gormes y bu gormes y Saeson yn Ynys Prydain.

453. Y llas Pendefigion y Cymry gan y Saeson ym Mrad mynydd ambri, aelwir Mynydd Caer Caradawg yn Mhendefigaeth Caersallawg; lle a'u dygynnullwyd yno yn heddwch Duw a Thangnefedd Gwlad a chenedl.

LLYMA ROL COF A CHYFRIF,*

SEF YN GYNTAF Y SONER AM A FU AR GOF CYN CADW AR GYFRIF,
NID AMGEN

CYNTAF a ellir ar gof caffael Enw Duw sef Duw a roddes ei enw ar lafar, nid amgen nag /I\ a chyda'r gair cyflam yr holl fydoed ar holl fywydau o'i hanfodoldeb i Fod a bywyd a bloedd Gorfoledd /I\ gan adlafaru Enw Duw Ag iselfain pereiddlais y llafar ag nis gellir ei ail yny dychwel Duw bob hanfod or marwoldeb a ddug pechod arnaw, pan adlefair Duw ei enw ag o enw Duw ar lafar y cafwyd, pob Cerdd ag arwest, ai Tafawd ai tant y bo, a phob gorfoledd a phob Llawenydd, a phob bywyd a phob bywyd a phob Gwynfyd a phob han a hanas arfodoldeb a bywydoldeb ag nis gellir marwoldeb nab o dri pheth sefydynt afrinaw enw Duw, afri-faw enw Duw, ag afrywiaw enw Duw. a'r lle ai catwer, a thra catwer enw Duw ar gof, parth rhin a rhif a Rhyw nis gellir amgen na bod a bywyd a gwybod a gwynfyd hyd fyth fythoedd, a chyda Cyflam gwynfodolion pob bywydolion a Duw a Dodes yn y Trefn, sef eu Cyséfindawd yng nghyleh y gwynfyd. ag efe ei hun ymgadwai yn yghyleh y Ceugant lle gwelynt y gwynfydolion ef yn un cyngyd gogoniant heb arnaw na hin na rhif na rhyw ellid ei wybod namyn Goleuni perffaith a chariad perffaith a gallu perffaith er daioni pob bod a bywyd. ag yna rhodded ar wirionedd a Chof Duw a Digon, a hynny fu'r ail ar gof o bob gwir a gwybod. eithr y

* O Ysgrif Iolo Morganwg, a honno o un Llywelyn Sion, a honno o un Meyryg Dafydd, a honno o hen ysgrif yn Llyfreugell Castell Rhaglan.—Ab Iolo.

Gwynfydolion ni welynt ei digon am nas cedwynt ar gof y gwirionedd cyntaf a chan amcanu mwyhau gwynfyd dygynt gyreh ar y ceugant ar oddeu datrinaw a gefynt yno, a gwybod rhin a rhif a rhyw ar Dduw. a hynny nis gellynt, a phan fynnynt yn ol ir gwynfyd nis gellynt achaws Marwold ai cadwai yn yr ol. ag yna syrthiaw i Gyleh yr abred, ag yna Duw a ddodes ar gof a Gwybod y trydydd Gwirioned nid amgen, heb Dduw heb ddim, cans yn nhrefn yr abred nis gellynt na chaffael na gweled na gwybod ar Dduw, yna'r gwynfydolion a gadwasant eu hansawdd drwy gadw Duw ai enw a wirionedd ar gof a welasant drefn yr Abred ag ai galwasant ar Enw Adfyd. cans Duw ai gwnaeth yn ail o beth a weithredai er cadw anufuddol or Coll i ba un yr rhuthrasant a phrif wirionedd adfyd y gair Gwir hynny a ddangoswyd yn drydy gair Gwir a gwybod sef heb Dduw heb ddim, cans o fod heb Dduw bod heb ddim yn wynfyd yw. ag yna pob drwg a phob dioddef a ellir gan ddeall ar amcan a dychymyg. eithr Duw oi anfeidrol gariad a ddug yr Abredolion drwy gyleh pob drygau a ddichonai er dangaws er hanfawd mal ai gwypid ag ydd ymgedwid o henynt a rhagddynt wedi'r gwared. ag ym mywyd Dyn attolwg ar Dduw ag o hynny gwybod ag atgof ar ddaioni a chyfiawnder, a chariad. ag yna gwybod yn adwel ar y prifwirioneddau, ag y gellid o gof a chadw ag ymglyyn ag wynt ymansoddi drwy ryddhad marwolaeth yn y Gwyfyd cyssefin lle nis gellir amgen nag atcof ar a fuant yno gynt ag ar au buant yn ddrygau yn nhreigl yr Abred.

Gwedi'r ymdreigl yn abred hyn ym mywyd Dyn, cafwyd ar adgof a Ddeall rai o'r prif wybodau a gwirionedd, a Duw a drefnai ei Rad ar a welai yn oreuon ymhlith dynion, ac a ddangoses iddynt wirioneddau, ag ansoddau, a Threfnau daionus, a'r Gwybodyddion hynny a'u dangosasant i eraill ag addodasant drefnau Cenhedl ar a gymmeraint ar gof a gwybod y prif wir a gwybod ag o hynn y caed Dosparth Cenhedl gyntaf a ddoded ar bob gwybodau a phob dosparthau. a phob Trefnau. a phob Gwirionedd y gwirionedd hynn yn gyfrwym sef yw hwnnw. Gair Duw yn uchaf, a phob dyn ai cadwai ar gof a ddywedai ymhaen pob ymbwyll ac amcan, Duw yn y Blaen. ag yn enw Duw, a Gwir yw Gwir, a Gwir a ddaw'n wir, a Gwir a fyn ei le, a Duw yw'r Gwir, a Duw yw Duw, ar sawl a gadwasant ar gof a gweithred y prif wirioneddau hynny Duw a ddodes ei rad arnynt, ag au cadarnhäes yn genhedloedd dosparthus, ag o hynn o Rad Duw arnynt y cafad cadernyd Cenhedl ar y Cymry, a Brawd, a chymmrawd, a gwerindawd, a phob eraill yn gynnosparthu Gwlad a Chenedl.

Gwedi caffael hynny, buant y Cymry yn hir o amser ag yn aneirif oesoedd ardraill a Chymmydoldeb hyd wyneb Gwledydd tramorion ag or diwedd cywladu yn Neffrobani sef Gwlad yr haf, ag yna yddaethant yn erbyn Duw ai eiriau gwirionedd, a phechu a chamweddu yn hywall ag yn Ystig, yna Duw a ddodes arnynt ei ddial ai alanas, ag yna difrawd ag anrhaith oni ddarfu agos am danynt ag a gollasant eu tiroedd au Breiniau gwlad, Yna rhai a gymmerasant attynt eu cydwybodau ag a ddygasant ar atgof Enw Duw ai Wirionedd ag add aethant yn eu hym sawdd achan eu pwyll, yna Duw oi rad ai ddirfawr gariad a ddodes ddarbodau moliannus yn eu hamcannau a Doethion o wir dedwyddon yn eu plith. a'r Gwir da hynny a aethant yn Nawdd Duw ai dangnef, ag yn nawdd ei wir ai gyfiawnder ef, a thrwy hynny a gawsant ddeall ar bob goreu a ellid erddynt Cenedl y Cymry, yna cymmerwyd y blaen a dwyn a gaent yn eu gosgorddau o Ballt i Ballt yny ddianghasant ar a ddygaint gyrech difrawd ag anrhaith arnynt. ag yn niwedd y Traill, dyfod i Ynys Prydain Lle cyn no hynny ni sanghasai cyn no o hynny neb un o droed Dyn byw, yn'a Goresgyn yr Ynys, yn nawdd Duw ai dangnef. a chynnal Doethineb, a Threfnau golychwyd, a'r sawl a gawsant Awen o Rad Duw ai ddawn traphwyll, a ddoded yn Athrawon doethineb a gwybodau daionus. a Phrydyddion a Gwyddoniaid au gelwid. yna dechreuwyd Cerdd dafawd a doddi arni pob Cof a gwirionedd yn gadwedig, y modd y byddai hawsaf cofiaw a difyrraf myfyriaw, a diddanaf y pwyll. ar Gwir hynny a fuant Brif Athrawon Cenedl y Cymry, eithr nid oedd na Deddf na defod arnynt yn ddosparthus achaws hynny digwyddes gwall ag anghof ar lawer ag yna myned yn erbyn Enw Duw ai wirioneddau, ag yna difrawd ag anrhaith, yna pob drwg a direidi, yna gwr doeth a elwid Tydain Tad Awen a ddug ar feddwl a phwyll y modd y gellid Dosparth ag yna deddf gadarn ar wybodau ag Awen o Dduw ag ai dangoses i eraill o ddoethion Cenedl y Cymry ag a gafas eu bodd hwynt yn warantedig achyntaf o beth a wnaethpwyd Trefnu Teyrnedd nid amgen no doddi ar bencenedloedd y Cymry gynnal Brawd a Chymmrawd ag ar a gaid yn ben bonedd doddi Hynafiaeth Teyrnedd sef a gaid yn Benn bonedd Prydain ab Aedd Mawr gwr doeth a gwrol a Chyfiawn a brawdgar oedd ef ag ymraint hynny doded arnaw Unbennaeth Ynys Prydain, yn gyfrwym Teyrnedd, ag wedi Dosparthu a Threfnu, a Chadarnhâu Teyrnedd a goresgynnaeth Prydain ab Aedd Mawr a goreu am Awen o Dduw y cafwyd Tydain Tad Awen. yna doded arnaw yrru Cyngor ag addysg yn ddangos-

edig ar Genedl y Cymry a hynny a orug ef, ai ddodi ar Gerdd Dafawd yn warantedig o gof a chadw, a gwedi marw Tydain ni chaed ei ail am Awen o Dduw a gwbodau, yna chwiliaw ei gerdd dafawd ef a myned yng nghyngor a gaed ynndi, gwedi hynny dodi gwaedd yngwlad dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn, a nawdd a braint i bob perchen Awen o dduw gyrchu cyfnod o le ag amser er myned ynghadair a gorsedd gan addysg a gafed yng ngherdd Tydain Tad Awen a chann bwyll a chymmwyll Gwlad a Chenedl gan Ben cenedlau a Doethion cyfaddef Cenedl y Cymry, a hynny a fu, a llawer a gafed yn berchen Awen o Dduw ag yn gadarn eu pwyll, ag yn hygred ei gwared, yna bwrw am y goreuon dri o naddynt, ar Tri a gafad yn oreuon herwydd enw a gair amdanynt *Plenydd* ag *Alawn*, a *Gwron*, ag ni chaid cystal ag wynt am gof cadwedig yn gystal Cerdd dafawd a rhin Llythyr, ag arwydd, a gwedi cael gwarant a chadernyd gwir ar hynny doded arnynt drefnu Dosparthau daionus ar Wlad a Chenedl, ag ar gof a gwybodau, ag ar bob achwain Ceudawd. A'r Tri Doethion hynn a drefnasant Ddosparth ar Deyrnedd a Brawd a Chymmrawd rwng Dyn a Dyn yn nawdd Duw ai Dangnef, a dodi Celfyddyd Ddosparthus ar Feirdd a phrydyddion, ag ar eu Cerdd dafawd. ag ar y Gymraeg rhag ei myned ar Ledryw ag yn llediaeth, ar Cwbl yn nawdd Duw a'i dangnef, Celfyddyd ddosparthus hefyd ar gof a Chadw pob Gwybodau a dosparthau Cenedl y Cymry, a gwedi dangos a wnaethant y Tri hynn ger bron Gwlad a Chenedl yng Ngorsedd, myned gan farn a drechai o nifer, a threch o lawer a gaid a gaeai ar Ddosparthau y Tri doethion hynn nag a gaid yn eu herbyn, yna doded ar a wnaed Ffaint a Chadernyd Gwlad a Chenedl yn warantedig o farn Gorsedd ag ai doded herwydd a ddosparthed wrth Farn Gwlad a Chenedl dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn gan waedd Gwlad, hyd y mhen y Tair blynedd, ag ymhob gorsedd cadarnhau gan adrechaint o nifer, ag mal hynny y cafad Gwarant a braint a Chadernyd ar y dosparthau a feddylwyd gan y Tri Doethion enwedigion, a chyntefigion Beirdd Ynys Prydain gan Ddefod a dosparth gwarantedig y buant hwy.

Ac yn y Gorseddau ar gwleddau anrhydeddus hynny doded ar ai medrai alw i gof y prydiat ar amserau y buant hynodion a godidogion, a ddichweiniau, a dynion, a gweithredoedd, a dodi hynny ar gof Cerdd dafawd, ag ar gof Dysgogan Cadair a Gorsedd ag ar gof Llythyr ac arwydd. a chyntaf a gafad ar gof parth pryd ag amser, dyfodiad Cenedl y Cymry i Ynys Prydain nid amgen nag

wyth cant a naw tra deugaint o flynyddau cyn nog amser Prydain ab Aedd Mawr.

O ddyfodiad y Cymry i Ynys Prydain hyd ymladd y pumrodyr a lladd yn eu cyfranc hwy mwy no hanner Gwyr Cenedl y Cymry ynyd aeth ymlad y rwng y Merched am a gaffai'r meibion a heddychu or diwedd y ryngddynt mab i bob tair merch a chanmlynedd ag ugain ag wyth.

O ymladd y pumrodyr hyd amser Efrawc gadarn a ddoded yn Benn raith 200 mlynedd

LLYMA LAFAR GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN

A DYNNEWYD I MAES O LYFR MEYRYG MORGANWG YNGHASTELL
RHAGLAN, GENNYF FI LLYWELYN SION O LANGEWYDD YM
MORGANWG,

Sef ydyw hynny. son Defodawl am Freiniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain, fal y bu gynt, yn Amser y Prifeirdd, a Thywysogion y Cymry. ac nis gellir Braint Prifardd ar y neb na wypo hynn o drefn ar Feirdd a Barddoniaeth, herwydd y gofyn defodawl y sydd ar Fardd a gwr wrth Gerdd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain.

LLAFAR GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN.

I. Cyn nog amser Prydain ab Aedd Mawr nid oedd namyn Gwyddoniaid yn wyr wrth Ddysg ac Athrawiaeth Gwlad a Chenedl, a chan nad oedd na Deddf na llafar gorsedd ar a wyddai y Gwyddoniaid, ef a ddigwyddwys coll ar lawer o wybodaeth a chof, ac Ysbysrwydd Cenedl y Cymry. a Gwedi Gwladychu o'r Cymry yn nawdd Gwladwriaeth Prydain, ac ymroddi'n hollol i fod wrth y deddfau daionus ar drefn ddoeth a wnaeth efe, fe cafwyd lonyddweh ac yspaid anraith, Yna y mynnwys Brydain chwilio'r holl Ynys i weled a geffid neb a wyddai am a fu gynt o ddysg ac ysbysrwydd Cenedl y Cymry, fal y gellid ei roddi ar gof a chadw. yna y Cafwyd yn wyddoniaid o Gymry Cynhennid o fonedd a deddfoldeb dri Gwr a'u Henwau *Plennydd* ac *Alawn*, a *Gwron*, y rhai a ddywedasant y gwyddent, o hen gof, lawer o'r addysg a wyddair Cymry er yn oes oesoedd, a gwedi Datgan o honynt a wyddynt, ef a rodded hynny ar osteg a datgan ynghlyw Gwlad ac

Arlwydd dan rybydd undydd a blwyddyn a nawdd i bawb a wyddai naws or byd ar gof a deall or hen wybodaeth gynt, ddyfod ynghyreh Gorsedd yn nawdd Gwlad ac Arlwydd, ac yno datgan ei Lafar, a hynny a fu. gwedi hynny y rhoddwyd gosteg yr ail waith dan rybydd undydd a blwyddyn a llawer a ddaethant yngorsedd a gwedi rhoi ar gof a llafar gorsedd y maint hysbysrwydd a gaffed, y rhoddwyd y cyfan y drydydd waith ar osteg a rhybydd undydd a blwyddyn, a phan ddaethant bawb o doethion Cenedl y Cymry yngorsedd y waith hono, y dangoswyd drefn a deddf ar wybodaeth ac addysg yr hen ddoethion a fuant gynt, a chyda hynny Dosparth Cerdd dafawd gwaith Tydain Tad Awen y gwr a wnaeth Gerdd Gymraeg ddosparthus gyntaf erioed, a gwedi rhoddi barn ar y ddosparth honno, ac ar bob arall o addysg a chof am a fu gynt erchi y wnaeth ir tri phrydydd a gafwyd yno yn oreuon roddi'r cyfan ar gof can a llafar y modd y gellid hawsaf ddysg a chof trefnus arnynt, a hynny a fu, a gwedi Dyfod y tro nesaf yngorsedd a dangos eu Cerddi Tafod, y barnwyd eu rhoddi dair gwaith olynol dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn a gwedi gorphen y tair Blynedd a dyfod yngorsedd fe drefnwyd gradd i bob un o'r tri Phryddion hynn, gan nad oedd yn eu herbyn, nag yn erbyn eu Cerddi na llafar na llais gan wlad na gorwlad, a threfnu o'r awr hynny hyd fyth bythoedd a wnaethant, a chadarnhau Breiniau a Defodau ac wrthynt rhoddi Beirdd o hynny hyd fyth, a Breiniau a Defodau Beird Ynys Prydain au gelwir a galw pob Bardd yn Fardd wrth fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain. Gwedi trefnu y pethau hyn fe gymmerwys y tri Phrifardd hynny, nid amgen na Phlennydd, Alawn, a Gwron. Awenyddion attynt yn Drofedigion, iddei dysgu au hathrawiaethu ynghelfyddyd Barddoniaeth, a thrwydded a rodded i'r Beirdd au hawenyddion am hynny gelwir y Beirdd yn Drwyddedogion Braint, ar Awenyddion Trwyddedogion ^{Hawl} _{Nawdd} a gwneuthur hynny oll ym mraint Rhaith Gwlad ac Arlwydd, a llyma ddangos y Breiniau ar defodau hynny, a'r modd au cynnelir gan Lafar a Chof, a defod Gorsedd.

Gorsedd Beirdd Ynys Prydain a gynnelir ac a gedwir ar fann amlwg yngolwg a chlyw Gwlad ac Arlwydd, ac yn wyneb haul a llygad goleuni sef nid rhydd cadw gorsedd dan do nag ar hyd nos, eithr lle bo a thra bo gweled haul yn yr wybren sef y dywedir fal hynn.

Gorsedd a Chadeir Beirdd Ynys Prydain a gynnelir yn yr amlgw yn wyneb haul a llygad ac yn rhyddydd wybren egored fel ai gwelo ac ai clywo bawb.

Ni ddygant y Beirdd arf noeth yn erbyn neb, nac yngwydd neb; ac nid rhydd i neb ddwyn arf noeth lle byddo Bardd, can mae gwr wrth Heddwch a nawdd, a chyfiawnder yw Bardd.

Barn Gorsedd Beirdd ynys Prydain a fydd ym mraint y trechaf o nifer wrth fwrw coelbren, neu ryw ffordd arall a wypper y trechaf o rif, sef y gorfodrif: ac ai cynnullier, a gwneuthur pob gorchwyl ym mraint Barn Gorsedd.

Modd y gwypper Barn gorsedd yw hynn, yn ol Barn a nawdd yr orsedd a ddangoser ar a fo cais ac achos yna ei roddi wrth gyreh ail orsedd, ac o gael Barn a nawdd yr ail orsedd ei roddi ar gyreh y drydedd orsedd, ac o gaffael Barn a nawdd honno, cadarn y bernir a ddangoswyd a Chyfallwy. ac nid oes Barn Gorsedd amgen na hynny.

Yr orsedd gyntaf i bob cais a dangos a elwir Gorsedd gyfarch, ac o gael nawdd a Barn honno myned ar gyreh gorsedd yr ail waith. ar orsedd honno a elwir Gorsedd Hawl. ac o gael nawdd Barn yn honno cyrchu'r drydydd a galw honno Gorsedd gyfallwy, a chyfallwy y gelwir o hynny i maes a fu wrth gais neu achos gorsedd. ac heb farn a nawdd y tair gorsedd hynn, nid â unpeth, ai cân, ai beth bynnag y bo, ym mraint Gorsedd Beirdd Ynys Prydain.

Nid oes Bwys na deddf nac awdurdawd ar na chan nac un peth arall, ai cof, ai addysg, ai hysbysrwydd y bo, na pha bynnag onid el wrth farn a nawdd Gorsedd Gyfallwy Beirdd Ynys Prydain. yna Gorsedd a chyfallwy y byddant.

Ef a ellir cynnal Cyfarch a Hawl ynghadair Beirdd Gwlad a Chyfoeth na fo wrth fraint Unbennaeth Prydain. megis pei cynnelid yng Nghadair Morganwg neu Gadeir Gwynedd neu unrhyw Gadeir arall. eithr nis gellir cyfallwy ond yngorsedd Beirdd Ynys Prydain.

Pedair Cadair wrth Gerdd a Barddoniaeth y sydd yng Nghymru nid amgen, *Cadair Morganwg a Gwent ac Ergain ac Ewas ac Ystradyw.* ai Gair cyfarch a Chyswyn yw *Duw a phob Daioni.*— Ail yw *Cadair Deheubarth a Dyfed a Cheredigion.* ai gair ^{cyswyn} ^{cyfarch} yw *Calon wrth Galon.* y Drydedd *Gadair* yw un *Bowys a Gwynedd* ^{uch} ^{is} *Gonwy,* a'i gair ^{cyswyn} ^{cyfarch} yw a *A laddo a leddir.* a'r *Bedwaredd* *Gadair* yw un *Gwynedd,* a *Mon,* a *Manaw.* ai gair ^{cyswyn} ^{cyfarch} yw *Iesu.* neu o Iesu nad gamwaith medd hen gof Llythyr. ar pedair Cadair hynn a ellir eu cynnal yn un man y bo achos yn Ynys Prydain, eithr trefnusaf yw ei cynnal yn eu hardaloedd eu hunain, lle ni raid wrth rybydd un dydd a blwyddyn, a rhaid yw hynny lle bo amgen.

Gorsedd Beirdd Ynys Prydain a gynnelir ym mhob man Gorsedd egored, sef a roddwyd ar osteg a rhybydd undydd a blwyddyn oni boi Cyfallwy; a lle ni bo felly myned wrth fraint a Defod gan osteg a rhybydd a hawl a chyfarch oni bo Cyfallwy. ac yn y modd hynny y gellir deffraw Cadair a gorsedd lle y mynnir, ac y bo rhaid ac achos.

Cadair na fu cynnal arni ynghof neb byw a elwir Cadair Gwsg parth ei thalaith ei hun eithr braint effraw iddi a fydd ymhob Cadair neu orsedd arall a fo'n effraw. megis y gellir Cynnal Cadair Lundain, neu un Gerniw a Dyfnaint, neu un gadair arall yng Nghadair Morganwg. neu un Gwynedd o byddant effraw. A Barnu pob Cadair yn effraw yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain.

Ar Bedwar Amser Arbennigion yn y flwyddyn y mae cadw a chynnal Gorsedd a Chadair wrth a Defod Beirdd Ynys Prydain, nac ym mraint unrhyw Gadair Ardal ba bynnag. sef yw'r amseroedd hynny pedwar Bann Haul, sef y *Cyntaf* yw'r *Alban Arthan*, ai syrth ar y ddegfed ddydd o Fis Rhagfyr pan y byddo dydd Byrraf y gauaf, ar dydd hynny y *Cyntaf* o'r flwyddyn a'r gauaf herwydd Defod yr hen Gymry. a chyfrif y Beirdd herwydd hen gof a chadw. *Yr ail* yw'r *Alban Eilir* ai syrth ar y ddegfed ddydd o fis Mawrth, ar dydd *Cyntaf* o'r Gwanwyn yw. *Y Trydydd* yw'r *Alban Hefin*, ai syrth ar y ddegfed ddydd o fis Mehefin, a dydd *cyntaf* yr haf yw, a dydd hwyaf yr haf. y *Pedwerydd* yw'r *Alban Elfed* ai syrth ar y ddegfed ddydd o fis Medi, a'r dydd ar *cyntaf* o'r *mesyryd* yw. a hefyd dydd Cyhydedd haul y *Mesyryd*. ac y dyddiau hynn y cadwent y Beirdd ei gorseddau au Cadeiriau, ac ar yr undydd blaen ac ol or pedair Alban, ac y trafodant eu priforchwylion, ag a drefnant a fo achos. y dydd o flaen yr *Alban* a elwir *Gwyl yr Alban*, ar dydd ar ol *Gwledd yr Alban*, a rhydd ac egor bob un o honynt megis yr *Alban*, yn dri diwarnod y cyfan ymhob Alban, ac ernynt y gellir trafod a fynner a fo wrth gais ac achos yng Ngorsedd a Chadair, heb na gosteg na rhybydd.

Dyddiau rhagorsedd a rhaccadair ydynt ddyddiau Bann Lleuad. sef y *Cyntaf* dydd newyd lleuad a elwir *Cyntefin y lleuad*, ar *ail* yw dydd hanner cynnydd lleuad a elwir *Adfann cynnydd*, y *trydydd* yw dydd y *llawn lleuad* a elwir y *llawn llonaid*, a'r *Pedwerydd* yw'r *Adfann Cil*, sef dydd hanner Cil y lleuad. ac ar y dyddiau Bann ac adfann lleuad hynn, y mae cynnal rhagorsedd a rhaccadair a golychwyd er addysg ac athraw Gwlad a chenedl. ac er dangos i Awenyddion a noddedigion y petheu a ddylynt eu dysgu au gwybod, au gwneuthur, ac yn y rhagorseddau a'r rhaccadeiriau

hynn nis gellir rhoddi dim ar osteg a rhybydd, na myned ynghyfarch gorsedd, nac wrth hawl, nac yn gyfallwy. eithr wrth addysg a dangos yn unig. ac yn nawdd, ac nid wrth farn, Beirdd Ynys Prydain, can ni wedd hynny, ac nid deddfol eithr ar y Pedair Prifwyl Arbennigion.

Llyma'r modd y greddir Beirdd ym mraint Gorsedd Prifardd Pendant neu Brydydd, a elwir hefyd Bardd Braint, a Thrwyddedog Braint a radder yn Brif-ddefodawl o Drofedigaeth, sef ymrodd yn awenydd dan Athraw o fardd Gorseddawg oni ddysgo yn gwbl y gelfyddyd wrth Gerdd Dafod, ac o farnu ar Gerdd, ac o fedru a barnu ar y Iaith Gymraeg, ac y gwyppo Gyfrinach a Breiniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain. ac y gwyppo dri chof a thair Coel Beirdd Ynys Prydain, nid amgen na *Chof Can*, a *Chof llafar Gyfallwy.*, a chof defod. a'r Tri choel, nid amgen na llafar Gwlad, a chadw Coelbren, a chyngyd ymbwyll. a Gwybod Bannau Dwyfoldeb, a Deddfoldeb, a Doethineb, fal ac y bont gyfallwy a chadarn gan Farn ac yn nawdd a chadw Gorsedd Gyfallwy. ac o wybod hynn o bethau a'u dangos gerbron Gorsedd. a myned ynghyfarch, ac wrth hawl, ac ym mraint Barn ac o hynny yn fardd Cyfallwy, y Bernir ef yn Orsedd a rhoddi Cadair iddo, ac yna Bardd Gorseddog ym mraint y Gadair honno y bydd, a gwedi y rhoddir iddo dair Cadair, gradd iddo yw Bardd Gorseddog wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain.

Ail ffordd o raddoli Prydydd yw, lle na bu Trofedigaeth, ei roddi dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn, fal y y gellir yn llafar y neb a wyppa achos nas dylid, neu nas gellid Bardd o hano, a lle nis gellir dangos hynny o betheu, myned ynghyfarch gorsedd a wna ef. yna yn hawl, ac o hynny wrth farn gorsedd oni bo cyfallwy, ac yna drwy fraint Cadeiriau yn Fardd wrth fraint a Defod Beirdd ynys Prydain. yn orseddog cyfallwy.

Trydydd ffordd y greddir Prifardd o Brydydd yw lle nas gellir tri Bardd gorseddog Cyfallwy yngorsedd, a chaffael awenydd anhrofedig ei roddi wrth raith drihannyn ar air deuddeg o Gywiriaid Gwlad ac Arlwydd, neu ynteu ar air ynad neu ynteu Golychwydwr a ddywettont ar eu Cydwybodau y gellir Bardd o hanaw, ac o'i farnu'n Fardd gan y Raith honno iawn yw iddo gadair a gorsedd ym mraint *Pwyll* ac *Angen* a Rhaith Gwlad fal y gellir Gorsedd Beirdd gyfiawn can nis gellir gorsedd na chadair wrth fraint a Defod Beirdd ynys Prydain oni bydd tri Phrifardd cyfallwy sef yw hynny gorseddog. can nis gellir trechaf o rif heb dri o leiaf, ac nis gellir Barn gorsedd eithr ym mraint y trechaf o rif.

Lle ni bo namyn un Bardd cyfallwy wrth fraint a Barn Gorsedd, iawn yw iddo herwydd Pwyll ansawdd ac angen rhoi gradd a chadeiriau i ddau Awenydd lle y gallo ddywedyd ar ei air ai gydwibod y gellir Beirdd o Brydyddion o henynt. canys heb hynn nis gellir cynnal Addysg Beirdd ynys Prydain. ac o barth Deddf a Defod nid Cadarn ond Angen. ac yn hynn o fodd y cedwir rhag myned ynghwsg, ac o hynny ar goll, Beirdd, a Barddoniaeth Beirdd Ynys Prydain. a hynn nis gellir ei wneuthur onid yn y bo'n Brifeirdd Ansoddawl o Brydyddion, Canys o brydydd yn gyssefin y mae Barddoniaeth ac nis gellir un peth o'r Byd onid ym mraint ei Brif a chysefin Ansawdd. Deddf angen ydyw cael a fo brif anghenraid yn y modd y gellir lle nis gellir y modd a fernir yn oreu, a chyddwyn a rhaid lle nis gellir dewis am hynny deddf wrth bwyll ag ansawdd yw Angen, a rhydd yw deddfu gan angen, lle nis gellir Barn o raith a'r trechaf o nifer. a gwedi gorfod ar angen yn y modd y dangoswyd, nid rhydd graddoli a Breiniau Bardd namyn yn ddefodawl gan farn a rhaith gorsedd, neu gan farn a rhaith Gwlad dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn a myned wrth wrth gyfarch a hawl oni bo cyfallwy yngorsedd.

Un ymhlaid ac wrth achos Gwlad a chenedl y bernir a wnelo gan angen a fo daionus wrth bwyll ac Ansawdd lle nis yn iawn amser farn wrth raith gwlad, neu raith Gorsedd gan drechaf o nifer, Ac Un yng Ngwrth ac yn erbyn Gwlad a Chenedl y bernir a wnelo beth bynnag or byd gan Rhwyf a Rhyfyg, lle dylid, a'r man y gellir, rhaith gyfiawn gan wlad a Chenedl wrth raith a dewis ym marn trechaf o nifer, neu lle y gellir gan orsedd wrth fraint a Defod gyfallwy o raith gyssefin, sef o ddeddf yn hanfod o raith Gwlad a Chenedl a Deddf yw hynn o bwyll a barn gan feirdd ynys Prydain ac nis gellir a el yn ei herbyn. ac nid cyfiawn ei hebcor.

Lle nis gellir un Bardd o Brydydd Gorseddog bernir y Farddoniaeth a Breiniau a defodau Beirdd ynys Prydain ynghwsg, ac nis gellir yn ddeddfol eu effraw onid gan fyned wrth raith Gwlad a a chenedl ^{dan}_{gan} osteg a Rhybydd undydd a blwyddyn dair blynedd olynol, ac yna myned wrth orsedd hyd yn ydd eler yn gyfallwy ac yn y modd y dangoswyd, fal y gwnaethpwyd yn Amser *Prydain ab Aedd Mawr*.

Tair Achen wahanred y sydd ar Feirdd Ynys Prydain ym Mraint Prifeirdd, a Phrifeirdd y gelwir bob un o'r tri am eu bod o gyssefin hanfod wrth ddeddf a defod a braint Gorsedd gyssefin Beirdd Ynys Prydain yn Amser Prydain ab Aedd Mawr. Cyntaf yw Prydydd, sef Prifardd pendant, neu Brifardd Cyssefin ac nis

gellir hwn onid o wr a fo Prydydd wrth Awen a Chelfyddyd, a Throfedigaeth, ai ddyled yw prydu, a chynnal Cof Braint a Defod, a chadw Barddas rhag ei myned ar gam a choll. Ail yw Ofydd ac nis arno Drofedigaeth eithr yn ol ai gradder Yngorsedd. sef yw Ofydd gwr wrth Awen, ymgais a dichwain. ai ddyled yw gwellhau ac amlhau dysg a gwybodaeth ai roddi wrth farn gorsedd a wnelo onid el yn gyfallwy. Trydydd yw *Derwydd* ac nis gellir hwn onid o un or ddau arall sef y naill ai Prydydd ai Ofydd gan farn a rhaith Gorsedd, a gwr wrth wrth bwyll ac ansawdd a gorfod y bydd. ai ddyled yw Athrawiaethu, a chynnal rhagorsedd, a rhaccadair a Golychwyd ar fannau ac adfannau Lleuad, ac ef a ddysg gyfrinach Barddas a Dwyfoldeb, a doethineb a moesau daionus. a Braint ac enw Prifeirdd a berthyn ar bob un o'r tri hynn ac yn ogyfuwch braint a bonedd y naill a'r llall o honynt.

Y modd y Gradder *Ofydd* yw ei roddi ym marn Pencerdd sef yw hynny Prifardd Gorseddog, a ddywetto ar ei air ai Gydwbybod y gellir Bardd o hanaw, ac yna myned wrth farn a rhaith gorsedd. a phan el yn gyfallwy y bydd iddo Fraint Prifardd Cyssefin. a rhydd iddo wneuthur yngorsedd a wnelai Brifardd Cyssefin o Drofedigaeth.

Rhydd yw i Brifardd cyssefin gymmeryd Gradd a Braint ofydd ym mraint a ddangoso gerbron Gorsedd heb amgen na Nawdd cyfarch, o'r addysg ar awenyddiaeth a fo dyled ar Ofydd Cyssefin, sef gwellhau, ac Amlhau gwybodaeth.

Rhydd yw Gradd a braint Ofydd i Brifardd a ddywetto ar ei air ai gydwbybod y gellir Bardd o wr a gaffo ym mraint hynny Farn a Nawdd Gorsedd, can y y bernir nis gellir amgen na bod y gwr a farno ar Awen a chelfyddyd a chaffael ei farn ef yn gyfiawn gan Farn a nawdd gorsedd, yn deall y cyfryw awen a chelfyddyd, ac ac yn yr hyn a ellir parth gradd a braint o henynt. am hynny dau rhyw Ofydd y sydd, Ofydd Cyssefin, ac ofydd braint sef yw hynny Prifardd o Brydydd neu o Dderwydd a gaffo radd Ofydd yngorsedd ym mraint a wnelo ef o'r hynn a ddeddfai wr yn *Ofydd* Cyssefin. Iawn yw i Ofydd Cyssefin ymarfer a Swydd Prifardd Cyssefin yngorsedd lle na bo'n erwynebol un Prydydd o Drofedigaeth, neu o hawl a braint gyfallwy.

Lle ydd elo Bardd o Ofydd Cyssefin yn Brifardd efe a elwir yn Brifardd Braint ac nid Prifardd Cyssefin, ac er caffael hynny o radd, digon yw iddo ddangos oi waith ei hun yngorsedd, Gerdd dafawd a ellir Barn a nawdd gorsedd arni, ac o gael hynny Prydydd ei bernir ef a rhydd iddo fraint a swydd Prifardd, a lle y bo

Bardd o Ofydd cyssefin yn myned ynghadair a gorsedd, man na bo Prifardd Cyssefin, ac ymarfer a swydd a braint a ddylit ar Brifardd, a mynedd oll a wnelai gan Orsedd herwydd Braint a Defod oni bo Cyfallwy, yna rhydd iddaw, a hawl, ymarddelw a Braint a Swydd Prifardd neu Brydydd, a rhai a wedant mai ei ryw ef yn unig a ddylit ei alw yn Drwyddedawg Braint. ac nis dylit ei alw yn Drwyddedog Cyssefin, can ni bydd felly neb namyn Prifardd o Brydydd Trofedig.

Derwydd a reddir wrth raith a Barn Gorsedd, ac bydd ef yn Brifardd Cyssefin nid rhaid namyn y rhaith gan fwrw Coelbren ac yna Cyfallwy; canys Cyfallwy y bydd bob peth a wneir yngorsedd parth ac at Fardd Gorseddog neu Gadeiriog, heb achos cyfarch a hawl, can mai wrth hawl yw ef yn barawd, ac yn nawdd ei hawl. Ef a ellir Derwydd o Ofydd Cyssefin gan raith Gorsedd, ac yna Cyfallwy y bydd, rhai a ddywedasant y gellir graddu Awenydd Trofedig yn Dderwydd ac o hynny bod yn Dderwydd Cyssefin, eithr nid Gwir hynny, can nis gellir Awenydd Trofedig onid o wr wrth Gerdd dafawd, a Phrydydd yn nawdd ac wrth hawl Beirdd Ynys Prydain y bydd efe, am hynny nis gellir o gyssefin ansawdd a Defawd nad Gradd Prydydd neu Brifardd Cyssefin yw'r un a rodder ar Awenydd Trofedig can nis gellir o fyned gwr wrth Drofedigaeth a Cherdd Dafawd yng ngradd wrth Farn a rhaith Gorsedd, nad Prifardd Cyssefin y bydd a hyn o anfodd oll a ellir ei ddywedyd a'i ddychymmyg ai haeru. eithr Gwir yw hynn sef y gellir ar yr un anadl ac ymmod a llafar ai greddir ef yn Brifardd Cyssefin ei drefnu ef yn Dderwydd. a gyrru hynny o radd arno dan yr un.

O ba radd bynnag y bo Derwydd neu oes bydd Trofedig o Drwyddedog nawdd, os ymerfyr ef a Swydd a gorchwyl unrhyw radd arall yng Ngorsedd a Chadair a myned o hynny yn nawdd Gorsedd neu Gadair, graddedig y bernir ef ym mraint Hawl ac Arddel a nawdd Gorsedd, fel y bydd Prifardd o rod-di Gwir hyd yng ngradd Gorsedd ar air a chydwybod parth ac at Ofydd sef y Bernir ei fod yn hynny yn myned gan bwyll ac ansawdd wrth Angen a gorfod gwirionedd ac wrth hynny yn ymarfer a braint a swydd Derwydd ac nis gellir iawn ymarfer a dim heb ei ddeall. a bernir deall ar hynny o beth lle'dd elo a wneythpwyd felly wrth farn ac yn Nawdd gorsedd, ac yna Braint iddo radd ar a gafwyd wrth farn a nawdd ar ddeall gantho, heb ymhellach parth Barn a rhaith, eithr ei rod-di ar glyw a gosteg a rhybydd gorsedd, ac yn unwedd y bernir am Ofydd yn ymarfer onid el a a wnelo ef yn

nawdd Gorsedd, a Gorchwyl a Swydd Prydydd sef prydu a chynnal cof, neu o fyned wrth bwyll ac Ansawdd ac Angen a chaffael o hynny nawdd Gorsedd, yna Derwydd y bydd a braint iddo fyned yngolychwyd a chynnal rhaccadair a rhagorsedd ar yr amseroedd defodawl a deddfedig.

Nid rhaid i Brydydd o Brifardd Cyssefin aros Gradd wrth farn a rhaith Gorsedd er gallu ymarfer a swydd a gorchwyl Derwydd, namyn rhoddi hynny ar glyw o gosteg Gorsedd neu Gadair, can mai gwr wrth bob addysg cyfallwy ym mraint Barddas a Barddoniaeth yw Prydydd o Brifardd Cyssefin. can mai arno ef y mae cynnal cof a gwybodaeth hysbysrwydd am Farddas ac nis gellir hynny heb ei ddeall ai wybod yn gyfiawn o chyflwyr, a hynny yng wybod a Barn Gorsedd a rhydd yw i bob gradd wrth gerdd a Barddoniaeth ymarfer ar swydd ar addysg a'r gelfyddyd a wyppo yng ngwybod a Barn gorsedd heb na barn na rhaith gorsedd ymhellach, eithr cadarn yw a chyfallwy, heb mwyach yn y byd, y radd iddaw. namyn na bo defod o syberwyd rhoddi a wneler ar glyw a gosteg a rhybydd Gorsedd rhag digwydd anhrefn ac annefod

Dau rhyw Awenyddion y sydd, nid amgen Trofedig nawdd a Throfedig braint, Trofedig Nawdd yw yr un a gymmero Bencerdd o Brydydd Gorseddog atto iddei ddysgu ai athrawiaethu yng Nghelfyddyd Barddoniaeth, a chyfrinach Barddas, ac yng nghof Breiniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain. ac fel hynn y bydd oni ddysgo'r cwbl. ag yna myned yng Nghyfarch Gorsedd, am ei radd ac o fyned hynny yn Nawdd Gorsedd, Trofedig Braint y gelwir ef, ac o enw a galw arall Trwyddedog Nawdd. can y bydd iddo Drwydded Prydydd yn nawdd Gorsedd sef yw hynny Trwydded Mab Aillt a Syberwyd Cymro Cynhenid a bod wrth hynn ynnydd el yn orseddog, sef, yn Brydydd wrth farn a rhaith Gorsedd Gyfallwy, a sef yw hynny Prydydd Gorseddog neu Brifardd Cyssefin.

Dau ryw Nawdd y sydd, a Cyntaf e elwir Nawdd Beirdd Ynys Prydain ac yn hwnn y mae pob Cymro cynhenid a fytho wrth addysg Beirdd a Barddoniaeth, ac o hynny yn *Gywiraid*, *Gwlad*, a phob un na fytho felly gwr wrth ddifrawd ac anraith y gelwir ef. y ddwyfed Nawdd yw Nawdd Gorsedd, sef yw hynny o fyned yng Nghyfarch Gorsedd a chaffael Nawdd, sef yw'r nawdd honno Barn wrth raith Gorsedd y gellir a geisier, megis ac y mae Trofedig Nawdd yn myned ynghyfarch Gorsedd am ei radd a chaffael Barn defodawl gorsedd y gellir Prydydd o hanaw, yna Trofedig Braint y bydd efe, a nawdd gorsedd y gelwir a fo braint wrth y farn honno.

ac yn y nawdd honn y mae pob Arglwyddi Gwlad a Chyfoeth a phob gwr wrth raith Gwlad, a phob ynad, a phob dysgawdr, a phob Golychwydwr, a phob Mab Aillt wrth swydd a chennadaeth ei wlad ai Arlwydd. a phob gwr wrth Gennad Gwlad a Gorwlad. A phob gwr wrth gennad Heddwch a Brawd. a phob gwr a ddangoso wellhâd ac amlhâd ar nebryw gelfyddyd a gwybodaeth a fo er lles Byd a Bywyd. Nawdd Bardd graddedig yng Ngorsedd yw iddo, am radd amgen nac a fo'n barod arnaw, myned wrth gyfarch hyd yn Nawdd, ac yna cadarn y bydd a gais, a chyfallwy. Nawdd Trwyddedaw Nawdd neu Drofedig Braint yw oi fyned wrth gyfarch Gorsedd hyd yn Nawdd rhoi Cadair iddaw, ac yna myned wrth hawl gorsedd dros flwyddyn, ac o gael Nawdd ail Orsedd, y rhoddir Cadair arall iddaw, ac ym mhen y flwyddyn myned yng ngorsedd ^{ar} Arddelw, hyd yn nawdd yr orsedd honno yna Cadair iddo, a gorseddog a Chyfallwy y bydd ef, ac wrth fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain.

O chaiff Brydydd o Drwyddedog nawdd, Gadair mewn tair gwlad yn yr un flwyddyn, a dangos o hynny yng ngorsedd Beirdd ynys Prydain gynted ac y mynno, Bernir y Prydydd hwnnw yn Fardd Gorseddog o Brifardd Cyssefin.

Trwydded Bardd gorseddog yw hynn, sef heblaw y pumerwi rhyddion a ddylid iddo ym mraint Cymro cynhenid, pumerwi rhyddion eraill neu eu dogn au gwerth a dogni hynny yn y maint a fo raid ar yr eraid gan raith a barn Gwlad a chyfoeth, a dogn hefyd a fydd i fardd am ei gerdd yn ol y bernir yng Ngorsedd Gwlad ac Arlwydd neu gan Raith Gwlad. a dogn yn yr un modd i Fardd wrth addysg a golychwyd, dogn hefyd a fydd i Brydydd o bob neithior frenhinawl, ac o bob neithior fonheddig sef yw hynny o Gymro a Chymraes gynhenid, am gynnal cof a dwyn eu hachau. fal y bo diogel eu ^{breiniau} braint _g cynhenid. dogn hefyd y sydd am gerdd a Chof pob gweithred folianus a wnelir, ac os o ungrwr y bydd y weithred honno dogn o ddefod gadarn a fydd i'r Prydydd, ac o wlad a Chenedl y bydd yna braint cylch clera a fydd i'r Prydydd a wnelo gof a cherdd yn y wlad a'r genedl honno, a rhoddion o syberwyd a fydd iddo, a lle ni chaffer syberwyd ceiniog o bob arad. a rhaid yw rhoddi y Cerddi cof hynny wrth farn gorsedd fal y gwelir eu gwired a'u celfyddyd cyn gallu braint cylch clera. Braint yw hefyd Cylch Clera i Feirdd a Throfedigion braint unwaith bob tair blynedd, a rhoddion o syberwyd a fydd iddynt, ac nid oes na deddf na defod ar hynny, namyn cariad a pharch, a syberwyd.

Defod a ellir ar bob peth a fo wrth bwyll. A Defod a braint ar bob peth a fo wrth bwyll ac ansawdd, a lle bo pwyll, ansawdd, a gorfod yna deddf. sef yw gorfod, lle nis gellir cystal a bod yn amgen. Ag ym mraint Pwyll Ansawdd a gorfod y deddfwyd gyssefin Breiniau a Defodau Beirdd ynys Prydain. am hynny Barn yw nas gellir nad Derwydd cynhwynawl yw pob Prydydd o Brifardd cyssefin. nis gallwyd yn gyssefin Ffaint a Defod ar Feirdd Ynys Prydain heb Awen, ymgais a dichwain, heb radd heb drofedigaeth, ac yn hynn o beth y saif braint ac angen Ofydd, sef o hynny Prifardd Cynhwynawl y bydd ef, can nis gellid amgen yn gyssefin, am hynny a fu gan bwyll ansawdd a gorfod yn gyssefin a erys felly tra fo byw a bod, y goreu a'r gwiraf ei gof gan wybodaeth a chelfydd wrth gof a chadw a ddangoses wybodaeth a chelfydd yngorsedd gysefin Beirdd Ynys Prydain, am hynny a fo cadarnaf a chywiraf ei gof ai gelfydd wrth gof a chadw yw Awenydd Trofedig o Brydydd. nis gellir am hynny nad efe yw'r goreu o gyfiawn bwyll ac Ansawdd i ddwyn swydd a braint a dyled cynnal cof a chadw ar Gyfrinach a chelfyddyd, a gwybodaeth Beirdd Ynys Prydain. ac am a ddangoswyd nis gellir gwybod pa un a fu gyntaf o dair Achen y Prifeirdd na pha un a fu oreu a llesiolaf, achaws hynny y bernir bob un o honynt yn ogyfuwch Urddas a'u gilydd, sef y naill ar llall, eithr cyfurddas, cyfunbwys, cyfunbarch a'u bernir gwedi yddelont wrth radd gorsedd gyfallwy, a phen a phont rhag pawb eraill.

Sef y modd y maent yn Ben ar bawb yw deddf bod gair eu gair hwy ar bob gair o anfardd, can nid rhyw na phwyll na bo mwy gwir, a gwybodus, a chadarn, a ddywetto Bardd nac a ddywetto anfardd, a'r modd dilynt fod yn Bont i bawb yw'r ddyled y sydd arnynt addysgu pawb o gywiriad gwlad a gwerin byd gan eu dwyn dros gors anwybodaeth, a bod yn hynny yn lwybr a phont iddynt.

Nid oes cadarn ar wir eithr ym mraint Llafar gorsedd Beirdd ynys Prydain, ac ar lafar gorsedd y dylit pob gwybod a el ynghorsedd oni bo cyfallwy. Ac nid oes o air nac o ddefod yn y Byd a el yn erbyn Llafar Gorsedd Beirdd ynys Prydain. sef hynny y gelwir y datgan a wneir yngorsedd ar a wypper gan feirdd ynys Prydain ar gof a chadw or pethau a'r celfyddydau a wiriwyd yngorsedd onid aethant yn gyfallwy a chadarn. ac nis gellir barnu yn Wir cadarn namyn a ddangoswyd yn yd aeth yn gyfallwy a chadarn yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain, ac o hynny ei fyned ar Lafar Gorsedd, ac ar Gerdd dafawd Gyfallwy.

Nis gellir braint ar na Cherdd, na llafar, na defod, yng Ngorsedd, a fo anwir, ac anhangnef, ac anneddf, ac nis gellir derbyn nac anwiredd neu anhangnefedd, nac anneddfoldeb, ar gerdd, nac ar lafar, nac ar gof, nac ar ymddwyn, gan Feirdd ynys Prydain yngorsedd, canys anghenneddyl iddynt gynnal a chadarnhau Gwir, a heddwch, a deddf, a gwrthfod pob peth a el yn erbyn y pethau hynny.

Y neb a chwennycho addysg a braint wrth gerdd a Barddoniaeth ym mraïn Beirdd Ynys Prydain ymgeisied a barn a chof a llafar gorsedd gan Athraw o Fardd gorseddawg, ac yna coffhau yng Ngorsedd y gwr wrth ymgais yn Awenydd; neu Drofedig Nawdd, yn nawdd Beirdd Ynys Prydain, ac yna cymmeryd y Bardd Gorseddawg yr Awenydd attaw iddei athrawiaethu a gyrry dysg a gwybodaeth Arnaw, y dyled yw ei ddwyn yngorsedd neu Gadair unwaith o leiaf yn y flwyddyn, a theirgwaith yn y flwyddyn o leiaf myned ag ef i Ragorsedd neu raccadair fel y caffo addysg ym mreiniau a defodau, ac yng nghof a chadw Beirdd a Llafar Gorsedd. a dangosed yr Athraw gan neu Gerdd dafawd o waith ei Awenydd Trofedig yngorsedd neu Gadair unwaith o leiaf yn y flwyddyn a cheisied farn arni o bwyll a deall y neb o farn gorseddog ai rhotho, a phan wyppo'r Awenydd y maint a fo gofyn o'r gelfyddyd wrth gerdd dafawd, a'r tri chof, a'r Breiniau, a'r Defodau a chyfrinach Barddas, a Bannau doethineb, a medru ar gerdd dafawd oi waith ei hun yn ddifai ddiwall ym marn Pencerdd, sef yw hynny Bardd Gorseddawg, eled ynghyfarch Gorsedd, ac o hynny hyd ei ddiben wrth a ellir o hanaw ym marn defodawl Gorsedd. fal y dangoswyd or blaen

LLYMA SON am bethau defodawl wrth bwyll ac Ansawdd a geffir ar gof a Defawd Beirdd Ynys Prydain, eithr nis bernir yn gynneddawl wrth Angen. am y gellir pob gwir a gwybod a phob cof a chadw. a phob Celfyddyd ac Addysg hebddynt. eithr cadarnhau ac amlycau cof a chynneddfau a wnant, am hynny ef a ganmolir cynnal ar gôf ac arfer y pethau hynn. sef ydynt oll o hen ddefodau ar gof a chadw Gorsedd, a llymma sydd o honynt.

Defod yw gwneuthur cylch Cynghrair ar ben tir amlwg, a hwnn a wneir a meini a'u gosod yn gylch y maint a fo achos o donn a lle gwr o leiaf rhwng maen a maen. ac yn wyneb haul y dwyrain lle trigwr o leiaf fal y bo hawdd myned yn y cylch, a hwnn a elwir y Cyntedd neu y Porth. ac yn ei gyfair ymhellder hyd trigwryd neu dri thrigwryd gosod maen a elwir maen Gorsaf a hwnnw ymhrif bwngc y dwyrain ac or tu gogledd i hwnnw maen arall yn llygad pwngc haul dydd hwyaf yr haf, a'r tu deau i'r maen gorsaf, maen

arall yn llygad pwngc codiad haul dydd byrraf y gauaf. ar tri maen hynny a elwir meini gorsaf, ac ynghanol y cylech maen arall o faint mwy na'r lleill ar gyferyd cywir y tri maen gorsaf, a'u llygaid haul y bore. meini'r cylech a elwir y meini gwynion, a meini crair, a'r maen canol canol a elwir y Maen Gorsedd a'r Crair Gorsedd, a'r Maen Llôg, a'r maen Armerth. a'r Cylech hynny a wnelir fal y dywedwyd a elwir hefyd Cylech Ambawr, a chylech gorsedd, a chylech Gwyngil, y cylech hwnn hefyd a elwid y Trwn mewn rhai wledydd, ac ym mewn y Cylech hwnn y cyrchent y Beirdd yng Ngorsedd, ac nid defod na syberwyd i neb namyn y Beirdd fyned o fewn y Cylech, onis ceisier gan Fardd.

Defod gyssefin yw dwyn cledd o un o'r Beirdd gorseddog ai ddal yngwain gerfydd ei flaen, ac nid rhydd i Fardd ei ddal gerfydd ei garn, sef y bernir tra delir ef gerfydd ei flaenai noeth ai afnoeth y bo nis delir, ac nis dygir ac nis noethir yn erbyn na dyn na byw na bod, orholl fyd, a phan ddeler yn ngorsedd y gyrrer y clêddyf a llaw yngwrth ei drafn onid el oi wain a chael craff a gafael arnaw gerfydd ei flaen ai osod ar y maen gorsedd, yna datgan gwaedd uwch adwaedd, a ddeler gan lafar hyd y lle y dyweder "ni bydd noeth arf yn eu herbyn" ymmod o bob un o'r Beirdd hyd y maen gorsedd a rhoddi o bob un o henynt ei law ar y naill ai'r cleddyf a'i wain a gafaelu or Bardd a fo gan Orsedd neu Gadair ymlaen y cleddyf a'i osod yn y wain lle ai gyrrer yn gwbl gan y Beirdd eraill o gydgygnorthwy llaw ac amcan. a hynny yn arwydd honnoid mai gwyr wrth Heddwch a Thangnef yw Beirdd Ynys Prydain ac nis dygant arf noeth yn erbyn un dyn, a gwedi darfod hynny o ddatgan y waedd, myned wrth achos a gorchwylion yr Orsedd, sef datgan a dangos y tri chof a llafar gorsedd, a datgan hengerdd, a dangos cerddi newyddion a roddir wrth farn au datgan ynglyw gorsedd, a dangos cais wrth Gyfarch, a Hawl, a Chyfallwy, a dwyn Graddau ar au dylent, a gwranda, a gwneuthur, a llafaru a fo rhaid herwydd Braint a Defod, a herwydd pwyll ansawdd a gorfod. a phan ddarfo achos yr Orsedd, neu'r gadair, yna datgan yr Argae-gosteg, a darfod yr Orsedd, ac ymadael pob un iddei fann

Defod yw i Feirdd yngorsedd sefyll yn ddiarchen Benn a thraed o barch dyled a Gwarogaeth i Dduw.

Briduw Gorsedd, gan ddefod, yw sefyll gan orsedd a Brysill Prydydd yn llaw ac edrych yn wyneb haul a llygad Goleuni a dywedyd ar air a Chydwytod, neu o fodd arall rhoi llaw yn llaw y Bardd wrth Orsedd, sef y Pencerdd neu'r Cadeirfardd, a dywedyd ar ei air a chydwytod, gan edrych yn wyneb haul a llygad goleuni

Gwisg Bardd a fydd yn unlliw parth y wisg honno, eithr lliw priawdbwyll y sydd i bob un o'r trirhyw Prifardd yn wanhanred herwydd yr Achen y bo'r Bardd a'i gwisgo, sef y Gwisg Brydyd o Brifardd Cysefin a wisg wn o liw glas yr wybren, gan haf a hinon yn nod ac arwydd Heddwch a thangnef ac mai trwy hynny o liw y gwelir yn oreu y Goleuni a phob gweledig arall, a'r wisg yn oleulas gyfunlliw yn nod ac arwydd Gwirionedd, canys cyfunlliw trwyddaw a throstaw oll o fann ac o beth bwy gilydd y bydd gwirionedd heb o'r lleiaf yn wahanred un man na pheth ar y llall. Gwisg Derwydd yw gwyn cyfunlliw am lendid ^{buchedd}_{moes} ac addysg a dwyfoldeb sef cyfunlliw Gwynn a goleuni ai nod arwydd ef. a gwyn cyfunlliw hefyd y bydd wisg Derwydd yn nod ac arwydd gwirionedd. Gwisg Ofydd a fydd o'r gwyrdd yn nod ac arwydd twf a chynnydd ar ddysg a gwybodaeth, ac yn wyrdd cyfunlliw y bydd yn nod ac arwydd Gwirionedd.

Pob Bardd Gorseddog o bwy achen y bo bynnag, a ddwg yn ei law yngorsedd Frysyll neu ffon grair yn gyfunlliw ai wysg, ac yn wryd ei hyd, a'r Trofedigion a ddygant bob un ei frysyll o'r trilliw Barddoniaidd yn frithgymmysg, yn nod ac arwydd Trofedigaeth, ac a wisgant ar y fraich ddëau freichrwy or un lliwiau, ac os yn nawdd y bydd yr Awenydd, Brysyll hanner gwryd, ac os ym mraint y bydd sef Trwyddedog nawdd, gwryd y bydd hyd ei frysyll.

Lle na bo wisg gyfan, na'i hachos y Beirdd gorseddogion a wisgant bob un ei freichrwy ar ei fraich ddëau o'r lliw a ddeiryd iddei achen ai radd. a hynn yw'r mynychaf o arfer gan y Beirdd er pan y collasant eu Trwydded.

GEIRIAU CYSSWYN GWAHANOL GADEIRIAU BEIRDD
YNYS PRYDAIN.

GAIR CYSSWYN B. Y, P.—Gwir yn erbyn y Byd,
MORGANWG neu ESSYLLWG—Duw a phob daioni,
Y FORD GRONN CADAIR ARTHUR, CADAIR TALIESIN, CADAIR TIR
IARLL—Nid da lle gellir Gwell,
POWYS—A laddo a leddir.
DEHEUBARTH—Calon wrth Galon,
GWYNEDD—Iesu
BRYN GWYDDON.—Coel clywed, Gwir gweled
DYFNAIN YNG NGHADAIR BEISGAWEN.—Nid byth ond Bythoedd.

CADAIR URIEN RHECED. yn Aberllychwr. a Thaliesin yn Ben Athraw—Myn y gwir ei le

CADAIR CASTELL RHAGLAN yn Nawdd yr Arlwydd William Herbert.—Deffro ! mae ddydd,

CADAIR CASTELL NEDD.

WEDI dychwelyd Rhys ab Tewdwr o Lys yr amherawdr yng Nghonstinobl. cuttunasant i Sylfaenu Cadair wrth gerdd dafod yng Nghastell Nedd ys ef dwyn aradwedd hen gadair a fu yno er oesoedd cyn cof, a baint heddwch a Thangnef diymdor ar y gadair ag ar y lle cyd na bai amser Cair i bob dyn o'r Byd a gyrchai yno, bynnag o wlad a Chenedl y byddai, ag ir adwedd daeth Pendefigion a goreuon Bonheddigion a Dysgedion a Doethion Morganwg a Gwent. a Dyfed a Cheredigion a Gwlad Buellt a gereinwg a chyfoeth Reged a'r Tri Chwmmwd, a mawr a gwych y bu'r ymgunnill, a Dwyn yr Hen Ffaint ar adwedd, a'r gair Cysswyn a ddodwyd oedd *Hedd Duw ai Dangnef*. a gwedi'r wledd gyntaf lle ddoedd naw dan amcan ag arfaeth, Rhys ap Tewdwr a wnaeth yn Ansyber a Nest Gwraig Iestin, a phan y dangoses hi hynny ymaith ydd ai Iestin ai Deulu ai blaid ai Osgordd heb ymgyfarch a Rhys ap Tewdwr, achos iddo ef dorri Heddwch Duw ai Dangnef, drwy ddangos yr ansyberwyd i wraig Tywysog o Frenin a honno'n ferch Tywysog o Frenhin nid amgen Bleddyn ap Cynfyn Brenin Powys, a Fffrom yn fawr er ei ansyberwyd a wnai Rys a doddi Cad ar faes yn erbyn Iestyn a drwg y bu'r diwedd i'r ddau Dywysog sef y colles Rhys ei fywyd a Iestin ei wlad ai gyfoeth ag fal hynny darfu am Gadair Castell Nedd.

TEYRNGEDAU.*

YNYS Prydain a ddylyit ei dal wrth Unbennaeth, ag yn Llundain Arwain Coron yr Unbennaeth.

Tair Teyrnas a ddylit eu dal wrth Goron Unbenn Ynys Prydain, Un Cymry. Ag yng Nghaerllion ar wysg Gwarseddfa Teyrnedd cyn no hynn a gweithon Aberffraw, Arall Cerniw Dyfneint, Ag Yng Nghilliwig Gwarseddfa Teyrnedd o hen Ffaint, Gweithon Caerfynyddawg; a'r Trydydd Penn Rhynn Rhion ym Mhrydyn ag yno Gwarseddfa Teyrnedd,

* O Lyfr Thomas Truman, o Bantlliwydd.

Tair Gwarseddfa Arbenniccion Brenin Unbenn Ynys Prydain. Caer Lundain, Caer Llion ar Wysg, a Chaer Efracw. ag ym mhob un or Tair dyled iddaw ef Warseddfa Teyrnedd,

Tri Mychdeyrn dybedawc a ddylant Gymru oll dan ei therfynau. Un yn Ninefwr yn Neheubarth, Arall yn Aberffraw Môn, Trydydd ym Mhowys Wynfa, ar drydydd yn Aberffraw, ag i bob un o'r Tri Gwarseddfa Teyrnedd yn ddosparthedig wrth Goron Unbennaeth Prydain, sef yn Llundain hwnnw.

Tair Teyrnged a delir i Frenin Llundain y gan Freninoedd Cymru nid Amgen o Aberffraw Eurged nid amgen Ugeint punt aur. ag o Ddinefwr Melged, pedair Tynnell, a Pheillged o Wynfa nid amgen no phedair Tynnell, ag yn niffyg melged o Ddinefwr Ugeint yn aur, ag yn lle Peillged ugaint aur or Wynfa Powys. Sef y dosparthed Gwlad Gymru yn dair Teyrnedd y gan Rodri Mawr Brenin Cymry oll, ai rhannu rwng ei dri, mab sef oeddent Cadell ag iddaw ef Dinefwr, ail Merfyn, Ag iddaw ef Mathrafael Ym Mhowys Wynfa, Trydydd Anarawd ag iddaw ef y dodes Rodri Aberffraw Môn. ag ir hynaf or Tri thywysawc taleithogion hynn arwain Coron Brenin Cymru oll, ag i hwnnw Deyrnged y gan y ddau eraill, sef hynny yn Gymmorth modd y talo a ddylit o iarnaw ef i Frenin Llundain, nid amgen no thrugeint yn aur. Ar Tri Theyrn enwedigion a elwir y Thri Thywysawg Taleithiawg. A mal y dywespydyd y dosparthed y rhyngddynt Deyrnedd Gwlad Gymru, Ag eraill o Dywysogion y sydd yng Nghymru, Nid amgen noc Iestin ab Gwrgan ym Morganwg ag iddaw Saith Gantref Morganwg dan eu terfynau, A Theulu Elystan Glodrydd y rwng Gwy a Hafren, Ag wrth Goron Lundain y delynt y Tywysogion hynny eu Cyfoetheu, ag nid wrth Dalaith Brenin Cymru oll. ag felly terfyna.

HANESYDDIAETH PERTHYNOL, Y RHAN FWYAF, I FORGANWG.*

YN y flwyddyn 1145 y cadarnhaodd y pab Nicolas Brekspere hawl y normaniaid ym Morganwg. am yr ymgeledd a gafodd efe ganthynt pan oedd ar grwydr ym Morganwg, fe fu lawer yn Sandunwyd gyda Sir Gilbert Stradling.

* MS. Mr. Gamage, St. Athan,—*medd Iolo Morganwg.*

Yn y flwyddyn 1216 y gwnaethpwyd, Lewys mab Philip yn frenin Lloegr, ar Brenin Sion o Loegr, a Gyrwydrodd i Gymru, at ei wraig ai chwaer yn y Gyfraith, yr ydoedd wedi ysgar ai wraig honn oedd Yspel ferch William Iarll Caerloyw ag Arlwydd Morganwg, eithr pan welodd hi efe mewn trallod hi ai cadwodd ef ymhlas Tref Befared dan enw Gerald Fitsalan, dros hanner blwyddyn, ag wedi hynny yr aeth ef i Loegr. a gorfu ar y Brenin Lewis ffoi.

Yn y flwyddyn 1346, y bu ymladd Cresi lle cafas y Cymry fawrglod am ymladd yn lew gyda'r tywysog Edwardd ddu, ar pryd hynny y Gwaeddodd y Capden Cadwgan foel ar y Cymry a deisyf arnyn gymmeryd Cenhinen yn eu helmau, mewn Cae Cennin yr ydoedd yr ymladd a phan edrychwyd o bobtu Cymry oeddynt oll onid naw ar hugain yn y llu hynny ar Saeson mewn rhan arall lle nad oedd yr ymladdfa, a hynn a fu'r achos i'r Cymry wisgo Cenhinen.

Yn y flwyddyn 1348, y bu'r plag chwys ynghymru, ar y normaniaid ar Saeson. a llawer o honynt a fuant feirw, ag ni bu braidd Gymro yn glaf or achos, onid y sawl o oedd o'r naill hanner yn Sais.

Yn y flwyddyn 1349 y bu clefydon a marw mawr ar y Gwartheg yng wlad yr haf a Dyfnaint, a thyna dechreuad cymmeryd aur yn dal am wartheg ym Morganwg, gan y saeson a brynasant lawer i fyned i'r lleoedd y bu marw arnynt

Yn y flwyddyn 1378 y daeth Owain ab Elidir i Gymru o wlad ffraince, lle'r oedd wedi troi ymhlaid Brenin ffraince yn erbyn y tywysog Edward ddu, ag yn fradwr Lloegr, yr Owain hwnnw a wnaeth dy Teg teg iawn yn Llanellud fawr, ond yr oedd ei gydwybod yn glwyfus ag yn ei fleino am wneuthur Brad y tywysog Edward yn ffraince ag er penyd efe a beidiws a chymmeryd bwyd nes marw o newyn, ag fal yr oeddyd yn dwyn ei gorph ir bedd fe ddaeth Bytheuaid heibio, ac ai brywiasant yn chwilfrw candryll heb adael dau asgwrn ynghyd ai gilydd, efe a wnaeth ysgrifen yn gymraig yn adrodd y pethau a wnaeth ef, efe gas yr Arlwydd ei gyfoeth ef a chyfoethog iawn mewn aur ag arian ydoedd.

Yn y flwyddyn 1392 fe aeth mab a merch i Gabidwldy Llandaf bryd Gosper, ag a fuant yn ddrwg ai gilydd a buant feirw ill dau yn ddiogel wrth ei gilydd, a'r Escob a fynnodd rhannu ei cyrph rhwng y Cŵn ar brain.

Yn y flwyddyn 1397 y bu ymryson rhwng y deiliaid ar Arlwyddi ymmorganwg, oblegid y rhwym a haerau'r Arlwyddi fod ar

y deiliaid i ymladd ymhlaid yr Arlwydd, ar deiliaid yn haeru nad oedd caeth ddeiliadaeth cynhenid arnynt eithr o wirfodd a dewis ag er fod y Cyfoeth ym meddiant yr Arlwyddi nad oedd y deiliaid a'i dalai, a'r Brenhin John a wnaeth gadarnhaad ar hynny o hawl y deiliaid dan amod iddynt ymladd ymhlaid y Goron o Loeger, a hynn a wnaeth lonyddwch,

Yn y flwyddyn 1399 y daeth Gwr o Gymro ag ni soniai a bwy dylwyth y daethai, O ryfel a'r Tyrciaid i fyw i Gaerdyf, ei enw oedd Llywelyn ab Cadwgan, a chymaint oedd ei gyfoeth fal yrhoddai i bob tlawd o'r Byd a welai ar ymgais, neu'n dwyn eisiau, efe a wnaeth Dy wrth yr hen dŵr Gwyn at Gynnal cleifion a hên di-allu, efe a roddai'r maint a geised gantho nes rhoi'r cwbl, a gwedi hynny efe a werthws ei dy mawr a theg a elwid y Plas newydd i'r Mathauaid, ag a roddes ei werth nis darfu'r cyfan, ag efe a fu farw o eisiau a newyn, ag ni roddai neb neb iddo gan ddannod iddo ei wastraff ar gyfoeth.

Yn y flwyddyn 1401. y gwnaeth pryfaid y dail y mawrddrwg yn y wlad gan ddifa'r dail ar borfa fal nad oedd ar eu hôl fwyd i'r anifeiliaid, a rhyw un a fwriodd galch ar hyd y maesydd iw difa ai lladd a wnaeth hynny, a'r tir a galchwyd fal hynny a ddygodd gnydau rhyfedd o yd a gwair, ag o hynny fe aeth calchu tir yn arfer gyffredin ym Morganwg.

Yn y flwyddyn 1403, y bu ymgystadlu chwaryddiaeth rhwng chwech ugain o wyr Morganwg a chynnifer un o Wir Gwent, a gwyr Morganwg a ddygasant y Bel yn y chwaryddiaeth. ag ar hynny lldio a wnaeth Gwyr Gwent, a thynny daggerau, a haeru i wyr Morganwg ddwyn ei heiddo'n arian ag yn ddillad arnynt, a hwy a laddasant fwy na chant o wyr a Gwraedd a phlant y creulondeb hynn a fu o achos i wyr Morganwg ddwyn y Gamp ymhob chwareu arnynt, — a hyn a fu achos y ddiareb lladron Morganwg yng Went, a'r ddiareb Gwaedewn Gwent ym Morganwg.

Yn y flwyddyn 1407, y daeth pysgodyn mawr i dir rhwng St Dunwyd a Llanilltud lle bu farw a drewi'n fawr iawn a wnaeth a bod yn achos mawr glefydon o'r diwedd fe gasglwys y wlad lawer o Goed a gwellt iddei losgi a hynn a dannws y drewynt lawer fwy ar led nag oedd oedd o'r blaen, a pheri llawer o glefyd a marw ar ddyinion ag anifeiliaid, ar gwartheg ar ychen. yn bennaf, a Syr Edward Stradling a roddai lawer o wartheg i weiniaid y wlad a ddaethant gantho o'i dir ei hun yngwlad yr hâf yr oedd y pysgodyn yn ddwy lath ar hugein ei hyd a rhwng tair a phedair llath ei uwchder.

Yn y flwyddyn 1411 y daeth Llong fawr i dir dan Goed tresilian ag ni chespwyd un yn wlad ym medru iaith y Llongwyr. Yr Arlwydd tir a gymerodd y llong, ag un or dynion o'r llong a ddysgodd gyntaf i'r Cymru a'r Saeson wau hosanau ar y gweillion.

Yn y flwyddyn 1419, y bu tri diwarnod o wres mawr iawn fal y bu farw dynion ag anifeiliaid lawer, ar adar yn marw a'r hedfan a bu farw y pryd hynnyr pryfaid gleision i gyd yn Ynys Prydain ag ni welwyd un o honyn fyth wedyn, a daeth mwy o les ir wlad o hynn o beth, nag o afles am y drwg a wnaeth y gwres, fe fu llwyn o goed ar bare margam grino a marw a llawer or Coed ar perthy o amgylch yr aes fawr ag yn y blaen ffordd hynny yn er-gyd haul tri ar y gloch o'r dydd.

Yn yr amser Harri yr ail y gwnaethpwyd Cynffig a Chaerdydd ag aberavon, a Thref Beferad a Llanilltud, a'r Bont faen yn drefydd rhyddion gan yr Arlwydd,—ar wig a'r Brychtwn eithr Collasant eu braint am ymladd gydag Owain Glyndwr.

HANESYDDIAETH,

O FAN-BAPURAU Y PARCH. EVAN EVANS, YM MHERCHENOGAETH
PAUL PANTON, YSW. SIR FON.

1405 By Cad a lladd gwaedlyd a braidd erioed ei fferniccach yng Nghymru ar fynydd y pwll melyn wrth Fryn Buga, ac yno dalwyd Guffudd ab Owain ai Wyr ac ai dygwyd yngharechar laweroedd, a lladd llawer hefydd wedi eu dal, ac yna yr ymroddes holl Forganwg yn Saeson, dieithr bychan onifer a aethant at eu harglwydd i Wynedd, lle ydd epiliasant ac y gwledychasant.

1406 Ymroddes Gwyr Ystrad Tywy a Phebydiawg a Cheredigion yn Saeson. a gorfu ar geraint Owain fyned dan gudd a chel a llawer i Lydaw ar Werddon. a gwobrweu brâd a gwrthgyffro yn gwneuthur y cwbl yn ofer lle ydd ymdrechaint y Cymry am eu braint ai coron. a gwlad Gymru wedi ymdylodi, hyd nis gellid bwyd a gynnalai'r bywyd namyn o'r gobrweu a roddei y Brenin.

1408 Gwyr Morganwg yn ymgyffroi Gan gael ei gorwasgu gan wyr y Brenin, yna llawer o'r pendefigion a geisiaint fodd y Brenin a losgasant eu deisydd yd au hysguborau fal nas cai y rhai a

gefnogaint Owain y bywyd a fai achos, a'r pendefigion yn ffo hyd yn eithafoedd Lloegr a Gwynedd lle au diffynid yn y Cestyll ar Glynnoedd, a gwŷr y Brenin, ac a gwobrwyon brad a chynllwyn, fal nas gallai Owain oresgyn ei dir ai Gyfoeth gan y Brad a gaffed ym Mon ag Arfon, a gwyr Morganwg ai galwai Brad Penmynydd Môn.

1410, Daliwyd naw edwicwr gobrwyon Brad a Chynllwyn yn Morganwg a Gwent ac ystrad Tywi a Cheredigion ac au crogwyd gan wŷr y wlad yn erbyn bodd Owain, sef y mynnai ef eu cadw yngharchar Gwystl ac nid eu lladd

1413 cafas y Brenin ai wyr y goreu ar Owain ai Wŷr ac o hynny allan myned Waethwaeth ar Owain ai gymhlaid.

1415. Aeth Owain ar ddifant ag o'r wlad heb le golwg arno na chlyw am Dano, sef y dywedir ei ddianc yn rhith medelwr yn dwyn fal y dywedai y diweddaf ai adnabyddai, a chwedi hynny ni wybuwyd fawr am dano na modd na mann ei ddifant. y rhan fwyaf a ddywedant ei farw mewn Coed ym Morganwg ond y Brudwyr a ddywant ei fod yn fyw efe a'i wŷr yn eu cwsgr ar eu harfau mewn gogof a elwir gogof y ddinas ym Mro Gwent. hyd yn y llygro Lloegr ei hunan, a'r pryd hynny y daw ef allan ag ydd ennill ef eu Gwlad au Braint, a'u Coron i genedl y Cymry fal nas collaint fyth wedi hynny hyd ddydd brawd pan llosger yr holl fyd ac ai gwneir or newyd fal nas gellir trais a difrawd fyth wedi wedi hynny. a gwyn ei fyd a welo yr Amser.

1417 Gwaharddwyd braint Crefft ag ysgol i'r Cymry namyn dysgu Saesoneg ag yna dwyn Saeson yn athrawon Saesoneg i Gymru, megys ag ydd aeth y Saesoneg ar dafod a llafar y Cymry ac nid oedd Braint gwlad a Chyfraith i neb ond a wyppai Saesoneg ag nis gwypai Gymraeg ac o hynny allan llawer o'r Cymry yn ymwadu a'u hiaith, ac yn ymroi yn Saeson.

MAN-GOFION.

PADRIC SANT*

CYLCH oed Crist 420. yr oedd ynys Prydain fal heb na phen na pherchen yn egored i bob gormes gelyn ag alltud a holl arfogion yr ynys draw i'r mor yn ymladd ar ormes ddu ag oeddent yn diffeithio pob gwlad Cred a bedydd, ar gwyddelod yn un a gwyr Llychlyn yr amser hynny yn cyd ormesu ar ynys Prydain ag un o'u llongau yn medru mor Hafren ei gwyr a diriasant gan ddwyn yspail ddirfawr yn yd ag yn wartheg a phob golud symmudadwy a fedraint arno a chyda hynny dwy meibon a merched a dwyn Padric Sant o Fangor Dewdws i'r werddon, ag o hynny bu'r fangor yn amddifad o ben ag Athraw yspaid mwy na dengmlynedd ac yn dorriedig o fur ag amgae. a Phadric yn y werddon yn ymroddi yn gadarn i ddangos a dysg'r ffydd yng Nghrist i'r gwerddoniaid gwyddelod a llychlyniaid a bu hylwydd ei orchwyl ac o hynny y Cafas y gwyddelod eu gwybodau Cred a bedydd. a rhai o'r Llychlyniaid a ymdrosant i'r ffydd yng Nghrist. ag ni ddaeth fyth yn ol i Gymru er aros a gwladychu gan iddo gael mae gwell dynion y gwyddelod na'r Cymru yn yr amser oedd hynny.

CUNEDDA WLEDIG.†

CUNEDDA Wledig a yrrws y Gwyddelod o Dir Gwyr ar Trichwmmwd, ac am hynny rhodded iddo fraint Brenin ar y wlad honno, a gelw'r frehinaeth honno *Rheged*, a'r Cynnal yn Aberllychwr, ag efe a wnaeth Gastell rhyfeddol ei faint ai gadernyd, ei wychder yno, ai ddihenydd yno fyth yn wledig hyd heddyw. er aill a ddywedant mai *Urien Rheged* a yrrwys y Gwyddelod o Dir Gwyr Amser Uthur Bendragon, ac mai am hynny y cafas ef Deyrnedd y wlad ai galw *Rheged*, a gwneuthur Castell a Thref ddinesig yn Aberllychwr. Lle bu'r Cynnal hyd ym mhen y saith genhedlaeth ag yna myned yn adwedd yn un a Morgannwg fal y bu or dechreuad, ogogail sef o briodas, ac felly bu hyd yn amser

* O Lyfr Antoni Powel, o Lwydarth,—*medd Iolo Morganwg.*

† Hafod MS.

Edgar Brenin Llundain ac Owain ap Hywel Dda ag yna gollwng i Owain ap Hywell Dda Gwlad Rheged, ag i Forgan hen Brenin Morganwg Euas ac Ergin, ac Ystrad yw, sef oeddent y Gwledydd hynny ym Mhlwyf Esgob Morganwg a Llandaf, A Gwlad Reged ym Mhlwyf Mynyw a Dewi Sant; A chwedi hynny y dug William de Lwndrys y Tri Chwmmwd nid amgen na Chydweli A Charnwyllion ac Isgennen oddiar Dywysogion Dinefwr au hadweddu yn Un a Morganwg; hyd amser y Brenin Harri y bummed, ac yna Rheged a ddoded yn un ag Ystrad Tywi fal y bu yn Amseroedd Tywysogion Dinefwr a rhoi enw swydd Gaerfyrddyn ar y Gwledydd hynny, fal y mae fyth hyd yn awr, lle yn ein amser ni y gwnaethpwyd y ddosparth newydd ar wledydd Cymru ac attodi Gwlad Gwyr yn Un a Sir Gaer Dydd a elwir Morganwg.—(hyd yma Llyfr ysgrif Hafod Uchdryd)

URIEN RHEGED.*

GILMWR Rechdyr Brenin Werddon a ddaeth i Gymru yn amser Cystenin Fendigaid ag a ddug yn Ormes y Rann honno o Forganwg a geffir rwng Afon Tawy ag Afon Tywy, nid amgen Cantref Gwyr a Llychwr, a'r Tri Chwmmwd, nid amgen, Cydweli, Carnwyllion, ag Iscennen, ag au traws oresgynnes, hyd yn Amser y Brenin Arthur, ag yna danfones Arthur Dywysawg gwrolgamp gorchestawl o'r Ford Gronn a elwid Urien ab Cynfarch ab Meirchion Gul, ap Ceneu ap Coel Godebog, a chydag ef ef ddengmil o wyr gafaelgyrch calonogion i adynnill y Gwledydd hynny oddiar y gormesben Gilmwr Wyddel, ag Urien au gyrres yn ffo ag au lladdes yn gelanedd, a llawer or Gwyddyl diange a ffoasant hyd yn Ynys Fon at eu cydwladwyr a hanoeddynt o Genedl y Gwyddyl, ag yna Meibion Cyneddaf Wledig au lladdes, yn ysgethrin, A gwedi adynnill o Urien Wlad Gŵyr ar Trichwmmwd, efe a gyssegrwyd yn Frenin ar y Wlad honno, a Rheged a'i gelwid, Achaws hynny gelwid Urien ap Cynfarch yn Urien Reged.

URIEN RHEGED ETTO.

LLYMA Gyfarwyddyd am Urien Reged, ap Cynfarch Nai Arthur, ap Meirchion Gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Cenau, ap Coel

* O Lyfr Watkin Giles, o Langanna.

Godebawc Brenin Gwledig sef hynny ymherawdr Ynys Prydain, ag Urien Rheged oedd frenin Rheged ym Morganwg a Brenin Mwrif yn yr Alban. ag yn amser y Brenin Arthur ydoedd ef, ac a gafas gan Arthur y Wlad a elwid Rheged, nid amgen na honno y rhwng afon Tawy ac afon Tywy, sef Gwyr, Cedweli, a Charnwyllon, ac Iscennen, a Chyda rhai hynny y Cantref Bychan, yn Frenhiniaeth. Ar Llys Cynnal yn Aberllychwr yng Ngwyr, ac efe a wnaeth Gastell Cadarn yno a elwid Castell Aber Llyw.

Yn Amser Arthur Ymherawdd fe ddaeth Glaian Ecdawr ai wyr sef Gwyddyl oeddynt o'r Werddon i Wyr ym Morganwg ac a Wledychasant yno naw mis, ac Arthur a ddanfones Urien ei Nai yn erbyn y Gwŷr hynny ac Urien ai drichannyn ai gyrrwys ymaith yna aethant y Gwyddyl gwedi lladd eu Brenin Glaian Ecdawr, i Ynys Fôn ac a wledychasant yno lle ydd oedd yno ou blaen eu cydwladwyr, Ac Arthur a roddes Wlad Reged a elwid felly o enw Gwr o Rufain a fuasai Arglwydd y wlad cyn oi hynnyll gan y Glaian hwnnw ai Wyddyl, i Urien yn oresgynaeth Freiniawl am ei wychder gwyroldebus yn Rhyfel. A merch oedd i Urien Reged a elwid Eliwri, a hi a honno a fu wraic Briod Morgan Morganwc, Mab hefyd oedd i Urien a elwir Pasgen; a hwnnw a fu frenin creulon ac yn Garnfradwr Gwlad, achaws y dideyrnwyd ef, a doddi Gwlad Rheged herwydd ei hansawdd gyssefin yn un a Morganwg, ac fel hynny y bu hyd yn Amser Owain ab Hywel dda ab Cadell, ab Rhodri mawr Brenin Cymry oll.*

HANES TALIESIN.†

TALIESIN Ben Beirdd ap Henwg Sant o Gaerllion ar wysg a wahodded i Lys Urien Reged yn Aber Llychwr. Ag efe ac Elphin ab Urien mewn Bol croen ar y mor yn Pysgotta, Llyma Long Morleidr o'r werddon yn ei gymmeryd ai fol croen hefyd, a thuar werddon ag efe a phan oedd y Lladron pen lawenaf yn ei diod gwthies Daliesin y Bol i'r mor ac yn ei law Tarian a gafas yn y Llong ac a honno Rhwyfo'r Bol ond oedd arglais Tir ar Tonnau yn torri yn ewynfriw colles ef ei afael ar y darian yna nid oedd ond gadael i'r mor ac eled ac ef lle'dd elai. ac felly y bu ac ym-

* O Lyfr Hir Thomas Truman, o Bant Lliwydd, ym Morganwg.—Gwelais achos i gredu bod dalen ar goll yn Llyfr Pantlliwydd.—*Iolo Morganwg.*

† O Lyfr Anthoni Powel o Lwydarth,—*medd Iolo Morganwg.*

hen amser bach glynwys y bol ar flaen Pawl cored wyddno Arlwydd Ceredigion yn Aberdyfi, a llyna'r lle ai cafwyd ef ar y Traigan bysgodwyr Gwyddno. a holi helynt iddo a Chlywed mai Bardd ac Athraw Elffin ap Urien. Rheged ap Cynfarch oedd, y mae mab i minnau enw Elffin ebe Gwyddno, bydd fardd ag athraw iddaw ynteu a thi a gai diroedd gennyf yn rydd ag yn Rad ac felly y bu ac o hynny bwrw ei amser i gyd agos rwng Llys Urien Rheged a Llys Gwyddo sef Gwyddno Garanhir ai gelwid ef Arglwydd Cantre'r Gwaelod, a gwedi Boddi Tiroedd Gwyddno Gan y Morgwahodded Taliesin gan yr Amherawdr Arthur iddei Lys yng Nghaerlleon ar Wysg, Lle bu yn glodfawr am Awen a Gwybodau Daionus a moliannus, gwedi Marw Arthur myned iddei Dir ei hunan a gafas ef gan Wyddno. a chymmeryd Elffin ap Gwyddno yn ei nawdd. or gyfarwydd hyn y cymmeres Tomas ap Einion Offeiriad o wehelyth Gruff. Gwyr Ei Rwmawnt am Daliesin ap Cariadwen, ac Elffin ap Goddnou a Rhun ap Maelgwn Gwynedd. a Gwaith Pair Ceridwen.

ACH TALIESIN BEN BEIRDD.*

TALIESIN Ben Beirdd, ap Einwg hen o Gaerllion ar Wysg ym Morganwg ap Fflwch Lawdrwm, ap Cynin, ap Cynfar, ap Clydawe, ap Gwynnar, ap Cadren, ap Cynan, ap Cyllin, ap Caradoc, ap Bran, ap Llyr Llediaith, Brenin o Afon Wy hyd Afon Tywy

[Mewn man arall yn yr un Llyfr fal hynn,]

TALIESIN Ben Beirdd y Gorllewin, ap Henwg Sant o Gaerllion ar Wysg, ap Fflwch, ap Cynin, ap Cynfarch, ap Clydawe Sant o Dir Euas, ap Gwynnar, ap Caid, ap Cadren, ap Cynan, ap Cyllin, ap Caradawe, ap Bran, ap Llyr Llediaith, Brenin Penrhaith ar Frenhinoedd Ynys Prydain. a Brenin o Baladr o Afon Wy hyd Afon Tywy. Y mod yddaeth Daliesin yn Ben Beirdd y Gorllewin, oedd rhoi arno arwain Cadair y Ford gron ynghaerllion ar wysg.

ACH TALIESIN BEN BEIRDD.†

TALIESIN Ben Beirdd y Gorllewin, ap Henwg Fardd o Gor Catwg Sant, ap Fflwch Lawdrwm o Gaerllion ar Wysg ym Mor-

* O Lyfr tew Thomas Hobcain, o Langrallo.

† O Lyfr Hafod Uchtryd.

ganwg, ap Cynfar, ap Clydawc Sant, ap Gwynnar ap Cadrain, ap Cynan, ap Caradawc, ap Brân fendigaidd ap Llyr Llediaith.

Taliesin Ben Beirdd a wnaeth Eglwys Llanhenwg yng Nhaerllion ar Wysg, er côf am ei Dad a elwid Henwg Sant a fu yn Rhufain gyda Chystenin Fendigaidd yn cyrchu Garmon Sant a Bleiddan Sant i Ynys Prydain i wellhau Cred ac i adnewyddu Bedydd yn Ynys Prydain.*

Taliesin a ab Henwg ddaliwyd gan y Gwyddelod Gwylltion a wledychasant o Drais yn Nhir gwyr ag fal yr oedd ef mewn llong ar gyrch y Werddon, efe a welai fol croen ar y mor heb ynddo na dyn na da, ar bol a ddaeth yng nghyfyl y Llong yna Taliesin a gymmerodd astalch groen yn ei law ag a neidioedd i'r Bol croen, ag ai rhwyfodd a'r astalch ag a ddaeth ar bawl yng Nghored Gwyddno Garanhir, a phendefig ieuange ai Enw Elphin ai gweles ar y Pawl ag ai gwaredoedd, Yr Elphin hwn ydoedd yn myned dan Enw Mab Gwyddno, a Mab Elifri Merch gwyddno oedd ef ond nis gwyddit o bwy yn y byd y pryd hynny, A gwedi hynny cafwyd mai Urien Rheged Brenin Gwyr ag Aberllychwr oedd Tad Elphin, ag Urien ai dygodd i lys Arthur ynghaerllion ar wysg, lle gwelwyd arno gampau, a Gwybodau, a Chyferddonau gystal ag y gwnaed ef yn farchog Aurdafodawc o'r ford gronn. a Thaliesin yn Ben Bardd y Ford Gronn, a gwedi marw Arthur ydd aeth Taliesin yn Ben Bardd Urien Rheged yn Aberllychwr yn Rheged.

MAELGWN GWYNEDD.

TRI Phenbardd Maelgwn Gwynedd a fuant hefyd yn Dri chyssefin Prifeirdd Gwynedd, Cyntaf, Mynach ap Nywmon, (*al.* ap mydnaw) mab Brenin Orc, ail Unhwch unarchen, 3 Maeldaf ap Unhwch. A Thaliessin Ben Beirdd a enilles y Penn ar y Tri hynn o ellwng Elffin ap Gwynddnaw o Garchar Maelgwn Gwynedd lle'dd arnaw drichlo ar ddeg,

Gwedy dwyn Coron Lundain, a'i Theyrnwialen i gan Genedl Gymry ag ai deol o Loegr y gosodosant ddadlau i edrych pwy a

* Yn canlyn yr ach ddiweddaf, yn Llyfr Hafod Uchtryd, y mae'r Hanes ganlyniadol; pa un nid ydyw yn amrafaelu ond ychydig oddiwrth yr Hanes ragflaeniadol; ond gwelir ei bod rywfaint yn fwy ymgysylltiedig ag eirf-orchestaeth Llys Arthur. Mae yr hanes yn ol Llyfr Antoni Powel yn rhydd o unrhyw ofergoieidd, ac yn gysson â chynnhebygrwydd.—AB Iolo.

fai Frenin pennaf o naddynt, ac ys ef lle y gosodasant eu dadlau, ar Draeth Maelgwn yn Aber Dyfi. Ag yna daethant Gwyr Gwynedd, a Gwyr Powys, a Gwyr Deheubarth, a Rhieinwg, ag Eussyllwg, a Morganwg, Ag yna y dodes Maelda hynaf mab Unhweh Unarchen, Pendefig Penardd yn Arfon, Gadair Wên o adanedd cwyredig y dan Faelgwn a phan ddoeth y Llanw ni Allasant ddi-oddef y Llanw namyn Maelgwn, o achaws y Gadair, ag wrth hynny y cafas Maelgwn fod yn Frenin pennaf, ag Aberffraw yn Ben Llysoedd, a Iarll Mathrafal, a Iarll Dinefwr, a Iarll Caerllion a danaw ynteu, a gair yw ei air ef ar naddynt hwy, a Chyfraith yw ei Gyfraith, a rhaid yw iddynt hwy gadw ei Gyfraith ef, a thrwy ben Maelda hynaf y Cafas Penardd ei braint, ai bod yn hynaf Canghellawrdref.

BENWYLL*

YN Amser benwyll Athraw y doded Celfyddyd gyntaf ar ddwyn Arfau bonedd, ag nis dylid arfau i neb onid a geffid yn wr ofonedd cynhenid sef ym mraint y nawfed ach neu ynteu y nawfed goresgyn, ag yn wr gwlad ag Arglwydd. a'r nawfed goresgyn a saif ym mraint y nawfed Ach, yn amgen o fodd nag yn nhreigl Gwehelyth, y llyma'r modd ai trefner nid amgen.

Cyntaf o'r naw goresgyn yw mab aillt sef yw mab aillt Estron yn wr damdwng gwlad ag Arglwydd. ag aillt adlaw ai gelwir.

Ail goresgyn priodas mab aillt a Chymraes gynhenid.

Trydydd goresgyn mab a aner o'r Briodas honno.

Pedwerydd, priodas y mab hwnnw sef mab aillt cyssefin a Chymraes gynhenid.

Pummed goresgyn Mab a aner o'r briodes honno. sef wyr ir Adlaw.

Chweched goresgyn priodas y mab hwnnw a Chymraes gynhenid,

Seithfed goresgyn mab a aner o'r briodas honno, ag orwyr yr Adlaw.

Wythfed goresgyn priodas y mab hwnnw a Chymraes gynhenid.

Nawfed goresgyn, mab a aner or briodas honno, a goresgynnydd yr Adlaw yw ef. sef achos ai gelwir yn oresgynnydd ei fod yn

* Llyfr Antoni Pywel, o Dir Iarll.

goresgyn braint cymro cynhenid o'r nawfed Ach ym mraint priodasau a Chymresau cynhenidion. ag o'i eni ef ag yngan Tair llef y cadarnhair y fraint cyd bo marw gwedir Tair llef. ag o hynny braint cymro cynhenid i bob hynaif iddaw llin a chyflin hyd at yr aillt adlaw, a hwnnw a saif ym Mraint Cymro cynhenid o fonedd ym mraint ei oresgynnydd. a boneddig pob un o'r eppil llin a chyflin, o y pryd ydd aeth dan ddamdwng yn wr Gwlad ag Arglwydd, ac i bob un ei bumerwi rhyddion. a hyn herwydd Defodau cyssefinion Cenedl y Cymry cyn noi dyfod i Ynys Prydain. y Benwyll hwn oedd arwyddfardd yn Llys Arthur yng ngaerllion a'r Wysg A Marchog o'r Ford Gronn. ag arnaw y dodes Arthur adnewyddu Trefnau a defodau Bonedd fal y bu gynt achos i wyr Rhufain lle buant yn goresgyn Ynys Prydain yrru Anghof ag anerfer a gwrthanmod ar brif ddefodau Cenedl y Cymry. Ag Arthur a fynwys Adfer y Defodau hynny a rhoddi yn ei hansoddau au breiniau cyssefinion. ag am hynny llawer o'r Brutaniaid a hanoeddent o waed Gwŷr Rhufain ag a oresgynnent ym mraint Defodau Gormes Rhufain a aethant gyda Medrod ac Iddawc corn Prydain yn wyr Cyttwng a'r Saeson er cadw eu caffaeliadau. A Benwyll Arwyddfardd a wnaeth wellhâd ar drefnau Arfau Bonedd herwydd Llun a lliw nag a fuasai cyn no hynny herwydd gwybodau a Chelfyddyd a fyfyrtes ef ei hun o'i ethrylith ai bwyll o awen gynhenid. a chwedi tyfu gwybod am dani mewn gwledydd tu draw ir mor, hi a freiniwyd gan ymherodron a Brenhinoedd a Thywysogion ag Arlwyddi urddasolion yn ogyfuwech ac nis gellid arfau bonedd wrth amgen o drefn na threfn Benwyll Athraw, ag nid gwr wrth arfau Bonedd nebun na fedrai tynny Arfau Benwyll, a chwedi cerdded y ddeall ar Arfau Benwyll hyd eithafoedd Cred a bedydd ef ai harfollod, ac ai Breinied yn bentrefn Arfau bonedd hyd nas braint a gwaraned ar un drefn arall amgen na honno, a Phebin Amherawdr ffrainc a gadwai ddosparth Benwyll, adosparth y Ford gron dan ei glustog y nos yn ei wely gan faint y carai ef y Dosparthau hynny.

BENWYLL ETTO.

YN Llyfr Benwyll y dangosir modd y dodes Arthur arfau bonedd, sef y peris ef Ford Gron, a gwaedd a gosteg gan Gorn Gwlad undydd a Blwyddyn Mal ai clywid gan bawb yn holl Deyrnasoedd Ynys Prydain ai pherthynasai nid amgen no Ffrainge ar Eidal ar Albaen ac Iwerddon a Llychlyn, ac or Gwledydd hynny y daeth

Brenhinoedd a Thywysogion a Marchogion Urddasolion, ag yn y wledd honno y peris Arthur gynnal y campai Gwrolion herwydd Defodau yr hen Gymry, tros ddeugain niwarnawd, ac yna bu yr ymorechestu mwyaf arnynt ac a wybuwyd erioed a gwedi dangos o bawb ei gorchestion Camporaidd y dodes Arthur iddynt Arfau a Thrwydded Llys iddynt ac i bob un herwydd y gamp arnaw ar orchest a rywnaethoedd ac efe a wnaeth ddosparth ar Arfau Bonedd mal y gwypid Celfyddyd deilwng ar ddwyn arfau parth Lliw ac arwydd a Threfn. cans cyn no hynny nid oedd namyn arwydd Cenedl ar arfau Bonedd ar wybod ir Cymry yn Ynys Prydain, ac wrth y drefn a rywnaethoedd Arthur y cedwir Arfau Bonedd hyd heddyw. A Gwedi hynny ydd aeth gwybodau Arfau Bonedd ar wall a chyfeiliorn a Siarl y maen Amherawdr Yropia a gymmerth atto y gelfydd ac a beris gynnal Cynghor a Barn arni, a gwedi cael hynn trefnwyd y farn honno'n gelfyddyd ddosparthus ac yno nghyntaf y doded ddwyn Aur ac arian ar Arfau Bonedd, lle cyn no hynny y dywettid wyn a melin herwydd chwelliw arfau bonedd, ar Siarl y maen hwnnw a wnaeth drefn gyntaf ar chwaraeu trwn a doddi ar hynny Dosparth Celfyddyd herwydd Braint a Theilyngdod yn ail a rywnaethoedd Arthur ymherawdr, ac o hynny yddaeth chwaraeu trwn yn ben urddas ac yn briforchest ar bob Camp chwaraeu ac yn nosparth y campau urddasolion hyn y cadarnhawyd y Gelfyddyd oddwyn arfau bonedd gan ei gwellhau ogyfnod i gyfnod ac o bryd i bryd mal y caid achos, ac arddangos ar y modd y dylid dihanu a Threfnu arfau bonedd herwydd lliw, ac arwydd ac ansawdd, yn drefnedig ac yn gywair ohani sef am dri achos y dyddygir arfau Bonedd, nod Cenedl a gwehelyth, nod urddas o gamp a gwybod ag arwydd cof am a fu gynt ar Erni'r Genedl. (Rydderni.)

O LYFR DU PANTLLIWYDD.

YR achos y dychymygydd Celfyddyd Pais Arfau, ac ai cadarnhawyd o Gyfraith ddosparthus ydoedd mal y gellid i bob Llwyth a Chenedl ei harwyddon yn warantedic, ac y gellid adnabod pob un herwydd ei genedl, ac y gallai bob gwr ymgystlwn ai genedl ei hun, yn nawdd ei Bencendl, ymhob Cyffro Gwlad, ag ymhob dygyynnull Gwlad a Chenedl, heb na rhaid na gofyn am wybodaeth amgen na golwg ar y Gwiscaedr neu'r Dygiawdr, ac o hynn medru o bob gwr ar ei le ai ansawdd lle ydd ymluyddai, yn rhaid Gwlad a Chenedl. a gwr a fu gynt ai enw Benwyll yn dysgu Celfyddyd Arfau, a goreu o neb a fu erioed oedd efe ar y gelfyddyd honno,

ac a wnaeth ddosparth warantedic arni, nid amgen na lliwiau, a lluniau, a rhinweddau, ac ymadroddion teilyngion; mal y gweddai ac ai dylit ar gelfyddyd a Chyfarwyddyd, ac ar bob Gwybodau Teilyngion, ac ni ddysgodd nebryw genedl gelfyddyd y Benwyll hwnnw herwydd ei dosparthau ai chyfiawnder namyn Cenedl y Cymry a Gwyr Ffrainc.

MAELGYN HIR.

MAELGYN Hir o Lan Dâf Bardd Teilo Sant, ac ewyrth brawd Mam iddaw, a roddes Diroedd yn Llan Daf i Deilo lle y gwnaed Gwyndy Teilo, a'r Maelgyn hynny oedd Athraw Talhaearn Fardd o Gaerllion ar wysg. ag yno y gwerddyfnwys efe Gadair Caerllion a Morganwg a Gwent a chadair Maelgyn ai gelwid, gwedi hynny y bu Merddin Emrys yn dysgu Cerdd dafawd a Gwybodau Barddas au haddair yng Nghadair Maelgyn Hir. a'r amser hynny ydd oedd Don Brenin Llychlyn ai Fab Gwydion yn arwain Teyrnedd Gwynedd a Mon, a danfon Cennadon anrhydeddus o Fon at Faelgyn iddei wahawdd ef i ymofwyaw a Gwydion mab Dôn, yng Nghaer Dyganwy, ag yno ydd aeth lle a'i trefned ef yn Athraw ar wybodau Barddas a Chelfyddyd Cerdd dafawd, ag efe yn myned yng Ngosgordd Don a Gwydion drwy Fôr i Ynys Mon efe a ynnilles y Cadeiriau y ffordd y cerddau ag y canai, aeth o'r diwedd yn gas ryingtho a gwyr y wlâd au gwyr wrth gerdd dafawd, a Gwyddelod Mon ai lladdws ef.—(Ll^r. Sion.)

TALHAIARN.

TALHAIARN Tad Tangwn a fu'n arwain Cadair Urien Rheged yng Nghaer Gwyroswydd, wedi gyrru'r Gwyddelod o Dir Gwyr a Charnwyllion ar Cantref bychan a'r Cantref is Cennen, ar gadair honno yng Nghaer Gwyroswydd sef ystym llwynarth lle gnottai Urien Rheged ei Lys Gwlad a Theyrnedd.—(Ll^r. Sion.)

TALIESIN.

TALIESIN Ben Beirdd wedi marw Talhaiarn a fu'n arwain Tair Cadair, nid amgen Cadair Caerllion ar wysg, a Chadair Rheged

yng Ngwyroswydd. a Chadair y Gorllewin ym Mangor Deifi, yn Nawdd Cedig ap Caredig ap Cyneddaf wledig, gwedi hynny gwa-hodded ef i gyfoeth Gwyddnyw ap Gwydion yn arllechwedd arfon a chael braint yno ar Dir a daear, ag yno ymansoddi hyd yn amser Maelgwn Gwynedd, llam y dygwyd hynny oddiarno. ag yno y canes Taliesin ei felldith ar Faelgwn ac ar oll a feddai, yna daeth-oedd y Fad felen i Ros a'r neb a'i gwelai, dir iddaw ei olaith, a hynny yn anesgorawl, a Maelgwn Gwynedd a'i gweles drwy dwll y clo yn Eglwys Rhos, ag a fu farw o'i gweled. a Thaliesin a ddaeth yn ei ôl i Gaer wyroswydd at Riwallon ap Urien yn ei oedforion ddyddiau. a gwedi hynny ymweled a Chedig ap Caredig, ap Cyneddaf Wledig lle bu farw, ag yno y claddwyd ef, yn an-rhydeddus fal y gweddai ymddwyn parth ag at wŕ o Brifddoeth-ion Cenedl y Cymry. a goreu or goreuon oedd Taliesin Ben Beirdd am bob gwybodau Llên a Doethineb a Chelfyddyd Cerdd Dafod. a phob Gwybodau Bydolion a Dwyfolion. ag fal hyn y ter-fyn y gyfarwyddyd am Brif Feirdd Cadair Caerllion ar wysg a elwir yn awr Cadair Morganwg.—(Ll^a. Sion.)

TAIR GORMES GWYDDYL.

TAIR Gormes Gwyddyl a fu yng Nghymru a Gwyr a chymmaint ag Un Teulu a'u gwardawdd y Tair, nid amgen Teulu Cyneddaf Wledig. Cyntaf y bu yng Ngwyr ym Morganwg. sef yno y daeth Ceian wyddel ai feibion ag ynnill y wlad ai goresgyn deunaw mlynedd a'r hugain. a Chyneddaf wledig ag Urien fab Cynfarch au gorfyddawd . au lladd hyd ymhen y naw o honynt a gyrru'r lleill ir Mor. yna rhodded Teyrnedd y wlad honno i Urien fab Cynfarch. ai galw Rheged, am ei rhoddi gan wirfodd Cymry'r wlad honno yn Anreg iddaw, ag o hynny y Gelwid ef Urien Rheged.

Ail Aflech Goronawc a ddug Arth Mathrin yn ormes, yna pri-odi Marchell ferch Tewdric Brenin y wlad honno. ag o hynny ynnill bodd y Wlad, ai chael yn gyfoeth ym mraint y briodas. ag yno'r gwehelyth yn aros fyth yn un a'r Cymry.

Trydydd. oedd Don (a Daronwy medd eraill) Brenin Llychlyn a ddaeth hyd yng Ngwerddon ag ynnill Gwlad yno, a chweddi hynny efe a ddug hyd yng Ngwynedd drigain mil o'r Gwyddyl a'r Llychlynwys, ag yno gwarseddu hyd ymhen can mlynedd a naw ar hugain. yna daeth Caswallawn lawhir ap Einion Yrth. ap Cyn-

edda Wledig i Fon ag a ddug y wlad oiarnynt a Lladd Syrigh Wyddel yn y lle a elwir Llan y Gwyddyl ym Môn. Ag eraill o feibion Cynedda wledig au gwrthladdasant yng Ngwynedd a'r Cantref Ag ym Mhowys. ag a aethant yn dywysogion yn y Gwledydd hynny. A Mab y Don hwnnw oedd Gwydion Brenin Môn ag Arfon. ag efe a ddysges wybodau llyfrogion gyntaf i wyddelod Môn a'r Werddon. yna yddaeth Mon a Gwerddon yn oreuglod am wybodau. a Seiniau.—(O law Iolo Morganwg.)

NAW CYFF CYFFRO BEIRDD BEDYDD YNYS PRYDAIN.

TRI phrif-feirdd Bedydd Cenedl y Cymru. Madoc ap Morfryn o Gaerllion ar wysg. a Thalesin ap Enwg Sant o Gaerllion ar wysg, A merddin Emrys o Faes Aleg yng Nglywysyg—ag ar eu hol y bu Talhaiarn Sant Tad Tangwyn, A merddin ap Madoc, Morfryn. A Meugant hên o Gaerllion ar wysg, ag ar eu hol hwy y bu Balchnoe Bardd Teilo yn Llan Daf. a Chattwg Sant, a Chynddylan Fardd. A'r Naw hynn a elwir Cyff Cyffro Beirdd Bedydd Ynys Prydain A Thaliesin yn Ben Cadair arnynt y Naw. ag achos hynny y gelwir Taliesin yn Daliesin Ben Beirdd y gorllewin, a'r Naw gorddodogion y gadair fedydd hefyd au gelwir ys ef nis gellir gorddod gadarn ond o deirblwydd i deirblwydd hyd ymhen y Tri-theirblwydd ys ef hynny y naw mlynedd. a Chadair y Ford Gronn hefyd au gelwir, ac ymraint gorddod y Ford gron y bu Gildas Brophwyd a Chattwg ddoeth o Lancarvan yn Feirdd a Llywarch Hen ap Elidir Lydanwyn, ag ystudfach Fardd, ac ystyffan Fardd Teilo.—(O Drioedd Dosparth y Ford gron.)

GWEDDI TALHAEARN, RHAI AI GALWANT GWEDDI'R ORSEDD.

Dyw rho nerth ;
 Ag o nerth, pwyll ;
 Ag o bwyll, Gwybod ;
 Ag o wybod, y cyfiawn ;
 Ag o'r cyfiawn, ei garu ;
 Ag o garu, caru pob peth ;
 Ag yngharu pob peth, caru Dyw .

Talhaearn Tad Tanwyn ai cant.

LLYMA WEDDI'R ORSEDD O LYFR ARALL.

DYRO Dduw dy Nawdd ;
 Ag yn nawdd, Nerth ;
 Ag yn nerth, Deall ;
 Ag yn neall, Gwybod ;
 Ag yngwybod, gwybod y cyfiawn ;
 Ag yngwybod y cyfiawn, ei garu ;
 Ag o garu, caru pob hanfod ;
 Ag ymhob Hanfod, caru Duw.

Duw a phob Daioni.

LLYMA WEDDI'R ORSEDD O LYFR TREHAEARN BRYDYDD
MAWR.

DYRO Dduw dy nawdd ;
 Ag yn nawdd, Pwyll ;
 Ag ymhwyll, Goleuni ;
 Ag yngoleuni, Gwirionedd ;
 Ag yngwirionedd, Cyfiawnder ;
 Ag ynghyfiawnder, Cariad ;
 Ag ynghariad, Cariad Duw ;
 Ag ynghariad Duw, pob Gwynfyd.

Duw a phob Daioni.

LLYMA WEDDI'R ORSEDD, A ELWIR GWEDDI'R GWYDD-
ONIAID.

Dyw dy nerth, ag yn nerth Dioddef ;
 A dioddef dros y Gwir, ag yn y Gwir pob Goleuni ;
 Ag yngoleuni pob Gwynfyd, ag yngwynfyd Cariad,
 Ag ynghariad Dyw, Ag yn Nuw pob Daioni.

Ag felly terfyna.—O Lyfr Mawr Margam.

LLYMA DDAROGAN PEREDUR BARDD PRYDAIN.

PAN fo ewyn cynllwyn bro gwarthefin
 A galar a gwasgar y gilbant werin

Gwynfyd ei fyd genau yn gyfrwydd gyfrin
A lefair dri gair or heniaith gyssefin

Peredur Fardd ai Cant.

(MODD ARALL)

LLYMA BENNILL CADAIR GORSEDD ALBAN ARTHAN.

PAN fo cwyn cynllwyn Bro Gwrthenin
Dan ysgar gwiail y gilbant werin,
Gwyn fyd y geneu yn gyfrwydd gyfrin,
A lefair Tri gair o'r heniaith gysefin.

Merddin Emrys ai Cant.

DON BRENIN LLYCHLYN.

OED Cris CCLXVII. y dug Don Brenin Llychlyn a Dilyn a ddug y Gwyddelod i Wynedd lle buant gant a naw ar hugain o flynyddau. a Gwydion ap Don a fu yn enwog dros benn am wybodau a Chelfyddydau. Ac a ddysgodd gware hud a lledrith gyntaf i'r Cymry, ag efe a ddug wybodaeth ar lythyr i'r Werddon ag i Lychlyn. (Twrog.) a gwedi gwladychu o'r Gwyddelod a'r Llychlyniaid yng Ngwynedd Ganmlynedd a nawmlynedd ar ugeint y daethoeddynt feibion Cynedda Wledig or Gogledd i Wynedd ag a drechasant ar y Gwyddyl a'u cilyddion ag au gyrrasant ar ffo i Ynys Manaw. Ag yng Ngwaith Cerrig y Gwyddyl y bu lladd arnynt, a Chaswallon Lawhir a laddes a'i gledd ei hun Syrigi Wyddel ab Mwrchan, ap Eurnach hen ap Eilo ap Rhechgyr ap Cathbalug, ap Cathal, ap Machno, ap Einion, ap Celert, ap Math, ap Mathonwy ap Trathol ap Gwydion ap Dôn Brenin Mon ag Arfon a'r Cantref a Dilyn a llychlyn, a ddaeth i Ynys Fôn ganmlynedd a nawmlynedd ar hugain cyn dyfod Crist ynghnawd

Eurnach Hên a fu'n ymladd Gledd yng Nghledd ag Owain Vin-ddu ap Macesen Wledig yn Ninas Ffaraon, ag efe a laddodd Owain, Owain a laddodd ynteu

SERIGI.

SEF gwedi myned o Wyr Rhufain o Ynys Prydain y Cymmerth Serigi arnaw unbennaeth Môn a Gwynedd ar Cantref. a chymmaint gormes y Gwyddelod oni orfu danfon cenhadon at Gunedda wledig sef y danfones ef ei feibion i Wynedd ag yna

gyrru a wnaethant y Gwyddyl ar ddisblaid eithr ym Mon lle yddoeddent yn Genedl A Serigi yn Frenin, ag efe a ddaeth A llu cadarn hyd yngwryfai yn Arfon er ymladd a Chaswallawn, sef ai gyrred yn ol i Fon gan Gaswallawn, ag ai lladded yngherig y Gwyddyl ym Mon. Yna Caswallawn a gwehelyth Cunedda a ddodasant Saint ym Mon i ddysgu'r ffydd yng Nghrist a throedd i'r Cymry a ddyged yno o Ddyfed a Gwyr a Gwent. Yna myned o Fon yn folianus am ei Seiniau a'r gwyr doethion a dwyfolion a gaid ynddi

GWYNEDD.*

GWDION Wyddel, ap Don, ap Dar ap Daronwy, ap ap Urnach Wyddel o Ddinas Ffaraon a las gan Owain Vinddu ap Maxen Wledig, a'r Urnach hwnnw a ddug Ugain Mil o'r Gwyddelod i Wynedd o'r Werddon lle tiriasant ag a fuant yno ganmlynedd a naw ar hugain

Mab Urnach oedd Syrigi Wyddel, ag ef a las yng ngherig y Gwyddyl ym Mon gan Gaswallon lawhir ap Einion Yrth ap Cynedda Wledig yn Amser Owain ap Maxen Wledig, ag ar lawr y Difalldrain y cad mab bychain o frawd i Syrigi Wyddel, nid amgen na Daronwy ap Urnach Wyddel o Ddinas Ffaraon. a Phendefig Urddasawl o fewn a dosturies wrth y mab bychain rhag ei deuced ai ymddifatted. Ag ai mages mal yn un oi blant ei hunan. Ar Daronwy hwnnw a fu wedi hynny yn un o dri gormes Mon a faged ynddi, sef adymlyyddu a'r Gwyddyl a wnaeth ef, a dwyn y bendefigaeth o iar ai dylai o Gymro nid amgen na * * * * *

DEWI SANT.

DEWI fab Sandde, fab Cedig, fab Caredig, fab Cynedda wledig, efe a symedes ei Wyndy o Gaerllion ar wysg hyd ym Mynyw hen yng Ngheredigion, agwedy hynny y rhoddes ei hendar Ynyr o Gaer Gawch iddaw ei holl dir Breiniawl nid Amgen na Phebydiawc, ai Pherthynasai, yna Dewi a Symudes ei Wyndy ir wlad honno rhag cyrch Saeson paganiait ac a wnaeth ysgol ag

* O hen Lyfr Achau,—*medd Iolo Morganwg.*

Eglwys yno er dysgu Dwyfoldeb a Gwybodau dwyfolion ir Cymry lle ddoeddynt wedi myned ar Dranceoll Achos hynny y gelwid y wlad honno Pebydiawc achaws Dewi oedd Bab ar y wlad honno.

MAEN CETTI.

MAEN Cetti ar gefn y Bryn yngwyr, a addolid medd yr hen draddodiad, gan y Paganiaid, ond Dewi ai holltodd a chledd yn brawf iddynt nad oedd ynddo ddim Dwyfoldeb, ag a erchis i ffynon darddu dan y maen a hi a darddwys. a chwedi hynny y rhai a fuant cyn hynny'n anghedinwyr a gredasant ag a dderbyniasant y ffydd ynghrist. y mae Eglwys gerllaw a elwir Llanddewi lle meddant y bu'r Sant yn beriglor cyn ei gyssegru yn Escob, ar Eglwys hynnaf yng Ngwyr ydyw hi, a phan aeth efe'n escob yng Nghaerllion or wysg, efe a osodes wr a elwid Cenydd ab Aneurin ab y Caw yn ei le ef yn Llanddewi ar Cenydd hwnnw a wnaeth Eglwys a elwid Llangennydd, a brawd iddaw a elwid Madoc a wnaeth Eglwys Llan Madoc.

DWYNWEN.

CYWYDD i Ddwynwen Santes i geisio ganthi wneuthur llatteu-aeth rhyngtho a Morfydd—Dafydd ab Gwilym ai cant
Mae'r Cywydd hwn yn dechreu fel y canlyn,

“Dwynwen deigr danian* degwch
Deg wŷyr o gor fflamgwyr fflwch”
Dy ddelw aur, dy ddoluriaw
Digion druain ddynion draw
Dyn a wilio gloywdro glan
Yn dy gor Indeg eirian
Nid oes glefyd na bryd brwyn
A êl ynddo o Landdwyn, &c.

Y mae y Prydyddion cymreig yn galw Dwynwen yn Dduwies neu Santes Cariad a Serchogrwydd fal y galwai y Pöetau Venus
Nota in M.S. D Jones Vicar Llanvair Dyffryn Clwyd
1587.—(L. M.)

* Arien MS D Jones a L. M.

Yr oedd yn amser D. ab Gwilym Ddelw euraid i Ddwynwen yn eglwys Llanddwyn, ym Môn, lle y gwerthai'r Monachod rinweddau'r Santes—(L. M.)

Maelir Dafodrill a garodd Dwynwen, ferch Brychan Sant, a hi a'i carodd yntef. Ag ef a'i ceisiodd yn amhriod ag nis cai, am hynny Maelon a gadawodd drwy gased ag ai gwarthaoedd, a hynny a fu yn achos dirboen gofid a galar iddi. Ac un noswaith mewn coed hi a weddiodd ar Dduw am wellhâd o'i chariad, a Duw a ymddangoses iddi yn ei chwsg, a a roddes iddi ddiod peraidd, yr hwn a'i gwellhaodd, a hynny yn gwbl iach; ag a welai roddi'r un ddiod i i Faelon yr hyn a'i rhewodd yn iâ.

A Duw a roddes ei harch ar dri pheth iddi, a hi a archodd yn gyntaf dattrew ar Faelon, ac yn ail gael gwrandewyd ar ei gweddiau dros fyth ymhlaid serchogion cywirgalon, fal y byddai iddynt y naill a'i cael ei cariadon, al cael gwellhâd o'u cariadgur; ag yn drydydd nas byddai raid iddi wrth wr byth: a hi a gafodd y tair arch. Ag am hynny hi a gymmerth arnhi'r Leianaeth, ag a aeth yn Santes; a phob cywirgalon ar a weddiai arni a gai y naill ai ymwarded oi serch ai meddiannu'r Cariaddyn—(Llyfr Huw Huws, Fardd o Fon.)

Dwynwen oedd un o Ferched Brychan Brycheiniog Tywysog o Wyddyl yr hwn a gafas Frenhiniaeth y wlad a elwir yn awr ar ei enw ef Brycheiniog; ai welygordd oeddynt oll yn Seintiau a Santesi—(L. M. yn Llyfr Huw Huws)

Chwi a welwch wrth ysmalhawch y Bardd mai y ychydig ffydd oedd ganddo ef yn rhinweddau y Santes—L. M.*

BRYNACH WYDDEL.

BRYNACH Wyddyl oedd frenin Gwynedd nid amgen na Manaw a Mon ag Arfon, ag efe oedd y cyntaf O frenhinoedd y gwledydd

* Myfi, Taliesin ab Iolo, a ysgrifennais y darn rhagflaenedig o'r Cywydd, ynghyd a'r sylwadau arno, i maes o ysgrif yn llaw fy Nhad,—Iolo Marganwg; a honno, mae'n debyg, yn dynnedig gantho yntau o Lyfr Huw Huws, (yn llaw Lewys Morris.) Mae nodau cwrr dalen a darlenniadau gwahanol, gann Lewis Morris, yn aml, gyda'r Cywydd.

hynny a gafas y ffydd yng Nghrist a chred a Bedydd i ar law Rhidian Sant o dir Gŵyr a Reged. ag efe a wnaeth Eglwysydd gyntaf yng Ngwynedd. ag a fynnes ddodi Cred a Bedydd ar Gymry a Gwyddelod y Gwledydd a bieuffai ef. sef yn Amser yr Ymherawdr Maxen Wledig ryttoedd. ac ymladd a bu ryngtho ef ag Owain Vinddu ap Maxen Wledig am Bendefigaeth Gwynedd nid amgen na Maw a Manaw a Mon ag Arfon, A'r Cantref, ar naill a laddes y Llall, ag yn Ninas Ffaraon y bu hynny, a'r gwaed ar y main hyd yr awr honn.

Y FUWCH LAETHWEN LEFRITH.

Y FUWCH Laethwen Lefrith, o roddai Laeth eu gwala i bob un ai ceisiai ag er y godreïd arni ni chaid diffyg un amser, ac er maint y nifer ai godrai, a gwr a yfai oi Llaeth a elai'n iach o bob dolur. ag yn ddoeth lle buasai annoeth, ag o ddiriaid e elai'n ddedwydd ac o amgylch y byd y cerddai a bynnag o le ydd elai hi a lenwai ai llaeth y maint Llestri a gaid, ag a gadewai Loi ar ei hôl i bod doeth a dedwydd, ac o heni y cafwyd gwartheg blithion i'r holl fyd, gwedi treiglau holl Ynys Prydain er Bendith a daioni ir wlad ar genedl, hi a ddaeth hyd yn Ystrad Tywi, a chan deuced a gwyched ei gwedd e fynnai wyr y wlad ei lladd ai bwytta a phan oeddent ar ergyd ei lladd, hi a ddiflanes o rwng ei dwylaw a mwyach nis gwelwyd fyth. a thy fyth sydd yn y lle a elwir y *Fuwch Laethwen Lefrith*.

HUD A LLEDRITH.

CERDD Hud a Lledrith a fydd honno lle bo ymrysonau a Chyfariaith nifer o ddyniadon ynddi dan ledrithoedd amgen o fraint a gradd a chyflwr nag y byddant herwydd gwirionedd, a phob un yn ei radd ai gyflwr Lledrith yn ymryson ag arall ynghwrth neu ym mhlaid yr hynn a ddodir yn gyff ymryson rhyddynt, er dangos a fo cyfiawn ag anghyfiawn, a diddan ag anniddan ar a fo ryddynt, parth digwydd a gwrthddigwydd. a rhyw a gwrthryw, a rhaid a gwrthraid er diweddu fal y y dylyddai er anrhydedd a gofr i bob iawn a gwaradwydd a cholled a chosp i bob amgen na Iawn. ag aflwydd i bob drwg o gamp a gweithred a Chynneddf, a Llwydd i bob daionus arnynt. Ag arddull hawl ag ateb y trefnir y gerdd

gwrth a phlaidd, plaidd a phlaidd, a gwrth ag yngwrth Modd ybo ar Lun a chyfrith gwir parth y bod a'r digwydd yn y cant euhudo awelont o ddechreu hyd ddiwedd yn y bont yn credu mai Gwir y cwbl o'r arddangos dan ledrith. ag am hynny Cerdd Hud a Lledrith a gware Hud a Lledrith ag ymryson Hud a lledrith a'i gelwid yn yr hen amser a Thwmpath Hud a Lledrith y lle ar gwyr ai dangoso ai gelwir yn awr. a gware miragl.—(O “Rywiau Cerdd Dafawd herwydd yi Ceinmyger o Lyfr Ieuan fawr ap y Diwlith.”)

PRIF GYFOETHAU GWLAD GYMRY.

1. GWENT o Afon Wysg hyd Bont Caerloyw,
2. Morganwg o Afon Wysg i Ystrad Tawy,
3. Rheged o Ystrad Tawe i Ystrad Tywi,
4. Dyfed o Ystrad Tywi hyd yng Nglyn Teifi,
5. Ceredigion o Ystrad Teifi hyd y Mor ag Amddyfi a'r Cantref Orddwyf.
6. Gwynedd, o'r Cantref Orddwyf hyd Fenai ag am Aerfen a Theyrnllwg.
7. Teyrnllwg o Aerfen hyd Argoed Dernwenydd.
8. Deifr a Bryneich, O Argoed Derwenydd hyd Afon Drenn.
9. Argoed Calchfynydd rhwng Trenn ag Afon Dain nid amgen nag Afon Lundain,
10. Fferyllwg, rhwng Gwy a Hafren.
11. Powys am Aerfen a Gorthir Teyrnllwg, a Therfnau Fferyllwg, Ar Cantref Orddwyf.
12. Brycheiniog o Flaenau Gwy hyd am Wysg a Therfnau Fferyllwg.
13. Caint am afon Dain ar Mor Tawch hyd Terfynau Arllechwedd galedin.
14. Arllechwedd Galedin o hynny hyd Derfynau Dyfnaint ag am Derfynau Gwlad yr Haf ag Argoed Calchfynydd.
15. Dyfnaint a Cherniw o Arllechwedd Galedin hyd y moroedd cyfrwng, a Mor Udd.
16. Gwlad yr Haf o Afon Goreifion am y Terfyn a Chyfoeth Calchfydd ac am Afon a Fferyllwg a Gwent hyd For Essyllwg a elwir mor Hafren hyd am y Terfyn a Dyfnaint a Chernyw.
17. * * * * * [colled dalen yma.—Llyfr Mr. Cobb, o Gaer Dŷf.]

PYMTHEG LLWYTH GWYNEDD.*

YN amser Hywel Dda Brenin Cymry oll y Breiniwyd pymtheg Llwyth o Briflwythi Ynys Prydain ym mraint Cenedl y Cymry. sef y mynnws Hywel Dda ap Cadell ap Rodri Mawr ag efe yn Frenin Cymry oll, adnewyddu a Gwellhau hen Gyfreithiau Cenedl y Cymry y rhai a fuant er amser Dyfnwal moelmud ap Dyfnfarth ap Prydain ap Aedd Mawr a galw ar Bencenedloedd Cenedl y Cymry attaw i'r Ty Gwyn ar Daf yn Nyfed. ac achos llygru llwythau Gwynedd a Mon a Lledach o'r gwyddelod a gwyr Llychlyn ni chaid yno amgen na phymtheg Penteulu o brif lwythau Cenedl y Cymry, yn ddiledach diledryw, y peris Hywel eu Breinio a'u Llwythau o Baladr yn Bymtheg Llwyth o Bendefigaeth Cynwydion, a Braint lle a llafar iddynt ym mhob Gorsedd Dygynnull, a phob Llys Gwlad ac Arglwydd yn Ynys Prydain ac yn yr un amser y Breiniwyd ar Bywys pedair Gwelygordd ar hugain o Brif welygorddau diledach. a braint lle a llafar iddynt ym mhob Llys Gwlad ag Arglwydd ac ym mhob gorsedd Dygynnull yn Ynys Prydain, ac a ddodes Ddeddf arnyn gadw a Chynnal Rhol achau yn ddosparthus modd y gwneid yn Neheubarth a Morganwg a Gwent mal y gwypid Teilyngdod a Bonedd Pencenedloedd ac o hynny Braint iddynt a fai dyledus. ac fal hyn y dechreuwyd Cof gwarantedig ar achau ag Arfau Bonedd yng Ngwynedd a Phywys, a Hywel Dda n ei ddoethineb yn trefnu Llyfr a elwid Bonedd Gwŷr y Gogledd nid amgen na Bonedd Llwythi Gwynedd a Mon. a Gwelygorddau Pywys.

BLEGYWRYD.†

“A GWEDI trefnu Cyfraith a weddai ar Wlad a Chenedl y Cymry herwydd a ellit gan farn Athrawon a doethion herwydd gofynion y ffydd yng Nghrist a Dosparthau Gwlad a Chenedl addwyn efe a ddodes ar Flegywryd ap Morgan Mebydd Llandaf eu rhoi ar ddu a gwyn mewn llyfrau a Rholau dosparthus a chyda hynny ar goelfain, au doddi yn Arwisg hyd Wynebau parwydydd ei Lys a Neuadd yr Ynad mal y gallai ac y caffaint a chwennychaint eu gweled au darllain au rhoi ar grawenau Mal au gwypid gan bawb o Genedl y Cymry herwydd yr achos a'r gofyn.

* O Lyfr Antoni Powel, o Lwydarth, Tir Iarll.

† O Dderynau Evan Evans, Llyfr Plas Gwyn ym Mon.

IEUAN FAWR AP Y DIWLITH.*

“BEIRDD Tir Iarll yn cyrchu Twmpath Diwlith ar Fynydd Margam un bore dydd Gwyl Ieuan yr hâf er cynnal Cadair wrth Gerdd Dafod, a gawsant faban newydd geni yn fadfyw ar y Twmpath, Rhys ap Rhiccart ap Einion ap Collwyn ai cymmerodd, ag adref ag ef, ai roi dan ofal mammaeth; bu fyw'r plentyn, rhoddwyd ysgol a chreffft ysgolaeth iddo. efe a gymmerodd ei ddysg mor awyddfawr ag y cymmerai blentyn Laeth bron ei Fam; ag yn ebrwydd yn ei oedran gwelwyd ef yn blaenu ar holl athrawon Cymry. llyfr a wnaeth ef un oedd Llyfr Cadwedigaeth y Gymraeg a Cherdd Dafod ag a berthynai iddynt parth braint a defod gwlad a Chenedl a Barn Doethion efe a wnaeth y grealau a'r Mabynogi a Llyfr y naw gloes ar pedwar addurn ar hugain, a Llyfr Dammegion, a llawer Llyfr arall; gwnaeth hefyd gof a chadw ar wybodau Doethineb ac ar gyfreithiau Cenedl y Cymry. rhodded enw Ieuan ap y Diwlith arno am ei gael fal a wedwyd o'r blaen ar Dwmpath Diwlith Bore Gwyl Ieuan yr hâf ac am mai gwr Mawr ydoedd, Gelwid ef Ieuan fawr ap y diwlith. Byw a marw yn Llangynwyd lle ai claddwyd ef ym mhllith Teulu Llwydarth. aeth y gaer mai mab ym mhob tebygolaeth oedd ef i Rys ap Rhiccart ap Einion o Bendefiges uchel ei gwaed. a phan honnid hynny lle byddai ni wnai ef amgen na thewi a gadael i hynny fod.” (Llyfr Cofion Ieuan Bradford o Lyfr Antoni Pywel o Lwydarth yn y Goetre Hên.)

TRIOEDD YR ADDURNAU.

1. Tri enw Addurn Awen, Goleuni'r Deall, diddanwch y Pwyll, Ag athraw gwybodau.
2. Tri enw Addurn Pwyll, Canwyll yr Enaid, Cadernid Doethineb, a gloywder gwybodaeth.
3. Tri enw Addurn Doethineb, Harddwch y nefoedd, Cadernyd diddanwch, a Gair Duw.
4. Tri enw Addurn Deall; Llygad awen, Clust y Pwyll, a Llawddeau'r myfyrdawd.

* Yr oedd Ieuan ap y Diwlith yn byw ynghylch y flwyddyn 1160 neu o hynny i 1180.—*Iolo Morganwg.*

5. Tri enw addyrn Gwybodaeth, Cadernyd y Byd, Llawenydd Doethion, a Rhad Duw.

6. Tri enw addurn Duw; Brenin y Nefoedd (enaid y bydoedd,) Tad Bywydoldeb, ag Anfeidroldeb Cariad

7. Tri enw addurn y Nef; Bywyd, Gwynf, a Thangnef.

8. Tri enw addurn yr Haul; Canwyll y Bydoedd, Llygad y Dydd a hoywder y nefoedd.

9. Tri enw addurn y Lleuad; Huan Nos, y Gannaid, Haul y Tylwyth Teg.

10. Tri enw addurn y Ser; Llygaid hinion, Canwyllau'r Nef (Duw) a Gemmau'r wybren.

11. Tri enw addurn y Môr; Maes Gwenhidwy, Llys Neifion, a Ffynon-Wenestr. (a Glwyth Byd.)

12. Tri enw addurn y Tonnau; Defaid Gwenhidwy, Dreigiau'r Heli, a Blodau'r Eigion.

13. Tri enw addurn y Hâf; Marchog Serch, Tad y Nwyf, Ceidwad yr Ynial.

14. Tri enw addurn y Gwynt; Drud Byd, Saer y dryccin, a Hyrddiwr y Bryniau.

15. Tri enw addurn y blodau; Gemmau Gwydd, Ceinion Haf, a Llygad y Tes.

16. Tri enw addurn y llysiâu; Mantell Hâf, Wyneb harddwch, a neuaddlawr serch.

17. Tri enw addurn y Tes; wyneb (Gwên) llawenydd, Eli'r Nef, a Gwen (wyneb) Serch.

18. Tri enw addurn Awen, bywyd gwybodau, enaid pwyll, a Dawn Duw.

19. Tri enw addurn Cydwybod; goleuni'r nef, Llygad gwirionedd, a Llafar Duw.

20. Tri enw addurn gwybodaeth; Llwybr (llwybrau) Gwirionedd, Llaw (dwyllaw) 'r pwyll a chadernid awen.

21. [Ond y mae y rhelyw yn eisiau.—AB IOLO.]

LLYWELYN BREN.

LLYWELYN Bren Hen, a elwir Llywelyn Hagr, a dorres lawer o Gestyll y Pendefigion, nid amgen Castell St Iorys. Castell Aber-silli, Castell Tregogan, Castell Ffwg ab Gwarin, Castell Aberbarri, Castell Llandathan, Castell Maes Essyllt, Castell Cynffig, Castell Rhuthyn, Castell y Gelli Garn, ag un Trefflemin. Ac efe

a laddwys gymmaint o'r Saeson a'r Ffranod hyd nis gellid cael ar Sais gymmaint a chyffwrdd meddwl aros ym Morganwg. Ag yn yr amseroedd ydd oedd ym mhob Tref a Phentref Unswd o Swyddwyr a elwid Meiri Gwared, a Llywelyn Hagr a fynnws weled eu crogi bob un o henynt a gorfu ar y Pendefigion roi heibio'r Swydd, am nas caid un fwy nag arall ai gwasanaethai nag er arian nag er gwerth.—(Llyfr Sion Philip o Dreos.)

GWAETHFOED.

GWAITHFOED Arglwydd Cibion a Cheredigion oedd yn byw yn amser Edgar frenin, A'r Edgar hwnnw a ddanfonos at Dywysogion Cymry ag arch iddynt ymweled ag ef yng Nygharlleon Gawr a rhwyfo ei ysgraff ef ar afon Dyfrdwy, a Gwaithfoed a ddanfonos ateb i Edgar, a dywedyd na fedrai ef rhwyfo ysgraff a pheidi medru nis gwnelai ond er gwared ai brenin ai gwrengyn y byddai rhag angau; Edgar a ddanfonos eilwaith atto, a chyda hynny gorchymyn traws, ag ni roddai ateb enyd ir Gennad, a hwnnw yn ymhywedd am ateb. ac am a ddywedai wrth y brenin. dywed fal hynn wrtho, ebei Gwaithfoed.

Ofner na ofno Angau.

ac yna daeth Edgar atto ef. a rhoi llaw yn Garedig iddo. ac ynhywedd arno bod yn gar a chyfaill iddo, a hynny a fu, ac o hynny maes Gair Cymhwyl a ddeleint o Waithfoed a fu Ofner na ofno Angau, ac arfau Gwaithfoed oedd Tri phen Blaidd gwaed-ddifer am gwpl aur mewn Maes Gwyrdd, hyd amser y Brenin Harri yr wythfed pan y rhodded i wehelyth Gwaifoed Pais Arfau Tywysogion Powys a hanoeddeint o Waithfoed. a rhai o'i wehelyth yn cadw at yr hen Bais arfau fal ac y bu gynt, ar gair Cymhwyl yn air Cymmhell ar y Darian.—(Llyfr Coch Pant Lliwydd.)

BONEDD AC ANFONEDD.

tri lle y kad bonedd ac anfonedd heb na mam na thad yddynt o achos pob ryw fonedd y sydd yn dyfod o ddyw or nef ac yny nef y drecheywyd bonedd ac anfonedd a rydd achaeth,, ac am hyny or nef y dechrywni kans ef a wnaeth dyw ddec gradd o engylion or un defnydd bonheddic,, ar ddegfed radd a syrthioedd o blegid

ier the y kid bonedd ac au
 fanedd heb na man nachad
 yddant o actos pob new fonell
 y fydd yn dyfol o ddyw or nos
 ac ymy nos y deugrywyd bonedd
 ac anfanedd a yll' aq'oty || ac
 amgyny or nos y deugrywne
 faus of arnacty dyw dder grall
 o ongyllion or yn defnydd bougell
 icll ar ddegfol rall a syrthionll

P. 288

ffridabyd d'pedente game
 padr y d'pedente r'p' eawe
 h'wme y d'pedente moidaf
 h'wme maner yn y d'pedente nos,
 arian befallt d'pedente,
 ail dabyd d'pedente y d'pedente
 y d'pedente d'pedente at d'pedente
 y d'pedente y d'pedente y d'pedente
 d'pedente y d'pedente y d'pedente
 vane d'pedente yn y d'pedente



balchedd yr hwn ysdd benaf o naw arwydd tayogrwydd ac y rwymwyd hwynt yn gaeth or kaethiwed a bery byth yn dragywyddawl,, yr ail lle y kad bonedd ac anfonedd yn amser addaf,, o achos y ddyw gray addaf heb na mam nathad yddo megis pren ar y ddayar ac yr pren y bydd dail a risg a ridding ac felly o addaf ac efa y by dri brodyr yn fam yn dad or rwn y bu dday fonheddic ar trydydd yn dayoc kaeth kans kaen a fu dayoc kaeth am ladd abel y frawd o afrwogrwydd kalon a balchder a digofaint

y trydydd lle y kad bonedd ac anfonedd o drimeib noe yn fam yn yn dad kans yn o naddynt a fy arglwydd ar ail a fy wr bonheddic ar trydydd a fu dayoc kaeth,,

a siaffeth ab noe a wnaeth targed gyntaf er ioed a llyn yndi yn arwydd y fod ef ay frodyr yn meddy ar y byd — oll ac wedy hyny ddwyfil o flynyddoedd a daynaw kyn karoni krist ar yr ymladd mawr a fy rwng groec a throya y gwnaethbwyd kotarmer gyntaf er ioed a chyfraith arfay a hono a fy y gyfraith gyntaf a wnaythbwyd er ioed eithr priodos kans dyw y hun awnaeth priodas gyntaf kyfraith arfay a wreiddiwyd wrth naw radd yr engylion or nef y rai a goroned a naw amrafel fain gwyrthfawr a naw amrafael liwiay a naw amrafael rinwedday arnynt,, sef y maen cyntaf a elwir topasiwn a hwnw y sy faen semi ac ayr y gelwir ef mewn arfay,, a rinwedd y maen hwn yw gwr bonheddic ay dyko ef ar fatel kenhadwr cywir a fydd y frenin yr hwn ryw faen a oedd ynghoron yr angel pan yrwyd lysesffer or nef.

Yr ail maen a elwir ys maragans pwy bynnac a ddyko hwnw mewn ryfel yr hwn y sydd yn arwyddokay myr mewn arfay a rinwedd y maen hwnw y gwr ay dyko ef mewn arfay kryf a chadarn ymatel y frenin a fydd ef a rinwedd y maen yr hwn a fy ynghoron yr angel —————*

ACH DAFYDD DDU GYNLLWYNWR.

DAFYDD Ddu Gynllwynwr, ab Rhys, ab Owain, ab Elaethwy, ab Idnerth ab Riccart ap Caradoc ap Einion ap Cadifor ap Collwyn.

* O Lyfr Du Pantlliwyydd. [Mae'r adroddiad ymma yn darfod yn anghyflawn yn y Llyfr Du.—AB IOLO.]

Daf. Ddu Gynllwynwr a lladdodd dri dyn ar ddeg a gyrchasant arno yng Nghastell Aberafan, ag efe tufewn i ddrws y neuadd a laddai bob un fal y delai ef i'r drws oni laddodd ef unarddeg, a ddilyn dau eraill ar eu eu ffo efe a goddiweddodd Agau lladdodd, ag am hynny y doded arno enw Dafydd ddu gynllwyn. a Dafydd Gynllwynwr.—(Llyfr Watkin Sils.)

DAFYDD AP GWILYM.

ACH Dafydd ap Gwilym.—Dafydd ap Gwilym Gam, ap Dafydd, ap Ieuan, ap Hywel, ap Cynwrig, ap Gronwy, ap Meredydd, ap Madog, ap Iorwerth, ap Llywarch ap Brân. Un o bymtheg Llwyth Gwynedd.—(O dynn-ysgrif Iolo Morganwg.)

Mil trichant meddant i mi y ganed

Yn geneu dan lwyni

Gwr oth hân garw yw'th enwi,

Mab Gwilym Gam cytgam ci.

Rhys Meigen ai cant yn Neuadd Ieuan ab Lleision ym Maglan.—Yn Eisteddfod Llanfihangel Afan medd Llyfr arall.—*Iolo Morganwg.*

HANES DAFYDD AP GWILYM.*

GWILYM Gam o Lanbadarn fawr, yng Ngheredigion, ap Davydd, ap Ieuan, ap Hywel, ag Ardudfyl ferch Gwilym fychan o'r Cryn-gae yn Emlyn, Tad a Mam Dafydd ap Gwilym y Prydyddion oedd-ynt; ag achos rhyw hên wrthymmod cas ydoedd rwng y ddwy wehelyth; ag ni chaid bodd Priodas rwng Gwilym gam ag Ardudful gan un o'r ddau du rhieni, ar ddeuddyn Ifanc yn fawr ei Serch y naill at y llall Beichiogi Ardudful a wnaeth Gwilym gam ag o weled hynny ei thâd ai brawd ai troes o'u Ty ganol nos gaeaf chwerv, a danfon arch at bawb ou ceraint nas derbynient hi dan do neb un o henynt, myned a wnaeth hi lwrw ei phen heb yn waeth Lle nag arall, a Gwilym gam a glybu, a myned ar ei hol ai gorddiweddyd ai chymmeryd gydag ef i Forganwg at Ifor Hael ei Ewythr brawd mam iddo, ag eraill a wedant taw ei gyd frawd

* O Lyfr Efan William, o'r Fferm, yn Llanfleiddan y Bont Faen.

ynghyfraith oedd Ifor Hael, ag ar y ffordd dyfnder nos dan berth mewn Tywydd garw iawn gan wynt a Chesair y ganed mab iddynt yn ei Seithmis a hwnnw oedd Dafydd ap Gwilym, ym mlaen ydd aethant, a thranoeth cyrhaedd Llandaf, lle priodws Wilym Gam Ardudful, ag yna'r undydd y bu hi farw ag ai claddwyd yno, a bedyddio'r mab ar arch ei fam, a llyma ddau Englyn a Gant Wilym i Ardudful uch ben ei bedd.

Cof Ardudful deg câf adfer wawr fwyn
 Ar fynyddd olifer
 Angyles yng ngoleuder
 Uchel y Saint uwchlaw sêr.

Dygn immi'r byd a bod hebddi meinir,
 A'm enaid yn edwi;
 Aele alaeth am dani,
 Wylaf ael rhych ai rhoed hi.

Gwedi gweled pridd ar wyneb Ardudful, myned ym mlaen a Dafydd ei fab bychain at Ifor Hael o Wern y Cleppa ym Maeshaleg, lle bu'n fawr ei roesaw ai rysgwydd lawer Blwyddyn a phan fu farw Dafydd ap Ieuan ei dad, dyfod yn ol i Geredigion a oruc Gwilym Gam ag iddei Dre Tâd yn Llanbadarn ag Enw'r Ty Bro Ginin ag yno byw ar ei Dir ei hunan ai fab Dafydd gydag ef. Gwilym a briodes ail Wraig, a Dafydd ei fab ni allai aros ei Lysfam, am hynny myned yn ol at Ifor hael ei Ewyrth i Forganwg, lle bu mewn parch a chariad mawr; ai Ewythr brawd ei Fam Llywelyn ab Gwilym Fychan o'r Cryngae yn Emlyn a'r Ddol Goch yno, yn gweled Awen Gyferddawn ynddo ai cymmerwys atto ir Cryngae ar Ddol goch, lleoedd y byddai un neu arall o honynt yn byw a dysgu Celfyddyd mydr a cherdd dafod iddo, ag o hynny ydd aeth Dafydd yn Brydydd mawr iawn ei glod, a gwilliaid o Saeson Penfro a ddaethant am ben y ddol goch a lladd Llywelyn ap Gwilym yna Dafydd yn ei ôl i Faeshaleg at Ifor Hael lle bu gan fwyaf hyd farw Ifor Hael a Nest ei wraig o'r haint chwarren yn Nhy Escob Llandaf yn Llangadwaladr yng Ngwent iscoed lle yddoeddent yng ngwesteiaeth, a'r Esgob a fu farw yno gyda nhwy; Dafydd ap Gwilym yn dianc drwy'r haint a ddaeth yn ol i Faeshaleg, ond gan nad oedd yno nag Ifor na Nest myned a wnaeth ar Amdaith i rodfela Cymru, ag hyd ym Mon ag Arfon, ag ar ei droion ym Morganwg, a phan fu farw ei

farw ei Dâd aeth yn ei Dref tadaeth Broginin, yn Llanbadarn fawr, ydd oedd ef erbyn hynn yn dechreu myned mewn oedran, gwedi bod yno amser nid mawr, efe a aeth i Fonachlog Tal y Llychau lle gnawd yn fawr ei barch a'i roesaw, ag yno y bu ef farw ag ai claddwyd wyliau'r Nadolig ym mlwyddyn deugain o goraniad y Brenin Edwart y drydydd, yn hen ŵr o brydydd clodfawr.

Dafydd ap Gwilym a wnaeth wellhâd nid bychan ar fesur Cywydd, gan ganu rhieingerdd yn oreu arno o neb a fu erioed. ag felly terfyna'r gyfarwyddyd am Dafydd ap Gwilym

Ifor Hael a Nest ei wraig a fuant feirw, medd hen Rôl achau, yn Nhy Esgob Llandaf yn Llangadwaladr, a elwir yn awr y Bistwn a Thref Esgob, yng Ngwent. Enw'r Esgob oedd John Pascall, yr hwn hefyd a fu farw yno yr un amser, sef yn y flwyddyn 1361, y 34fed o goroniad Edward y drydydd.

Iolo Morganwg.

Dafydd ap Gwilym a dreulioedd rywfaint o ddiwedd ei einioes ym Monachlog Tal y Llychau, lle y bu farw, ag yno ai claddwyd ef, yn amser y Brenin Edwart y Trydydd, medd Llyfr Achau Thomas Jones o Dregaron.

Bu farw Edw^d y 3^{ad} yn 1377.

Sion Bradford.

Yr achos oedd iddo (Dafydd ap Gwilym) gwympto mewn cariad a Morfydd oedd ei dwyn hi oddiar Herwyr y fynnent anfodd arni.

Morgan Llywelyn, o Gastell Nedd.

Ym Maes y Crugiau ar Lan Teifi y mae Gramadeg o waith Dafydd ap Gwilym, (medd Ben Simon o Lyfr Iago ab Dewi.)

Llyfr Brechva.

LLYMA ENGLYNION MARWNAD DAFYDD AP GWILYM
Y PRYDYDD.*

- 1 DAFYDD a wnae gerdd Dafawd yn goflaid
Oi gyflym fyfyrdawd
Aeth i fedd, eithaf addawd,
Mawr yw ein briw marw ein brawd.

* Hafod MS.

- 2 Wylwn a chwynwn och ini mor wael,
 Marwolaeth Saer Cerddi
 Ni cheir Awen Ddadeni
 Mwy ar waith yn ein iaith ni.
- 3 Am Ddafydd gelfydd goelfin praff awdur
 Prophwydawdd Taliesin,
 Y genid ym mro ginin
 Brydydd ai gywydd fal gwîn.
- 4 Mil meddant trichant trwy ochain irad
 Wyth eraill a thrugain,
 Marw y bu Prydydd mirain,
 Mab gwilym gerdd-edlym gain.
- 5 Ym medd y gorwedd a'r garreg arnaw,
 Mawr ernych gloyw ofeg,
 Accw yn ynys cain waneg
 Lle uwch Dwr, Tal Llychau deg.
- Hopcin ap Thomas ap Einion o Ynys Dawy ai Cant 1380.

GRUFFYDD GRUG.

GRUFFUDD grug, Ym Mhenmynydd Mon Prydydd gwybodus ac awenbell oedd efe, ac efe a fu yn ymgytgan a Dafydd ap Gwilym am ferch ym Môn a honno yn un a garai Ruffudd; a myned yn gas rynddynt, a brodyr Priordy Gwynlliw a ddanfonasant wr A llythyr i Fon a Ddywedai i Ddafydd ap Gwilym farw, Yna Gruffudd a wnaeth Farwnad iddo ar gennad ar ei ffordd i fon wedi danfon gair i Ddafydd bod Gruffudd wedi marw ac yn ol ei Ddymuniad iddei gladdu yn mynwent Ystrad Fflur; lle y dywespydd wrth Ruffudd y Cleddit Dafydd ap Gwilym; ag enwi'r un diwarnod claddu y naill ar llall, Aeth Dafydd yno, a marwnad Gariad i Ruffudd Grug lle y cyfarfu ef a Gruffudd a marwnad garedig i Ddafydd, a rhyfedd a llawen y bu ganddynt gyffwrdd ar naill y llall yn fyw fal hynny ac o hynny hyd angau heddwch a charedigrwydd rhyngddynt.

G WEHELYTH MARCHWIAIL YM MAELOR.

1. EDNYFED ap Gruffydd o Farchwiail.
2. Madawg ap Gruffydd ei Frawd a elwid madawg Benfras.

3. Llywelyn ap Gruffydd, a elwid Llywelyn Llogell Rhison, ac ac efe a wnaeth Englynion Marchwial, o'r hen ganiad, pan fu'r Eisteddfod yno yn amser y Brenin Edward y Trydydd, Ag ym Mraint yr Arglwydd Mortimer.

Prydyddion oeddynt y tri Brodyr, A meibion Gruffydd ap Iorwerth, ap Einion Goch, ap Ieuaf, ap Llywarch, ap Nynniaw, ap Cynwric, ap Rhiwallon, ap Dwngad, ap Tudur, Trefor Iarll Henffordd. (MS. Hafod.)

ARALL.*

MADOC Benfras y Prydydd, ap Gruff, ap Iorwerth, ap Einion goch o Sonlli ym Maelor, ap Ieuaf, ap Llywarch, ap Nynniaw, ap Cynwrig, ap Rhiwallon ap Dingad ap Tudur Trefor Iarll Henffordd.

Un o dri Brodir Marchwial ym Maelor oedd Madoc Benfras, a phrydyddion y Tri, y ddau eraill oeddynt,

Ednyfed ap Gruffudd o Farchwial Athraw Iolo Goch y Prydydd; a Llywelyn ap Gruff, a elwir Llogell Rhison, a Llywelyn llogell. ac efe a wnaeth Englynion Marchwial o'r hen ganiad. Y Tri Brodyr hyn a fuant yn ddisgyblion Llywelyn ap Gwilym o Emlyn pan oedd ar ymgel yn Llys Ifor Hael ym Maeshaleg. a Dafydd ap Gwilym y Prydydd yno gyda nhwy.

Yn amser y Tri Brodyr hynn y bu yr Eisteddfod fawr ym Marchwial, ag yno Prydyddion Gwynedd a Phowys a Deheubarth a Morganwg; er dwyn ar atgof hen gelfyddyd a Chyfrinach Cerdd Dafod. ag oedd ar goll agos yng Ngwynedd a Phowys, ag nid oedd nemmawr a wyddai gelfyddyd a gwybodau Cerdd dafod namyn ym Morganwg. a Môn a Cheredigion, achos colli y Tywysogion a gefnogaesaint y Prydyddion. a'r Tair Eisteddfod Dadeni y gelwir Un Ifor Hael ym Maesaleg, ag un Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol Goch yn Emlyn, ag un Marchwial.

EISTEDDFOD GWERN. Y CLEPPA A BRODYR MARCHWIAL.

COFFADWRIAETH am Feirdd a Phrydyddion. o Lyfr Edward Dafydd Antoni Powel, &c.

Yn amser y Brenin Edwart y III y bu Eisteddfod yng Ngwern y Cleppa dan nawdd a Dawn Ifor Hael; ag i honno daeth Tri

* O Lyfr Theophilus Jones.

Brodyr Marchwiall ym Maelor yng Ngwlad Bowys. a Llywelyn ap Gwilym o'r Ddol Goch yng Ngheredigion—a Thri Brodyr Marchwiall a Dafydd ap Gwilym gyda nhwy a fuant yn ysgolheigion Barddoniaidd Llywelyn ap Gwilym yng Ngwern y Cleppa ys ef Llys Ifor hael. Ag yn yr Eisteddfod honno y doded braint Cadair ar fesur Cywydd lle nad oedd felly o'r Blaen a phan canwyd am gadair Dafydd ap Gwilym a ennillws o nerth Awen a chanu a Chymraeg cynhwynol. Ac o hynny maes braint Cadair i fesur Cywydd deuair a gwisgo Dafydd ap Gwilym ag addurn Cadair Morganwg a rhod enw Dafydd Morganwg, ag yng Ngwynedd ei alw Bardd Ifor Hael. ac o hynny hyd yn awr serchoccaf a goreu o'r holl fesurau y bernir Cywydd, Gwedi hynny bu Eisteddfod dan nawdd Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol goch yn Emlyn ag i honno y daeth Sion y Cent a Rhys Goch o Eryri yng Ngwynedd a thyfu ymryson rhwng Sion y Cent a Rhys goch, goreu ar wengerdd Sion Cent, a goreu ar foliangerdd Rhys goch, a rhodd y blaen a'r Gadair i'r wengerdd ond ni fynnai Sion y Cent ei wisgo ag addurn Cadair Ceredigion a Dyfed eithr i Dduw y rhoddai ef y blaen, am hynny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a ennillw y gadair honn—wedi hynny dodes Llywelyn ap Gwilym ganu er Cadair Ceredigion y goreu am Rieingerdd a Barnu Dafydd ap Gwilym yn oreu, ai wisgo a'r Cae Bedw ys ef addurn Rhieingerdd, yna Llywelyn ap Gruffudd un o dri Brodyr marchwiall a ganodd Englynion marchwiall Bedw briglas ar hen ganiad gwedi hynny y Tri Brodyr a ddodasant Dan Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn Eisteddfod ym Maelor. ym Mhowys yn nawdd Iarll Mortimer dan Goron y Brenin Edwart y trydydd ac yno y canwyd am gadeiriau Ac Enyfed ap Gruffydd a gafas am Gywydd Gwr ac am Englynion byrraf Eiry Mynydd, A Madoc y trydydd brawd a gafas gadair a Chae Bedw am Rieingerdd. A Dafydd ap gwilym a ganodd yn garedig i Fadoc am ei gerdd. Ac yn yr Eisteddfod honno ydd addurnwyd Iolo goch ag addurn cadair am eu wybodau a ddysgws Ednyfed ap Gruffydd parth Gwybodau Cerdd Dafod ai pherthynasau. Ac o'r Tair Eisteddfod hyn y cafad gwellhâd ar gerdd Dafod a Chynghanedd.

CADWGAN Y FWYALL.

CADWGAN y Fwyall oedd yn byw yng Nglyn Rhodne yn amser Rhyfel Ywain ag yn un o Gapteniaid Ywain y Glyn ar wyr Glyn Rhodne, a phan elai Cadwgan i Ryfel rhodio'r glyn a wnai gan

hogi ei fwyall, ag o hynny Ywain a weiddai ar Gadwgan. Cadwgan hog dy fwyall, a chyn gynted ag y clywyd Cadwgan yn hogi ei fwyall, gwelid cynifer o fyw yn wryw a benyw yng Nglyn Rhodne yn ymluyddu atto, ac o hynny hyd heddyw Glawr rhyfel a chad Gwŷr Glynn Rhodne yw Cadwgan hog dy fwyall, ag ar y gair ymgynnyll yn gad a wnant.

OWAIN GLYN DWR.

YN y Flwyddyn oed Crist MCCCC. Daeth Owain Glyn dwr i Forganwg. Ag a ddynlles Gastell a Thref Caer Dydd. a llawer Castell arall, ag efe a dorres Gestyll Pen llin a Llandochau a Thref Flemin, a'r Dindryfan Bwtler, a Thal y Fann, a Llanfleiddan, a Llancwyfan, a Chastell Malffawnt. A Chastell Penmark, ag a losges lawer o'r Pentrefydd ar Eglwysi cylch ag amddynt ag efe a losges Bentrefydd Llanfrynach Ar Aberthin, a llawer o Dai Llanilltud fawr, a lleoedd eraill yn na chodai y Gwyr gydag ef. a llawer o wyr y wlad a godasant gydag ef yn gydgyfysgar, ag a dorrasant Gestyll a Thai yn afrifed a thorri'r tiroedd yn orest benrydd, au dodi'n rydd i bawb. a dwyn oddiar gedyrn a goludogion. a rhoi a ddugai i weinion a thlodion, a gorfu ar lawer o'r Bonedd a'r Pendefigion fyned i Loegr yn nawdd ag ar fwyd y Brenin, ag ymladd creulawn a fu ar fynydd Brynowain wrth y Bont Faen, Rwnge Owain ai'wyr, a Gwyr y Brenin, a gyrrwyd ffo ar wyr y Brenin wedi Deunaw awr yn ymladd caled ar gwaed hyd yn eglwyddydd y meirch ar bant y wenol a rannai ddeupen y mynydd,—(Llyfr y Parch^s. Tho^s. Bassett, o Lann-y-lai.)

SYR LAWRENS BERCLÓS AC OWAIN GLYNDWR.

PAN oedd Owain Glyn Dwr yn Tramwy'r wlad ynghydfelydd Gwr bonheddig dierth a chydag ef ond un cyfaill cywir yn Rhith gwas iddaw, a'r ddau yn anarfog, achos nid diogel nebun Dan arfau yr amser hynny, a Thrammwy er deall edryn Gwyr y wlad ydoedd: felly myned at Gastell syr Lawrens Berclós, a gofyn Lletty noswaith yn ffrangeg iddaw ef ai was; cael hynny yn rwydd iawn, a chael groeso mawr, a goreuon a bob peth yn y Castell, a chan mor foddlon oedd Sir Lawrens idd ei ei gyfaill, bu'n daer arno aros rhai ddiwarnodau gydag ef a dywedyd ei fod yn disgwyl ar fyrr o

ddyddiau gweled Owain Glyn Dwr yno am ei fod wedi danfon allan ei holl Ddeiladon ai weision, a llawer eraill o ffyddloniaid iddo, yng nghyrrh pob rhan or wlad yn wyr twng iddo i gyd, i ddala Owain, yr hwn a glywsai fod wedi dyfod i'r rhannau hynny o Gymru, ai fod hefyd dan dwng ei hunan i roddi gobrwyon anrhydeddus iddei wyr os nhwy a ddelaint ag Owain Glyn dwr yno y naill neu yn fyw neu yn farw, Da iawn yn wir, ebe Owain y byddai diogelu'r Gwr hwnnw, abod gallu yn rhyw rai i wneuthur hynny, gwedi bod ynghastell Syr Lawrens bedwar diwarnod a thair noswaith yn fawr ei barch ai roeso, meddylws Owain mai call fyddai myned iddei ffordd, a chan rhoi ei Law yn llaw. Syr Lawrens, dywed wrtho fal hynn. "Y mae Owain Glyn Dwr, yn gar cywir, heb na digofaint na brad na thwyll yn ei galon, yn rhoi llaw yn llaw Syr Lawrens Berelos, ag yn diolech iddo am y groso ar caredigrwydd ar syberwyd bonheddigaid a gafodd ef ai gyfaill yn rhith gwas iddo, yn ei Gastell, a chan addaw ar lw Llaw yn Llaw a Llaw ar Galon, na ddaw fyth ar feddwl iddaw ddial yr hynn a feddyliodd Sir Lawrens Berelos iddo, ag nas goddefai i hynny fyw ar ei gof, nag ar wybod iddo hyd y bai yn ei allu ym meddwl ag ar gof neb-un o'i geraint ai gymmhlaid," ag ar hynny Owain ai was a gyrchasant eu ffordd a myned ymaith. Ar hynny syrthwys Syr Lawrens Berelos yn fud gan syndod, a phyth wedi hynny ni chafas efe ei oddeg ag ni chlywyd gair byth wedi hynny oi benn.—(Llyfr Mr. Lleison or Prysgr, gan Ifan o'r fferm, yn Llanfleiddan fawr.)

HYNAFIAETH EGLWYSIG.

ACHAU SAINT YNYS PRYDAIN*

1, BRAN Fendigaid ap Llŷr Llediaith a fu'r cyntaf o genedl y Cymry a droswyd i'r ffydd yng Nghrist, ai welygordd ef a fu yn un o dair Gwelygordd Saint Ynys Prydain.

2, Cyndaf Sant gwr o'r Israel a ddaeth i Ynys Prydain gyda Bran Fendigaid ap Llŷr Llediaith.

3, Ilid Sant gwr o'r Israel a ddaeth i Ynys Prydain gyda Brân Fendigaid. ai Eglwys ef Llanilid yng Ngwent.

4, Lleurwg Sant, o wehelyth Bran Fendigaid, Brenin Ynys Prydain; ag efe a elwid Lleufer, ap Coel, ap Cyllin, A Lles ap Coel ap Cyllin, ai Eglwys Llandâf, a honno yr un gyntaf a wnaeth ef, a chyntaf yw hi a fu yno erioed; Eglwys arall iddo Llanleirwg yng Ngwlad Forgan.

5, Dyfan Sant a ddaeth i Ynys Prydain yn amser Lleurwg Sant, er doddi Bedydd ar genedl y Cymry; canys cyn no hynny ni bedyddid neb o Gymro, Ei Eglwys ef Merthyr Dyfan. ym Morganwg.

6, Phagan Sant a ddaeth yr un amser i Ynys Prydain o anfoniad y Pab Elidir, wrth Ddamuned Lleurwg Sant i yrru Bedydd ar Genedl y Cymry; ei Eglwys Llansanphagan yng Ngwent.

7, Medwy Sant, Llanfedwy yng Ngwlad Forgan, yn amser Lleurwg Sant.

8, Elfan Sant, yn amser Lleurwg Sant ap Coel ap Cyllin, ym Morganwg.

9, Crallo Sant, yn amser Lleurwg Sant ap Coel ap Cyllin, yng Ngwent.

10, Gwerydd Sant, ap Cadwn ap Cynan ap Eudaf o wehelyth Bran Fendigaid yn Llanwerydd yng Ngwent, a elwir yn awr San Dunwyd.

*O Lyfr Thomas Hopcin, o Langrallo, a hwnnw yn un o Lyfrau Thomas ab Ifan o Dre Brynn, yn yr un plwyf, a ysgrifenydd gantho ynghylch y flwyddyn 1670.

11, Docheu Sant a ddaeth i'r ynys honn gyda Phagan Sant. eraill a ddywedant mai gyda Garmon Sant ap Rhidiceys y daeth ef yma gyntaf; ei Eglwysi Llandocheu yng Ngwent.

12, Gwynno Sant o wehelyth Brân Fendigaid ym Morganwg.

13, Teilaw ap Enllech ap Hydwn, ei Eglwysi yn Llandâf, a Llandeilaw fawr, a Llandeilaw Cresseni, a Llandeilaw Ferwallt, a Llandeilaw Abercowin, a Llandeilaw Bertholeu, a *Llandeilo Glyn-Llychwr*.*

14, Dewi Sant ap Sanddef ap Cedig ap Ceredig ap Cyneddaf Wledig, a Nonn ferch Ynir Hir o Gaer Gawch ei fam. Llawer Eglwys iddaw yng Nghymru.

15, Cattwg Sant, ap Gwynlliw ap Glywys, ap Tegid ap Cadell Deyrnllwg. ai Eglwysi yn Llancarfan, ag yno y bu gantho Gorfolianus o Saint a Dysgedigion. Eglwys iddaw yng Nglynn Nedd, un arall Glynn Wysg, arall Ystrad Tywi. ag efe a elwid Cattwg Ddoeth, gan ddoethed ai ceffid ef ym mhob Cynghor.

16, Iestin, ap Geraint, ap Erbin, ap Cystenin Gorneu, ap Cynfar, ap Tudwal Mynwaur, ap Cadan, ap Cynan, ap Eudaf, ap Caradawc, ap Brân, ap Llyr Llediaith.

17, Caw, Arglwydd Cwm Cawlwyd, ap Geraint, ap Erbin (*ut supra*) efe a yrrwyd o'i gyfoeth gan y Gwyddyl Ffichti, a llyma enwau Meibion a fuant iddaw yn Saint yng Nghor Cattwg, ag yng Nghor Illtud yng Nghaer Worgorn, nid amgen, 1, Peirio, 2, Gallgo, 3, Maelawc, 4, Gildas y Coed aur, 5, Eugrad, 6, Caffo. ag eraill o'i feibion ef a fuant Saint yng Ngwynedd, lle y ceir eu heglwysau dan eu henwau.

18, Cain Santes ferch Caw o Gwm Cawlwyd, ei heglwys yn Nyfed Ystrad.

19, Aneuryn y Coed aur, ab Caw o Gwm Cawlwyd, Sant o Gôr Cattwg.

20, Ceidiaw ap Ynyr Gwent, a Madren ferch Gwrthefyr Fendigaid ei fam; Sant o Gôr Cattwg efe.

21, Elian Ceimiad ap Allgu Redegawg, ap Cardydwg, ap Cyngu, ap Ysbwys, ap Cadrod Calchfynydd; o Degfan ferch Tewdric Brenin Morganwg ei fam.

22. Elaeth Frenin ap Meyryg ap Idno o Onen Grec ferch Gwallawc ap Lleenawc ei fam.

* Tebygwn nad oedd yr Eglwys ddiweddfaf ymma yn Ysgrif Llangrallo, eithr mai (wrth yr ysgrifenniad) ychwanegiad Iolo Morganwg oedd, gann weled y diffyg.—AB IOLO.

23. Dyfnawc Sant ab Medrawd ab Cawrdaf, ap Caradawe freichfras
24. Mydan Sant ap Pasgen, ap Urien Rheged, Sant oedd ef o Gor Cattwg.
25. Gwrifyw ap Pasgen ap Urien, ym Mon ei Eglwys.
26. Eurgain ferch Maelgwn Gwynedd, ap Caswallawn Lawhir ap Einion Urth, ap Cyneddaf Wledig.
27. Lloniaw Lawhir o Lanfirgain ab Emir Llydaw.
28. Gwynnawc Sant mab Gildas y Coed Aur, ap y Caw Cawlwyd.
29. Cenydd ap Gildas y Coed aur, ap y Caw, Cawlwyd, Ei Eglwysi Sainghenydd ym Morganwg lle y gwnaeth ef Gor, lle y gwnaethpwyd Castell Sainghenydd wedi hynny, Eglwys arall iddaw Llangenydd yng Ngwyr.
30. Noethan ap Gildas y Coed aur, Sant oedd ef o Gor Illtud.
31. Cawrdaf Sant ap Caradawe Freichfras yng Ngallt Cawrdaf yng Ngwent, Sant oedd o Fangor Illtud
32. Meugant Hên, ap Cyndaf Sant gwr o'r Israel.
33. Gwrai Sant o Benystrywed yn Arustli, Sant o Fangor Deiniol yng Ngwynedd.
34. Cyngen, ap Cadell Deyrnllwg, ei Eglwys yn y Mwythig.
35. Dwna Sant, ap Selyf, ap Cynan Garwyn, ap Brochwel Ysgithrawc, Sant oedd ef ym Mangor Deiniol, ai Eglwys ym Môn.
36. Peblie Sant ap Magsen Wledic, Amherawdr Rhufain. ei Eglwys ef Caer yn Arfon, ei fam ef Elen ferch Eudaf Frenin.
37. Afan Buellt ab Caredig, ap Cynneddaf Wledig. { Hic jacet Avanus Episcopus. ym
38. Gwynllef ap Cyngar, ap Garthwg, ap Ceredig, ap Cynneddaf Wledig. { Mynwent Llanafan fawr ym Muellt
39. Cynfelyn ab Bleiddyd, ap Meirchion, ab Tybiawn, ab Cynneddaf Wledig, Sant ef o Fangor Deiniol.
40. Einion Frenin yn Lleyn, } Meibion Owain Danwyn ab
41. Seiriol ym Mhenmôn, } Einion Yrth, ab Cynneddaf Wledig.
42. Meirion yn y Cantref } dda Wledig.
43. Deiniol ap Dynawd Ffŷr, ap Pabo Post Prydain, a Dwywe ferch Lynawc ei Fam ; ei Eglwys Bangor Deiniol yng Ngwynedd, a Chôr Saint yno.
44. Asaf ap Sawyl Benuchel, ab Pabo Post Prydain. ei Eglwys Bangor Asaf yng Ngwynedd is Conwy.
45. Cyndeyrn Sant ab Ywain, ab Yrien, ab Gorwst, ab Gwaith Hengaer, o Auranwy ferch Clydno Eiddyn ei Fam.

46. Cadell ab Urien Rion, ab Llywarch Hên, ab Elidir Llydanwyn.

47. Lleuddad ap Dingad, ab Nudd Hael ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Eduyfed, ab Magsen Wledig o Athefai ferch Llawdden o ynys Eiddin yn y Gogledd ei Fam.

48. Baglan ap Dingad, ap Nudd Hael, (ut supra) ei Eglwys Llanfaglan ym Morganwg; arall yng Ngwynedd,

49. Eleri ap Dingad, *ut supra*, ym Mhennant, Sant ef o Gor Deiniol.

50. Tegwy ap Dingad, *ut Supra*, yng Ngheredigion ei Eglwys.

51. Tyfriog ap Dingad, *ut supra*, yng Ngheredigion ei Eglwys.

52. Cadfan Sant ab Eneas Ledwic o Lydaw, a Gwen Teirbron ferch Hywel ab Emyr Llydaw, yn oes Gwrtheyrn Gwrthenau y daeth ef i'r Ynys honn, gyda Garmon ab Rhi-diggys o Dir Gâl, lle'r hanoedd, i adnewyddu Cred a Bedydd yn yr Ynys honn.

53. Ylltud Farchawg, ab Biccany, o Dir Llydaw, Ei Eglwys ef Bangor Ylltud yng Ngwent, lle y mae ef yn Sant, Man y bu Bangor Dewdws yng Nghaer Worgorn, a dorrasid gan y Pagan-iaid anghred.

54. Henwyn ap Gwrdaſ Hên o Lydaw; Periglor Cadfan a'i Saint yn Ynys Enlloedd ef.

55. Padarn, ab Pedredin, ab Emyr Llydaw, a ddaeth i'r ynys honn gyda Garmon ab Ridiccys, ag a fu yn Sant ym Mangor Ildud, a gwedi hynny Esgob o Sant y bu yn Llanbadarn fawr yng Ngheredigion. Cefnder oedd ef i Gadfan, a Chefnderwydd eill dau i Ylltud Farchawg, lle buant yn Saint yn ei gor ef, yng Nghaerworgorn.

56. Cynan,

57. Degwy,

58. Mael,

59. Sulien,

60. Ethrias,

61. Llywyn,

62. Llyfab,

63. Docheu.

Saint a Dysgedigion oeddent a ddaethant gyda Chadfan gan Armon i'r Ynys honn, ag a fuant Saint ym Mangor Ildud, ag ym Mangor Cattwg yn Llancarfan ag a aethant i gyd gyda Chadfan yn Saint i Ynys Enllo namyn Docheu yr hwnn a ddodes Deilaw yn ei le ef yn Esgob yn Llan Dâf.

64. Tydacho, ab Amwn Ddu, Brenin Grawec, ab Emyr Llydaw, cefnder oedd ef i Gadfan.

65. Peirio Sant ab Caw Cawlwyd, Sant ef o Gor Illtyd, a gwedi Illtyd, yn Ben rhaith ar y Gôr honno, ag yno y gorwedd.

66. Triniaw ab Dîwng, ab Emyr Llydaw, Cefnder i Gadfan.

67. Maeric, ab Gwyddno, ab Emyr Llydaw, cefnder i Gadfan, ag yn Enlli y ddau yma yn Saint.

68. Tygai Glasawc ym Maelan, ab Ithel o Lydaw a Sant yn Enlli ei Eglwys yng Ngwynedd.

69. Llechid ferch Ithel o Lydaw, yn Arllechwedd yn Santes, yno ei heglwys.

70. Trillo Sant, ab Ithel o Lydaw, Sant yn Enlli ef, a'i Eglwys yn Rhôs.

71. Cybi, ab Selyf, ab Geraint, ab Erbin, ab Cystenin Carnau, Sant o Fangor Dynawd, ei Eglwys ef yng Nghaergybi Môn ag yn Llangybi yng Ngwent.

72. Elfod Sant o wehelyth y Cawlwyd, Esgob ef Caergybi Môn.

73. Padric, ap Alfryt, ap Goronwy o Wareddawc yn Arfon, yn Amser Elfod Sant o Gôr Cybi Mon, a Sant o'r Gôr honno.

74. Padric Maenwyn o Dir Gwyr, a droses y Gwyddyl i'r Ffydd yng Nghrist, ei Eglwys ef Aberllychwr.

75. Cadfarch Sant, ab Caradawc Freichfras, ab Llyr Merini, Sant Bangor Dunawd ef, ei Eglwys Llŷn Arfon.

76. Tangwn, ap Caradawc freichfras, Brenin rwng Gwy a Hafren, ap Llyr Myrini, Eglwys ef, Llangoed Môn.

77. Maethleu ap Caradawc freichfras, Llanfaethleu Môn.

78. Tyssiliaw ab Brochwel Ysgithrawc, ab Cyngar, ab Cadell Deyrnllwg, o Arddun Baunasgell ferch Pabo Post Prydain ei Fam.

79. Dingad ab Nudd Hael, ab Senyllt, Eglwys ef Llandingad Gwent, Sant ef o Gor Cattwg Sant ab Gwynlliw.

80. Cyngar ab Arthwg ab Ceredig, ab Cynneddaf Wledig. ei Gor ef Morganwg, Llangenys heddiw.

81. Llywelyn Sant o'r Trallwng, ab Teganwy, ab Teon, ab Gwineu Dafreuddwyd.

82. Gwyddfarch ab Llywelyn o'r Trallwng. Sant ef Bangor Cybi Môn.

83. Aelhaearn Sant, ab Hygarn, ab Caerwael, ab Cyndrwyn o Lystinwennau, Caer Einion Powys.

84. Llwhhaearn Sant ab Hygarn, *ut supra*, Sant Bangor Dynawd, Eglwys Cedewain

85. Cynhaearn Sant ab Hygarn, *ut supra*, Eglwys ef, Eifionydd, Arfon.

86. Gwyddfarch, ap Alarwt Tywysawc y Pwyl. Eglwys ef, Meifod, Powys.

87. Ystyffan ab Mawan ab Cyngen, ab Cadell Deyrnllwg, Eglwys ef Llanystyffan Maelienydd.

88. Tyfryddawg Sant. Môn.

89. Tudclut, Meibion Saethenin O Faes Gwyddno Yng

90. Geneddyl, } Ngheredigion a oresgynnes y Mor eu

91. Myrini, } Tiroedd Myned yn Saint, Bangor Du-

92. Tudnof, } nawd.

93. Senewyr

94. Samson Sant Bangor Illtud, ab Amon Ddu Brenin Grawec yn Llydaw, Esgob ef Bangor honno. Gwedi hynny Caerefrawe, gwedi hynny yn Llydaw. Eglwys Illtud ei orwedd.

95. Teyrnawc Sant ap Arwystli gloff. Dyffryn Clwyd ef. a Sant ym Mangor Dynawd.

96. Tydyaw, yn Nerwen Cyfeiliawc ap Arustli gloff ef.

97. Tefrydawc Sant, ap Arustli gloff. Sant ef yn Enlli a Môn.

98. Marchell Merch Arustli gloff, eu mam wynt Achanwedd ferch Amlawdd Wledig,

99. Urien ap Cynfarch, ap Meirchion Gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Ceneu, ap Coel Godebawc, Sant ef ym Mangor Cattwg, Llan-carfan.

100. Llywarch Hen ab Elidir Lydanwyn, ap Meyrchyawn Gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Ceneu, ap Coel Godebawc.

101. Cynwyd Cynwydion, ab Cynfelyn, ap Garthrwys, ab Mor, ab Ceneu, ab Coel Godebawc, Sant ef, Bangor Cattwg.

102. Clydno Eiddyn ap Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, *ut supra*.

103. Cynan Genir, ab Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, *ut supra*.

104. Cynfelyn Drwgl, ap Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, *ut supra*.

105. Cadrod Calchfynydd ap Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, *ut supra*.

106. Dynawd, } Meibion Pabo Post Prydain

107. Carwyd } oeddent a Seint Bangor

108. Sawyl benuchel } Dynawd.

109. Pabo Post Prydain, ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godebawc.

110. Gwrgi, } Meibion Elifer Gosgorddfawr, ab Arth-

111. Peredur, } rwys ab Mor, ab Morydd, ab Cenau ab

Coel Godebog, Saint ym Mangor Illtud oeddynt, a Phen raith Peredur yno.

112. Gwenddolau, } Meibion Ceidiaw ab Arthrwys, ab Mŷr,
 113. Nudd, } ab Morydd, ab Cenau ab Coel Gode-
 114. Cof. } bawc a Seint ym Mangor Illtud.
115. Rhydderch ab Tudwal ab Tudclyt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hên.
 116. Mordaf, ab Seryan, ab Dyfnwal Hên.
 117. Elffin, ap Gwyddnaw, ap Garboniawn, ap Dyfnwal Hên,
 Brenin Gwent, Seint ym Mangor Illtud.
 118. Gafran, ap Aeddan Fradawc, ap Dyfnwal Hên.
 119. Elidir Mwynfawr, ap Gorwst Briodawr ap Dyfnwal Hên.
 120. Rhiallu, ab Tudwalch Carnau. Tywysawc Cerniw o Ddy-
 anwedd ferch Amlawdd Wledig ei Fam,
 121. Ffraid Leian ferch Dwpdagws Sant o'r Werddon, ei Heg-
 lwys Llansanffraid fawr ym Morganwg, Eglwysi eraill iddi yno,
 ag yng Ngwent is Coed, ag yng Ngwaen llwg.
 122. Tanwg ab Ithel Hael o Lydaw, Sant ym Mangor Enlli,
 efe a ddaeth gyda Chadfan a Garmon ab Rhidiccys, i'r Ynys
 honn. Eglwys ef, Ardudwy.
 123. Nonn mam Dewi; merch Gynyr o Gaer Gawch ym Mynyw
 hi; a'r Gynyr hwnnw a roddes ei gyfoeth i Dduw a Dewi, mal y
 gellit Eglwys ym Mynyw, ag yno y daeth Dewi o Gaer Llion ar
 Wysg wedi marw o Arthur Amherawdr a'r Eglwys honno a aeth
 yn Ben rhaith ar Eglwysi Cymru
 124. Gynyr Gwent o Gaer Gawch ym Mynyw, Tad Nonn Fen-
 digaid Mam Dewi, a roddes ei Gyfoeth i Dduw a'r Saint yn dra-
 gwydd.
 125. Nidan ap Gwrtyw ap Pasgen, ap Cynfarch, ap Meirchion,
 ap Grwst, ap Cenau ap Coel Godebog.
 126. Meirynd, ap Myrini, ap Saethenin o Faes Gwyddnaw;
 yng Ngwaen Llwg ei Eglwys.
 127. Llioniaw ab Alan Fergam ab Emyr Llydaw. Bangor Ill-
 tud, ei Eglwys Ceredigion.
 128. Bodfan, } Meibion Helic ap Glannawc o Faes Gwydd-
 129. Brothen, } naw, a oresgynnes mor eu Tiroedd, Saint
 130. Ernin, } yng Ngwyndd ydynt o Fangor Enlli.
 132. Brenda, }
- *132. Gwynwn ap Helic ap Glannawc yng Ngheredigion Sant ef.
 133. Edeyrn ap Gwrtheyrn Gwrthenau, o Gor Cattwg, Llan-
 edeyrn yng Ngwlad Forgan Ei Eglwys, yno hefyd ei gor ef,
 Trichansant.

* Felly y gwall-gyfrif yn yr ysgrif.—AB Iolo.

134. Edern ap Nudd ap Beli, ap Rhun, ap Maelgwn Gwynedd. Môn.

135. Gwrhir Sant Gwas Teilaw, ym Mangor Cattwg. Ei Eglwys ef Llys Faen, yng Ngwaen Llwg.

136. Bleiddan Sant o Dir Gâl, Dwy Eglwys ef Morganwg; amser Gwrtheyrn Gwrtheneu y daeth ef yn Ynys Prydain gyda Garmon Sant ap Ridigys.

137. Isan Sant, Bangor Illtud, ei Eglwys ef Llanisan Gwaen Llwg.

138. Elfyw ap Dirdan, a Banhadlen ferch Gynyr o Gaer Gawch ei fam.

139. Anef ap Caw Cawlwyd, Môn, Meudwy ef yno.

140. Beuno, ap Hywgi, ap Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg. Sant ef, Bangor Gattwg ei ewythr, Pen rhaith Gwynedd, ei Gor yno, Clynawe Fawr yn Arfôn.

141. Anna Santes, ferch Uthyr Bendragon, Mam Gynyr Caer Gawch hi, Gwedi hynny Gwraig Amwn Ddu, o Fangor Illtud, Brenin Grawec yn Llydaw, mab iddi o'r Amon hwnw, Samson Sant o Gor Illtud.

142. Dogfael, ap Ithel Hael, ap Cedig ap Ceredig, ap Cynneddaf Wledig, ei Eglwys ef Dyfed. Sant hefyd Côr Cattwg Llancarfan

143. Mabon Saint ab Enllech, ap Hydwn, ei Eglwys ef Llanfabon yng Ngwlad forgan, Brawd Teilaw ef, Eglwys ef Rhiwfabon ym Maelor.

144. Tyfodwg Sant a ddaeth Ynys honn gyda Garmon a Chadfan, ei Eglwysi ef ym Morganwc, arall yng Nglwad yr Hâf.

145. Tudwg Sant o Gor Cennydd yng Ngwyr, ei Eglwys ef Morganwg.

146. Elldeyrn brawd Gwrtheyrn Gwrtheneu, ei Eglwys ef Morganwg.

147. Cathan ap Cawrdaf ap Garadawe Freichfras, Ei Eglwys ef Llangathan.

148. Cewydd ap Caw Cawlwyd, ei Eglwys ef Llangewydd, Morganwc.

149. Garrai ap Cewydd ap Caw Cawlwyd, ei Eglwys ef Llannarra Morganwg.

150. Gwrnerth Sant, Brawd Llywelyn Sant o'r Trallwng.

151. Tudfyl ferch Brychan Brycheiniawc, ei heglwys hi Merthyr Tudfyl, lle ai llas gan y Paganiaid.

152. Sadwrn Sant, Dyfed a Mon, Sant ef Bangor Asaf, o Bericlawr.

153. Rhidian Sant o Gor Cennydd yng Ngwyr.
154. Brynach Sant, Eglwysi ef Morganwe a Brycheiniawe.
155. Cyfelach Sant a fu Esgawb yn Llandaf, ag a las gan y paganiaid, ei Eglwys ef Llangyfelach yng Ngwyr, Arall yn Euas.
156. Madawe Sant, ap Gildas y Coed Aur, yng Nghor Cennydd, ei Eglwys ef Llannfadawe yng Ngwyr.
157. Tathan Sant Peryglawr Ynyr Gwent, ei Eglwys ef Llann-dathan ym Morganwe, arall Caerwent.
158. Tewdric Sant ap Teithfallt, Brenin Morganwe, ei Eglwys ef Merthyr Tewdric, Gwent is Coed; lle ai llas gan y Paganiaid.
159. Tybieu ferch Brychan Brycheiniog, Santes hi yn Ystrad Tywi, lle ai llas gan y Paganiaid.
160. Ciwg Sant, ab Arawn, ab Cynfarch. Llangiwg yng Ngwyr ei Eglwys ef.
161. Collen Sant, ap Gwynnawc, ap Clydawc, ap Cawrdaf, ap Caradawe freichfras, Llangollen yn Ial ei Eglwys ef.
162. Cenwyn Sant, ei Eglwys ef Ceredigiawn, Sant ef Bangor Badarn.
163. Ilar^s Sant a ddaeth Ynys honn gyda Chadfan, ag yng Ngwlad Forgan ei Eglwys ef.
164. Hywgi Sant, ap Glywis, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg, a roddes ei Diroedd i Dduw a Chattwg yn dragywydd, ag a fu Sant gyda Chattwg. mab iddaw ef Beuno Sant.
165. Tegwyn Sant a ddaeth i'r Ynys honn gyda Chadfan yn amser Gwrtheyrn Gwrthenau, sef y mynnes ef wyr o Ddoethion a dwyfolion o Dir Gâl a elwir yn awr Ffrainc i adnewyddu Cred a Bedydd yn yr Ynys honn, achos y Coll a'r aball a ddaethai ar y Ffydd yng Nghrist.
166. Arustli hên, Gwr o'r Eidal a ddaeth yma Gyda Brân ap Llyr Llediaith yn Beriglawr iddaw.
167. Gwyndaf Hen o Lydaw Periglawr Garmon Sant ap Ridycys a ddaeth ir Ynys Honn Gyda'r Garmon hwnnw, amser Gwrtheyrn Gwrthenau.
168. Hefin ap Gwyndaf Hen o Lydaw, Periglawr Cadfan ai Saint ym Mangor Enlli
169. Arustli Gloff, ap Saethenin Frenin o Faes Gwyddnaw, a oresgynnes y Mor ei Dir, ym Mangor Enlli.
170. Cann^{au} Sant ap Gwyddlyw ap Gwynlliw, ap Glywys ap Tegyd, ap Cadell Deyrnllwg, Morganwe ei Eglwys, Llangannau.
171. Arthan Sant. ei Eglwys ef Gwynllwg.

172. Cwyan Sant, Llangwyan Gwladforgan ei Gor ef, lle ai llas gan Baganiaid o Saeson.

173. Cyfyw Sant, ap Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegyd, ap Cadell Deyrnllwg, Cofedydd Cattwg Sant ef ym Mangor Gattwg.

174. Cwyllog Santes, ferch Caw Cawlwyd o Dwr Celyn ym Mon, lle y cafas Diroedd gan Faelgwn Gwynedd, ac efe a yrrwyd oi gyfoeth yng Nghwm Cawlwyd gan y Gwyddyl Ffichti

175. Mygnach ap Mydnaw o Gaer Seon, Cofedydd Cor Cybi Sant ef yng Nghaer Gybi Môn, a Gwedi hynny Penn rhaith y Gôr honno ef.

176. Tegfan Sant, ym Mon ei Eglwys ef, Periglawr ym Mangor Gybi.

177. Arddun Benasgell ferch Pabo Post Prydain. Gwraig hi Brochwel Ysgithrawc, Brenin Penngwern Bowys.

178. Brychan Brycheiniawc, ab Enllech, ab Hydwn, Brenin y Werddon, Mam Brychan, Marchell ferch Tewdric, ab Teithfallt ab Teithrin, ab Nynniaw, Brenin Grawec a Garth Mattrin.

179. Samlet Sant, ei Eglwys ef Kil Fai yng Ngorwennydd.

180. Ffili mab Cennydd ap Aur y Coed aur. Ei Eglwys ef Rhos Ffili yng Ngwyr.

181. Maelawc Sant, ap Caw Cawlwyd, ef Eglwys Mon ag Ystrad Tywi.

182. Egwad Sant, ap Cynddilic, ap Cennydd ap Aur y Coed Aur, ef Eglwys, Ystrad Tywi.

183. Aurdeyrn, ap Gwrtheyrn Gwrtheneu, Eglwys ef Morganwc.

TAIR GWELYGORDD SAINT YNYS PRYDAIN.

I. CYNTAF Gwelygordd Caw o Brydyn Arglwydd Cwm Cawlwyd a yrrwyd oi Wlad gan y Gwyddyl Ffichti, ag a ddaeth i Gymru, a chydag ef ei feibion, ag Arthur a Maelgwn Gwynedd a roddes diroedd iddynt. A mwyaf o'r Meibion a'r Merched a aethant yn Seiniau yn y Bangorau ag oeddynt yr amseroedd hynny, Nid amgen nag un Illtud, ag un Cattwg, ag un Dynawd, ag un Deihioel, ag un Badarn, ag un Gadfan yn Enlli

Plant Caw Brydain y rhai hynn.

1. Peiro ; 2, Gallgof ; 3, Eugrad ; 4, Cennydd ; 5, Aneurin ; 6, Caffo ; 7, Dirinic ; 8 Cewydd ; 9, Maelawc ; 10, Gwrddyly ; 11, Cilydd ; 12, Huail ; 13, Eigrwn ; 14, Cyhelyn Fardd ; 15, Cyngar ; 16, Samson ; 17, Canna ferch y Caw.

Tad y rhai hynn, sef y Caw o Brydain, a yrrwyd oi wlad gan y Gwyddyl Fficti, ag Arglwydd Cawlwyd oedd efe. A dyfod efe ai blant, i Gymru a wnaethant; rhai at Arthur, ag efe a roddes iddynt Diroedd; a rhai o honynt a aethant yn Saint yng Nghor Illtud, ag yng Nghor Teilaw, ag yng Nghor Cattwg; eraill a aethant at Faelgwn Gwynedd, ag efe a roddes diroedd iddynt ym Môn, nid amgen na Thwr Celyn, a gwedi hynny Caw o Dwr Celyn ai gelwid ef.

II. Ail Welygordd Saint Ynys Prydain, Gwelygordd Cynneddaf Wledig a llyma fal ai dosparther yn saint linolin o Gynneddaf Wledig.

1. Dewi mab Sanddef, mab Cedig mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig; Mam Dewi, Nonn Fendigaid ferch Gynyr o Gaer Gawch ym Mynyw, a Santes yn ei dwy Eglwys, un yng Ngŵyr, arall Cedweli

2. Teilaw, mab Enllech, mab Hydwn, a fu Frenin yn y Werddon, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

3. Ederm, mab Beli, mab Rhun, mab Maelgwn, mab Caswallawn Lawhir, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledig.

4. Meirion, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledig

5. Cadwaladr Fendigaid, mab Cadwallawn, mab Cadfan, mab Iago, mab Beli, mab Rhun, mab Maelgwn, mab Caswallawn Lawhir, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledig.

6. Dogfael, mab Ithael, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

7. Pedrwn, mab Corwn, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

8. Tyssul, mab Corwn, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

9. Carannawc, mab Corwn, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

10. Cynfelyn, mab Bleiddy, mab Meiriawn, mab Tybiawn mab Cynneddaf Wledig.

11. Cyndeyrn mab Cyngar, mab Garthwg, mab Ceredig mab Cynneddaf Wledig.

12. Cyngar, mab Garthwg, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

13. Afan Buellt, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig, a Thegfedd ferch Tegid ap Cadell Deyrnllwg ei fam.

14. Gwynlliw, mab Cyngar, mab Garthwg, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

15. Eurgain, ferch Maelgwn Gwynedd, mab Caswallawn Lawhir, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledig.

Ag eraill yn amgen na'r rhain ageiro Wehelyth Cynneddaf Wledig.

III. Trydydd Welygordd Saint Ynys Prydain, Gwelygordd Brychan Brycheiniog.

Enllech Goronawe oedd Frenin yn y Werddon, ag efe a briodes Marchell ferch Dewdric a elwir Tewdwr Mawr mewn rhai Lyfrau, a mab yr Enllech hwnnw oedd Brychan, yr hwn a gafas Gyfoeth ei Fam, nid amgen Garth Mattrin, a elwir oi enw ef Brycheiniawe, yna darfu ym Morganwg a Garth Mattrin, lle cyn no hynny y gelwid ym Morganwe Garth Mattrin.

Brychan Brycheiniawe a briodes dair Gwragedd, Nid Amgen 1. Prawst; 2. Rhybrawst; 3. Eurbrawst, au plant hwynt a aethant yn Saint ar Ynys Prydain, ag achaws hynny y gelwir Gwehelyth Brychan Brycheiniawe yn un o dair Gwlygordd Saint Ynys Prydain, a llyma eu henwau nid amgen.

Y MEIBION.

1. Cynawe,	9. Rhain,	17. Mathaearn,
2. Cyflewyr,	10. Pascen,	18. Gerwyn,
3. Dingad,	11. Cynbryd,	19. Pabiali,
4. Arthen,	12. Cynfan,	20. Cynin,
5. Clydawe,	13. Neffei,	21. Dyfric,
6. Rhawin,	14. Doewan,	22. Hychan,
7. Cledwyn,	15. Dyfnan,	23. Llecheu,
8. Rhun,	16. Gadawe,	24. Nefydd.

Y MERCHED.

1. Mechell,	10. Eleri,	19. Gwawrddydd,
2. Lleian,	11. Eluned,	20. Tybieu,
3. Hawystl,	12. Gwrgon,	21. Clydei,
4. Dwynwen,	13. Enfael,	22. Tudfyl,
5. Ceindrych,	14. Rhiengar,	23. Tydieu
6. Gwenddydd,	15. Goleuddydd,	24. Tanglwst.
7. Gwladus,	16. Ceinwen,	25. Arianwen,
8. Nefyn,	17. Gwên,	26. Corth.
9. Gwawr	18. Cenetlon,	

Gyda'r rhain o Welygorddau Ynys Prydain, y mae hefyd Gwelygordd Emyr Llydaw a ddaethant ir Ynys honn gyda Chadfan a Garmon Sant ap Ridigys, i adnewyddu Cred a Bedydd, ag ymgytgori yn Ynys Enlli a wnaethant. Sef oeddent

1. Cadfan Sant, mab Eneas Ledewig o Lydaw, a Gwen Teirbron merch Emyr Llydaw ei Fam.

2. Padarn, mab Pedredin, mab Emyr Llydaw, Cefnder i Gadfan.

3. Tydecho, mab Amwn Ddu, mab Emyr Llydaw, Cefnder i Gadfan.

4. Triniaw, mab Difwc, mab Emyr Llydaw, Cefnder i Gadfan.

5. Maelryd, mab Gwyddnaw, mab Emyr Llydaw, Cefnder i Gadfan.

6. Hefnyn, mab Gwyndaf Hên o Lydaw, Cefnder y Gwyndaf hwnnw i Emyr Llydaw, ai fab Hefnin a fu Beriglawr Cadfan yn Enlli.

7. Cynon, a ddaeth gyda Chadfan i'r Ynys honn. Cynghellawr Cadfan ym Mangor Enlli ydoedd.

8. Dochdwy a ddaeth gyda Chadfan i'r Ynys honn, ag a fu yn Enlli, a gwedi hynny y bu'n Esgob yn Eglwys Deilaw yn Llandaf, tra bu Deilaw yn Enlli gyda'r Saint yno yn Arllwybraw y Gôr wedi marw Cadfan.

9. Mael,	}	Ceraint oeddent i Gadfan, ag o Emyr Llydaw, a chyda Cadfan y daethant i'r Ynys honn, ag yn Enlli y maent yn Saint, a'u heglwysi yng Ngwynedd, lle buant yn fawr eu dwyfoldeb a dedwyddyd eu Buchedd.
10. Ethrias,		
11. Tanwg,		
12. Sulien,		
13. Tegwynn,		
14. Llewin,		

15. Llynab,	}	Meibion Ithael Hael o Lydaw, a ddaethant gyda Chadfan i'r Ynys honn.
16. Tegai,		
17. Trillo,		

18. Llechid merch Ithael hael o Lydaw, a chwaer Tegai a Thrillo, a ddaeth yn Santes i'r Ynys honn gyda Chadfan ai Brodyr

19. Baglan, Mab Ithael Hael o Lydaw, a ddaeth yn Sant gyda Chadfan i Enlli

20. Canna ferch Dewdwr, fab Emyr Llydaw, a Mam Elian Ceimiad.

21. Flewin,	}	Meibion Ithael Hael o Lydaw, Saint o Gor Y Ty Gwynn ar Daf, yn Nyfed, lle buant gyda Phawl Sant o Gor Illtud yn Arllwybraw Bangor.
22. Gredifael,		

23. Derfael,	}	Meibion Hywel ab Emyr Llydaw, Saint ym Mangor Enlli.
24. Dwywael,		

25. Lloniaw Lawhir, ap Alan Firgain, ap Emyr Llydaw, Sant o Fangor Gadfan.

26. Gwen Teirbron, ferch Emyr Llydaw, oedd mam Cadfan Enlli.

A hynn o Saint a ddaethant gyda Chadfan i Enlli, a chydag wynt y bu o Genedl y Cymry laweroedd o Saint, lle ydd aethant gwedi torri Bangor fawr ym Maelawr gan y Paganiaid o Saeson, ag o'r Corau eraill ydd aethant laweroedd i Fangor Gadfan yn Enlli.

Y Seiniau hyn ydynt o Welygordd Magsen Wledig, Brenin Ynys Prydain, ag Amherawdr Rhufain

1. Owain Finddu,) Meibion Magsen Wledig Brenin Ynys
 2. Ednyfed,) Prydain, ag Amherawdr Rhufain, o
 3. Peblic,) Elen Lueddawc, ferch Eudaf ap Cara-
 4. Cystenin,) dawc, ap Bran, ap Llyr Llediaith.
 5. Nudd Hael, ab Senyllt, ap Cedig ap Dyfnwal Hên, ap Ed-
 nyfed, ap Magsen Wledig.

6. Dingad ap Nudd hael, *ut supra*, Gwraig Dingad Tefriain ferch Lewddyn Luyddawc o Ddinas Eiddin yn y Gogledd.

7. Llidnerth, ap Nudd hael, *ut supra*,

8. Baglan, ap Dingad, ap Nudd hael,

9. Lleuddad, ap Dingad, ap Nudd hael,

10. Gwytherin, ap Dingad, ap Nudd hael,

11. Tegwynn, ap Dingad, ap Nudd hael,

12. Tefriawc, ap Dingad, ap Nudd hael.

13. Eleri, ferch Dingad, ap Nudd hael.

Saint oeddynt yng Nghor Cattwg, ag a aethant gyda Dyfric i Fangor Gadfan yn Enlli.

14. Melangell, ferch Cyfwlch addwyn, fab Tudwal, fab Ceredig, fab Ednyfed, fab Magsen Wledig.

15. Madawc, ap Owain, ap Magsen Wledig.

A hynn sydd ar wybod o Seiniau Gwelygordd Magsen Wledig, rhai o honynt o Gor Garmon ag o un Illtud, ar Ieufaf o honynt, Saint ym Mangor Enlli.

Seirioel, mab Owain Danwyn, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledig, a wnaeth Gor Seirioel yn Mhenmon.

Beuno Sant, ap Hywgi, ap Gwynlliw, a wnaeth Fangor Clynog, a mawr honno am ddysg a Chelfyddydau.

Cadfan Sant o Lydaw, a Dewi, a wnaeth Fangor Enlli, a mwya rhif Saint yn honno.

Deinioel, ap Dynawd, ap Pabo Post Prydain, a wnaeth Fangor Maelawr yng Nglann Dyfrdwy, lle bu'n ogoneddus o'r holl Fangorau cyn oi thorri gan y Saeson di gred yng Ngwaith Perllan Fangor.

Cybi Sant a wnaeth Fangor Gybi ym Môn, or lle ai symudwyd gan Elfod Sant i Arllechwedd lle ydd aeth ef yn Archesgob.

Bangor Illtud, a wnaethpwyd gan Illtud Sant ab Bicanys, nai fab chwaer i Emyr Llydaw, a Garmon Sant, ap Rhidyfus.

Bangor Gattwg, a wnaethpwyd, gan Ddyfric Sant a Garmon Sant, a Pheriglaur Garmon oedd Dyfric yn honno.

Bangor Deilaw, a wnaethpwyd gan Dyfric a Theilaw yn Llann Daf.

Bangor Badarn a wnaethpwyd gan Badarn Sant o Gor Illtud, a Dewi, lle ydd aeth Badarn yn Archesgob Molianus.

Bangor Mynyw a wnaethpwyd gan Ddewi ag Ynyr o Gaer Gawch, lle ai Symudwyd o Gaerllion ar wysg, mann ai gwnaethpwyd gan yr Amherawdr Tewdws.

Bangor y Ty Gwynn ar Dâf a wnaethpwyd gan Bawl Sant o gor Illtud a Fflewinn a Gredifel, Meibion Ithael Hael o Lydaw.

Bangor Dathan, yng Nghaer Went, a wnaethpwyd gan Dathan Sant o Gor Illtud, a nai iddaw.

Bangor Gyngar, a wnaethpwyd gan Gyngar ap Geraint ap Erbin, a hi a dorred gan y Paganiaid o Saeson, a gwedi hynny a wnaethpwyd o'r newydd gan Dochau Sant o Gor Illtud, ag a elwid Bangor Dochau.

Cennydd Sant, ap Gildas y Coed aur, a wnaeth Fangor yn Llangennydd yng Ngwyr, ag un arall yn Sainghenydd, lle au torred gan y Paganiaid o Saeson.

Ar Bangorau a fuant cyn cael y Monachlogydd, a gwedi hynny fe ddarfu am danynt, namyn y rhai o honynt a aethant yn Fonachlogydd.

Yn amser Garmon Sant y dosparthwyd Gwyndai gyntaf i'r Esgobion, a chyn no hynny nid oedd gan Esgobion Ynys Prydain eu Gwyndai fal ag y mai yn awr

Ag felly terfyna Achau Saint Ynys Prydain, au Gwelygorddeu.

Myfi Iorwerth ap Iorwerth Gwilym a gymmerais hynn o Lyfr Mr. Thomas Hopkin fy Ngharwr o Langrallo, yr hwn Lyfr ydoedd Gwaith Thomas Ifan o Dre Brynn ym mhlwyf Llangrallo, a ysgrifenyd ynghylch y flwyddyn 1670 o hen Lyfrau ysgrifen.

/// · ◇ | V. o i w.

A minnau, Taliesin ab Iolo Morganwg, sef Taliesin ab y Iorwerth ap Iorwerth Gwilym uchod, a'i dadysgrifennais, yn ffyddlon, air a llythyren, o Ragysgrif fy Nhadau, Ionawr y 4^{ad}, 1841,—A hynn ar Air a Chydwybod,

///

YN ENW DUW A PHOB DAIONI.

ACHAU A GWELYGORDDAU SAINT YNYS PRYDAIN.

O Lyfr Hir Thomas Truman o Bant Lliwydd, Plwyf Llansannwr, ym Morganwg. O ba un ai ysgrifenwyd gennyf fi Iolo Morganwg, yn y Flwyddyn, 1783.

///. ◊ | V. o i w.

TAIR Prif-Welygordd Saint Ynys Prydain y sydd, nid amgen: Cyntaf Gwelygordd Brân ap Llyr Llediaith, ag o'r wehelyth honno y mae Gwelygordd y Caw o Brydyn, a elwir Caw Cawlwyd, a'r Caw o Dwr Celyn ym Môn.

Ail, yw Gwehelyth Coel godebawc, ag o honno y mae Gwelygordd Cynedda Wledig.

Trydydd, yw Gwehelyth Brychan Brycheiniawc, a ddaeth i'r Ynys honn i ddysgu Cred a Bedydd yn Amser Tewdric ap Teithfall Brenin Morganwc a Gwent, a Garth Mathrin, ag Ergin, ag Euas, a Gwent Goch yn y Ddenau; a Marchell ferch y Tewdric hwnnw oedd Fam Brychan Brycheiniawc.

I. Gwelygordd Bran ap Llyr.

Brân ap Llyr Llediaith a ddug y Ffydd yng Nghrist gyntaf i'r Ynys honn o Rufain, achaws hynny y gelwid Brân Fendigaid, a chydag ef y daeth Ildid Sant gwr o'r Israel, yr hwn a drosses lawer o'r Cymry i'r Ffydd yng Nghrist.

Eigen ferch Caradawc, ap Brân, ap Llyr Llediaith a briodes Bendefig a elwid Sarllawc, yr hwnnw oedd Arglwydd Caer Sarllawc, a hi a fu'r Santes gyntaf yn Ynys Prydain.

Lleirwg Sant, Brenin Ynys Prydain, ap Coel, ap Cyllin, ap Caradawc, ap Brân, ap Llyr Llediaith; ei Eglwys ef Llanleirwg, ag un arall yn Llann Daf. Efe a ddanfones hyd yn Rhufain i gyrcu Esgyb i ddodi Bedydd ar a geisyt y Ffydd yng Nghrist o Genedl y Cymry, a'r pab Elidr a ddanfones attaw yn Esgyb, Elfan, a Medwy, a Dyfan, a Ffagan.

Ffagan Sant a fu Esgob yn Llann-Sanffagan, ag yno ei Eglwys ef.

Dyfan Sant a fu'n Esgob yn y Merthyr Dyfan, lle ai llas gan y Paganiaid, ag yno y mae ei Eglwys ef.

Medwy Sant a fu'n Esgob yn Llannfedwy, lle mae ei Eglwys ef.

Elfan Sant a fu'n Esgob yn Ynys y Fallen, lle mae ei Eglwys ai Gor ef.

Tudwal Sant, ap Corinwr, ap Cadfan, ap Cynan, ap Eudaf, ap Caradawe, ap Bran, ap Llŷr Llediaith, Sant ag Esgob.

Ifor ap Tudwal ap Corinwr, *ut supra*, a fu Sant ag Esgob.

Cadfrawd Esgob, ap Cadfan, ap Cynan, ap Eudaf, ap Caradawe, ap Brân, a fu Sant yn Ynys Prydain.

Gwrmael, ap Cadfrawd, ap Cadfan Sant, ap Cynan, *ut supra*.

Cadgyfarch Sant ag Esgob, Brawd Gwrmael ap Cadfrawd.

Rhystyd hên Esgob o Gaerllion ar Wysg, o Wehelyth Brân ap Llyr Llediaith.

Cloffan Sant, o Wehelyth Brân ap Llyr, a fu yn Esgob amser Cystenin Fendigaid.

Mabon Wynn, a elwir Mabon Hên, Sant o Wehelyth Bran ap Llŷr, ei Eglwys ef yn Llanfabon.

Geraint, ab Erbin, ap Cystenin Goronawg, Arglwydd Gereinwg, ai Eglwys ef yng Nghaer Ffawydd.

Cyngar,	}	Meibion Geraint ab Erbin, a fuant yn
Selef,		Saint ynghôr Garmon yn Llan-
Iestin,		carfan.
Caw Cawlwyd,		

Cyngar, ab Geraint, ab Erbin, Sant o Gor Garmon, a wnaeth Gôr yn Llangenys, a elwir Llan Doche fawr, a honno a dorred gan y Saeson Paganiaid, a Doche Sant a wnaeth Gôr yn ei lle a elwid Bangor Doche.

Selef, ab Geraint, Sant o Gor Garmon.

Iestin, ab Geraint, ab Erbin, Sant o Gor Garmon, a wnaeth Eglwys ym Môn, lle doded ei enw arni

Caw ab Geraint, Arglwydd Cwm Cawlwyd, ym Mhrydyn, a yrrwyd oi wlâd gan y Gwyddyl Ffictiaid, ag efe a ddaeth i Gymru lle cafas efe ai feibion Diroedd gan yr Amherawdr Arthur, a chan Faelgwn Gwynedd ym Môn, sef lle a gafas yno, Twr Celyn; ag efe a elwir hefyd Caw o Brydyn, a Chaw Cawlwyd.

Llyma enwau Meibion Caw Cawlwyd.

1. Peirio Sant o Gor Illtud, lle ydd aeth yn Benn rhaith, ag Eglwys iddaw ym Môn,
2. Gallgof Sant o Gor Illtud, Eglwys iddaw ym Môn.
3. Eigrad o Gor Illtud.
4. Cennydd Sant o Gor Illtud.
5. Aneuryn y Coed Aur, Sant o Gor Cattwg.
6. Cyhelyn Fardd o Gor Cattwg

7. Samson, Sant ac Esgob o Gor Illtud, ei Eglwys ef Caerefrawc.
8. Caffaw Sant o Gor Cyngar, ei Eglwys ef ym Môn
9. Dirinic Sant, ap y Caw, ei Eglwys ef yng Nghaer Efrawc, ag efe a las yno gan y Paganïaid Saeson.
10. Cewydd ap y Caw, Sant o Gor Cattwg, ei Eglwys Llan-gewydd.
11. Cyngar ap y Caw o Gor Illtud.
12. Cilydd ap y Caw, ei Eglwys ef yn Nyfed.
13. Gwrddyly ap y Caw, ei Eglwys ef yng Nghaerllion ar wysg.
14. Maelawc ap y Caw, Sant o Gor Cattwg, ei Eglwys ef ym Môn.
15. Huail ap y Caw, o Gor Cattwg, ei Eglwys ef yn Euas.
16. Eigrawn ap y Caw, ei Eglwys ef yng Nghernyw.
17. Caian Sant ap y Caw, ei Eglwys ef ym Mhywys, arall ym Môn.

- | | | |
|--|---|--------------------------|
| <ol style="list-style-type: none"> 18. Cannau ferch y Caw, 19. Gwenabwy ferch y Caw, 20. Peillan ferch y Caw, 21. Cywyllawc ferch y Caw, | } | Eglwysydd iddynt ym Môn. |
|--|---|--------------------------|

Plant y Caw a fuant yn Saint yng Nghoreu Garmon Sant, sef un Illtud, ag un Cattwg, a rhai o honynt a aethant yn Ben rheithiau lle y gwnaethant Eglwysydd a Choreu mewn gwledydd eraill.

Meibion Gildas Sant ap y Caw, a elwir Euryn y Coed aur.

- | | | |
|---|---|---|
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Nwython, 2. Dolgan, 3. Cennydd, 4. Gwynnaw, | } | Saint oeddent yng Nghor Illtud, ac yng Nghor Cattwg eu Car. |
|---|---|---|

Gwynnaw, ei Eglwys ef Llanwynnaw.

Cenydd a wnaeth Eglwys a Chor yn Llanngenydd yng Ngwyr, a chor arall yn Sainghenydd, honno a dorred gan yr Anghred, a'r Castell y sydd yn awr yn ei lle.

<p>Nwython, a Dolgan</p>	}	Eu Heglwysi yng Ngwynedd
------------------------------	---	--------------------------

Cybi Sant, ap Selef, ap Geraint, ap Erbin, a fu yng Nghor Garmon, ag a aeth yn un Enlli, a gwedi hynny ef a ddoded yn Esgob ym Môn, yn y lle a elwir Caergybi; lle y gwnaeth ef Gor, ag yn y Gôr honno y byddei Archesgobion Gwynedd, hyd pan y symudes Elfod Sant y lle, a myned ym Mangor fawr uwch Conwy.

Llyma eraill a ddywedir eu bod o Wehelyth Bran ap Llyr Llediaith, nid amgen, Iestin, ap Cadell, ap Cadan, ap Cynan, ap Eudaf, ap Caradawc, ap Bran, ap Llyr Llediaith.

Dyfan Sant, gwr o Rufain ap Alewn aſlerw, ap Yspwyth, ap Manawydan, ap Llyr Llediaith. efe a ddanfoned yn Esgob i Gymru gan y Pab Elidir, ag efe a las gan y Paganïaid yn y Merthyr Dyfan, lle ydd oedd yn Esgob.

Eldad Esgob o Gor Illud, ab Arth, ab Arthwg frych, ap Cystenin Goronawc ap Cynfar, ap Tudwal Mynwaur, ap Cadan, ap Cynan, ap Eudaf, ap Caradawc, ap Brân ap Llyr Llediaith.

[Mae camsyniad yma neu ynteu yn y peth a ddywedir am Eldad mewn man arall. Gwel ymlaen dan Gadell Deyrnlluc.— I. Morg.]

Marchell, ferch Dewdric, ap Teithfall, Brenin Morganwg, mam Brychan Brycheiniawc

Tegwen ferch Dewdric, ap Teithfall oedd Gwraig Gallgu Rieddawc, Tad Elien Ceimiad

Ufelwyn ap Cenydd, ap Aneuryn y Coed Aur, a fu'n Esgob yn Llan Daf, ag Eglwys iddaw ym Morganwc; a llyma'r modd y dygir ei Fonedd o Fran ap Llyr Llediaith; nid amgen,

Ufelwyn Sant ap Cenydd, ap Euryn y Coed aur, ap Caw Cawlwyd, ap Geraint, ap Erbin, ap Cystenin Coronawc, ap Tudwal Mwynfawr, ap Cadfan, ap Cynan, ap Eudaf, ap Caradawc, ap Bran fendigaid, ap Llyr Llediaith.

Llyma ddangos y modd y mae Brychan Brycheiniawc yn dyfod o Fran ap Llyr Llediaith.

Marchell ferch Dewdric, a fu gwraig Anllech Goronawc, yr hwnn oedd Frenin y Werddon. a mab iddynt a elwid Brychan, ag efe a gafas yn gyfoeth ym mraint ei Fam Garth Mathrin, a enwes efe oi enw ei hun Brycheiniawc, a llyma ei Fonedd ef.

Brychan Brycheiniawc, ap Marchell, ferch Dewdric fendigaid, Brenin Morganwg, a Gwent, a Garth Mathrin. Ap Teithfall ap Teithrin, ap Nynniaw, ap Eurbenn, ap Edric, ap Casnar draig Gwent, ap Ceiriawn draig Gwent, ap Maran Wledig, ap Meirchion, ap Gwrgan frych, ap Arthfael, ap Einydd, ap Gwrddyf, ap Gorddwfn, ap Gorwg, ap Meirchion Fawdfilwr, ap Owain, ap Cyllin, ap Caradawc, ap Bran, ap Llyr Llediaith.

Tair Gwragedd Brychan Brycheiniawc, sef eu henwau Proſori, ag Eurbrawst, a Rhybrawst, ag iddaw o'r Gwragedd hynny y bu o feibion a merched y rhai hynn. nid amgen,

1. Cynawc Ferthyr a las gan y Paganiaid Saeson, ag ym Merthyr Cynawc ei Eglwys ef.
2. Cyflewyr Ferthyr a las gan y Paganiaid Saeson, yng Ngheredigion, lle y mae yn gorwedd.
3. Dingad Arglwydd Gwent uwch Coed, lle y mae ei Eglwys.
4. Arthen, ei Eglwys ef ydoedd yng Ngwynllwg, a honno a dorred gan y Paganiaid Saeson.
5. Clydawc Sant, Ei Eglwys ef yn Euas, lle ai llas ef gan y Paganiaid Saeson.
6. Rhawin Sant, a las ar Bont Run ym Merthyr Tydfil.
7. Cledwyn ap Brychan, Brenin Ceredigion a Dyfed.
8. Rhun ap Brychan, a las gan y Paganiaid Saeson, wrth Bont Run, lle ydd oedd yn cadw y Bont yn eu herbryn.
9. Rhaint, a las yn Lloegr gan y Paganiaid Saeson.
10. Pascen, a aeth yn Esgob yn yr Ysbain
11. Cynbryd, a las gan y Saeson digred ym Mwloch Cynbryd.
12. Cynfran, ei Eglwys ef yn Llys Faen, a hi a dorred gan y Paganiaid Saeson.
13. Neffei fab Brychan y sydd Sant yn yr Ysbain, o'r lle han-oedd ei Fam, sef oedd honno Prosoiri Trydydd Wraig Brychan.
14. Pabiali Brawd Neffei unfam y sydd Sant yn yr Ysbain
15. Dogwan, a las gan y Saeson Paganiaid ym Merthyr Dogwan yn Nyfed lle mae ei Eglwys.
16. Dyfnan, ym Môn ei Eglwys, yn y Werddon y Gorwedd
17. Cadawc, yn Llangadawe yn Ystrad Tywi, y mae ei Eglwys ef, ag efe a wnaethpwyd yn Esgob gan Ddyfrig ei frawd, ag a aeth i Ffrainc, lle y gorwedd
18. Mathaearn ab Brychan, yng Ngheredigion y gorwedd.
19. Gerwyn a las yn Ynys Gerwyn, ag Eglwys iddaw yng Ngherniw.
20. Cynin, ei Eglwys ef yn Nyfed, lle y bu yn Esgob.
21. Dyfric ap Brychan, a fu yn Beriglawr Garmon Sant ap Redyw, ag a fu yn Ben rhaith ar ei gor ef yn Llancarfan, a gwedi hynny yn Archesgob Llan Daf, a doddi Cattwg Sant, ap Gwynlliw yn ei le ef yn Llancarfan, ei fam ef oedd Eurbrawst ferch Meyric ap Tewdric Brenin Morgawc.
22. Hychan ap Brychan, yn Nyffryn Clwyd y mae ei Eglwys ef.
23. Llecheu Sant fab Brychan yn Llan Llecheu yn Euas y mae ei Eglwys ef
24. Nefydd Sant ap Brychan, ei Eglwys ef Llann Nefydd yng

Ngorthir Rhyfoniawc, a gwedi hynny efe a fu yn Escob yn y Gogledd, lle ai llas ef gan y Saeson paganiaid, a'r Ffichti.

25. Cai Sant ap Brychan, yn Aber Cai ei Eglwys ef lle ai torred gan y Genedl ddu.

Meibion Brychan a fuant yn Saint yng Nghor Garmon ag yng Nghor Illtud, a gwedi hynny aethant yn Gôr gyda Dyfrig Escob yn y wig ar Wy

Llyma enwau Merched Brychan Brycheiniawc,

1. Mechell, a honn oedd wraig gyntaf Ynyr o Gaer Gawch, a Mam Nonn Fendigaid Mam Dewi.

2. Lleian Gwraig Gafran ap Aeddan Fradawc, ap Dyfnwal hên, ap Ednyfed, ap Macten Wledig.

3. Hawystl, Ei heglwys yn Llann Hawystl yng Nghaer Loyw.

4. Dwynwen, ei heglwys ym Môn. arall yng Ngheredigion.

5. Ceindrych, ei heglwys yng Nghaer Golawn.

6. Gwenddydd, ei heglwys yn y Tywyn yn y Cantref.

7. Gwladys, Gwraig Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, a Mam Cattwg Sant o Gor Garmon.

8. Nefyn, a fu wraig Cynfarch ap Meirhion gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Cenau, ap Coel Godebawc, a Mam Urien ap Cynfarch yr hwn a elwir Urien Reged, Brenin Rheged, sef hynny Gwŷyr, a Chedweli, a Charnwyllion, a'r Cantref Bychan, ag Is Cennen.

9. Gwawr, ferch Frychan, oedd Gwraig Elidir Lydanwyn, a Mam Llywarch hên, Marchawc o'r Fort Gronn yn Llys Arthur, yng Nghaer Llion ar Wysg.

10. Eleri a fu'n Wraig i Geredig, ap Cynnedda Wledig, A Mam Sanddef ap Ceredig, Tad Dewi Mynyw.

11. Elyned ferch Frychan yn y Wyddgrug yn Ystrad Alwn.

12. Gwrgon, Gwraig Cadrawd Calchfynydd, Arglwydd Calchfynydd Sef Dwnstabl, yn Lloegr.

13. Enfail, ei heglwys ym Merthyr Enfail, lle ai llas gan y Paganiaid Saeson.

14. Rhiengan, ei heglwys ym Maelienydd (Rhiengar, Llyfr arall.)

15. Goleuddydd, ei heglwys yn Llanysgin yng Ngwent.

16. Ceinwen, Eglwys iddi ym Môn.

17. Cenetlon, ym Mynydd y Cymmod.

18. Gwen ferch Frychan, ei heglwys yn Nhalgarth, lle ai llas gan y Paganiaid Saeson.

19. Gwawrddydd, Gwraig Cadell Deyrnllwg, a mam Cyngen Sant, ap Cadell Deyrnllwg.

20. Tybie, ei heglwys yn Llandybie yn Ystrad Tywi

21. Clydai, ei heglwys yn Emlyn.

22. Tudfyl, Santes hi ym Merthyr Tudfyl ym Morganwce, lle ai llas gan y Paganiaid Saeson, pan oedd yno yn ymgyflwyn ai Thad ag ynteu yn hen wr, a Brodyr iddi yno gyda hi, yn ymgais au Tad, a rhuthraw am y lle ydd oeddent o'r Saeson digred ar Gwyddyl Ffichti paganiaid, a Rhun Dremrudd mab Brychan a las yno, a Nefydd ap Rhun ei fab yn Lanc cyn barf a ymwroles o weled lladd ei Dad, a galw Gwyr attaw a gyrru ffo ar ei elynion. Tudfyl ferch Frychan oedd Gwraig Cynghen ap Cadell Deyrnllwg, a Mam Brochwel Ysgithawc.

23. Tydeu Santes, hi yng Nghapel Ogwr.

24. Tanglwst, Gwraig Gwynnawc ap Cadell ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

25. Arianwen ferch Frychan, Gwraig Iorwerth Hirflawdd, ap Tegonwy, ap Teon, ap Gwineu da i Freuddwyd, o wehelyth Beli Mawr Brenin Ynys Prydain.

26. Corth ferch Frychan, ni wyddys ym mha le ei heglwys hi, Gwraig Brynach Wyddel oedd hi, a llyma eu plant nid amgen.

1. Gerwyn mab Brynach Wyddel a Chorth ferch Brychan Brycheiniawc.

2. Mwynen,	}	Merched Brynach Wyddel a Chorth, merch Brychan.
3. Gwenan,		
4. Gwenlliw.		

Brynach Wyddel a ddaeth gyda Brychan i'r Ynys honn, ag a fu'n Beriglawr iddaw. Ceinmyged Brychan Brycheiniawc Cor Dyfric yn y Wig ar wy.

Nefydd Sant, ap Rhun Dremrudd ap Brychan Brycheiniawc.

Nefydd, ap Nefydd ail, ap Rhun Dremrudd.

Tewdwr Brycheiniawc, ap Nefydd, ap Nefydd ail, ap Rhun Dremrudd, ap Brychan Brycheiniawc.

Andras, ap Rhun Dremrudd, ap Brychan, Llanandras ym mhlwyf Teilaw Llan Daf. A hynny y sydd a wyddys am danynt o Welygordd Brychan Brycheiniawc, a fuaint yn Saint.

Llyma bellach Son am Welygordd Cynedda Wledig. Sef un Coel Godebawc.

Cynedda Wledig, ap Edeyrn, ap Padarn Beisrudd, ap Tegid, ap Iagof, ap Genedawc, ap Cain, ap Gwrgain, ap Doli, ap Gwrddoli, ap Dwn, ap Gorddwn, ap Enwerydd ap Onnwedd, ap Dwywe, ap Rychwain, ap Owain, ap Afallech, ap Aflech, ap Lludd, ap Beli mawr, Amherawdr Ynys Prydain. Mam Cynedda Wledig, Gwawl ferch Coel Godebawc.

Cynedda Wledig a ddanfones Feibion i Wynedd yn erbyn y Gwyddyl a Ddathoeddynt gyda Serigi Wyddel i Fôn, ag eraill o fannau hyd nys dygesynt y rann fwyaf o'r wlad honno oddiar wyr y Wlad, lle nad oedd yn Dywysogion neb arnynt, a meibion Cynneddaf a aethant ym mlaen y Cymry ag a yrrasant y Gwyddyl o'r Wlad, ag au lladdasant a dodî'n Gaethion y rhai a rodded iddynt eu heneidiau, yna Gwyr Gwynedd a roddasant Oresgynnaeth i'r Tywysogion hynny ar y tiroedd a ynnillasant nid amgen no hynn.

Tybiawn ap Cynedda Wledic a ddynillwys y Cantref gan yrru'r Gwyddyl ar ffo, ag yn y frwydr honno efe a las, a Goreugwyr y Wlad a roddasant Oresgynnaeth a'r Bendefigaeth ar Feiriawn ei fab, ag oi enw ef y gelwir y wlad honno Meirionydd, ai alw yntau Meirion Meirionydd.

Arwystl ap Cynedda Wledic a ynnillawd Gwlad a rodded iddaw, ai galw o'i enw ei hun Arwystli, lle ai gelwir yntau Arwystl Arwystli.

Ceredic ap Cynedda Wledic a yrrawdd yr Estroniaid o Gantref y Tyno coch, ag ai cafas yn Difeddiaeth, ac ai gelwis Ceredigiawn arni o'i enw ei hun, ag efe a elwir Ceredic Ceredigiawn.

Dunawd ap Cynneddaf Wledic a waredawdd Gwmmwd Ardudwy yn Eifionydd, ac ai cafas yn Difeddiaeth, ai galw Dinodyng oi enw ei hun. a gelwir ef Dunawd Dunodyng.

Edeyrn ap Cynedda Wledic a waredes y wlad a elwis ef Edeirniawn o'i enw ei hun, ag ar honno y cafas ef Oresgynnaeth, ag Edeyrn Edeirniawn a'i gelwir ef.

Mael ap Cynedda Wledic a gafas Maelienydd, a elwis ef ar ol hynny, o alwad ei enw ei hun, a Mael Maelienydd ai gelwir ef, yn gof am a wnaeth er gwared y Wlad honno.

Dogfael ap Cynedda Wledig a gafas y wlad a elwir o'i enw ef Dogweilyng, ag ef a elwir Dogfael Dogweilyng.

Rhufawn ap Cynedda Wledig a gafas y Cantref a elwid oi enw ef Rhyfoniawc, a Rhufawn Rhyfoniawc ai gelwir ef, a Rhun hael o Ryfoniawc, canys haela gwr yng Nghymru ydoedd ef, yn yr amseroedd y bu efe.

Oswal ap Cynedda Wledig a gafas y wlad a elwid oi enw ef Osweilyng, ag efe a elwir Oswal Osweiliawn, sef y wlad honno Tref Croes Oswallt ai hamgylched.

Clwyd ap Cynedda Wledig a gafas Ddyffryn Clwyd.

Cynir, Meilir, a Meigir, Meibion Gwron ap Cynneddaf Wledic, a aethant gyda Chaswallawn Lawhir eu Cefnder i ddeol y Gwyddyl

ar Ffictiaid o Ynys Fôn, lle ydd oeddynt wedi myned ar ffo rhag meibion Cynneddaf, a chwedi ymglyfnerthioli yn yr Ynys honno, a gwedi brwydraw creulon hwy au gyrrasant y Gwyddyl o Fôn, a Chaswallawn Lawhir a laddawdd Syrighi Wyddel yno ai law ei hun, sef y Syrighi hwnnw ydoedd Tywysawc y Gwyddyl ar Ffictiaid, a oresgynnasant Wynedd er yn amser yr Amherawdr Mag-sen Wledig, a gwedi gyrru yr Estroniaid o Fôn y Cymry a ymwr-olasant ac au gyrrasant o bob man arall yng Ngwynedd, ag nid aroses yn y wlad o honynt, namyn a wnaed yn gaethion a hynny yn dragywydd.

Ag fal hynn y cafas Cynneddaf Wledig unbennaeth ar Gymru, ag y cafas ei feibion ef y Gwledydd a soniwyd am danynt.

A Chaswallawn Lawhir, ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledig a wnaeth Eglwys i Dduw yn y lle y cafas ef y Fuddugoliaeth ar ei elynion, ag ai gelwis Llan y Gwyddyl, ag ym Mon y mae honno, ag yn awr ei gelwir †Cerrig y Gwyddyl.

[† Qu? whether there be a circle of stones there now?—Iolo Morganwg.]

Einion Frenin ap Einion Yrth ap Cynneddaf Wledig. Yn Lley-n y mae ei Eglwys ef, a Brenin Gwlad Leyn ydoedd.

Llyr Myrini ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledig, ei Eg-lwys ef Llann Llyr Gwerthryniawn, arall yn Nyfed, arall Cere-digiawn.

- | | | |
|--------------------------|---|---|
| 1. Gwynn ap Nudd, | } | Meibion Llyr Myrini o Dy-fanwedd ferch Amlawdd Wledig eu Mam. |
| 2. Caradawc Freichfras, | | |
| 3. Gwallawc ap Lleenawc. | | |

- | | | |
|--------------|---|--|
| 1. Cawrdaf, | } | Meibion Caradawc Freichfras ap Llyr Myrini, ap Meirehion Gul, ap Gorwst Led-lwm, ap Cenau, ap Coel Godebawc. |
| 2. Cadfarch, | | |
| 3. Maethlu, | | |
| 4. Tangwn, | | |

Cathan, ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

Iddawc Corn Prydain, ap Caradawc Freichfras.

Medrawt, ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

Dyfnawc, ap Medrawt, ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

Cadell, ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

Elgud, ap Cadfarch, ap Caradawc Freichfras.

Cynhafal, ap Elgud, ap Cadfarch, ap Caradawc Freichfras.

Cwyfan, ap Brwyno, ap Corth Cadeir o Gwm Dyfnawc, ap Medrawt, ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

Collen, ap Gwynnawc, ap Cadell, ap Cawrdaf, ap Caradawc Freichfras.

1. Tyfrydawe Sant
2. Dihaer, ym Modfari,
3. Tyrnawc, yn Nyffryn Clwyd,
4. Tudur,
5. Twrog.

Brodyr ydynt a Meibion Arwystl gloff, ap Owain Danwyn, ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledic. O Dywynwedd ferch Amlawdd

Wledic eu mam, a brodyr unfam ydynt, i Wynn ap Nudd, Caradawe Freichfras, a Gwallawc ap Lleenawc.

Marchell, ferch Arwystl gloff, *ut supra*, a Thywynwedd ferch Amlawdd Wledic ei mam.

Helic, ap Glannawc, ap Gwgan Glededyfrudd, ap Caradawe Freichfras, ap Llyr Myrini, ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledic.

1. Gwyar,
2. Celynin,
3. Euryrn y Coed helic,
4. Gwynnwn,
5. Boda,
6. Bodwan,
7. Bedwas,
8. Brendaf,
9. Rychwyn,
10. Brothen,
11. Elgyfarch,
12. Peris.

Deuddengmab Helic ap Glannawc, o Dyno Helic yn y Gogledd, a oresgynnes y Mor eu Tiroedd, a Saint ym Mangor fawr ym Maelawr y buant, a gwedi hynny ydd aethant rai o honynt i Gor Cadfan yn Enlli, ag yn Amser Rhun ab Maelgwn y buant.

Dewi, mab Sanddef, mab Cedig, Mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig. Mam Dewi, Nonn Fendigaid ferch Ynyr o Gaer Gawch ym Mynyw, a'r Ynyr hwnnw a roddes diroedd i Ddewi ym Mynyw, lle y gwnaeth ef Fonachlawc. a symud i honno yr Archesgobaeth o Gaerllion ar Wysg, lle y bu Dewi cyn no hynny yn Archescob.

Teilaw, mab Eisyllt, mab Hydwn, a fu'n Frenin yn y Werddon, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

Padarn, mab Corwn, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

Dogfael, fab Ithael, fab Ceredig, fab Cynneddaf Wledig.

Meirion, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledic.

Edern, mab Beli, mab Rhun, mab Maelgwn Gwynedd, mab Caswallawn Lawhir, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledic.

Tyssul, mab Corwn, mab Ceredig, Mab Cynneddaf Wledic.

Cadwaladr Fendigaid, Brenin Ynys Prydain, fab Cadwallawn, fab Cadfan, fab Iago, fab Beli, fab Rhun, fab Maelgwn Gwynedd, fab Caswallawn Lawhir, fab Einion Yrth, fab Cynneddaf Wledic, ag

yn Rhufain y gorwedd, ai Esgyrn ef a ddygir oddiyno i Ynys Prydain, ag yna'r Cymry a gant eu Coron au Teyrnas.

Carannawc, mab Corwn, mab Ceredic, mab Cynneddaf Wledic.

Cyngar, mab Garthwg, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledic, ei Eglwys ef yn Llandoche fawr lle bu ei Gor ef.

Cyndeyrn, mab Cyngar, mab Garthwg, Mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledig.

Afan Buellt, fab Cedig, fab Ceredig, fab Cynneddaf Wledig. Mam Afan Buellt oedd Degfedd ferch Tegid ap Cadell Deyrnllwg.

Gwynlliw, mab Cyngar, mab Garthwg, mab Ceredig, mab Cynneddaf Wledic.

Cynfelyn, mab Bleiddy, mab Meiriawn, mab Tybiawn, mab Cynneddaf Wledic.

Eurgain, ferch Maelgwn Gwynedd, mab Caswallawn lawhir, mab Einiawn Yrth, mab Cynneddaf Wledic.

Brothan, fab Seirioel, fab Ussa, fab Ceredic, fab Cynneddaf Wledic.

Sanddef, ap Ceredic, ap Cynneddaf Wledic, Tad Dewi Sant oedd ef.

Teyrnawc, ap Corwn, ap Ceredic, ap Cynneddaf Wledic.

Doged, ap Ceredic, ap Cynneddaf Wledic.

Gwenaseth, Gwraig Pabo Post Prydain, merch Rhufawn Rhufoniawc, ap Cynneddaf Wledic.

Meirion, ap Owain Danwyn, ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledic.

Seirioel, ap Owain Danwyn, ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledig. efe a fu'n Sant yng Nghor Garmon, a gwedi hynny y Gwnaeth Einiawn Frenin o Leyn Gor ym Mhenmon, lle dodes ef ei frawd Seirioel yn Ben rhaith ar y Gor honno, a doddi Tiroedd a da tuag atti, a Gwyr [Mae Camsyniad yma, Ewythr Llychlyn a gyrehynt Gor Brawd Tad i Seirioel oedd Einion Seirioel er dysgu gwy-Frenin o Leyn.—I. M.] bodau daionus a dwyfolion, a gorau am wybodau Cor Seirioel, a Chor Beuno o'r holl Gorau yng Ngwlad Wynedd.

Cynydyn, ap Bleiddy, ap Meirion Meirionydd, ap Tybiawn, ap Cynneddaf Wledig, a fu'n Beriglawr yn Nghor Padarn Escob yn Llanbadarn fawr, yng Ngheredigiawn, lle y gorwedd.

Ceinmyged Teulu Ceredig ap Cynneddaf Wledic, Cor Dyfrie Sant ag Archescob yn y wig ar lann Gwy, a honno a dorred gan y Paganiait Saeson, gwedi hynny arllwybraw Cor yn ei lle ym Mynyw, ag un arall yn y Tŷ Gwynn ar Daf yn Nyfed.

Llyma bellach ddangos Enwau y Saint o Wehelyth Coel Godebawc, Brenin Ynys Prydain.

Coel Godebawc, Brenin Ynys Prydain, ap Tegfan, ap Deheufraint, ap Tudbwyll, ap Eurben, ap Gradd, ap Rhuddfedel, ap Rhydeyrn, ap Eiddigant, ap Eurdeyrn, ap Einydd, ap Ennos, ap Eddolau, ap Afallech, ap Aflech, a Lludd, ap Beli Mawr, ap Mynogan, ap Cai, ap Por, ap Sawel Benisel, ap Rhydderch, ap Rhodawr, ap Eidal, ap Arthfael, ap Seisyllt, ap Owain, ap Caffo, ap Bleiddydd, ap Meiriawn, ap Gorwyst, ap Clydnaw, ap Clydawc, ap Ithel, ap Urien, ap Andryw, ap Ceraint, ap Por, ap Coel, ap Cadell, ap Ceraint, ap Elydnawc, ap Morydd, ap Dan, ap Seisyllt, ap Cyhelyn, ap Gwrgan farfdrwch, ap Beli, ap Dyfnwal Moelmud, ap Dyfnfarth hên, ap Prydain, ap Aedd Mawr, Brenin Unben cyntaf Ynys Prydain.

Elen Santes ferch Coel Godebawc, a gafas y Grog fendigaidd lle ydd oedd wedi ei chuddiaw dan garnedd gan yr Iuddewon digred, a hi a fu wraig yr Amherawdr Cystenin, yr hwn a wnaeth ddinas Constinobl er cynnal y rhai a gredynt yn Nuw a Christ ei fab.

Gwawl ferch Coel Godebawc oedd Gwraig Edeyrn ap Padarn Beisrudd, a mam Cynneddaf Wledic.

Ceneu fab Coel Godebawc sydd Sant yng Ngarth Mathrin.

Cynllo Sant, ap Mor, ap Cenau, ap Coel Godebawc, ei Eglwys ef yng Ngheredigiawn.

Mor ap Canau, ap Coel Godebawc, yn Llanfor ym Mhenllyn Gwynedd

1. Elifer Gosgorddfawr,	}	Meibion Arthwys ap Mor, ap Ceneu, ap Coel Godebawc.
2. Ceidiaw ap Arthwys,		
3. Pabo Post Prydain.		

1. Sawyl Benuchel,	}	Plant Pabo Post Prydain.
2. Dunawd fawr,		
3. Arddun Benasgell Gwraig Brochwel Ysgithrawc		

1. Deinioel,	}	Meibion Dunawd fawr ap Pabo Post Prydain, a Cheinmyged y Tri brodyr hynn yn Nawdd Gwehelyth Cadell
2. Cynwyl,		
3. Gwarthan,		

Deyrnllwg, Bangor fawr ym Maelawr yng Nglann Dyfrdwy, ag yno y buant yn Benrheithiau.

Pabo Post Prydain oedd frenin yn y Gogledd, ag efe a yrrwyd oi wlad gan y Gwyddyl Ffichti, ag a ddaeth i Gymru, lle y cafas Diroedd gan Gyngen Deyrnllwg, mab Cadell Deyrnllwg, a chan

ei fab ef Brochwel Ysgithrawc, a Dunawd fab Pabo Post Prydain a roddes Diroedd hefyd i'r Gor honno.

Deinioel, ap Deinioel ail, ap Dunawd, ap Pabo Post Prydain, Sant o Fangor Maelawr, a gwedi torri honno, efe a aeth i Wynedd uwch Conwy lle y bu yn arllwybraw Cor Bangor fawr yn Arllechwedd, a elwir Bangor Deinioel, yn amser Cadwaladr fendigaid, yr hwnn a roddes Diroedd at y Gor honno, a gwedi hynny symudawdd Elfod Sant, ac Escob Caer Gybi y Gwyndy i Fangor Deinioel, lle ydd aeth ef yn Archescob ar holl Wynedd,

Dwywe Santes, ferch Wallawc ap Lleenawc, ap Llyr Myrini, ap Meirchion Gul, ap Gorwyst Ledlwm, ap Cenau, ap Coel Godebawc; hi a fu wraig Dunawd fawr ap Pabo Post Prydain.

Madawc Morfryn ap Morydd, ap Mor, ap Cenau, ap Coel Godebawc, Sant o Gor Illtud.

Elaeth Frenin, ap Meyric, ap Idno, ap Meirchion Gul, ap Gorwyst Ledlwm, ap Cenau, ap Coel Godebawc, Sant ym Mangor Seirioel, ei fam ef oedd Onnen Grec, ferch Gwallawc ap Lleenawc, Iarll y Mwythig.

Urien Rheged, Brenin Rheged, sef rhwng Tawy a Thywy, ap Cynfarch, ap Meirchion Gul, ap Gorwyst Ledlwm, ap Cenau, ap Coel Godebawc. Teyrnas Rheged ydoed Gwyr a Chedweli, a Charnwyllon, a'r Cantref Bychan, ag Is Cennen, lle bu Urien gydag wyrion Cynneddaf Wledig, a meibion Ceredig ap Cynneddaf, yn gyrru'r Gwyddyl o'r Wlad honno.

Nidan ap Gwrifyw, ap Pasgen, ap Cynfarch, ap Meirchion gul, Periglaur y Saint ym Mangor Benmon, ei Eglwys ef ym Môn.

Cynfarch, ap Meirchion Gul, a wnaeth Eglwys ym Maelawr, ai henw Llangynfarch, a honno a dorred gan y Paganiaid Saeson, pan fu waith Perllan Fangor,

Cyndeyrn Garthwys, ap Owain, ap Urien Reged, ap Cynfarch, ap Meirchion Gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Cenau, ap Coel Godebawc, efe a fu'r Escob cyntaf ym Mangor Assaf, a elwir ynawr Llanelwy. Mam Cyndeyrn Dwywe ferch Lewddyn Luyddawc o Ynys Eiddin yn y Gogledd.

Tyfodwg Sant, ap Gwilfyw, ap Marchan, ap Brân, ap Pill, ap Cerfyr, ap Meilir Meiliriawn, ap Gwron, ap Coel Godebawc.

Tudwg Sant, ap Tyfodwg Sant ap Gwilfyw, *ut supra*.

Grwst, ap Gwaith Hengaer, ap Elffin, ap Urien, ap Cynfarch, *ut supra*, Mam Grwst Euronwy ferch Cludno Eiddin, ap Cynwyd Cynwydion.

Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, ap Garthwys, ap Morydd ap Mor, ap Cenau ap Coel Godebawc, ei Eglwys ef ym Morganwe.

- | | | |
|------------------------|---|--------------------------|
| 1. Cludno Eiddin, | } | Meibion Cynwyd Cynwydion |
| 2. Cynan Gefnhir, | | a fuant yn ddiscyblion |
| 3. Cadrod Calchfynydd, | | Cattwg yng Nghor Gar- |
| 4. Cynfelyn Drwsogl. | | mon. |

Llywarch Hên, ap Elidir Lydanwyn, ap Meirchion gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Ceneu, ap Coel Godebawc.

Ysgwn, ap Llywarch Hên.

Buan ap Ysgwn ap Llywarch Hên.

Dwywc ap Llywarch Hên, Ei Eglwys yn Euas

Cadell ap Urien Foeddawc, ap Rhun Rhion, ap Llywarch hên.

Ei Eglwys Llangadell ym Morganwg, yn Nghor Cattwg.

Mechydd, ap Sanddef bryd Angel, ap Llywarch hên.

Talhaiarn Caerllion, o Gaerllion ar wysg, ap Garthwys, ap Morydd, ap Cenau, ap Coel Godebawc, Periglawr Emrys Wledic oedd Talhaiarn, a gwedi lladd Emrys ydd aeth ef ym Meudwy-aeth, yn y lle y mae ei Eglwys ef yn Rhyfoniawc.

Tangwn ap Talhaiarn Caerllion, ei Eglwys ef yng Ngwlad yr Haf, ai henw yn Saesoneg Tangyntwn. [qu? Taunton.]

Assaf Sant ap Sawyl Benuchel, ap Pabo Post Prydain, yr Escob cyntaf ym Mangor Assaf.

Llamed Angel, ap Pasgen, ap Urien Reged.

Mor, ap Pasgen, ap Urien Rheged, yn Enlli y gorwedd.

- | | | |
|-------------|---|--|
| 1. Gwrgi, | } | Saint o Fangor Illtud, Meibion Elifer Gos- |
| 2. Peredur. | | gorddfawr, ap Arthwys ap Mor, ap |

Morydd, ap Cenau, ap Coel Godebawc.

- | | | |
|----------------|---|-------------------------------------|
| 1. Gwenddolau, | } | Meibion Ceidiaw ap Arthwys, ap Myr, |
| 2. Nudd, | | ap Morydd, ap Cenau, ap Coel Gode- |
| 3. Cof, | | bawc, Saint o Fangor Illtud. |

Llawdden Sant, o Ynys Eiddin, yn y Gogledd.

Cedwyn, ap Gwron Meigwron, ap Peredur, ap Elifer Gosgorddfawr a Madryn, ferch Gorthefyr fendigaidd ei fam.

Elian Ceimiad, mab Gallgu Rieddawc, ap Cardydwg, ap Cyngu, ap Ysbwys, ap Cadrod Calchfynydd, ap Cynwyd Cynwydion, o Denai ferch Dewdwr mawr ei fam.

Tegfan Sant, Mab Cardydwg, Mab Cyngu, mab ysbwys, mab Cadrawd Calchfynydd, a Thenai ferch Dewdwr Mawr ei fam.

Llyma ddangos y sydd o Seint yng Ngwelygordd Cadell Deyrnllwg, ag a fuant oi flaen ef o'r wehelyth honno, nid amgen.

Cadell Deyrnllwg, Brenin Pywys, ap Pasgen, ap Rhiyddwy, ap Rhuddfedel frych, ap Cyndeyrn, ap Gwrtheyrn Gwrtheneu, ap Rhydeyrn, ap Deheufraint, ap Euddigant, ap Aurdeyrn, ap Ennydd, ap Ennos, ap Eddolau, ap Afallach, ap Aflech, ap Beli mawr.

Aurdeyrn, ap Gwrtheyrn Gwrthenau oi ferch ei hûn, a fu'n Sant yn Llann Edeyrn yng Nghibwyr, lle mae ei Eglwys ef, ag yno y gorwedd: ag efe a wnaeth Gôr yno i drichant Seint, a'r Saeson ai torres yn amser Cadwaladr fendigaid.

Cyndeyrn, ap Gwrtheyrn Gwrtheneu, a fu'n Sant yn Llangydeyrn Cydweli, lle y mae ei Eglwys ef, ag yno y gorwedd.

Anna ferch Gwrthefyr fendigaid, a fu'n Wraig Ynyr o Gaer Gawch ym Mynyw, a mam Nonn fendigaid mam Dewi Sant.

Madryn ferch Gwrthefyr Fendigaid, oedd gwraig Ynyr Gwent.

Cynhyddan, fab Ynyr Gwent, A Madryn ferch Gwrthefyr fendigaid ei fam.

Tegiwg ferch Ynyr Gwent, a Madryn ferch Gwrthefyr fendigaid ei mam.

Teon Sant, ap Gwinau da i freuddwyd, ap Byrlew, ap Bywdeg, ap Rhun Rhuddbaladr, ap Llery, ap Casnar Wledic, Gloyw Gwlad lydan, ap Lludd, ap Beli Mawr, Sant oedd ef ag Escob yng Nghor Illtud, a gwedi hynny Escob yng Nghaerloyw, a gwedi hynny Archescob yn Llundain, ag oddiyno y gyrrwyd ef gan y Saeson Paganaiat, yna ydd aeth ef i Lydaw,

Tegonwy ap Teon, ap Gwineu da i freuddwyd, *ut supra*, a fu sant ym Mangor Illtud, a gwedi hynny gyda Chadfan a Deinioel yn arllwybraw Bangor Enlli.

Llywelyn Sant o'r Trallwng Sant o Fangor Enlli, ap Tegonwy, ap Teon. *ut supra*.

Gwrnerth, Sant o'r Trallwng, ap Llywelyn Sant o'r Trallwng, ap Tegonwy, ap Teon, *ut supra*.

Mabon Sant, ap Tegonwy, ap Teon, Brawd Llywelyn Sant o'r Trallwng, ei Eglwys ef ym Morganwg.

Cyngen, fab Cadell Deyrnllwg, a roddes dâoedd a daear at Fangor Mawr Maelawr, a Cheinmyged Teulu Cadell Deyrnllwg y Gor honno, a thri meib Dunawd ap Pabo Post Prydain yn ei harllwybraw, ag yn Benrheithieu ynddi, sef oeddynt Deinioel, a Chynwyl a Gwarthan, a fuant ddisgyblion yng Nghor Cattwg Llancarfan.

Brochwel Ysgithrawc, ap Cyngen, ap Cadell Deyrnllwg, Brenin Teyrnllwg sef y wlad tra Dyfrdwy a Hafren, efe a las yng

Ngwaith Perllan Fangor, pan dorred y Gor honno gan y Paganaiat Saeson.

Tyssiliaw Sant, fab Brochwel Ysgithrawc ym Meifod ei Eglwys ef.
Mawan, mab Cyngen, mab Cadell Deyrnllwg,

Ystyffan, fab Mawan, fab Cyngen, fab Cadell Deyrnllwg, ei Eglwys ef Llanystyffan ym Maelienydd.

Cynan Garwyn, mab Brochwel Ysgithrawc.

Selef, mab Cynan Garwyn, mab Brochwel ysgithrawc.

Dona, fab Selef, fab Cynan Garwyn, fab Brochwel Ysgithrawc.

Enghenedl, fab Cynan Garwyn, fab Brochwel Ysgithrawc.

Tegfedd, ferch Tegid, fab Cadell Deyrnllwg, a Gwraig Cynneddaf Wledic, ei heglwys yng Ngwent, lle ai llas gan y Saeson.

Gwynlliw Arglwydd Gwynllwg ym Morganwg, ap Glywis, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg.

Cattwg Sant, o Lancarfan, ap Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg, efe a fu'n Ben rhaith ar y Gor a beris Garmon Sant ap Rhedyw, ei gwneuthur yn Lllancarfan yn lle Dyfric pan ai gwnaethpwyd yn Archescawb Llandaf, sef cyntaf oedd y Gor honno ag un Illtud, a wnaethpwyd gan Armon Sant a Bleiddan Sant yng Nghymru pan ddaethant i'r Ynys honn i adnewyddu Cred a Bedydd.

Cammarch ab Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, *ut supra*, ei Eglwys ef ym Muellt.

Hywgi, ap Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, *ut supra*.

Beuno, ap Hywgi, ap Gwynlliw, *ut supra*, a wnaeth Fangor Beuno, yng Nghlynog fawr yn Arfon, a honno a fu'n glodforusaf o'r holl Fangorau yng Ngwynedd am Wybodau a Dwyfoldeb, a gwedi hynny y gwnaethwyd hi yn Fonachlog fal ag y mae yn awr.

Glywis Cerniw, ap Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg, Brawd Cattwg Lllangarfan, ei Eglwys ef Coed Cernyw yng Ngwynllwg.

Gwodloyw Sant, mab Glywis Cerniw, a fu'n Escob yn Llan Dâf, a chyno hynny Periglaur i'r Saint yng Nghor Cattwg.

Cynfyw, ap Gwylliw, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg, Brawd arall Cattwg Lllancarfan, a Sant yn ei Gôr ef.

Gwyddlew, ap Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid, ap Cadell Deyrnllwg, brawd arall i Gattwg Lllancarfan, a Sant o'i gor ef.

Cyflewyr, ap Gwynlliw, ap Glywis, Brawd etto i Gattwg. a Sant yn ei Gor ef.

Cannen Santes ferch Gwyddlew, ap Gwynlliw, ap Glywis, *ut supra*.

Maches Santes, ym Merthyr Maches, lle ai llas, ferch Gwynlliw, ap Glywis, ap Tegid; a chwaer Cattwg Llancarfan, Maches Santes a roddai Gardodau i bob tlawd ai gofynai, a Sais o Bagan a elai yn rhith Cardottyn, lle y gwypai ei bod yn rhoi Cardawd, ag ai gwanai dan ei bronn a chylllell.

Edeyrn, ap Gwrhydr drwm, ap Gwrhydrawc, ap Geraint, ap Carannawc ap Cleddyfgar, ap Cynan Glodrydd, ap Cadell Deyrnllwg, Sant o Gor Illtud,

Eldad, ap Geraint, ap Carannawc, ap Cleddyfgar, ap Cynan Glodrydd, ap Cadell Deyrnllwg, Sant o Gôr Illtud, ag Archescawb Caerloyw, efe a las gan y paganieit Saeson [gwel Eldad mewn man arall dan Fran ap Llyr.—I. M.]

Ustic, ap Geraint, ap Carannawc, *ut supra*, efe a Dyfric a fuant Beriglorion Garmon Sant yng Nghor Garmon.

Ceinmyged Gwelygordd Cadell Deyrnllwg, Bangor Garmon a elwir Llanfeithin yn Llancarfan, ag a elwir Bangor Gattwg.

Llyma bellach gyfarwyddyd am Welygordd Emyr Llydaw a ddanfoned i Ynys Prydain i adnewyddu Cred a Bedydd, yn ddwy Gor y daethant y Welygordd honno i Ynys Prydain. Cyntaf gyda Garmon Sant, ag yng Nghor Illtud y Cyttrefas. Ail gyda Chadfan Sant, au Cyttref Ynys Enlli.

Cyntaf a ddaeth i'r Ynys honn o'r ddwy Gor, un Garmon Sant ac Escob, mab Rhedyw Sant o Dir Gal ag ewythr brawd Mam i Emyr Llydaw, Ag yn amser Cystenin Llydaw y daeth ef yma, lle ydd aroses ef hyd yn amser Gwrtheyrn Gwrt heneu, ag yna myned i Wlad Ffrainc, lle y bu farw, ag efe a wnaeth ddwy Gor o Saint, ag a ddodes Eseyb a Dwyfolion ynddynt fal y gellynt ddysgu'r ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry, lle ydd oeddynt wedi ymgammu yn eu ffydd au cred, Un Gor a wnaeth ef yn Llancarfan, a doddi Dyfric Sant yno yn Ben rhaith, ag efe ei hun yn Escob yno. Un arall yn emyl Caerworgorn, lle dodes ef Illtud yn Benn rhaith, A Bleiddan Sant yn Benn Escob yno. Gwedi hynny y dodes ef Escobion yn Llann Daf, ag a wnaeth Dyfric yn Archescob yno, a doddi Cattwg Sant, ap Gwynlliw, yn y Gôr yn Llancarfan yn ei le, ag ir Archescob Llandaf fod yn Escob iddaw yno.

Illtud Farchawc, ap Bicanus, Cefnder Emyr Llydaw; a Gweeryl ferch Dewdric Brenin Morganwe ei fam, efe a ddoded yn Benn rhaith ar y Gor a wnaeth yr Amherawdr Tewdws yng Nghaerworgorn, lle y bu Badric ap Mawon yn dysgu Cred a Chrefydd cynno i thorri'r gor honno gan y Gwyddyl, a dwyn Patric yn yspail i'r Werddon.

Amwn Ddu, fab Emyr Llydaw, a fu'n Sant yng Nghor Illtud, lle y gorwedd.

Samson ap Amwn ddu Brenin Grawec, ap Emyr Llydaw, ag Anna ferch Meyric ap Tewdric, Brenin Morganwe ei fam. a fu'n Sant ag Escob yng Nghor Illtud, lle y gorwedd.

Tathan, Sant o Fangor Illtud, ap Amwn Ddu Brenin Grawec, ag Anna ferch Meyric ap Tewdric ei fam, efe a wnaeth Eglwys Llandathan ym Morganwg, ag oddiyno ydd aeth at Ynyr Gwent, i Arllwybraw Bangor yng Nghaer Went, lle y bu ef yn Benn rhaith, ag yn ei henaint efe a ddaeth yn ei ol i'r Eglwys a rywnaethoedd ef yn Llan Dathan, lle y gorwedd.

Gwyndaf, ap Emyr Llydaw, a fu yn Beriglawr yng Nghor Illtud, a gwedi hynny efe a wnaethpwyd yn Benn rhaith ar Gor Dyfric yng Nghaer Llion ar Wysg, ag yn ei henaint myned i Enlli, lle y gorwedd. Eglwys iddaw Llann Wyndaf yn Arfon.

Meugant ap Gwyndaf, ap Emyr Llawdaw, Sant o Gor Illtud, a gwedi hynny o Gor Dyfric yn Nghaerllion ar Wysg, a aeth yn ei henaint i Enlli. lle y gorwedd. Mam Meugant Gwenonwy ferch Meyric ap Tewdric, Brenin Morganwe o Garth Mathrin

Crallo Sant, nai mab brawd Illtud, a ddaeth gyda Garmon i'r Ynys honn, ag a fu'n Sant yng Nghor Illtud, ag efe a wnaeth Eglwys a Chor yn Llangrallo lle y gorwedd. ei fam ef Canna Santes ferch Dewdwr mawr o Lydaw.

Canna Santes, ferch Dewdwr Mawr o Lydaw, a mam Crallo Sant, ei heglwys hi Llanganna ym Morganwg.

Bleiddan Sant ag Escob a ddaeth i'r Ynys honn gyda Garmon Sant yn Amser Cystenin fendigaid, a elwir Cystenin Llydaw, i adnewyddu Cred a Bedydd, ag a wnaeth Eglwysi ym Morganwe ag arnynt ei enw ef, efe a fu'n Sant ag Escob ym Mangor Illtud.

Hewnin, Mab Gwyndaf ap Emyr Llydaw, Sant o Gor Illtud, a gwedi hynny Escob yn Enlli.

Tydecho, mab Amwn ddu, Brenin Grawec, ab Emyr Llydaw.

Pedrwn, mab Emyr Llydaw, Sant o Gor Illtud.

Padarn, fab Pedrwn, fab Emyr Llydaw, Sant ag Esgob o Gor Illtud, a gwedi hynny Archescob Llanbadarn fawr yng Ngheredigion, lle y gwnaeth ef Gor chweugain Saint.

Hywel ab Emyr Llydaw, yng Nghor Illtud y gorwedd.

Llynab, fab Alan, fab Emyr Llydaw, a fu'n Esgob yng Nghor Illtud, ag Archescob yn Llandaf.

Lloniaw, ab Alan, ab Emyr Llydaw, Sant o Gor Illtud, a Pheriglawr Padarn Escob yn Llanbadarn fawr.

Lleuddad, ab Alan, ab Emyr Llydaw, a fu ynghor Illtud, a gwedi hynny Esgob yn Enlli, a Lleuddad Llydaw ai gelwir ef.

Llyma bellach a fuant gyda Chadfan Sant yn Enlli.

Cadfan Sant, ap Eneas Ledewig o Lydaw, a Gwen Teirbronn ferch Emyr Llydaw, a fu'n Benn rhaith Bangor Gadfan yn Enlli.

Padarn, ap Pedryn, mab Emyr Llydaw, Cefnderw i Gadfan.

Tydecho, Mab Amwn ddu, Brenin Grawec, fab Emyr Llydaw, Cefnderw i Gadfan.

Tryniaw, fab Difwg, fab Emyr Llydaw, Cefnderw i Gadfan.

Meilir, fab Gwyddnaw, fab Emyr Llydaw, Cefnderw i Gadfan.

Hefnin, fab Gwyndaf hên fab Emyr Llydaw, Cefnderw i Gadfan ai Beriglaur ef yn Enlli.

Cynon a ddaeth gyda Chadfan i Enlli, a Chynghellawr iddaw ef yno.

Baglan Llydaw, mab Ithael Hael o Lydaw

Tegai, mab Ithael hael o Lydaw.

Trillaw, Mab Ithael hael o Lydaw.

Llechid Santes, Merch Ithael hael o Lydaw.

Fflewinn, Mab Ithael hael o Lydaw.

Gredifel, mab Ithael hael o Lydaw.

Twrog, Mab Ithael hael o Lydaw.

Tanwg, Mab Ithael Hael o Lydaw.

Baglan, ym Morganwg,

Tygai, ym Maes Glassawc,

Llechid, yn Arllechwedd

Tanwg, yn Ardudwy,

Twrog, yn Arfon,

Gredifel, Penn Mynydd Môn,

Fflewinn, Môn.

} eu heglwysau.

1. Derfael, } Meibion Hywel ap Emyr Llydaw oeddynt,
 2. Dwyfael, } a Cefnderwydd i Gadfan; a fuant yng
 3. Arthfael, } Nghor Illtud, a gwedi hynny gyda
 Chadfan ym Mangor Enlli.

Lloniaw, ap Alan, ap Emyr Llydaw, yn Enlli y Gorwedd.

1. Cristiolys } Meibion Hywel fychan, ap Hywel Faig, a
 2. Rhystud } elwir Hywel Farchawc ap Emyr Llydaw.

Cristiolys, ym Môn,

Rhystud, yng Ngheredigion.

- | | | |
|--|---|--|
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Dochwy, 2. Sulien, 3. Tecwyn, 4. Mael, 5. Llewini, 6. Llynab, 7. Ethrias. | } | <p>O Lydaw ydd hanoeddynt, Ceraint i Gadfan,
a ddaethant gydag ef i Wynedd i wrth-
ladd yr anffyddlonion, ag a fuant yn
Saint ym Mangor Enlli.</p> |
|--|---|--|

Canna Santes, ferch Dewdwr, fab Emyr Llydaw, Gwraig Gallgu Rhieddawg, a mam Elian Ceimiad, a mam Crallo Sant, ei heglwys hi ym Morganwc. A chyn no hynny hi a fu'n briod a Sadwrn Farchawc Cefnderw Emyr Llydaw, a Brawd Illtud.

Sadwrn, ap Bicanys Farchawc, a ddaeth yn ei henaint gyda Chadfan, Eglwys iddaw yn Emlyn, arall yn Ystrad Tywi.

Ceinmyged yr Amherawdr Tewdws a Chystenin Llydaw Bangor Illtud, lle bu Belerus gwr o Rufain yn Arllwybraw, a Phadric ap Maewon yn Benn rhaith cynno i ddwyn yn gaeth o Yspail. gan y Gwyddelod,

Ceinmyged Emyr Llydaw a Meyric ap Tewdric, Brenin Morganwc, Cor Garmon a Chattwg yn Llancarfan, a gwedi hynny Teulu Cadell Deyrnllwg.

Ceinmyged Emyr Llydaw ag Einion ap Owain Danwyn, a Dewi Sant, Bangor Enlli.

Ag felly y terfyna.

[O Lyfr hir Tomas Truman o Bant Lliwydd, a fuasai yn un o Lyfrau Thomas ab Ifan o Dre Brynn.]

DADYSGRIF IOLO MORGANWG.

Myfi,—Taliesin ab Iolo Morganwg,—a dynnais yr Achau a Gwelygorddau uchod, o Ddadysgrif fy NHAD, yn *llwyr* fal ag a'u cefais yno.—1841.

ACHAU SAINT YNYS PRYDAIN.

(O Lyfr Mr. Cobb, o Gaer Dydd.)

BRAN Fendigaid ap Llyr Llediaith, y cyntaf o Genedl y Cymry a ddygwyd i'r ffydd yng Nghrist, ai Welygordd ef yw'r hynaf o Welygorddau Saint Ynys Prydain. ei Eglwys ef Llan Daf.

Awystl hen gwr o'r Eidal a ddaeth gyda Bran ap Llyr i Ynys Prydain i ddysgu'r ffydd yng Nghrist.

Ilid Sant gwr o'r Israel a ddaeth gyda Bran ap Llyr o Rufain i ddysgu'r ffydd ynghrist i Genedl y Cymry.

Eigen ferch Caradawc ap Bran ap Llyr Llediaeth, gwraig Sallawc Arglwydd Garth Mathrin.

Lleurwg Sant a elwir Lleufer Mawr ap Coel ap Cyllin ap Caradawc ap Bran ap Llyr Llediaeth a ddanfones at y Pab Elidir i geisiaw Eseyb i ddodi bedydd ar a gredynt i Grist o Genedl y Cymry.

Medwy sant a fu'n gennad dros Leurwg ap Coel ap Cyllin at y Pab Elidir. ag efe a wnaethpwyd yn Escob yn Rhufain ei Eglwys ef Llanfedwy ym Morganwc.

Elfan Sant a fu'n gennad dros Leurwg Sant, at y Pab Elidur ag a wnaethpwyd yn Escob yn Rhufain ei Eglwys ef Ynys y Fallon.

Dyfan Sant a wnaethpwyd yn Escob yn Rhufain fal y gallai fedyddiaw a gredynt i Grist o Genedl y Cymry. ei Eglwys ef Caer Dyf a'r Merthyr Dyfan lle ai llas gan y Paganiait

Ffagan Sant gwr o'r Eidal a ddaeth yn Escob i Gymru o anfoniad y Pab Elidir ei Eglwys Llansantffagan.

Gwerydd Sant ap Cadwn ap Cenau ap Eudaf o wehelyth Bran fendigaid ap Llyr Llediaith, ei Eglwys ef Llanwerydd, honno yw San Dunwyd.

Gwynno Sant o wehelyth Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith ei Eglwys ef Llanwynno.

Cadrawd Sant ac Escob ap Cadfan ap Eudaf ap Coel ap Cyllin ap Caradawc ap Bran Fendigaid ei Eglwys ef Caerllion a'r Wysg.

Tydwal Sant ap Corinwr ap Cadfan ap Eudaf ap Coel ap Cyllin ap Bran Fendigaid

Ifor ap Tudwal ap Corinwr, *ut Supra* yn Lloegr y mae ei Eglwys ef.

Gwrmael ap Cadfrawd Escob ap Cadfan ap Eudaf Ei Eglwys ef Caerloyw.

Cadgyfarch Sant ag Escob brawd Gwrmael ei Eglwys ef y Brynn Buga.

Rhystud hen Esgob o Gaerllion ar Wysg o wehelyth Bran fendigaidd ap Llyr.

Cloffan Sant o wehelyth Bran ap Llyr Llediaith ei Eglwys ef yn Nyfed.

Cynneddaf hen Sant gwr o'r Israel a ddaeth yn escob at Leu-rwg Sant ap Coel ap Cyllin o Rufain.

Mabon Wynn ap Glas, ap Glassawe, ap Coedwallawn ap Coel ap Cyllin ap Caradawc ap Bran Fendigaidd.

Glassawe ap Coedwallawn, *ut Supra*, yng Ngwynedd y Gorwedd ei Eglwys Llanynglassawe.

Melydd ap Cynfelydd o wehelyth Bran Fendigaidd ap Llyr Llediaith, yn Llundain y mae ei Eglwys lle bu yn Escob.

Nyniaw Sant ac Escob Brenin Gwent a Garthmathrin, ei Eglwys ef yn y Gogledd,

Teithfalch ap Nynniaw, a elwir hefyd Tudfwlech ap Nynniaw, ei Eglwys ef Llandudfwlech yng Ngwyr.

Tewdric ap Teithfalch Brenin Gwent a Garth Mathrin, a las gan y Gwyddyl ym Merthyr Tewdric yng Ngwent lle mae ei Eglwys ef.

Meyric ap Tewdric a las gan y Gwyddyl yng Ngheredigion lle doded Eglwys iddaw.

Morgan ap Adras ap Meyric ap Tewdric a wnaeth Eglwys a Chor ym Margam lle y gorwedd. efe a elwir Morgan Morganwg o *gyfrinach* (Quære—what does this mean? Iolo Morganwg.)

Geraint ap Erbin ap Cystenin Gorner Arglwydd Gereinwg. yn Henffordd ei Eglwys.

Cyngar,

Iestin,

Caw Cawlwyd,

Selyf.

} Meibion Geraint ab Erbin.

Caw Cawlwyd ab Geraint ab Erbin oedd Arglwydd Cwm Cawlwyd yn y Gogledd, ag efe a yrrwyd oi wlad gan y Gwyddyl Ffichti ag a ddaeth i Dwr Celyn ym Mon, a llyma enwau Plant Caw o Dwr Celyn a fuant yn Seintiau.

1. Garhai: 2. Gildas: 3. Cewydd: 4. Peirio: 5. Cyhelyn:

6. Annef : 7. Cof, 8. Gwrthili : 9. Cynddilig : 10. Samswn ; 11 Huail : 12. Gallgof : 13. Eigrawn. 14. Maelon : 15. Aidan y Coed Aur : 16. Eigrad : 17. Idwal Dirinic. 18. Cyngan foel : 19. Cywellawe : 20. Peithini.

Cenydd, }
 Gwynnawe, } Meibion Gildas ap y Caw, a elwir Gildas
 Nwython, } y Coed Aur
 Madawe Fardd. }

Cynddilig }
 Teilaw Fyrwallt } Meibion Nwython ap Gildas ap y Caw
 Rhun, } o Gwm Cawlwyd

Egwad Sant, ap Cynddilig ap Nwython ap Gildas y coed aur.
 yn Ystrad Tywi y mae.

Ffili Sant ap Cennydd ap y Coed aur, yng Ngwyr y mae.

Gwrin Sant ap Cynddilig, ap Nwython, ap y Coed Aur. Trefwrin a elwir Gwrinstwn.

Ufelwyn ap Cennydd ap Gildas ap y Caw o Gwm Cawlwyd, escob Llan Daf.

Tudwal Mwynfawr ap Cadfan ap Cynan ap Eudaf o Wehelyth Bran ap Llyr.

Tegwen ferch Tewdric ap Teithfalch, gwraig Gallgu Rieddawe Tad Elian Ceimiad.

Eldat Sant ac Escob ab Arth ab Arthwg ap Cystenin Gorner ap Cynfar ap Tudwal Mwynfawr ap Cynan ap Eudaf o wehelyth Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith.

Cynan ap Eudaf o wehelyth Bran fendigaid a fu'n escob yn Llundain amser Macsen Wledig.

Marchell ferch Tewdric ap Teithfalch Brenin Gwent a Garth Mathrin, gwraig Anllech Goronawe a mam Brychan Brychein-iawe.

Dygain, }
 Ysewn, } Tri meib Cystenin Gorner,
 Erbin }

Rhun, }
 Tyfaelawe, } Meibion Euryn y coed aur a elwir Gil-
 Gwynno, } das Sant a Gildas Broffwyd.
 Cynddylan Sant }

Gwythelin Sant ac Escob ab Teithfalch ap Nynniaw o wehelyth Bran Fendigaid ni wyddys ba le yr oedd yn Escob.

Cyhylyn Sant ap Tewdric ap Teithfalch o wehelyth Bran ap Llyr, a fu yn Escob yn Llundain amser Cystenin Llydaw.

Macsen Wledig ap Llywelyn Iarll Cerniw, ap Tegfan ap Deheufraint, ap Tudbwyll, ap Eurben, ap Gradd, ap Rhydeyrn, ap Eurdeyrn, ap Cyndeyrn, ap Euddos, ap Afallach, ap Aflech, ap Lludd, ap Beli mawr, Macsen Wledig a fu'n Frenin Unben Ynys Prydain, ac Amherawdr Rhufain ai Lys yng Nghaerllion ar Wysg, ac efe oedd y cyntaf er ym amser Dyfnwal Moelmud a gynhaliawdd Llys unben yno, a chyntaf oedd ef a ddodes Escyb Dyledogion yn Ynys Prydain a thiroedd a chyfoethu iddynt. a phedwar maib a fu iddaw nid amgen,

Gwythyr,	}	Eraill a ddywedaint fod iddaw fab arall
Owain Finddu,		sef Pebli yr hwn y sydd Sant yn y
Cystenin,		Gaer yn Arfon eraill eisioes a ddywed-
Ednyfed,		ant mai Mab Owain finddu oedd

Public. A llyma'r Seint a ddeuant o Facsen Wledic nid amgen.

Ednyfed ap Macsen Wledic Brenin Gwent.

Dyfnwal Hen Brenin Gwent ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Public Sant ap Owain Finddu ap Macsen Wledic ei Eglwys' ef yn y Gaer yn Arfon.

Madawc ap Owain Finddu ap Macsen Wledic.

Ceinwr Sant o Gor Illtud, ap Cedig ap Dyfnwal Hen ap Ednyfed, ap Macsen Wledic.

Gafran ap Aeddan Fradawc ap Dyfnwal Hen ap Ednyfed ap Macsen Wledic, ei wraig ef Lleian ferch Frychan Brycheiniawc.

Mordaf ap Serfan ap Dyfnwal Hen ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Elidir Mwynfawr ap Gorwst Briodawr ap Dyfnwal Hen, ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Rhydderch, ap Tudwal Tudclyt ap Cedig ap Dyfnwal Hen, ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Ceidiaw ap Ynyr Gwent ap Dyfnwal Hen, ap Ednyfed ap Macsen Wledic, A Madren ferch Gorthefyr Fendigaid ei fam.

Cadwr ap Ednyfed ap Macsen Wledig a fu Escob yn Ynys Prydain, a Brawd Dyfnwal Hen ydoedd. ac yn byw yng Nghaerllion a'r Wysg.

Gwyddnaw Garanir ap Gorboniawn ap Dyfnwal Hen Brenin Gwent ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Elffin ap Gwyddnaw Garanir ap Gorboniawn ap Dyfnwal Hen Brenin Gwent ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Nudd Hael ab Senyllt ap Cedie ap Dyfnwal Hen ap Ednyfed ap Macsen Wledic.

Cynheiddon ap Ynyr Gwent ap Dyfnwal Hen, ap Ednyfed ap Maccsen Wledic.

Dingad,
Gwrtherin,
Baglan,
Lleuddad,
Tegwyn
Tyfriawc,
Ilar ap Nudd
Tegwynn,
Llidnerth,

Meibion Nudd Hael, ap Senyllt, ap Cedig ap Dyfnwal Hen, ap Ednyfed ap Maccsen Wledig. ac Arglwydd y Brynn Buga.

Eleri ferch Nudd Hael ab Senyllt ap Cedig ap Dyfnwal Hen ap Ednyfed ap Maccsen Wledic,

Melangell ferch Cyfwlch addwyn Fab Tudwal Tudclyt fab Cedig fab Dyfnwal Hen, fab Ednyfed, fab Maccsen Wledic.

Mygnach Sant o Gaer Lëon ap Mydnaw ap Gwron ap Arch, ap Gwrddyled, ap Eginir, ap Owain Finddu, ap Maccsen Wledic.

Llyma etto eraill o Seiniau, o Welygordd Bran Fendigaid, ap Llyr Llediaith.

Selyf ap Geraint ap Cystenyn Gorner ap Cynfar ap Tudwal Mwynfawr ap Cynan ap Eudaf O wehelyth Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith.

Cybi Sant ag Escob ap Selyf ap Geraint, *ut supra*, Archescob Gwynedd, a Thonwen ferch Ynyr o Gaer Gawch ei fam.

Pawl Sant ac escob o Gor Illtud ap Meyric ap Tewdric, efe a wnaeth Gor lle mae y Ty Gwynn ar Daf yn Nyfed.

Rhun ap Euryn y Coed aur ap Caw o Dwr Celyn y sydd Sant yn Ystumllwynarth.

Cynddilic ap Nwython ap Euryn y Coed aur, y sydd Sant yng Ngwlad yr Haf.

Elfod Sant ac Escob o Gor Cybi, ac Archescob Gwynedd, ap Goleudrem ap Glassar, ap Geraint, ap Nynniaw, ap Cynddilic, ap Nwython ap Gildas Broffwyd ap Caw o Gwm Cawlwyd a elwir Caw o Dwr Celyn ym Mon.

Cain Santes ferch y Caw o Dwr Celyn, ei heglwys yn Ystrad Tywi,

Glassawc ap Glassar ap Geraint ap Nynniaw ap Cynddilic ap Nwython ap Gildas Broffwyd ap Caw o Gwm Cawlwyd, ei Eglwys ef yn Arllechwedd. efe a fu'n Escob yng Nghaer Gybi

ag a ddodes diroedd at Fangor Deiniol yng Ngwynedd uwch Conwy.

Dolgain ferch Gildas y Coed aur ap Caw arglwydd Cwm Caw-
lwyd.

Brychan Brycheiniawc ap Anlech Goronawc Brenin y Wer-
ddon a March ferch Tewdric ap Teithfaleh Brenin Gwent a
Garthmathrin ei fam.

Llyma enwau Plant Brychan Brycheiniawc, enwau ei feibion
ydynt,

- | | | |
|-----------------------------------|--------------|---------------|
| 1. Cynawc Ferthyr, | 9. Cynbryd, | 18. Mathaern, |
| 2. Cyflewyr, | 10. Dyfnan, | 19. Cledwyn, |
| 3. Dingad Arglwydd
Brynn Buga, | 11. Rhaint, | 20. Cynin, |
| 4. Pabiali, | 12. Pascen, | 21. Hychan, |
| 5. Neffei, | 13. Cynfran, | 22. Nefydd, |
| 6. Rhun, | 14. Clydawc, | 23. Llecheu, |
| 7. Dogfan, | 15. Cadawc, | 24. Cai, |
| 8. Arthen, | 16. Gerwyn, | 25. Dyfric. |
| | 17. Rhawin, | |

Enwau Merched Brychan Brycheiniawc ydynt,

- | | | |
|---------------|-----------------|-----------------|
| 1. Gwawr, | 11. Gwladus, | 21. Tudfyl, |
| 2. Gwenfrewi, | 12. Gwenddydd, | 22. Gwawrddydd, |
| 3. Eleri, | 13. Dwynwen, | 23. Clydai |
| 4. Gwrgon, | 14. Hawystl, | 24. Cenedlon, |
| 5. Mechell, | 15. Rhieingan, | 25. Arianwen |
| 6. Lleian, | 16. Goleuddydd, | 26. Tybieu, |
| 7. Nefyn, | 17. Tydyeu, | 27. Gwen, |
| 8. Ceindrych, | 18. Cymmorth, | 28. Anna. |
| 9. Eluned, | 19. Tanglwst, | |
| 10. Enfail, | 20. Ceinwen, | |

Nefydd Sant ap Rhun Dremrudd ap Brychan Brycheiniawc.

Nefydd ap Nefydd ail ap Rhun Dremrudd.

Tewdwr Brycheiniawc ap Nefydd ap Nefydd ail ap Rhun
Dremrydd.

Andras ap Rhun dremrydd ap Brychan Brycheiniawc. Llan
Andras ym mhlwyf Teilaw ym Morgangwg.

Brynach Wyddel Periclawr Brychan Brycheiniog, ei wraig ef
Cymmorth ferch Brychan. ei Eglwys ym Morgangwg.

Gerwyn ap Brynach Wyddel a Chymmorth ferch Frychan ei fam.

Mwynwen, Gwennan, Gwenlliw,	}	Merched Brynach Wyddel a Chymmorth ferch Brychan eu mam.
-----------------------------------	---	--

Llyma Wehelyth Ynyr o Gaer Gawch.

Ynyr Sant o Gaer Gawch ap Gwyndec ap Saethenin Frenin o Faes Gwyddno a oresgynnes y mor ei dir, ap Seithenyn Hen ap Plaws hen Brenin Dyfed ap Gwrtherin Tywysawc o Rufain a yrrodd y Gwyddyl o Ddyfed a Gwyr.

Meyrig Brenin Dyfed ap Gwrthelin ap Eudaf ap Plaws hen Brenin Dyfed, ap Gwrtherin Pendefic o Rufain a yrrodd y Gwyddyl o dir Gŵyr a Dyfed.

Sadwrn Hen fab Ynyr o Gaer Gawch, ei Eglwys ef yn Emlyn, Patric Sant fab Gwyndec a Brawd Ynyr Caer Gawch.

Sadyrnin ap Sadwrn hen ap Ynyr Caer Gawch.

Nonn Fendigaid Mam Dewi Sant ferch Ynyr Caer Gawch ac Anna ferch Uthur Brendragon Amherawdr Ynys Prydain ail wraig oedd hi i Ynyr Caer Gawch ag a fu cyn no hynny yn wraig Amwn Ddu ap Emyr Llydaw.

Banhadlen ferch Ynyr Caer Gawch a gwraig Dirdan. Pendefig o'r Eidal.

Elfyw ap Dirdan a Banhadlen ferch Ynyr Caer Gawch ei fam.

Anna Santes merch Uthyr Bendragon, a mam Dewi Sant, a chyn o hynny hi a fu wraig Amwn Ddu Brenin Grawec ap Emyr Llydaw a mab iddi a fu o'r Amwn hwnnw, ai Enw Samson Sant o Gor Illtud.

Saethenin frenin o Faes Gwyddno a oresgynnes y mor ei dir ap Seithin hen ap Plaws hen Brenin Dyfed ap Gwrtherin Pendefig o Rufain a ddaeth i Yrru'r Gwyddyl o Dir Gwyr a Dyfed,

Gwyndeg,

Senewyr,

Arwystl Gloff,

Llibio,

Tudelyt,

Meirynt,

Gwynhoedl,

Hoedloyw,

Tudur,

Ynyr,

}	Meibion Seithenin ab Seithin, frenin o Faes Gwyddno a oresgynnes y Mor ei Dir. a myned a wnaethant yn Saint ym Mangor Fawr ym Maelawr yng Nglan Dyfrdwy, yn gosail Dawn Cyngen Frenin ap Cadell Deyrnllwe.
---	--

Meiryn ap Meiryni, ap Seithenin o Faes Gwyddno.

Tyneio,

Tyrawc,

Tydiaw,

Tefrydawc,

Tudur,

Dihaer,

Marchell,

Plant Arwystl Gloff, ap Seithenin frenin a fuant gyda Deiniol ym Mangor Maelawr, a gwedi torri'r Gor honno hwy a aethant ym Mangor Gadfan yn Enlli, eu mam hwy oedd Tywanwedd merch Amlawdd Wledic.

Ceithaw Sant ap Tudur ap Arwystl gloff, yng Ngheredigion ei Eglwys ef

Sawyl Felyn Sant, ap Bledri Hir, ap Meyric Brenin Dyfed. ei Eglwys ef Llansawyl yn Emlyn uwch Cuch.

Meyric Brenin Dyfed oedd un o'r pedwar Brenin a ddygant y Cleddyf Aur o flaen yr Amherawdr Arthur ar y Tair Gwyl Arbennic ag ymmhob gwyl a gwledd gorfoledd ac Urddas

Llyma enwau Plant y Caw Cawllog,

1. Ceidiaw, 2. Blenwyd, 3. Afarwy, 4. Auryn y coed Aur.—5, Peirio, 6. Gwrddelw, 7. Gwrddwdw, 8. Afrogwy, 9. Celyn Moel, 10. Aeddau, sef oeddent deg

Llyfr Thos. Truman. y Du Mawr. ag mewn Llyfr arall iddo fal hynn,

1. Peirio, 2 Ceidio, 3 Afarwy, 4 Blenwyd 5 Gildas y coed aur, 6 Gwrddelw, 7, Cyhelyn foel 8. Cennydd, 9, Eigrawn, 10 Afrogwy, 11 Gallgof, 12, Cilydd 13 Dirinic. 14. Caffo, 15, Huail, 16, Aeddau.

O Lyfr Mr. Llwyd o Fewmares, fel y canlyn,

1 Peirio, 2 Cennydd, 3, Samson, 4 Cyngar, 5, Huail,—6, Cyhelyn Fardd, 7, Gallgof. 8, Eigrawn, 9, Gwrddelw, 10, Cilydd, 11, Dirinic, 12, Cewydd, 13, Aneuryn y Coed Aur, 14, Cynwrig, 15 Cof (Coff)

Ag fel y Canlyn o Lyfr Thom Hopein o Langrallo.

1, Peirio,	7, Dirinic,	13, Eigrawn,
2, Gallgof,	8, Cewydd,	14, Cyhelyn fardd,
3, Eugrad,	9, Maelog,	15, Cyngar,
4, Cenydd,	10, Gwrddyly,	16, Samson,
5, Aneurin,	11 Cilydd,	17, Canna ferch y
6, Caffo,	12 Huail,	Caw.

Tad y rhai hyn sef y Caw o Brydyn, a yrrwyd oi wlad gan y Gwyddyl Ffichti, ag Arglwydd Cwm Cawlwyd oedd efe, a dyfod efe ai blant i Gymru a wnaethaut rhai at Arthur, ag efe a roddes iddynt diroedd, a rhai o honynt a aethant yn Saint yng Nghor Illtud ag ynghor Teilaw Ag yng Nghor Cattwg. eraill a aethant at Faelgwn Gwynedd, ag efe a roddes iddynt diroedd ym Mon nid amgen na Thwr Celyn ag o hynny allan Caw o Dwr Celyn ai gelwid ef.

Plant Caw o Brydyn o Lyfr Mr. Davies Bangor.

1, Dirinic	5, Cynwric,	9, Huail,	13, Gwrddelw,
2, Cilydd,	6, Gwydion,	10, Gildas,	14, Eigrawn,
3, Bangawr,	7, Samson,	11, Cyhelyn,	15, Aneurin,
4, Ustic,	8, Cyngar,	12, Gallgof,	16 Caen.

Merched Caw,

Cywyllog,
Peithian,
Gwenafwy. } yn Sir Fon y maent yn gorwedd.

Llyfr Llanganna, a'r pethau hynn ynddo yn amgen nag y sydd yn Llyfr Thomas Truman eithr Cytuno ag ef ymhob peth arall, un o Lyfrau Tre Brynn ydyw ef,

Llyma'r Esgobion a fuant yn dadlu ag Awstin Escob y Saeson ar lan Hafren yn y Denau nid amgen, Esgob Caerffawydd a elwir Henffordd, 2, Escob Teilaw, 3 Escob Padarn—4 Escob Bangor—5 Escob Elwy—6. Esgob y Wig 7 Escob Morganwg.

(Llanganna)

Saith Cangell oeddynt ym Mangor is y Coed a 300 o wyr go-lychwydol o fenaich gwyr Llen ymhob Cangell, a moli Duw Dydd a nos heb orphwys—(Llanganna)

Endwy ap Hywel Farchawc ap Hywel Feic ap Emyr Llydaw.

Meigan ap Patric ap Cyffylloc, ap Garmon ap Goronwy o Wareddawg Sant o Gor Beuno,

mewn Llyfr arall fal hynn.

Meigan ap —)
Patric ap —)
Cyffylloc ap —) Goronwy o Wareddawc Saint o Gor Beuno.
Garmon ap —)

mewn arall fal hynn,

Meigan ap Gronwy o Wareddawe,
 Patric ap Gronwy o Wareddawe,
 Cyffyllawe ap Gronwy o Wareddawe,
 Garmon ap Gronwy o Wareddawe.

Ceinwen Santes

Ffinan o Gor Seirioel a aeth yn Escob i'r Gogledd,

Trystan,—	Carannawe,	Cedweli,
Llibio,		Cynheiddan,
Machraith,—	Dyfed	Darawe,
Rhuddlad—	Ystudwal,	
Rhwydrys,—	Ystinau,	Brychan,
Llwyfo.—	Elfyw,	Gwenfael,
	Hywel,	Elwy,
Arfon,	Dylwyf,	Elli.
Deiniolen,	Rheithion,	
Melldeyrn,—Llyn,	Satyrnin,	Gwent
Elidau } Dyffryn		Gwarwg
Cynhafal } Clwyd,	Emlyn	Henwg
Cyfin	Gwrda—Llanwrda	Ffwyst,
		Gofor
Ceredigion	Elfed	Mablu }
Dygwy—	Llawddawe	mableu }

Illtud Sant a wnaeth yn ael Hodnant wyth ugain cell ag wyth fal y dywed y Prydydd

Gwnaeth Illtud Sant	Cedwaint o neb
Ar lan Hodnant	Coel Duwioldeb
Wyth ugain Côr	Dirwest unpryd
Ag wyth rador	Gweddi Penyd
Lle ddanneddaint	Elusennau
Ddwyfil o Saint	a Chardodau,
Yn Bucheddu	Ag yn eu mysg
Wrth ffydd Iesu,	Cynnal addysg

Arall.

Ylltud a wnaeth wyth ugain ag wyth dy Cylfar ag ynddynt ddwy fil o Saint a dwyfolion yn cynnal gwybodau Cristnogolion a daionus, fal y dywed y Prydydd

Brychan a gafas Garth Mathrin ac ai gelwis oi henw^zei hun
Brycheiniawc

Gwynlliw ap Glywis a gafas Gantref Llinwent, ac ai gelwis
Gwynllw^g oi enw ei hun.

Glywys ap Tegid a gafas Glywyseg ac ai gelwis felly oi enw ei
hun, lle mae gwelygordd Elystan Glodrydd.

Morgan ap Arthur a gafas Gantref Gwent a Gantref Essyllt, a
Gorwenydd, a Rheged ag ai gelwis oi enw ei hunan Morganwg.

Cadfan Llydaw a wnaeth Fangor Enlli, lle mae'r Fonachlog
yn awr.

Gwyddno Garanir a Geraint ap Caranawc meibion Carannawc
ap Cleddyfgar ap Cynan Glodrydd ap Cadell Deyrnllwg a or-
esgynes y Mor eu Tir

Gleddigar ap Cynfarch ap Rhychwain.

Cyndaf Sant Gwr o'r Israel a ddaeth gyda Garmon i'r Ynys
honn. eraill a wedant gyda Chadfan,

Arwystl gloff ap Seithenin o faes Gwyddnaw,

Tudur ap Arwystl gloff ap Seithenin yn Nargwain.

Annan Llawforwyn Madrun ferch Gwrthefyr Fendigaid.

Cynhawal Sant ap Elgud ap Cadfarch ap Caradawc Freichfras.

Mor ap Pascen ap Urien Rheged yn Llanfor ym Mhenllyn.

Llawdden Sant o Ynys Eiddin yn y Gogledd.

Cadell ap Urien Rion ap Llywarch Hen Sant o Gor Cattwg yn
Llangadell.

Lleuddad Llydaw, ap Hywel ap Emyr Llydaw.

Lleuddad Gwent, ap Dingad.

Llynab fab Alan fab Emyr Llydaw,

Cirig Sant ap Urien ap Cynfarch, (in *al*, ap Arawn ap
Cynfarch)

Edern ap Nudd ap Beli ap Maelgwn Gwynedd,

Teilaw ap Eusysyllt ap Hiddyn Ddu ap Ceredig ap Cynedda
Wledig, Sant o Gor Cattwg.

Concilium Arelatense in Gallia Anno 314. ELBORIUS Escob
Caerefrawc, RHYSTYD Esgob Llundain, ac ADELFFIN Escob Caer-
llion ar Wysg

Saint ym Morganwg a Gwent

Cennydd,	Mabon,	Gwynno,
Tewdric,	Tewdric,	Madawc,
Ciwg,	Iago,	Isan,
Nonn (Gŵyr)	Cewydd,	Tybieu,
Samled,	Rhidian	Garai,
Elldeyrn,	Cenwyn,	Garan,

Ymherawdr Jovanus anno 363. Llythyr Athanasius atto yn son am ffydd y Cymry *fal* y Brutaniaid)

Morgan yr Heretic 405 Ymhrydain 425.

Garmon a Lupus 427.

Mor ap Morien, a ddug fedydd a chred ag ni ddygai fedydd ar Dir Gwynedd, sef y cyntaf oedd Gwydion ap Don, Brenin Llychlyn a fu yn frenin ar Wlad Wynedd amser y bu y Gwyddelod y gwladychu Tir Gwynedd, a gwedi hynny aeth Mor i Rufain a Chaersalem. Garmon sant a — — — —

MAN-GOFION

AM RAI O SAINT YNYS PRYDAIN, O WAHANOL FAN-YSGRIFAU
ANGHYSSYLLEDIG.

N_{AW} Gwehelyth Saint Ynys Prydain, ac o Genedl y Cymry ydd hanoeddynt oll.

1, Bran ap Llyr Llediaith, ac efe oedd y cyntaf, am hynny y gelwid ef Bran Fendigaid, a Bendigeidfran.

2, Maesen Wledig ab Llwybrawd, ai wehelyth ef a fuant, yn saint a gwyddys hyd heddiw y lleoedd y buant au heglwysau.

3, Brychan Brycheiniawc ai fam ef oedd Marchell ferch Tewdric Brenin Morganwg ai wraig gyntaf ef oedd gyfnither iddaw nid amgen no Rhybrawst ferch Meiric ap Tewdric, Brenin Morganwe a gwent ac Euas.

4, Coel Godebawc Brenin Ynys Prydain ac efe a wnaeth Eglwys yn Llandaf.

5, Gwehelyth Dyfnwal Hen, a fuant yn Saint ynghymru lle mae eu heglwysau yn gadwedigion dan eu henwau.

6, Caw o Brydyn efe a ddaeth i Gymry ac a gafodd Dwr Celyn, ym Mon, ac or lle hwnnw ydd hanoedd ei fam a hawl a chyfiawnder iddaw ar Dir a Daear yno.

7, Emyr Llydaw a hanoeddawdd parth ach a gwehelyth o Ynys Prydain, nid Amgen nag o Gynan Meredawc Tywysawc Cernyw, ag ef sef y Cynan hwnnw a gafas Gyfoeth a thiroedd gan Faesen Wledic yn Llydaw lle y gwledychawdd ef. ai wehelyth ef a ddaethant yn Saint i Ynys Prydain ac a fuant yn ynys Enlli yn Gyff Saint Gwynedd lle mae llawer o'u heglwysau.

8, Cynedda Wledig Brenin Ynys Prydain ac yng Nghaer Liwelydd ei Lys Cynnal.

9, Helic ap Glannawc o Dyno Helic yn y Gogledd a ynnillawdd mor ei dir ef a'i wehelyth a fuant yn saint yng Ngwynedd, lle mae llawer o'u heglwysau. Eraill a ddywedant mai nawfed gwehelyth Saint oeddent Gwehelyth Gwrtheyrn Gwrthenau, ag yng Ngwent llawer o'u heglwysau.

O Lyfr Sion Bradford, a gafoedd ef, meddai, o Lyfr yn llaw Watkin Pywel o Ben y Fai, ynghylch y flwyddyn. 1600.

Bleiddan Sant o Dir Gal a wnaeth Eglwys Llanfleiddan fawr ac un Llanfleiddan fach. Brawd ffydd ydoedd ef i Armon Sant.

Nudd hael ap Senyll o Gor Illtud a wnaeth Eglwys Llysfonudd.

Owain ap Urien Sant a wnaeth Eglwys a Chastell Aberllychwr. Ceinwr Sant a wnaeth Eglwys Llangeinwr.

Tyfodwg Sant o Gor Illtud a wnaeth Eglwys Llandyfodwg ag un ystrad Dyfodwg.

Cadwaladr fendigaidd a wnaeth Eglwys Tref Escob yng Ngwent, ac un y Fagwyr, gerllaw Iddi.

Ynyr Gwent a wnaeth Eglwys y Fenni,

Glywys ap Tegid a wnaeth Eglwys Machen

Tewdric Sant ap Teithfallt, a wnaeth Eglwys Bedwas ag un Merthyr Tudfyl.

Caerllion ar Wysg Macsen Wledig ai Gwnaeth.

Maenarch Iarll Henffordd a wnaeth Eglwys Gelli Gaer ag un Llanfabon er cof anrhydeddus am Fabon Sant,

Ceinwr Sant ap Coel ap Cyllin ap Caradoc ap Brân, ap Llyr Llediaith, ap Baran ap Ceri hir Lyngwyn, a wnaeth Eglwys Llangeinwr ym Morganwg. Gwr oedd ef ni chredai neb yn berchen bywyd yng nghnawd, nag un ysprydol y chwaith nagi amgen o'r byd. y credai namyn i Dduw ei hun, neu yntau a ddelai ym mraint Duw drwy wyrth rhyfeddodau lle nis gellid teb na godeb nad o Dduw ydoedd. parth a welid ac a ddyellid er a wnelai ac a wettai mal y gweddai ar hân a hendid a fu'n gydgymhrain ansoddau a'r hynn a welid Ar Fab Duw ai Saint. fal nas gellid dwyn ar odeb nad o Dduw y byddaint.

Ag efe Beinydd beunoeth yn gweddio Duw er cael ar olwg a chlyw gantho a ddiriai arno ddal ar gred — ag ymbwyll o gymhrif olwg a chlyw a geid yn anesgorol modd nas gellid amgen, parth ag ynddo ef yr hyn a ddamunai.

Llyma fwy o fonedd saint o Lyfr Antoni Pywel.

1. Ylldud farchog ab Bicanws o Dir Llydaw, ai fam ef oedd ferch Brenin Morganwg, a Phenraith oedd ef ar holl farchogion Arthur, ag Ymryson a fu rhwng Ylltud ar Ymherodr Martianys a dau wr a fynnai ei ladd o benswyddwyr yr Ymher-

odr, ag a ddaliasant Ylldud Sant ar weddi ac ni allasant syflyd y dim lleuaf, eithr Ylltud oi weddiau a'u hadferawdd, a phan wybu'r Ymherodr hynn am ei Swydd Wyr ef a'u difreiniawdd ag a roddes Gyfoeth i Ylldud, i wneuthur Cor Saint yn y Man y bu Cor Eurgain Santes ferch Garadoc Brenin Morganwg yr hwn wedi ei ddwyn yn gaeth i Rufain a ddygwyd ef ai ferch Eurgen i'r ffydd ynghrist gan Ildid Sant Gwr o'r Israel, yr hwn Ildid a ddaeth o Ryfain ir Ynys hon gyda Charadoc ac Eurgen, a hwy a ddygasant y Cymry Gyntaf ir ffydd Ynghrist ag Eurgen a wnaeth Gor i ddeuddeg Sant, a Lles ab Coel a roddes Gyfoeth i'r Gor honno, a chwedi hynny hi a aeth yn benna Cor yn y Byd Ag yn y Man hynny y gwnaeth Ylldud dair Cell fawr newyddion yno o ddawn Martianws. ag a aeth yn Sant yno, ag yn benraith ar yr holl gelloedd a'r Minteioedd yno, y rhain oedd Gell Eurgen tair Cell Ylltud, Cell Arthur, Cell Gildas, a Chell Dyfrig, a'r lle a elwid cynno hynny Bangor Lleufer Sant a chweddy hynny Bangor Ylldud a Llanyldud. ag enwocaf ar Goreu'r Byd ydoedd am Ddwyfoldeb a phob Dysgeidiaeth a dwyfil o Saint yno. ag Arthur a roddes Gyfoeth a Rhenti Mawrion i'r Celloedd hyn. a Thewdrig frenin a Sant a roddes gyfoeth iddynt ag a wnaeth Bedair Cell newyddion yn lle'r saith Gell gyntaf, a Phedair Llan y sydd iddo Ymorgan, nid amgen Llanylldud fawr, Llanilltyd Gŵyr, Llanylldud faerdre a Llanylldud Glynn Nedd.

2. Cattwg ab Cynlais ap Glywis ap Tegid Brenin Morganwg, ef oedd gar Ildud, ag a wnaeth Gor i fil o Saint yn Llancarfan a'r lle hynny a fu enwog iawn am Dduwioldeb, a phob dysg er a fedri'r a Chattwg yn Benraith ar oll o naddynt, (*it is rather strange that Cynlas and Gwynlliw should be the same person.**)

3. Lleufer Mawr ab Coel ab Meyryc, ydoedd frenin ar Ynys Prydain, ag yn byw yn Llandaf, ag ef a wnaeth Esgobaeth yno gyntaf ag a roddes gyfoeth i Gor Eurgen i gant o saint. ag a wnaeth Gor yngwynedd y lle a elwid wedi hynny Bangor is Y Coed. ag Arthur wedi hynny a roddes gyfoeth i Gor is y Coed ag a wnaeth yno saith Mintai yn ol y cynghorwyd ef gan Ylldud. A Lleufer ab Coel a fu'r Brenin Cyntaf a wnaeth Drefn Gwlad a Chyfraith ar y ffydd ynghrist, ag a wnaeth Dair Esgobaith nid amgen Llandaf a Chaerwryl, a Chaerfelyn, a'r tair Esgobaeth a fuant y rhai cyntaf yn Ynys Prydain.

* Eglur yw mai synniad Iolo Morganwg yw'r un Saesneg ymma.—A B Iolo.

Ilid Sant Gwr o'r Israel a ddaeth i'r Ynys hon gydag Eurgen Santes ag efe oedd y cyntaf yn dwyn Ynys Prydain i'r ffydd ynghrist

Illtud a wnaeth Saith Eglwys, ac a ddodes saith mintai at bob Eglwys, a Saith cylfar ym mhob mintai, a saith sant ymhob Cylfar

	al	
Saith Eglwys		7
Saith Mintai		7
		—
		49
Saith cor cylfar		7
		—
		343
Saith Sant		7
		—
		2401
		—

A chynnal mawl i Dduw a gweddi yn ddiorphwys ddydd a nos gan ddeuddeg Sant o leenogion o bob mintai

Illtud a ddug dri hwylybren Tri thop Castell: chwech dart o aur—

Efe a wnaeth Illtud Farchog a sant saith Eglwys a saith Llann, a saith Mintai at bob Llan, a saith Gell ar bob Mintai, a Chor o bob Mintai, a saith Lleen ymhob Cell, a chynnal mawl a gweddio Duw gan ddeuddeg sant o bob Cor ddydd a nos heb orphwys

Illtud farchog ef a a ddug ariant dri hwylybren. Tri thop Castell aur, a chwech dart o'r aur, (y tair hwylybren dros ei dair ysgol ai dri thop Castell dros ei dair cor Saint ai chwech dart aur dros y chwech Eglwys a wnaeth ef er dysgu'r ffydd yng Nghrist, a chyfrif rif Llannau, ag yr oeddynt oll yng Nghaer Worgorn, ym Morgangwg, lle y gelwir yn awr Llanilltud Fawr. ag eraill o lannau a wnaeth efe yn y wlad honno.

Gwarthan fab Dunawd fab Pabo Post Prydain a fu Beriglawr Cattwg yng Nghor Garmon, a Chattwg ai danfones efe ai frodyr Deinioel a Chynwyl i arllwybraw Bangor ym Maelor ynglann Dyfrdwy. ag o ddoethineb a dwyfoldeb y Tri brodyr hynn ydd aeth honno yn urddasolaf Ag amlaf ei Saint o holl Fangorau Ynys

Prydain, a hi a dorrrwyd gan y Saeson Paganiaid yng Ngwaith Perllan Fangor, ac yno y llas llawer o'r Saint ag eraill a ddi-anghasant a aethant yn Saint ym Mangor Enlli ag o hynny ydd-aeth Enlli yn amlaf ei Saint a chlodfawrusaf ei Gwybodau o'r holl fangoreu a geid yng Ngwynedd, a rhoddiau Brenhinoedd a Phen-defigion a Bonheddigion iddi yn amgen a mwy nag i un arall. Gwarthan a las gan y paganiaid Saeson yn rhyfela yn y Gogledd, ei Eglwys ef Llanwarthen yn Nyffryn Clwyd.

Llyma Enwau Celloedd Cor Illtud,

Cor Mathew Cor Marcus, Cor Lucus, Cor Ieuan, Cor Arthur, Cor Dewi, Cor Morgan, a Chor Eurgain, a chor Amwn ag Illtyd yn Benrhaith ar yr wyth Gor hyn, Ag enwi'r Lle Bangor Illtyd, a theirmil o saint.

Yng Nghor Dyfrig yr oedd y Corau hynn sef Cor Dyfrig Cor Arthur, Cor Jiliws, Cor Aran, a'r rhain oll ynghaer Lleon ar wysg, a Chor Dyfrig a Chor Meugant ar lan Gwy, a Chor Llandaf a Dyfrig yn Benraith arnynt oll a dwyfil o Saint,

Bangor Aidan a Saith Gôr a dwyfil, a'r enwau'r Saith niwar-nod yr wythnos.

Cor Cattwg yn Llancarfan a thair Cell a mil o Saint, a dwy Gell ynglyn nedd iddo.

Cor Cyby ymôn a phumcant o saint a Chybi'n benrhaith.

Cor Eurdeyrn ab Gwrtheyrn yn Llaneurdeyrn ymorganwg ag Eurdeyrn yn Benraith a Mil o saint.

Cor Dochwy ymorganwg a mil o Saint.

Cor Gadfan yn Enlli i ugainmil Saint ag nid oedd yno Gell-oedd eithr pob un fal y mynai a gwedi ugainmil saint e fu Enlli yn Gor o Gell i bumcant Sant.

Cor Mechell ym Môn i Gant Sant.

Cor Dewi ym Mynyw i bumcant o Saint

Cor Teilo yn Llandaf i fil o saint,

Cor Cawrdaf ymorganwg i dri chant o Saint

Cor Dyfan yn Llan Daf a Dyfrig yn Benraith,

Cor Ffagan yn Llansanffagan, a ffagan yn Benraith,

Cor Elbod ym Mangor Elbod yn Arfon ag Elbod yn Benraith-raith ar bumcant o saint,

Cor Tathan ynghaerwent ar bumcant o saint a Chor hefyd gan dathan yn Llandathan Ymorganwg i bumcant o Saint, a Thathan yn Benraith ar y Ddwy Gor yma.

Cor Eurgan yn Llanilltyd i bedwar Sant ar hugain a hon a fu'r
Gor gyntaf yn y Byd i ddysgu'r Efengyl, a'r ffydd ynghrist,

Cor Sarllawc yn Llandaf i ddegsant ar hugain a Sarllawc yn
benrhaith.

Cor Elvan yn Ynys Wydrin i fil o Saint,

GWYLIAU SAINT CYMRU, &c.

Allan o hen "Galander" mewn Ysgriflyfr a ysgrifenydd ynghylch
1500, ym meddiant Mr. Thomas Davies o Ddolgelieu.

IONAWR,

11 Llwhaearn, 12, Elar a
Llwhaearn, 13, Ilari, Elian, 19,
Gwylystan. 23, Elli, 24, Cat-
twg, 3, Malangell,

CHWEFROR,

1, St. Ffred leian 9. Teilaw,

MAWRTH.

1, Dewi 3, Non fam Dewi, 5,
Caron, 7, Sannan 11, Duw
Pasc, 17, Padric, 19, Cynbryd,
29, Gwynlliw,

EBRILL,

5, Derfel, 7, Brynach, Lla.
a Gwrnerth, 16, Padarn, 21,
Beuno,

MAI.

1, Philip a Iago—Asaph, 4,
Melangell, 6, Isan borth Lladin
9, Gwyl Ofor 13, Mahael a
Sulien, 16, Granog, 17, Noe i'r
Arch. dilyw'n codi. 20, Anno,
21, Collen, 22, Helen frenhin-
es, 27, Melangell, Garmon 29,
Erbin, 30, Tydglyd,

MEHEFIN,

1, Tegla, 3 Gofen, 4, Pedroc,
13, Sannan, 15 Trillo, Geneu
16, Cirig 17. Mylling, 22, Al-
banus, 23, Mifilia, 24, Ifan vawr
26. Turnoc, 30, Pawl,

GORPHENNAF,

1, Gwyl Gewydd y Glaw, 3,
Peblic—4, Marthin, 6 Cofyl,
10, Saith frodyr. 11, Gowair,
13, Doewan, 17. Eliw, Cynllo,
27, Saith Gysgadur—31, Gar-
mon Escob.

AWST.

8, Illog yn Hivnant, 15, Gwyl
Fawrfawr, 18, Elen, 22, Gwydd-
elau, 27, Feddwid, 29 Ifan
fechan, Torfynygl,

MEDI,

1, Silin,—2, Sulien, 4, Rhudd-
lad, 5, Mechell, 6, Idlos, 8,
Cynfarch 9, Y Ddelw fyw, 10,
Eigion, 11, Daniel, 20, Gwen-
frewi—24, Tegla Mwrog, 25,
Beugan, 30, Nidan.

HYDREF.

1. Silin a Garmon, 5, Cynha-
fal, 8, Cain,—Cammarch, 9,
Cynog, 10, Tanwg, 15, Tudur,
21, Gwryddor—23, Gwnog,
Noethan, 31, Dogfael.

TACHWEDD.

3, Clydog—Christiolys,—
Gwenfoe, 5, Cybi—6, Cydnerth
—Edwen, 7, Cyngar—8 Tys-
siliaw Powys, Cynfarwy, 9, Pa-
bo Post Prydain, 11, Marthin

11, Edeyrn, 12, Padarn, Cadwaladr, 13, Gradifel, 14, Meilig, 15, Machudd—Mechell, 17, Afan, 21, Digain—22, Dyniolen, 23, Clement, 27, Gallgof, 29, Sadwrn, RHAGFYR
1. Grwst a Llechyd, 5, Cawrda, escob 6, Nicolas — —*

Padrig ap Alfyrd ap Goronwy† ap Gwydion ap Don ap Daronwy

Padrig ap Mawan, ap Alfyrd ap Goronwy ap Gwydion ap Don, ap Daronwy o Dir Llychlyn a Brenin Mon.

Plant Urien Rheged. 1. Owain Marchog or ford Gronn, a Iarll y ffynon,—2. Pasgen, Cyff Ceneddyl Gwaed Brain. 3, Rhun, 4, Elphin, 5, Cyndeyrn, 6, Rhiwallon, 7, Cadell, 8, Garth ap Urien.

542, bu farw Deiniol Escob Bangon; ag y gwnaed Theon escob Caerloyw yn Archescob Llundain, ag y bu farw Samson archescob Caerefrawc. marw Dewi hefyd.

Meyryg Brenin Morganwg a roddes ar ei fedydd y Tir i Dduw a Theilo ac Escyb Llandaf dros fyth y Tir Cyfoeth a'r breiniau ac o hyn y ddaeth yn ddefod rhoddi Tir i Dduw ai Saint ar fedydd, a lleni bai bedydd ar Aberth Corph Crist, canys cadarnaf llw ar bob llw yw a wnaled ar fedydd neu Aberth Corph Crist.—*(Llyfr Antoni Powel o Lwydarth.)*

Segin Wyddel Sant o Gor Illtud, Llanmihangel y Bontfaen, ag Eglwys iddaw yng Ngwynedd.

* Y Gwyliau uchod a ganlynant "Hen Galander" Amaethyddiaeth, yn yr ysgrif rag-enwedig: ond gann fod y ddalen ag oedd yn cyssylltu y cyfryw ddosparth ag un y gwyliau ymma, ar goll, ymddengys gwall yn y gofrestr honn. Rhwng y ddau ddosparth, y mae IOLO MORGANWG, yn ei adysgrif, yn dywedyd fal hynn:—"Y mae'r ail ddalen ym Mis Rhagfyr ar goll."—AB IOLO.

† Goronwy Wareddawc—mann arall.

DAMMEGION

CATTWG DDOETH AP GWYNLLIW AP GLYWIS AP
TEGID AP CADELL DEYRNLLWG.

I. DAMMEG Y WADD AR HEDYDD.

Y WADD ar un bore teg o Fai tesog ysblennydd a ganfu'r hedydd yn entyrech awyr yn canu goslef gorfoledd; gwae fy nhynged, ebe hi, na bawn hedydd ag nid Gwadd, cawn esgyn ehangder dirwyrstr yr wybren lle ni chawn am lluddiai'n fy nhaith, ag yng ngoleuni ryddle'r nwyfre cawn ganu fy ngwala gan lawenydd bodd calon; lle ydd wyf yn awr yn gorfod ymdrafferthu yn clodio'r ffordd ydd af drwy'r ddaear galed garegog heb fymryn yn rydd o'r ffordd y Cerddwyf. lle nid oes na goleu na gweled na dim ond llwyrdeb tywyllwch im ymbalfalu'n galedgamp drwyddo, a chyda bod y gair oi phen gwelai walch yn gafaelu ar yr hedydd ag yn ei lladd ai bwytta, yna gan feddwl gwell y dywed y Wad, clod i Dduw fy mod yn wadd mewn diogelwch er maint fy nhrafferth am helbul, am bod ynghudd dan ddaear a thywyllwch lle nid oes o walch nag i arall o reipus am gwel, nid gwynfyd heb ddiogelwch, nid diogelwch heb drafferth.

Bodloned pawb i'r cyflwr a'i rodded ynddo gan Dduw a wyddai yn well na dyn beth oedd oreu, ag a wnaeth o wir gariad a weles yn oreu i bob byw a bod.

II. DAMMEG Y GWR A LADDWYS EI FILGI.

Yr oedd gwr gynt yn byw yn Abergarwan ag iddo wraig ac un mab o unig blentyn yn faban yn ei gawell, myned a wnaeth y wraig yn ei golychwyd, y gwr a glywai lafar bytheuaid yn ymlid Carw ar ei dir. mi a af yn erbyn y cwn ebe efe fal y caffwyf y ran o'r carw am dylu a minnau yn Arglwydd y tir, myned a wnaeth a gadael ei blentyn yn ei gawell yn cysgu ai filgi yn gorwedd ar ei bwys. Tra bu ym maes y gwr, dyfod a wnaeth ceneu blaidd i'r

ty ac a fynnai ladd y plentyn ai Yssu, yna'r milgi a ymladdwys yn galed a'r blaidd ac ai lladdwys gwedi hir ymdrin a chael ei glwyfaw yn friwedig, ac yn hynny o ymdrech troi a wnaeth y cawell wyneb i wared. pan ddaeth y gwr yn ol i'r ty y milgi a gyfodes yn waedlyd i roesawi ei feistr gan siglo ei gynffon ai ben arno yn garedig ond y gwr gan weled gwaed ar y milgi ac yn llynwyn ar y llawer a feddylwys i'r milgi ladd ei unig blentyn ac yn ei wyn o lid ac amhwyll gwan y milgi ai gleddyf a wnaeth ai ladd. gwedi hynny wrth droi'r cawell i fynydd gwelai'r plentyn yn fyw ac yn iach diniwed, ac ar bwys y blaidd yn farw, ar milgi yn friwedig gan ddaint y blaidd, ac edifar y bu gan y gwr hyd ynghlais amhwyll. ac o hynny y cafad y ddiareb, cyn dial gwybydd yr achos. ag ystyr ddwywaith cyn taraw unwaith. ac am a fu o hynny y dywedir mor edifar a chan y gwr a laddwys ei Filgi. a gwaith byrbwyll nid gwaith ystyrbwyll. ond fal y gwr a laddwys ei filgi.

Y Gwr a oddef i lid ddwyn y blaen ar ei bwyll a wna ddrygwaith nis gellir byth ei ddadwneuthur ac a bair edifeirwech tro fo byw. Da yw ffrwyno llid rhag dialu yn angyfiawn, fal y gwnaeth y gwr a laddwys ei Filgi.

III. DAMMEG Y DDAU BYSGODYN.

DAU frithyll yn canfod rhwyd pysgodwr yn eu hymlid a ymgynghorasant au gilydd pa fodd y diengynt, mi a wanaf yn ddwfn i'r llaid ebe un onid elo'r rwyd heibio. nage, ebe'r llall aflan yw hynny o le. mi a neidiaf i'r tir sych lle nid rhaid ofni rhwyd i'm gwarchae a hynny a wnaeth efe, ond cyn bod yno ennyd efe a deimla angerdd y tes y peth ni wyddai cyn hynny am dano a sychder anesgorawl yn ei faeddu. Gwae fi ebe efe na wanaswn gyda nghyfaill i'r llaid nes myned o'r rwyd heibio gallaswn drwy wneuthur felly a gwiliaw'n ofalus rhag llaw ddiange o rwyd pysgodwr hyd ddiwedd fy oes naturiol lle ddwyf ynawr yn hyn o le yn trengi gan sych a gwres heb feddu na thraed nac adenydd er cyrchu'r dwr y daethum o honaw, a marw y bu. am hynny dywedir mal y pysg ym maes or dwr, a gwell i ddyn y drwg a wyr na'r drwg nas gwyr. gwnaed pob un ei oreu yn y cyflwr ai doded ynddo gan Dduw.

IV. DAMMEG Y CEILIOG RHEDYN A'R FYRIONEN.

MYRIONEN a fu'n ddiwyd tra fu'r haf i gynnal ei ossymaith y maint o bob cyfraid a ddigonai ei hun ai deulu dros y gauaf. a phan ddaeth y rhew ar oerfel o wynt a gwlaw ac eira yr oedd ef gydai wraig ai blant ai holl dylwyth yn ddigongael a llawen yn ei dy ai dyddyn. Ac ar un brig nos oer yn Rhagfyr efe a glywai alw wrth ei ddrws, Pwy ydwyd ebe'r Fyrionen? câr yt ebe'r ateb. Car ebe'r Myrionen dywed imi'th enw nid er nac ofn nac er drwg ond er gwybod pwy ydwyd. Dy frawd ffydd ydwyf y ceiliog Rhedyn, ebe'r ateb, a dyfod attad i west yr ydwyf fal y mae defod ceraint. pa le buost drwy'r haf a'r cynhaiaf ebe'r Myrionen. na chawswn dy weled a chael gennyt gymmorth i gynnnull yr yd ar gwair ar cynnyd. Llemmain a chanu fy ngoreu ar hyd y meusydd meillionog ar tes claerwyn er diddanu pob byw am clywai, ebe'r Ceiliog Rhedyn, Dos, ebe'r Myrionyn. at a gawsant eu diddanu gennyd, ni chefais i fawr o hynny, nac amser ychwaith gan bres fy nghynhaiaf i wrando arnat. ynawr y mae amser canu gyda ni, dos di a gwna drosot dy hun fal y gwaethum innau. Troi ymaith yn drist a wnaeth y Ceiliog Rhedyn ac nid pell oddiwrth y drws y cafwyd ef y boreu dranoeth wedi rhynnu a newynu hyd farw. ac o hynn y dywedir am bob annarbodus, fal y ceiliog rhedyn ar y Tes, a goreu celfyddyd diwydrwydd. ac a fo gar iddo ei hun a gaiff bob un arall yn gar iddo. ac, a lafur tra phery'r haf a gan drwy gydol gauaf. A wnel ei ran a wyr ei fan.

V. DAMMEG YR ADARWR A'R CYLCHWR.

ADARWR a Chylchwr a aethant i goed, yr adarwr y gyfflocca, ar cylchwr i gynnnull ffynn cylchau, a gwedi myned o honynt nepell o gerdded, a phob un ai lygad am a geisiau, ebe'r adarwr, mi a welaf gyfflog; p'le mae? ebe'r Cylchwr, docco lle mae oth flaen yn gymmwys, ebe'r adarwr ym mon y llwyn gwernocco lle gweli'r lle goferllydocco ar ei bwys, docco fe! y llwyn gwern! y lle goferllyd! ebe'r cylchwr, ai gerllaw'r ffon cylchocco y mae? y ffon cylch! pa le mae dy ffon cylch di? ebe'r adarwr. docco lle mae ar fon prysgollen a weli di yn union o'th flaenocco, ebe'r Cylchwr. ni welaf ddim o'th gollen na'th ffon cylch, ebe'r un, na minnau na'th gyfflog na'th llwyn gwern, ebe'r llall. ag fal hynny

y mae ymhlith pob ryw ddyinion. y mae llygad pob dyn or byd bob amser yn bwrw oi amgylch am a chwennyeh ei gael. ac ebrwydd iawn y gwel a fo debyg i hynny. lle nas gwel na fo tawr iddo er amlycced y bo. a gwir yw'r diarhebion, sef Craff pob llygad a gais —a—Hawdd y gwel llygad chwannog: a, Llygad dichwant nis gwel er amlycced y peth—A llygad ceisiad a wel yn graff, fal yr Adarwr a'r Cylchwr yn y coed.

VI. DAMMEG Y GOF AI AIR DA.

Gof gynt a gafas air da iawn a chlod am wneuthur Celfi min tra rhagorol, a Gwr a erchis gantho fwyall dda, ac addewid oi chael a gafas. a phan oedd y Gof yn gweithio ar y fwyall. y dur dan bwys yr ergyd a dasges ymaith. Meistr! meistr! ebe gwas y gof, y mae'r dur wedi tasgu ymaith! pwy a di'r haearn ebe'r gof, os ydyw'r dur ym maes mae'r gair ym mewn. ac fal hyn y mae yn y byd. ni waeth pa ddrwg a wnelo undyn gwedi y caffo air da, na phaddaioni a wnelo undyn gwedi y caffo air drwg, neu cyn y caffo air da, a gwir y diarhebion, gwyn ei fyd y gwr a elo gair da am dano. —a, Dedwydd a gaffo air da, a nythed drwg ynghesail gair da. neu o fodd arall. Cais nyth y drwg ynghesail gair da. a mynych y syrth mefl o gesail gair da. fal y bu i'r gof ar dur yn y fwyall. ac am hynny nid diogel ymddiried yn fawr i air da nebun or byd. gwae a gaffo air drwg yn ieuange, a chan mwy gwae a fo iddo air drwg yn hen, can nis gellir diwyg ar hwnnw.

VII. DAMMEG Y TWRCH AR GOG.

TWRCH yn ymloi'n y llaid budr a glybu Gog ar frigyn uchaf y berllan yn canu ar awr anterth tesog ym Mai, a chan ddangos ei drwyn trwylledig iddo, ebe fe, rhyfedd gennyf y drafferth a gymmeraist i dringo cuwch i ganu gwcew mor ddiffin ag yr ydywyd, lle nid oes neb a ry'r ffado fechan am dy gainge a lle nid oes itti les yn y byd o honi. nid felly y mae, ebe'r Gog, yr wyf fi yn canu gan lawenydd dyfod haf a thes claerwyn, ac yn ymwynfydu yn fy nghan ai hachos. ac nid oes namyn tydi a'th fath yn y byd o fyw a bywydol nad yw yn llawen ganthynt fy nghlywed yn datgan iddynt goelfain newyddion da ddyfod hirddydd haf a hinon. da gan bawb fy ngweled am clywed, hen gyfaill cariadlais wyf iddynt

ac nim niweidiant na dyn, nag un rheipus yn y byd nac o adar na milod a wyper am danynt onid tydi pei bai yn dy allu. lle nid oes it, er gwynfyd immi, na gallu na deall i wneuthur i mi ddrygder, eithr tydi, yn ymloi'n dy fudreddi, nid hoff gan neb, cas gan bob llygad yr olwg arnad. drwg a wnai di ymhob man lle bythot. newydd drwg yw dy fod ti yn unman ba bynnag, ag oni bai am y trwyll a ddoded yn dy drwyn, diwreiddio a difethu'r cyfan o'th amgylch a wneit, eithr yn ol itti ymdewychu dy ddognedd ar a ffeiddia bob byw arall, ti a leddir am dy frasder, lle ni chais neb fy lladd i, ond gwaefaint na bai'n hwy fy nyddiau, ag nid oes les i neb o honot ti oni dderfydd am danat.

Ag yn ail i'r twrch am y Gog y gwed y Cybydd am bob hael gwybodaethgar, yr hwn a wna les a diddanwch i bob rhywiog ei anian, lle nid oes ond afles i bawb or cybydd tra fo byw. cans drygu pob byw a bod a wna efe er cynnull golud ac ynddynt yr ymfudredda, ac nid ymattalia oni bai fod cyfraith a chosp yn ei luddias yn ail i'r trwyll yn nhrwyn y twrch. pan bo marw y cybydd ac nid cynt y cair lles o hono, yn ail i'r Twrch ai fola tew. ni chydfydd hael ag anhael, ag, mid unnaws gwyraws a gwern. ag. ni chlyw'r llwynog ei ddrygsawr ei hunan. nid drewdod yn nhrwyn twrch ei fudreddi. nid cynghais Cybbydd ag Anghawr, mwy na'r Twrch yn y budredd a'r gog ganiadgar. ar y gangen.

VIII. DAMMEG YR HEN WRAIG AI HEDAFEDD.

HEN wraig yn fam i lawer o blant ac wyron yn gweled anghydfod rhyngddynt, au gelwis ynghyd ger eu bron, a phan ddaethant nid llai nag ugain o honynt. dygwch immi, ebe hi, bob un o honoch bellen o edau, a hynny a wnaethant a chymmeryd o un or pellenni edefyn ungor a rhwymaw dwylaw y gwannaf oi hwyron. ond buan y torres y mab bychan ei rwymau; rhwymaw ei ddwylaw ag edefyn oedd gryfach o bellen arall, a hawdd y torred hwnnw, ag yn unwedd y bu a phob un arall o'r pellenni, nis gellid rhwym didor ag un o honynt. torrid y cryfaf yn ail ir gwannaf. yna peris yr hen wraig iddynt gyfrodeddu yr holl bellenni yn un rhaff. a hynny a wnaethpwyd, gwedi hynny y cymmeres yr hen wraig o honaw ac a rwymes ddwylaw y cryfaf oi meibion ag nis gallai mewn modd yn y byd ei dorri. Gwelwch ebe hi, maint cadarnach yr edau yn gyfrodedd nag yn ungor, felly chwithau fy mhlant am hwyron. tra bo'ch yn ymwahanu pob un ar ei ben ei hunan, y

naill yn anghydgais ar llall, hawdd i bob un a chwennych eich gorfod. ag nid oes na chais orfod, a fo galledig iddo, namyn o fil ; ond ymgydlynwch yn un ach gilydd yn gydgfyrodedd. a chadarn y byddwch heb alledigaeth i elyn o'r byd eich gwrthladd. ag o hynn y cafwyd y ddihareb, cadarnach yw'r edau'n gyfrodedd nag yn ungor—a diarheb arall a wed, nid cadarn ond cydnerth, ac medd un arall, Hawdd tafu'r mynydd ir mor yn ol ei wahanu y naill garreg oddiwrth y llall.

IX. DAMMEG, YR YSGUTHAN A'R BI.

Y Bi a ganfu'r Ysguthan yn gwneuthur ei nyth yn drwgl iawn ac anghelyddgamp, ac a roddes iddi gynghor ac addysg gan ei dangos a dywedyd wrthi, dod frigyn y ffordd hynn, a brigyn y ffordd yna, un y modd yma, ac arall y modd hynn ar modd. a thi wnaith yn gywair yn gadarn, ac yn llettyog a chynnes. mi wn! mi wn! mi wn! ebe'r ysguthan, ag er hynny myned yn y blaen ai gwaith a wnai hi yn ei hen ffordd anghelydd yn ol ei harfer. ar Bi fyth yn ei dangos gan geisio gyrru addysg arni. ond mi wn. mi wn. mi wn. oedd holl ateb a diolch yr ysguthan heb ymwellhau'n ei chelyddydd na chymmeryd atti'r gronyn lleiaf o addysg. os gwyddost pa ham ynteu nas gwnei? ebe'r Bi. ac yna ei gadael ar ei hen ffordd ei hun, gan weled yn ofer ei dangos. Ag o hynn y mae'r ddihareb, Mal y Bi ar ysguthan, a, mi wn, mi wn. fal ateb yr ysguthan. a. nid anghelydd ond ysguthan. a diharebion eraill a ddangosant yr un peth sef. nid hawdd gyrru dysg ar ddoeth yn ei olwg ei hun ; a, nid hawdd y cymmer anghelydd ei ddangos, call pob ffôl yn ei olwg ei hun. nid hawdd dwyn gwr oddiar ei gamp, a, ni wyr neb lai na'r hwn a wyr y cyfan. Hoff gan ynfyd ei gwnwppa. ac eraill nis gellir eu dysgu gan ddiffyg deall anianawl arnynt, am y rheiny diarhebir, nid hawdd tynny mer o bost, ni cheir o un llestr ond a rodded ynddo, nid hawdd gyrry y mhennydd ym mhost clwyd. nid hawdd o fran y gwneir Eos.

X. DAMMEG Y GWR AR LYGODEN.

Gwr bonheddig Aberthog yn rhodio'r Meusydd brydnawngwaith gwlyboer o Ragfyr, a ganfu gwr o gloddiwr dan wasgawd y clawdd yn bwyttta bara haidd sych dienllyn ac yn yfed dwr o'r pyllwyn

ger ei law, gan gwynaw a gwedyd. "Gwae fi! dyma fyd gwael arnaf, yn gorfod gweithio'n galed ar ymborth na'm ceidw ond o fraidd yn fyw, a llai na digon o honaw, tra fo fy meistr yn byw'n fras ac yn segur, a minnau'n cael dim gwell na hynn a gweithio'n galed am dano, ac arno ef nid oes na gwaith na gorchwyl." a chyda hynny y gwr bonheddig yr hwn oedd ei feistr a ymddangoses iddo. beth ebe fe a fynnit. "byw ychydig well nag yr wyf" ebe'r gwr. pei cait fyw ar yr un ymborth a'th feistr, ebe'r gwr bonheddig, ai ymfoddlonit ti i hynny heb chwennyeh amgen, gan weled dy ddi-gon? gwnawn yn llawen ebe'r gwr, ac ar lawer llai na hynny boddloni a wnawn, a wneit ti ei orchymyn os hawdd a dilafur y byddai, ebe'r gwr bonheddig, gwnawn ebe'r gwr yn llawen a chyda pob ufuddod a chariad a gofal. or goreu ebe'r gwr bonheddig, dere gyda mi, mi yw dy feistr, a chystal y cei di'th fyd ac y mae arnaf finnau. myned eill dau hyd y plas a wnaethant, ac yno y dangoses y gwr bonheddig iddo ystafell mor wych ar gwychaf yn y plas ac ynddi wely o fanblu alarchod o fewn i babell sidanwysg oreuraid ac ar y gwely y meinaf a liain ar rhywioccaf o wlan yn ganheidliw harddwych a Hyl oreuraidwaith nodwyddgrefft ar y cyfan. ac yn yr ystafell pob costus o ddodrefn a phob taclusder ardderchogwych. yn ddiddan i'r olwg ac yn drefnusdeg at bob achos a ddymunid. gwedi hynny rhoi am dano'r gwychaf ar cost-usaf o bob gwisgoedd bonheddigaidd hyd nad oedd gwychder a ellid ei ddychymyg nas gwelsid yn ei gylch. yn ol hynny doddi gweision a morwynion esgudlym ufuddbarch llawgywraint i weini iddaw ar frys y peth a ddymunai. Yna gosod bord gostuswaith ac arni liain weithiedig ag addail arianaid ag euraid a sidanaid. ac ar hynny y goreuon ar moethusaf o bob bwydydd a diodydd, yn anifeiliaid ac adar a physg a phob miodfwyd blasusber, a phob ffrwythau coed, a phob gwin a medd a chwrrw a bragod, ac ymhlith y dysgl-eidiau un dysgl gwarcharedig, Ebe'r gwr bonheddig wrth y gwr, hyn oll y sydd itti a chymer o honynt dy wala hyd eitha, a llyma'r gweision ar morwynion a ddug itti ychwaneg y pryd y bot yn chwennyeh. eithr yr hynn a rodded yn y ddysgl gwarcharedig fy rhan innau o'r wledd y sydd ynddi, ac nid cennhadedig itti gyffwrdd a'r ddysglaid honno nae ymdawr o honi na chymaint ac edrych ar y sydd ynddi. Ufudd a llwyr ufudd ith arch ath orchymyn, ac felly y bu dros ychydig ddyddiau. eithr ar un diwarnod gwedi ymginiawa yn foethus daeth chwant ar y gwr wybod pa ddanteithfwyd goreuryw oedd yn y ddysgl gwarcharedig, a thra'r aethant v gweinyddiaid o'r ystafell codi'r gwarchar a

wnaeth y gwr, a buan y llemmis allan lygoden ac amgen na honno nid oedd yn y ddysgl ronyn o ddim yn y byd. Yna y gweles y gwr ynfytted ei drachwant ai orchwilgarwch, ac ni wyddai gan ofid calon beth a wnelai. a gwedi dwyn ymaith yr arlwy y cafas y gwr bonheddig y lygoden ar goll. a danfon am y gwr a goleddasai atto a wnaeth, Gwel ebe'r gwr bonheddig pa beth a ddaw o drachwant a thrachwilgarwch tu hwnt i'r hynn a'th dorai. a nid digon o bob peth wrth fodd dy galon oedd genyt. ai mawr o boen oedd itti, gadw yr un gorchymyn hynaws a roddais arnad a gwneuthur yr arch geisiais yn garedig gennyt yn dal am y cyfan a roddais itti? eithr ynawr am nas gwnaethost dos ynol ir clawdd a ba le a'th gymerais a bydd foddlon neu anfoddlon fal y gallot ir hynn a ddyly'th lafur a'th orchwyl yno, ni chai yn hwy aros yma. ac ir clawdd y gorfu arno ddychwelyd. ac yno y deallodd ei ynfydrwydd ac a weles mai gwir y ddiareb gormodd o esmwythder sydd annodd ei drin—a cos din taeg ac efe a gach yn dy ddwrn. a, pa fwyaf a geffir mwyaf i gyd a geisir. a ni wel y trachwant fyth ai ddigon, ac ni wyl y trachwant fyth ei fai onis tyrr ei wddwg fal y bu i'r gwr a'r lygoden. a, Trachwant a dyrr asgwrn ei gefn ei hun, ac, anfoddlon y bydd anfoddlon er maint a gaffo. yn ail i'r gwr ar lygoden. ac nid esmwyth trachwilgar oni wyppo liw mhennydd tin ei. a, Trachwant a fydd trachwant er maint y rhodder yn ei safn. a ni ymfoddlonir i'r corph oni cheir y coludd, nac i hynny onis ceir a fo yn y coludd a phan weler a fo hynny mwy fyth yr anfoddlondeb. gan ddiwyno'r dwylaw a fuassai heb gael hynny yn lân, felly y gwnaeth y gwr a ollyngwys yn rydd y lygoden.

XI. DAMMEG Y GWR A'R ABWY YN EI LAWES

DAU WR gynt, au henwau Eidiol ac Eidwyll oeddynt yn byw yn yr un pentref, a chan bob un o honynt ei wraig. glan a syw yn ei gwaith a'i gorchwyl oedd Gwraig Eidiol, a threfnus a doeth ymhen ei theulu, a da iawn ei gair ymhlith ei chymmodogon. a pherchit ei gwr o barch iddi hi. Aflan. a swglyd a budreddgar oedd gwraig Eidwyll ac anhrefnus ac annoeth ymhen ei theulu, ac nid oedd a ddywedai air da am dani ymhlith ei chymodogion, ac amherchit ei gwr oi hachos. ac nid oedd namyn drwg o gamp ar bob gair a gorchwyl iddi.

A'r gwyr hyn ar ucha diwarnod o haf ar faes eu cystref yn lladd gwair. Eidiol a welai Eidwyll yn aflan ei wisg a brattiog, ac aflan

ac afiach ei fwyd a'i lynn. gofudredd ac anferchweh ymhob peth parth ac atto. ac arno: Ac amgen na hynn ymhob peth Eidiol. glan a threfnus ei wisg ai ddiwyg oedd ef, glan a syw ei fwyd ai lynn. glan a syber ymarwedd a moes.

Yna y dywed Eidiol fal hynn wrth Eidwyll, Rhyfedd yw genyf dy gynnal gyda'r cyfryw a feddi o wraig. lle ni chai erni namyn aflwys ac aflan, ac annoeth ac annwyn ym mhob peth. ac ammharch itti gan bawb oi hachos. Arfer, ebe Eidwyll. arfer a wna gynnefin ar bob peth. nid oes ar a welir yn y byd namyn o'i arfer, arfer a ddygymmydd a phob peth. Arfer yw'r gwely esmwyth ar ba un y cwsg bob peth. ni chlyw cydwybod a'i blino lle gorweddo ar wely arfer. Bu amser nas carwn a weli o wall. ac yr awr honn nid yw gas gennyf. eithr gorwedd yn ysgawn y mae ar fy meddwl.

Nid felly y byddwn i, ebe Eidiol, eithr ei gadael, a myned lle nas gwypai fy mod, a'r lle y cawn a fai wrth fy modd. lle nas caid a'm difwynai yn fy mharch am diwyg.

Mi a'th glywaf ebe Eidwyll. ac yna tewi. gan amdroi yn ei feddwl a wnelai er dangos i Eidiol a ddichonai arfer a chynnefinder.

Yr ail ddiwarnod. a hithau'n des cadarn. Eidwyll a welai wisg Eidiol yng nghwr llwyn, ac efe a wybu'r man lle'dd oedd Abwy drewlyd, yna torri darneni o honaw a'u doddi ym mhlygiadau Llewys Eidiol. yr hwn pan y gwisgai ei ddilledyn a glywai ddrewdod aruthrol yn ei amgylech ac a gwynai ragddo. a phob gair ateb a gai gan Eidwyll yn anghyfachos. cwynaw'n y blaen. cwyn ar ol cwyn a wnai Eidiol. oni leihâs ei fynychder, ac or diwedd darfod yn ddim, a thaw arnaw. ymhen amser Eidwyll a ofynes i Eidiol am y drewdod. yr ateb, dywedyd ei ddarfod, ac nas clywai mwyach. Felly, ebe Eidwyll. arfer a wna gynnefin ar bob peth, a chynnefin a fydd esmwyth dan bob peth; yna dywedyd fal y bu. a phan ai clywes Eidiol. Drwy nerth Duw. ebe fe, ni fydd pellach yng nghyd tydi a mi; aros lle 'ddwyd, a bydd ag ydwyd. mwy nis byddaf lle am llygrer gennyf, nag ynghyflwr y gellit arnaf gynnefin a pheth ni wedd ar ddoeth, a syw, a syber. Felly ymwrthod yn llwyr a chyfeillach Eidwyll, yr hwn ni weddai ei fod namyn ar ei ben ei hunan. ac o hynny y cafwyd y ddiareb. Arfer a wna gynnefin ar bob peth, fal y dyn a'r abwy yn ei lawes. a chynnefin a fydd esmwyth ar bob peth, fal y dyn a'r abwy yn ei lawes. ar wely cynnefinder o arfer y cwsg pob drwg hyd farw. am hynny gocheler ymarfer a drwg. ac ymwrthoder ac ef, ac eler lle

nas galler llwgr oddiwrtho. sef ffoi oddiwrtho fal y ffoes Eidiol oddiwrth Eidwyll. Arfer drwg a wna'r drwg yn arfer. Ac, Arfer nid hawdd ei anarfer. a rhag ymarfer a drwg ymswyned pob Cristion, a phob doeth a chydwybodus, a phoed felly fyth.

XII. DAMMEG CEINAN FERCH CEINWAWR.

MERCH oedd gynt o genedl rieddawg y Cymry a elwid Ceinen ferch Ceinwawr, a thecca merch dan haul ydoedd: A myned a wnaeth y son am dani ymhell ag yn agos. a'r pell fal yr agos gan bob un. a phawb a chwenychent yn fawr ei gweled, a chyn ei gweled pob un ai dyfalai yn wenn fal od unnos, arall ai dyfalai yn ail distrych y donn, a rhai yn orlliw gwynn y calch ar gaer gerwyneb haul y bore, sef y defelid ei gruddiau yn harddach na rhos ymha rai y gwelir pob cymmysg o goch a gwynn, y naill yn cyffodd y lladd hyd nas gellir canfod y man y terfynant y lliwiau. ei gwefusedd yn ddeuliw gwawr goleugoch yn ymgyfliw a gwynder dydd o fore haf tesog. ei gwynn ai gwrid y naill yn ymguddio yn y llall ni welai neb ym mha le nac ym mha fodd. i bob melyn ac eurlliw y dyfelid ei gwallt, ai llygaid gleision yn harddach na ser yn yr wybren gannaid. ac am ei thwf ai hagwedd nid oedd a fedrai ddyfalu maint yr harddwech a gaid arni. mal hynn y dyfelid ar feddwl a dychymyg cyn ei gweled gan lygad. hagen yr un ai gwelai a farnai wall tegwech erni un ai gwyngalchai'n wynnach, arall a liwiau'n gochach ei gruddiau, dodai arall amgen o wrid ar ei gwefusedd. duaw ei haeliau gan un, gorlliwio'i gwallt gan arall. rhy fyrr ydoedd gan un, rhy hir ymarn arall. pob un a fynnai ei gwellhau yn y modd a fai orau ganthaw ei hun, pob un a farnai'n hagr a fernid yn hardd gan arall. Gwedi hir yrru arni a fernid yn hardd a phrydferth gan un a chan arall, ni ellid erni namyn anhardd ac anferth, ac nis gellid arni faint y gronyn lleiaf ym mhelydr yr haul o'i thegwech ai lliw cyssefin. a hithau erbyn hynn wedi myned yn atgas a gwrthun yng ngolwg pob dyn, ac nid oedd neb ai gwelai'n hardd, ac nis carai neb hi. nid oedd ai gofwyai, ac ni chaid na chaeai lygaid yn ei herbyn. gan ei barnu n ffeiddaf o bob peth yn y byd. a phan weles Geinan hynny a rhyfeddu yn fawr nad oedd ai hymgeisiai fal cynt, edrych yn ei drych. a phan y gweles hi'r lliw a'r llun a ddodesid gan bob un arni, bu ryfedd ganthi, ac anfodloni yn aruthr, can nas adwaeniad ei hunan; yna meddwl am ymolch ac ymlanhâu o'r budredd a roddesid erni. a

gwedi gwneuthur hynny teg a serchog fal cynt ai gwelid. a phob un ai carai ac ai hymgeisiai, namyn y rhai a fynnesynt wellhau a wnaeth Duw erddi fal y gwedwyd, a'r rhai hynny, cyd nas carant hi dan a ddodasant arni, ai gwrthenwasant yn hagr ac yn anferth. gan nas mynnynt nad iawn ac er gwell y cyfan a fwriasent erni. canys nid hawdd gan annoeth gyfaddef ei annoethineb, ac ni fynn neb gydnabod ei fai; ac nid oes namyn Dedwydd a gais ymchwel ar a fo gwell.

Felly'r gwirionedd. pob un ai car ar ei dafod. a phob un ai llygra drwy yrru arnaw'r budredd a garo fe ei hun. ar oddeu darwellhâd iddaw. Sef y dodir y mawrgelwyddau arnaw hyd nad elo rhith celwydd arnaw yn gwbl, ac yna pawb ai cashâ. eithr taer yw gwir am y golau, ac ef a fynn er gwaetha'r gwaethaf ymddiosg ai ymgudd hyd yn y bo amlwg fal cynt, a hardd a hygar gan bawb ai gwelo namyn y rhai a fynnesynt ei anharddu a chelwydd ai lygru a thwyll gyffiwiad, diau nis ceir gan y rhai hynny gydnabod a chyfaddef a fu arnynt o fai a chamsyniad, a choegddydhymmyg, a thwyll ymbwyll, canys diarheb a ddywed, ni chydnebydd ei fai a daerawdd ei fod ar y iawn; a dyngodd y fran yn wenn ni chyfaddef, cyd y gwypo gystal a'r goreu ei bod yn ddu. ac a dwyllo arall efe a dwylla ei hunan yn fwy. pawb a geisiant y gwir ac nis gadawant ir gwir fod yn wir. ac un a hir yrru'r celwydd ar gred ai cred ei hunan o'r diwedd.

DAMMEG ARTHUR A'R HANNER DYN*

FAL yr oedd Arthur yn rhodio ynghyntefin dydd, ag yn Nydd Cyntefin Haf, ar hyd Dolydd gwyrleision meillionddail arogleuber, a phob blodeu gwydd a gwaen yn eu llawn harddwch o gylchon ag adar caneguar ymhob llwyn ag ar bob colfen deilgoed a dolgwm yn hy ergyd trisaeth o ddinas Freiniol Caerleon ar wysg. a hoffder calon ganddo ganfod harddwch a thirionwech yr awr ar cyfarwel yn nechre mandes dydd haf ysplennydd—ef a welai rywbeth o led-hirbell yn dyfod tuag atto. yn egwan a golesg ei daith fal y tybid nis delai tan ymhen undydd a blwyddyn hyd tricham y dryw tuag atto, edrych o'i amgyleh a wnai Arthur ac ef ynghanol ei wynfyd ni selwai ronyn ar yr eiddil o bell a welasai ar farw tros fyth. ond gan droi ymhen ennyd fechan ei olwg tua chammen y ddol. ef a

* Gan Taliesin, medd Iolo Morganwg.

welai'r peth a welasai braidd hannercyn yn ol, yn dyfod yn nes atto nawran y ffordd a buanach, etto gwan ag eiddil ydoedd, edrych o'i gylch a wnai Arthur, a myfyrio dial ar y Saeson. a pheri difant llwyr arnynt, a chan edrych eilwaith oi amgylch efe a welai megis llederthyl hanner dyn yn dyfod iddei gyfarfod, ni ellid ynddo a ofnai Arthur, a gwrandaw ar gan yr adar a wnai, onid oedd yr hanner dyn yn ei gyfwysg, yn ei gyfarch yn llyn dydd da itti heddyw Arthur, dydd da i titheu'r hanner dyn, bydd ydyw a fynnit? Mi a fynnwn ymdrech cwmp a thi, pa glod a gaf o ymdrech cwmp a hanner dyn, ebe Arthur, dos i'th ffordd. ac edrych ar wyneb y gladon blodeudardd a wnai. Arthur ti a etiferi ebe'r llederthyl, a myneb yn ol,—boreu nesaf y daeth Arthur ir un man a Thrystan ab Tallweh y gydag ef. a Thaliesin Ben Beirdd. a dyfod o'r hanner dyn erthylaidd fal y dydd o'r blaen a chyfarch a gofram i Arthur. ymdrech ac ef ebe Taliesin. mal y gorffer cyn y bo dyn cyfan. ni ddaw imi glod yn y byd o ymdrech ac erthyl ebe Arthur, a rhodio hyd obell y ddol a wnai ar Erthyl yn cyfarch Trystan. a Thrystan ynghyngor Taliesin, ai cyrchwys pa les i mi ymdrech ac am beth. ebe ef am dy ben Trystan, eber erthyl, ac ymdrech wrth gyngor Taliesin a wnaeth a rhoi llawr i'r erthyl, ti a ennillaist fy mhen eber erthyl. do ebe Trystan a pha les imi hynny. os caf er werth genyt. ti a weli dal. cymmer dy ben yn rhad ebe Trystan. ni fynnaf i ben neb namyn cloffi troed buanach na chyfiawn

DAMMEG Y LYGODEN AR GATH.

Y LLYGODEN gynt a oedd yn rhodiaw mewn Tafarn Gwin, ac o ddryg ddamwain hi a gwmpawdd mewn pylleidd o'r gwin gerbron y tunelleu. ac yno llefain er nerth a orug, ac wrth y llef y Cath ar frys a ddaeth ac a ofynodd pa ham ydd oedd hi yn llefain felly: a'r Llygoden a ddywawd am y mod i ym mherigl o'm bywyd ac na allaf ymryddhau heb nerth. ac yna dywawd y Cath "beth a roi di imy er dy ryddhau a'th dynnu oddiyna"? a'r Llygoden a ddywawd "beth bynnag a erchych mi a'i gwnaf" "o'r myni di i mi dy nerthu yr awr honn mi a fynaf it ddyfod attaf pan yth alwyf gyntaf; a hynny a wnaif fi yn llawen heb y Llygoden; moes dy gred ar hynny heb y Cath, a'i chred a roes y Llygoden y gwnēi a fynnei hi.—ac yna y Cath a estynnawdd ei balf. ac a dynnawdd y Llygoden o'r pwll ac ai gollyngawdd yn rhydd i redeg rhagddi.

a threiglwaith pan yttoedd y Cath yn rhodiaw a dirfawr newyn arnaw, dyfod cof a wnaeth iddaw ei ammod a'r Llygoden. ac ar frys dyfod a orug lle gwyddiad fod llochwes y Llygoden, a dywedyd o'r tu maes a'i lawnllef, "y Llygoden dyred ymma attaf fi i neges. Pwy wyt ti? heb y Llygoden. y Cath wyf fi. heb ynteu. na ddeuaf rhof fi a Duw, heb y Llygoden. Pam? heb y Cath, poni roddaist ti dy gred ar ddyfod attaf fi pan harchwyf it? Ie, heb y Llygoden, brwysg oeddwn i yna, ac am hynny ni chynhaliat fi ammod yr awr honn.

Felly yn awr llawer o'r bobl pan font gleifion neu mewn perigl a addawant wellhau eu buchedd ac na wnelont byth gammwedd yn erbyn Duw na dyn. Eisioes pan ddyhangont o hynny ni chynhaliat ddim o'u haddewid, gan ddywedyd, ie, mewn perigl yr oeddem ni yr amser hwnnw, ac am hynny nis cynhaliat, megis y dywedir am ryw longwr gynt a oedd mewn garw fordwy a pherigl o'i fywyd; ac addaw a orug i Dduw, er ei amddiffyn o hynny y byddei wr da tra fei fyw. a phan ddaeth ef i'r lan ac i'r tir dilys, dywedyd a orug: ahâ! Iesu! mi a'th dwylleis yn wir yr awr honn: ni byddaf wr da etto!*

* Tynnedig o adysgrif Iolo Morganwg, a gymmerodd ef o Gasgliad Dammegion Owain Myfyr, a hwnnw o hen Ysgrif ar Femrwn tua'r flwyddyn 1300.—AB Iolo.

HEN DDAMMEGION.

I. DAMMEG CENFIGEN YN LLOSGI EI HUN

TALHAIARN, Bardd ydoedd a gwr dysgedig a chall a da oedd efe. a mab oedd iddo ai enw ef oedd Tanwyn a gwedi rhoddi dysg ac achlesu dawn ac awen yn y mab hynny hyd onid oed yn wr gwybodus a chelfydd a fedrai ar bob doethineb a gwybodau daionus yn gyfun a phob cydwybodolder a dwyfolder, a phob harddwech ymddwyn parth ac at Ddyw a Dyn. efe a elwis Dalhaiarn ei fab atto ar ddiwarnod. ac a ddywed wrtho fel hyn. Fy mab Tanwyn fy unig am hanwyl fab ydwyd. mi ath gerais ac ath feithrinais fal y gweddai i dad parth ag at fab a garai'n anwyl. mi a'th athrawiaethais ymhob celfyddyd a gwybodaeth daionus ac ymhob ymddwyn gweddus ac a'th wnelai fal y barnwn yn wr a fedrai ddaioni a gwasanaeth i'th wlad ath genedl ac i bob byw or byd. ac a'th wnelai yn wr a garai bob deddfol dy feddu yn wr wrth achos gwr a gwlad a chenedl. ac yn benna dim yn a gai fodd Duw yn y byd hynn ac yn y byd a ddaw. gweli gan hynny imi wneuthur fy rhan a chywiro fy nyled tuag attat. ac yn awr fy mab anwyl nid oes gennyf na thai na thir, itti. nac aur nac arian na gwisgoedd gwychion na meirch na thlysau o ba ryw bynnag. am hynny fy mab y mae'n orfod arnof o anfodd fy serch tuag attad erchi itti ymadael ath dad ai dy a myned lle'th arweinir gan Dduw a'th dynged i wneuthur dy fyd ac ynill dy fywyd. nid oes na lle nag achos i rhoddi addysg a chyngor ymhellach itti nag a wnaethum. eithr yn yr hynn a wettwyf ynawr wrthot. sef, na rhodia ffordd newydd lle na bo torr pont ar yr hen ffordd, na chwennyech Bendodaeth lle gelli gael cariad yn ei le. ac na ddos heibio'r lle bo doeth a dwyfol yn athrawiaethu ac yn thraethu gair a gorchymyn Duw heb aros iddei wrando. Ac yna myned a wnaeth Tanwyn o Dy ei dad gwedi caffael ei fendith ai weddi ar Dduw drosto ac nas gwyddai ba le yr elai eithr myned gan Dduw ai dynged, onid aeth efe lle'r oedd traeth hir a theg ar lan y mor a ffordd iddo drosto. a theg a llyfn oedd y traeth a thanwyn a ysgrifenwys a blaen ffon ac oedd yn ei law y geiriau hynn nid amgen. *a ddymuno ddrwg iddei gymmydog*

iddo ei hunan y daw. ac Arlwydd cyfoethog ac aberthog iawn yn ei weled o beth wrth farchogaeth yn ei erbyn. a gwedi myned y naill heibio'r llall gan gyd gyfarch moesdeg a charuaid. y gwelwys yr Arlwydd yr ysgrifen ar y tywod a gwedi gweled ei harddedd ai chelfydded fe a droes ei farch yn ei ol a marchogaeth yn dyn oni ddaeth ef yng ngorddiwedd Tanwyn. ai tydi ebe'r Arlwydd a ysgrifenwys ar y tywod? ie ebe Tanwyn, gad imi ebe'r Arlwydd, dy weled yn ysgrifennu etto, mi a wnaef hynny ebe Tanwyn, ac ysgrifennu a wnaeth yn deccach nac o'r blaen y geiriau hynn. *goreu canwyll pwyll i ddyd.* iba le yr wyt yn myned ebe'r Arlwydd, i'r byd i ymull fy mywyd. ebe Tanwyn. yn y lle a'r modd y mynno Duw, ac y mettrwyf inneu. Tydi ebe'r Arlwydd yw'r gwr y sydd arnaf ei eisiau. a ddewi di gyda mi a bod yn wr imi i drefnu fy nghyfoeth am Teulu a thi a gai'n wobr dy ofyn, gwnaf ebe Tanwyn, beth yw'th ofyn o gyflog ebe'r Arlwydd y peth y dal fy ngwasanaeth ebe Tanwyn. ym marn y gwybodus a'r cyfiawn. pan ai gweler. or goreu, ebe arlwydd. dyna ammod deccaf a glywais erioed am deni. A myned a wnaeth Danwyn gan yr Arlwydd a chael ganddo y pendod ar ei gyfoeth ai deulu. a Thanwyn yn trefn mor ddoeth, ac yn ymddwyn mor gywir. ac yn ateb y gofynion arno mor gyfiawn fal y carai yr Arlwydd a phawb oi deulu ef. a phan daeth amser talu cyflog yr arlwydd ai rhoddes ar farn ei ddoethion ai wyr gwybodus a deddfolion. a barnu a wnaeth y ddau cymmaint yn gyflog i Danwyn ag a roddai neb arall yn unman i'r goreu. a phan glybu'r Arlwydd a farnwyd efe a wnaeth y gyflog yn ddau cymmaint ac a roddesid ar farn. ac ymhen amser yr aeth Clod Tanwyn mor fawr am ddoethineb a chariad a chyfiawnder a phob gwybodaeth daionus a gwerthfawr ac na fynnai bendod ar neb eithr cadw ynghariad pob dyn. gan wneuth cariad a chyfiawnder. a dysgu doethineb a daioni ffordd yr elai ar achlysur a gaffai a'r holl amser a feddai yn ol y cyngor a roddes ei dad iddo. Gwr doeth a chall ydoedd yr Arlwydd a gwybodus a chynnilgamp. ond pan welwys ef, a chlywed fod Tanwyn yn uwch ei glod nag ef am bob campau a gwybodau moliannus cenfigenu wrtha a wnaeth efe. a gwedi gweled o ddydd i ddydd clod ei wr yn mwyhau ai glod ei hun yn lleihau, ymgais a dichellion a wnaeth a chael gwyr i gyhuddo Tanwyn o frad ac anghyfiawnder ac anghywirder a wnaeth ef, ond Tanwyn o lwyr bwyll a doethineb a ddygwys yr anudon i'r amlwg onid aeth barn gwlad a chyfraith ar yr anudonwyr a'u crogi oll. gwedi hynn deccach deccach beunydd wrth Danwyn oedd yr Arlwydder lleied yr achos, a bwriadu

ei ladd ef a wnaeth. yr gantho ef y pryd hynny o dyn galch ar waith, a myned a wnaeth ef ben boreu at y calchwyr a dywedyd wrthynt fal hynn. “ Y mae gwr, ebe fe, sydd elyn imi yn amcanu dwyn Arlwydd o Estron yn ormes im cyfoeth am difeddiannu om tir am daear am gwlad am cywiriaid, am gwyr ffydd, a'n oll chwi a minnau yn gaethion dano a gyrru'n aeth wlad lawer o honom yn enwedig chwi ac eraill o'm ffyddloniaid a garaf yn oreuon oll, ymae ef ar hynn o bryd yn gwesteia gyda a phef gellid ei ddihenyddu ef da fyddai hynny a diogelder inni oll. yna tyngu a wna'r calchwyr y llosgaint hwy ef yn yr o dyn pei gwpynt pwyn ydoedd, chwi a gewch wybod hynny ebe'r arlwyd wrth hynn o arwydd, sef y cyntaf a ddel attoch gwedi yr ymadawyf a chwi ar hyd y ffordd a wnaethum o'm ty parth ac ymma, a dangos haelioni tuag attoch hwnnw y bydd efe, teflwech ef i'r o dyn a gwedi hynny mi a ddawaf a mwy haelioni yn fy llaw ich gobrwyo a a hynny a gyttunwyd arno. myned iddei dy a wnaeth yr Arlwydd a galw Tanwyn atto. a dywedyd fal hynn wrtho : y mae imi, ebe fe. wyr yn llosgi wrth yr o dyn ar ben y ffordd newydd, dos ar hyd y ffordd honno attynt a thal iddynt eu cyflog yn aur ac yn arian. a rhoddi dros ben eu gofyn yn syberwyd a haelioni fal y caro dy galon. a rho iddynt gwrw a medd a fynnon, a dos ar hyd y ffordd newydd. tewi a wnaeth Tanwyn gan feddwl am gyngor ei Dad Talhaiarn. a chymmeryd arian ac aur a grenn o fedd yn ei afael a hynny yn haelionus yn ol cennad ei Arlwydd a bodd ei galon. a myned parth a'r o dyn a wnaeth eithr ar hyd yr hen ffordd. yn ol arch ei dad. ac ar y ffordd efe a glywai mewn Ty ar ei neilldu wr doeth a duwiol yn traethu gair Duw a doethineb. a throi i mewn iddei wrando a wnaeth Danwyn. ac aros yno encyd lle clywai lafar dwyfolder a doethineb. yn y cyfencyd yr Arlwydd, ac efe yn bwrw erbyn hynn nad oedd lai na bod Tanwyn yn ulyf mân, a feddylwys fyned at yr o dyn i weled ac i glywed fel ac y bu. ar hyn o bryd nid oedd ond gweision diertth yn wyr wrth arch ac ammod y calchwyr wrth yr o dyn y rhai nis adwaenant eu harlwydd. a chwedi clywed a chael gorchymyn a deddf gan eu pendodwyr, ar arlwydd yn dangos haelioni a chwedi cyrehu yno ar hyd y ffordd newydd, hwy ai tawlasant ef heb air uwch nai gilydd. i'r o dyn ai llosgwyd ef yn ulyf. ac ymhen ychydig llyma Danwyn yn dyfod at yr o dyn ai aur ai arian ai rennfedd

II. DAMMEG CENFIGEN YN LLOSGI EI HUN

(Dull amrafael, herwydd ysgrif arall)

IR Cwttā Cyfarwydd o Forganwg yr oedd mab a elwid Hywel ag ef a ddysgwyd gan ei dad ymhob Campau Clodfawr a gwybodau Llesawl i ddyn ei harfer. a Hywel wedi cyrraedd oedran gwr a chwennychodd ymadael a thy ei dad ag olrain ei ddigwydd ar glawr Byd. ag wrth ymadael ef a roddes ei Dad iddo y Cyngor hyn sef nad elai fyth heibio i bregethiad gair Duw heb aros i wrando. felly Hywel a aeth ymaith a gwedi trafaelu encyd efe a ddaeth i Lan y mor Lle'r oedd y ffordd ar hyd draethen hirdeg Lefn. a hywel a blaen ei ffon a ysgrifenodd ar y tywod yr hen ddiareb hon. sef *a ddymuno ddrwg iw gymodog iddo ei hun y daw.* ag ar ei waith ef yn ei ysgrifenu Llyma Arlwydd Ardderchog yn ei orddiwes ag wrth weled deuced yr ysgrifen efe a wybu mae gwr amgen na Dyn gwladaidd Cyffredin ydoedd Hywel. a gofyn iddo a wnaeth o ble'r hanoedd a phwy ydoedd ag i ba le yr oedd ar fyned. a hywel a roddes iddo fonheddigaidd atebion i'r cyfan a ofynodd iddo, ar Arlwydd a'i hoffodd yn fawr a gofyn iddo a ddeuai ef i fyw gydag ef yn ysgolhaig Teulu er trin a threfnu iddo bob achosion Dysg a gwybodaeth ag addo iddo gyflog a weddai i wr bonheddig. ag felly cyttuno a wnaeth Hywel ag ef a myned i fyw gydag ef. ar holl fonedd yn Arlwyddi a Marchogion a ddeuant i ymweled ar Arlwydd hynn a ryfeddasant wrth ddysg a Doethineb Hywel. ai fawr ganmol a wnaent. oni fagodd yr Arlwydd gynfigen wrtho am ragori mor fawr arno mewn Doethineb a dysg a bonheddigeiddrwydd. a chlod Hywel a gynyddodd beunydd ag am hynny yn gydfesur y cynyddai cynfigen yr Arlwydd ei feistr. oni feddyliodd o'r diwedd ddihenydd ag angau i Hywel. ag un diwarnod efe a achwynodd wrth ei Arlwyddes am fawr ddrygau ag amharch a wnaethai Hywel iddo, ag ymgynghori a hi a wnaeth am ei ddihenyddio. a hi herwydd ei mawrserch tuag atto a feddyliodd y ffordd y gwnelid hynny yr oedd gan yr Arlwydd ar ei dir galchwyr yn llosgi Calch. ar Arlwyddes a aeth attynt ag a roddes iddynt swm fawr o aur dan ammod daflu'r i mewn i'r odyd y Cyntaf a ddelai attynt a grenaid a fedd. a hwy a addawsant wneuthur felly, ar Arlwyddes pan ddaeth adref a ddywed yr ystryw wrth yr Arlwydd ei gwr, a hwy a lanwasant renn fawr a medd ag a archasant i Hywel ei ddwyn at y Calchwyr, a Hywel a gymerth y Grenn ag ai ddygodd tua'r odyd ag ar y ffordd efe a glywai mewn Ty. hen

wr Duwiol yn darllain Gair Duw, a throi i mewn a wnaeth ef iw wrando ag aros yno encyd yn ol cyngor ei dad, a chwedi r encyd hyn o aros yr Arlwydd a fwrwodd yn ei fryd fod hywel erbyn hynny wedi ei losgi yn yr odyd, a gymerth rennaid arall o fedd yn obrwy i'r Calchwyr, ag ef pan ddaeth at yr odyd a gymerwyd gan y Calchwyr ag a daflwyd i dan yr odyd ag a losgwyd yno a chyda ei fod yn trengu y daeth Hywel yno ai rennaid fedd. ag wrth weled ladd ei Arlwydd fal hynn a ddygodd y Calchwyr gerbron Ynad, ag yno cyfaddefasant fal ai gobrwywyd gan yr arlwyddes am losgi'r cyntaf a ddelai a grenaid medd iddynt, ag mae'r Arlwydd oedd hwnnw. a gwedi holi'r Arlwyddes y cafwyd allan y gwir fal y bu, ag fal hyn y llogodd Cynfigen eu hunain, ag a fu gair Duw yn gadwraeth ag amddiffyniad ir sawl ai parchodd

III. DAMMEG Y DIAL

PAN oedd Cynlas ab ——— yn Arlwydd Morganwg yr oedd iddo fab a elwid Cadoc yn wr Duwiol iawn ag yn Sant o Gor Illtud, ag ef yn nhy ei Dad ar ddiwarnod fe ddaeth Eurych heibio ag ef a geisiwyd i loywi tlysau aur ag arian yr Arlwydd Cynlas ag wedi darfod a'i waith ai goden yn agored ef a gymmerth Langes o weinidoges ffiol arian ag ai dodes ynghoden yr Eurych ynghudd dan ei peirianau ag felly'r Eurych a gaeodd ei goden ag a aeth ymaith yr oedd Cadoc ar ddigwydd yn gweled y cwbl ag a wnaethpwyd. wedi gweled eisiau'r ffiol dilyn yr Eurych a wnaethpwyd a chael y ffiol yn ei goden ag am hynny ei roddi yngharchar, eithr Cadoc a feddylodd ynddo ei hun na adawai Dduw yr hwn sydd gyfan gyfiawn gopi'r Eurych diddrwg diniwed eithr ei ryddhau o'r gosp ar gwradydd, eithr amser Barn a ddaeth a chafwyd yr Eurych yn euog ag felly ei Grogi, a phan welodd Gadoc hyn efe a feddylodd nad oedd un Duw neu ynteu nad oedd gyfiawn am adael o hono i'r Eurych diddrwg ar gwirion gael ei grogi ar gam, ag felly y daeth arno anghred am Dduw a daioni ag ef roddes ei fryd ar wynfyd a digrifwch y Byd ymhob modd ag a ellid ei gael. heb bris am na chrefydd na chyfraith, ag wedi iddo ddarfod ai gyfoeth, efe a gymmerth farch ag arfau ag a aeth i goed trwy ba le yr oedd ffordd fawr. a gwyr cyfoethogion yn mynych dramwy r ffordd honno, ai fwriad oedd yspellio ar bawb a ddelai'r ffordd honno eu cyfoeth. a gwedi gwneuthur ei le'n y Coed. efe a welai megis Arlwydd cyfoethog o hen wr yn dyfod ar hyd y ffordd, ag yn arfog, eithr

Cadoc ag ynteu'n wr glew ynghyfnod oedran gwroldeb, a aeth i gyfarfod a'r arlwydd ag a archodd iddo ei aur ai arian yn ddirwgnach ddiymgis. na chai ebe'r Arlwydd er dy fod ti'n Ieuanc a minnau'n hên mi ymbrofaf a thi am fy meddiant drwy nerth arfau a glewder, o'r goreu ebe Cadoc parod wyf fi, eithr ebe'r hên wr ynghyntaf torrwn bobei fedd fal y bo parod le i gladdu yr un a ladder fal na bo mwy son am dano o ewyllys fy nghalon ebe Cadoc, ag felly myned a wnaethan i dorri pobei fedd ag wrth ei torri cafwyd ymhob un or beddau esgyrn Dyn, gwel yma ebe'r hên wr y rhain ydynt esgyrn dau ddyn a laddodd yr Eurych a grogwyd am ffiol dy Dad am ei cyfoeth, ag un o honynt oedd Tad y Langes a roddes y ffiol yn y goden. ag wrth hyn gwel mai cyfiawn yw Duw, ag ni oddef i'r Drwg ddiange yn ddigosp, eithr hwyra Dial Dial Duw. a Llwyra dial dial Duw. Ti a welaist ddodi'r ffiol yn y goden eithr ni chefaist nerth a Chennad gan Dduw iw adrodd am y mynei ef gospi'r Eurych, ag o hyn allan Dysg hyn o wers sef nas gelli weled y modd y mae Duw'n gweithredu ei gyfiawnder nai ddoethineb, nai drugaredd, gad Dduw iddei Ddoethineb ei hun can ni wedd ar ddyn ei farnu yn ei drefn uchelddoeth ai ddoethineb annirnadwy, a gwel ei drugaredd ef yn dy arbed di rhag cosp drwy fy nanfon i i'th waredu ag ith ddysg pan nas dirperit eithr y grogbren ar ba un y crogwyd yr Eurych. rhy ddisglair yw Duw i ddyn edrych arno ai weled. ag felly ei weithredoedd ai rhag drefniad, a chyda'r geiriau hyn efe welai Gadoc ef megis gwr Ieuanc glanbryd iawn o'r prydferthaf a welsai erioed ag wrth hynny y Gwybu mae angel or nef ydoedd, a dychwelyd adref a wnaeth a gwedi dygwydd cyfoeth iddo efe a wnaeth iawn i bawb am yr aniawn a wnaethai ef iddynt ag a roddes i'r tlodion yn helaeth ag a ymwrthododd a'r Arlwyddiaeth gan adeiliadu Cor yn Llancarfan i drichant o seintiau ag efe a nhwy a fuant fawrglod am Dduwioldeb ag elusenwaith gan Ddewis gwasanaeth Duw o flaen pob gwynfyd a digrifwech daearol. gan gyfrif Cyfoeth ag urddas Byd yn ddim wrth Dduw a Duwioldeb

IV. DAMMEG Y DYLLUAN Y GOLOMEN AR YSTLYM

Y GLOMEN ar Dylluan gynt yn ymdaith a ddaethant ynghlais nos at hen ysgubawr lle yddaethant i letya y nos honno yn yr hen ysgubawr honno ddoedd pengordd yr ystlumod gyda ei deulu yn anneddu, a wedi gweled o hono y dieithraid yma efe a'u gwa-

hoddwys hwynt i gwynosa atto, a wedi bwytta ag yfed eu gwala ar gnyw fwydydd a phergryf ddiodydd, yna y codes y Dylluan ag a ddechreuwys ymarfawl y Cordd yn y modd yma a dywedyd O ardderchoccaf ystlum dirfawr yw'th haelioni, anrhaethglod di, ni farnwn neb yn gymhryd a thi ath Iesinwych deulu, ag adwaen im oes dy gyfal am Len a dysgwybodaeth, gwrol wyd na'r na'r Eryr a theccaf a gwychach na'r paun, a dy lais yn gynghaneddach nag Eiddo'r Eos, yr ystlum a fu orfalch gantho y canmolwawd. yma a disgwyl ydoedd i'r glomen ei areithio'n gydweddd, ond y glomen a eisteddodd yn wyl wrth y bwrdd, heb wneuthur na syniaeth na selwyd ar a ddywaid y Dylluan eithr troi yn y man a wnathoedd, a diolch yn foesweddol i Gordd yr ystlumod am ei letyaeth a'i haelioni, heb roi iddo fwy o ganmolwawd, ar hynny wele'r holl deulu yn Edrych yn hyguch ar y glomen ag yn bwrw sarugwawr arni a beiaw ei hafoesoliant, ag achliw iddi ei hammonedd, ai syml daeogyd, am nas amarfawlasai y pencordd yn ddisyml foneddigaidd, meis a wnathodd y Dylluan sef y dywaid y glomen ei bod yn angharu trutheiniaw a darllidiau y wnaeth yr holl gymdeithon a gorchurasant hi yn anaelau ag ai troesant hi allan yn nyfnder y tywyllnos garwhinog, i rynnu a dychrynu oni ddaeth y wawr ag yna hi a ehedwys at yr Eryr ag achwyn a wnathoedd, ar yr ystlumod ar Dylluan ag yna'r Eryr a dyngwys os yr ystlum ar Dylluan a ymddangosai byth liw dydd ar ol hynny y byddai i holl adar y byd ei beiddiau ai amherchi, ag efe a ganiattawys i'r Clomenod fyth ar ol hynny y caent helpu ynghyd er ymddiffyn eu hunain ai cashaai ag ai perchis o hynny allan yn erfawr am ei didruth wirionedd. ond ni welwyd helf o ystlumod na dylluanod byth wedi hynny, llyma barch yn argoroni, gwirionedd didwyll ag ammarch a gwarth yn gefynu trutheiniant

V. DAMEG Y GEIFR Y DEFAID AR BLEIDDIAID

RHYFEL a ddigwyddwys gynt rhwng y Geifrod ar Defaid. ar Defaid mewn darofn ag anghalondid a feddyliasant mai galon ffyrnig y geifrod, oeddynt y bleiddiaid heb ystyr ei bod cyffyrnicced galon iddynt hwy'r defaid hefyd a erfynasant eu hadorth yn erbyn y geifrod. hynny a gawsant dan ammod y caent hwy y bleiddiaid yr holl eifrod a liasid yn y frwydr: a chyttuno a wnaethant: ag i ryfel ydd aethant, a'r holl eifrod a laddasant a'r holl brainiau ag ysglyfaethon a gafas y bleiddiaid a mawr a

gloddestus wleddon a wnaethant a chig y geifrod. ag ymlenwi a wnaethant a Mawr fu'r rhialweh ond pan deryw'r ystorianant brwysgl e feddylwys y bleiddiaid, gwympto yn nesaf ar y Defaid ag felly y gwnaethant ag a ddewisant yr wyn goreu a'r gweddod bras a or holl gorfa, er cael y blysig fwythau a drachwantant, ar Defaid a ddargwynasant achos y camwedd yma ar afles a ddiodef-ynt, ond ni chawsant fael o'u cwyn, eithr y bleiddiaid a daerasant ar y Defaid dorri o'honynt ffriion y cyn ammod, a wnaethant ar y cyntaf. ar defaid pan oedd ry ddiweddar a welasant maint eu di-synwyrdeb ai hafanas am gyttuno o'honynt fal hyn eriod ar bleiddiaid, a thra etifar y bu ganthynt feddwl iw hoed am erfyn adorth yr Enfilod anhrugar a rheipus hynny, o herwydd ni adaw-saint yr un o'honynt yn fyw oni fuasai er cynnal y fagwriaeth er cael gwastadawl amhaethunon a seigiau gloddestus. a phoed felly y darffo i bawb a fy cyn fyrred eu cynwelwg, ar Defaid hynny.

VI. DAMEG Y MARCH GWYLLT

Gynt yr oedd March Iefange gwyllt yngheltydd glyn daronwy. a dyfod a wnaeth un boregwaith hyd yn ymyl dol Gynon, ag mewn maes pawrlas, ucheldwf, efe a welai farch dof yn pori meillion a ffwynwair, blodenog, ag yn yfed dwfr o nenig sisellog a lifai fal ffrwd o ariant toddianus, rhwng dwy ffwyneg, yn llawn rhoglon a fflorion glasdyfiant mai. heb ef, pa ynfytte, wyf aros im oed yn y gelltydd coedwysawg accw lle ni chaf ond garwellt anhyflys anhy-sawr, iw fwytta a'r lle ni chaf well danteithion na manfrig cor-wyddos i'w enoi. yn ol hir drafferth i'w hysgythru, a lle raid im yfed o fudnant na wenis yn wyneb haul erioed a rylif dan gys-godwydd, deilgoll ar a chlai waelod. mi af ir ddol geinlas accw i bori meillion a ffwynwellt hefindwf, ag i yfed or nennig glaerlif heul-bryd, ag i gysgu mewn gwely esmwythber o fanwellt, hyroglablodau hyfflawr, a byddaf fyw fal gwr bonheddig fal i dirper im gwaedol-edd, a fal y bonheddicaf a mwy nid af i blith y syml daeogfeirch a rygais y gwylltaloedd accw, lle' nid oes na llên na chyfoeth nag unrhyw wynfyd bynnag, ag a chyrch hyred a wnaeth ag esgud-naid a gymerwys, a melltenu tros yr ammid yspydd-adrill, yn fawr ei wyn, ag yn eidiog ei nwyf a diffriog, flys, a phan yttoedd yn y dyffrynfaes gwyrnlasdwl ef a fwrwys drem diystyrlydfalch i'r gelltydd llei ddoedd ei berthynasau ai gyfeillion, anwrydus druein-iaid heb ef, pa hab, y cerwch y diffeithfa symleiddwyllt yna,

byddwch wrydus fal y mau a mwynhewch y dedwyddyd ar esmwythyd y sydd yn y gwynfydfa hwnn. yna ydd atebwys hen farch synhwyr gall ef. yr hwnn a welasai lawer o drafferthion a throfeddau Byd, ag a welasai lawer Iewydyn penchwiban yn dioddef diriant alcur achos ei ynfydrwydd diystyryd. eb ef y mae etto n rhy ebrwydd yt wynfydu am nis gweli trallod sy'n orchysylltedig ar ffugwynfyd yna, ag os gwnai gyngor ath car, Dere i maes oddiyna ar frys ag na ohiria ffyrsto, caethfarch yw'r accw a weli a gwynfyd pa un a chwenychi gymmwyd, a chaeth fydd y tau oddieithr yt ffestiniaw a nerth bryd a charn oddiyna ond y march ieuange a ffromchwerthwys ag droes yn ffroenuchel ymaith ag ni wrandawys ar ddoeth gyngorion yr hen farch callwyddus. ag ni bu hir cyn dywod o berchenog y ddolfaes gyda i arthgwn, ai waedgwn, a weision, ai rwydau rheffynaid ai ddal ai ffrynaw, ai ystarnu, ar diwarnod nesaf e orfu arno fyned i glud coed a chynnyd or allt lle buasai gynt yn rhodio ag yn caffael pob cynnes wynfyd. yn rhydd anghaethawl heb wybod pa beth oedd dwyn trymlwyth, y caethfarch. Diwedd.

VII. DAMEG YR EOS AR HEBOG

Yr Eos gynt a ymfalchiwys yn ddirfawr herwydd ei pherlais a phob edn ai gwheniaethai ag ai galwai Elen y glasgoed a Duwies y Dail ag a roddynt iddi lawer iawn o druthbarch, ar fwyalchen a ddaeth iw charu, ag ef a eirluniwys ei serch iddi mewn alseiniau a charolau melysgainge, ag ag a draethwys ei gariad mewn llawer, cywydd llaidd, ag amrylen difost, ar fronfraith a luniwys ir Eos pa gystal gwr oedd y fwyalch, maint ei Lêg ai ddysgc a gwirioned a mwyned gwas ydoedd, heb yr eos ni waeth itti daw a'th ffreg ath fableg, mi a fynnaf gwreiddach a milwreiddach a thywysogeiddach gwr no'r Mwyalch, ar hynny e ddigwys y fronfraith wrthi ar holl adar eraill oedd geraint iddi sef yr hedydd ar linos ar gog a llawer mwy o'r ednod gwaraidd a geisiai ei lles, yna hwy a ffoasant Ioc, a gwedi myned o honynt, e ddaeth yr hebog atti ag ai dammeirchwys fal hyn tydi Duwies y glyngoed, ag awenyddes y llwyni call a doeth oeddyt am na wrandawast ar y gwail gynghoriaid a fynynt wyraw dy wyrthus fryd at eu crinlles cybyddaidd eu hunain heb ystyr y gwynfyd dau myfi yw twysog yr adar ag eistedd yr wyf ar ddeheulaw yr Eryr, a hir wyf yn dwyn poen a hiraeth im calon oth serch nid hafal dy ffirinc ath glesyddiaeth un organ

na thelyn a Bread arswydus yw melusaf lais a cherddi r adar celfyddgainge lle i bôt anhyall imi adrodd maint fy serch attot nid hyall imi fod yn wynfydus os ti am digar, canniatta imi nesâu attod a moeslawn, raith ag hyfull galon, mal digelwyf fy serch am hir-aeth. Dwyn ag almyg yw dy gallineb a thyner yw dy nwyd. ag ni chair a edwyn dy fath, yr eos a fu falch glywed ei gweniaithaw fel hynny ag heb ystyr ei anian hi ai wahoddwys ef atti. Dere'n nes (ebe hi wrth yr hebog) herwyd deall wyf mai bonheddig urddasol wyd. da iawn yw'th foneddigfoes, a helaeth yw dy wyddiant, myfi a wrandawaf ar dy ddoeth gyngor ath fwyn foneddig lafar, dynesau a wnaeth yr hebog atti ag yna'n fuan ef ai ysgipwys ymaith ag a lladdwys ag ai llewis, a phoed felly y darpho i bawb ni wnel gyngor ai câr. ag a wirgoeliant Druthfawl ag a wrthodent orthelydawg, gynnygion, y gwir Ddoethion. Diwedd.

VIII. DAMMEG EINION AP GWALCHMAI A RIAN Y GLASGOED

EINION ap Gwalchmai ap Meilir o Drefeilir ym Mon a briodes Angharad ferch Ednyfed Fychan ac efe ar un bore teg o haf yn rhodio coedydd Trefeilir efe a ganfu Rhiain dlofain a thra hardd ei thyfiant a manylbryd ei hwyneb ai lliw yn rhagori rhag pob coch a gwyn yng ngawr boreddydd a manod mynydd a rhag pob harddliw ym mlodau coed a maes a mynydd. ac yna efe a glywai ferw serch anfeidrol yn ei galon a myned nes atti a wnaeth yn fonheddigaid ei foes a hithau yn ymneschau atto ynteu, ac efe a gyfarches iddi. a hithau ai hadgyfarches yntau, a gwedi'r ymgyfarch traserchogaidd rhyngddynt efe a weles ei mwynder ai thremiadau llygadlon ac a wybu y gallai ef a hi a fynnai a myned ynghyd a wnaethant modd yr a gwryw a benyw ynghyd, a gwedi cael ei flys efe a ddisgwyles ar ei throed ac a welai mae carnau yn lle traed oedd iddi, a diglloni n fawr iawn a wnaeth efe, eithr hi ai hattebes mae ofer oedd iddo ei ddigllondeb ac ni thalai ronyn iddo, rhaid itti ebe hi fy nilyn lle benna'r elwyf tra pharwyf im blodau, cans hynny y sydd o'r serch fy ryngom, yna efe a ddeisyfes arni roi cennad iddo i fyned iw dy i gymmeryd ei gennad a chanu yn iach i Angharad ei wraig ai fab Einion. myfi, ebe hi, a fyddaf gyda thi yn anweledig i bawb onid ti dy hunan, dos ymwel ath wraig ath fab, a myned a wnaeth ef ar ellylles gydag ef, a phan welwys Angharad efe ai gwelai yn wrach mal un wedi gorhen-

eiddio, ond cof dyddiau a fuant oedd ynddo a thraserch atti fyth ond nis gallai ymddattod o'r rhwym oedd arno, y mae yn rhaid imi ebe fe ymadael dros amser nis gwn ba hyd a thi Angharad ac a thithau fy mab Einion a chydwyllaw a wnaethant a thorri modrwy aur y rhyngddynt a wnaethant, efe a gedwis un hanner, ac Angharad y llall, a chymdymganu'n iach a wnaethant a myned gyda Rhiain y Glasgoed a wnaeth ef ac nid wyddai i ble. cans hud gadarn oedd arno, ac ni welai le yn y byd na dyn o'r byd na pheth o'r byd ba bynnag yn ei wir wedd a lliw ond yr hanner modrwy yn unig, a gwedi bod yn hir o amser nis gwyddai ba cyd gyda'r ellylles sef Rhiain y Glasgoed. efe a fwrís olwg ar un pen bore mal y gwelai'r haul yn codi ar yr hanner modrwy ag e feddylis ei dodi yn y man anwyla ganddo yng nghylch ei gorph. ac yna amcan ei dodi dan amrant ei lygad, ac fal yr oedd efe yn ymegnio gwneuthur hynny efe a welai wr mewn gwisg wen ac ar farch gwyn manodliw yn dyfod atto, a'r gwr hwnnw a ofynes iddo ba beth yd-oedd efe yn ei wneuthur yno, ac efe a ddywed wrtho mae araul cof clwyfus am ei briod angharad oedd efe. A chwennyichit ti ei gweled ebe'r gwr gwynn. chwennyichwn ebe Einion yn fwyaf o holl bethau a gwynfydau'r byd. oes felly ebe'r gwr gwyn esgryn ar y march yma iscil imi, a hynny a wnaeth Einion, a chan edrych o'i amgylch ni welai efe drem yn y byd ar Riain y Glasgoed, sef yr Ellylles eithr ol carnau aruthrol eu maint a'u anferthwch fal ar daith tua'r Gogledd. pa orbwyll sydd arnat? ebe'r Gwr gwyn, yna'r atebwys Einion ac a ddywaid oll mal ac y bu rhyngtho a'r Ellylles, Cymmer y ffon wen hon i'th law ebe'r Gwr Gwyn ac Einion ai cymmeres, a'r gwr gwyn a erchis iddo ddymuno a fynai ac efe a gai ei weled, y peth cyntaf a ddymunes efe oedd gweled Rhiain y Glasgoed cans nid oedd efe hyd yma wedi llwyr ymrydd-hau o'r hud, ac yna hi a ymddangoses yn Widdones erchyllbryd anferthol ei maint canmil mwy aflan mwy aflan ei gwedd na'r aflan-af o bethau aflan a welir ar glawr daear a rhoddi bloedd ofnadwy gan ddychryn a wnaeth Einion. a'r gwr Gwyn a fwrís ei wisg dros Einion a mewn llai na gwinced y disgynnes Einion, fal y dymunes ar Gefn Trefeilir ar ei dy ei hunan, lle ni adnappai efe nemawr o ddyn na neb yntau. Gwedi myned o'r Ellylles oddiwrth Einion ap Gwalehmai myned a wnaeth hi hyd yn Nhrefeilir yn rhith gwr urddasol o Bendefig Arglwyddiaidd breiniol yn hardd a thra chost-us ei wisg, ag yn anfeidrol y rhif ar ei Aur a'i Arian. ag yntau ym mlodau ei oedran sef dengmlwydd ar hugain oed, ac efe a roddes lythyr yn llaw angharad ac yn hwnnw dywedid fod Einion wedi

marw yn Llychlyn er mwy na naw mlynedd, ac yna dangos ei aur a'i urddasoldeb i Angharad a wnaeth, a hithau, wedi bwrw llawer oi hiraeth ymaith ynghyfamgoll amser, a wrandewis ar ei lafar serchogaidd ef, a'r hud a syrthwys arni, ag o weled y gwnelid hi'n bendefiges urddasol tros ben o beth a welid neb yng Nghymru hi a enwys ddydd ydd ymbrioda hi ac efe. a pharottoad mawr o bob hardd a chostus o wisgoedd a bwydydd a diodydd, ac o bob ardderchog o wahoddedigion urddasol a phob rhagorgamp cerddorion a thant a phob darpar gwledd ac Arwest llawenydd, a gwedi gweled o'r Pendefig Urddasolbryd rhyw Delyn harddwych yn ystafell Angharad efe a fynnai ei chanu a'r Telynorian oddent yno, goreuon Gwlad Gymru, a brofasant ei chyweiriaw ac nis gallent, a phan ydoedd pob peth peth mewn parottoad i fyned i'r Eglwys i briodi. fe ddaeth Einion i'r Ty. ag Angharad a'i gwelai ef yn hen Gleiriach gwywlyd blorwynwallt yn crymu gan oedran ag yn wisgiedig a charpiau, a hi a ofynes iddo a drothai ef y ber tra phobit y cig, gwnaf ebe efe, ac a aeth ynghyd a'r gwaith ai ffon wen yn ei law ar wedd gwr yn dwyn ffon fendigaid, a gwedi parottoi ciniaw. a phawb o'r cerddorion yn ffaelu a chyweiriaw'r delyn i Angharad, y codes Einion ac ai cymmerth yn ei law ac ai cyweiriawdd ac a chweris arni'r gainge a garai Angharad, a synnu yn anfeidrol a wnaeth hi, a gofyn iddo pwy'n ydoedd, Yna'r atebwys ef ar gan ac Englyn fal hynn.

Einion aur galon am gelwir o gylch
 Fab Gwalchmai ab Meilir
 Fy hud ehud bu ohir
 Drwg yn nhŷb am drigo'n hir.

Pa le y buost ti?

Ynghent ac yngwent yngwydd ym Mynwy
 Ym Maenol Gorwennydd
 Ag yn Nyffryn wynn fab Nudd
 Gwel yr aur gloyw yw'r arwydd.

ag a roddes iddi'r fodrwy.

Nag edrych lewych goleuwyn y gwallt
 Lle bu gwyllt fy Nhremyn.
 Llwyd heb gel lle bu felyn
 Blodau'r bedd, diwedd pob dŷn

Y blaned fu'n hir im blino madwys
 Ym ydoedd newidio
 Ni chad angharad o ngho'
 Eingan aeth itti 'nangho'.

Ac nis gallai hi ei atgofio ef Yna y dywed ef wrth y gwa-
 hoddedigion.

Os collais a gerais deg eirian ei nwyf
 Merch Ednyfed fychan
 Ni chollais ewch chwi allan
 Na'm gwely nam ty na'm tan

Ag yna rhoi'r ffon wen a wnaethoedd yn llaw Angharad ag yn gyttrem a hynny hi a welai yr Ellyll a welsai hi or blaen yn bendefig harddbryd Urddasol, yn anghenfil anfeidrol ei anferthwch a llywygu gan ei ofn y gwnaeth hi ac Einion ai hymgeleddes hi onis dadlymunes, a phan agores hi ei llygaid ni gwelai yno na'r Ellyll na neb o'i wahoddedigion na neb o'r Cerddorion, na dim yn y byd eithr Einion ai mab ar Delyn ar ty yn ei drefn cartrefol ar ginio'n bwrw ei hanwedd rhogleddus ar y ford ag eistedd i lawr iw fwytta a wnaethant Einion ac Angharad a'u Mab Einion a mawr iawn y bu'r llawenydd iddynt, a gwelasant yr hud a roddeis yr Ellyll cythreulryw arnynt; ag wrth hyn o ddigwydd y gwelir mae serch ar degwech a mwynder rhieinaidd yw hud mwyaf ar wr. a thrachwant urddas ai rodres ai gyfoeth yw'r hud mwyaf ar wraig. ac nis anghofia gwr ei wraig briod oni edrycho ef ar degwech arall o ferch na gwraig ei gwr priod onis edrych ar gyfoeth a golud ac anrhydedd o rodres Arglwyddiaidd a gwychedder balchineb
 ac felly y terfyna.

Hopkin ap Thomas o Dir Gwyr ai gwnaeth.

[Mewn Tynysgrif arall, y mae a ganlyn yn ddernyn anor-
 phenedig.—AB IOLO.]

LLYMA'r Gyfarwyddyd a wnaeth Hopcin ap Thomas o Ynys Dawy, am a fu ar Einion ap Gwalchmai o Fon a Rhiain y Glasgoed, sef oedd honno Gwyddones o Ellylles ai hudawdd ef nawmlynedd ar hugain, a'r modd y cafas ei waredu o rwymau hud a ddodasai hi arnaw.

Einiawn ap Gwalchmai ap Meilir ap Mabon, &c o Fon oedd wr boneddig o Bendefig urddasawl ag yn dyfod Llinolin o Lywarch

ap Bran un o bymtheg Llwyth Gwynedd, ai Wraig ef oedd Angharad Vch Ednyfed Fychan o Fôn a X Vch L. Ll. ap BB. ei fam. A Mab oedd iddaw or Wraig honno.

IX. DAMMEG Y GWR GOLUDOG*

AMSER gynt ydd oedd mewn plwyf ryw wr mawr o Arglwydd goludog yn byw; a mwyaf ei olud ai gyfoeth o dai a thiroedd ag o aur ag arian a phob da byd, ag o swydd ag urddas o neb yn ei ardal oedd ef; ag archa pen boreu ar dorriad gwawr wedi trydy ganiad y ceiliog fe glywyd llaferydd yn datgan dairgwaith yn groyw, nid amgen na hynn, "Heno nesaf, y nos heno nesaf y bydd marw y gwr mwyaf a chyfoethoccaf yn y Plwyf" a'r son a ddaeth i ben yr Arglwydd hynny, am a glywyd ar lafar ysprydol megis o'r nef. ag oi glywed y bu mawr ei dristwch a danfon am y goreuon o bob meddygon pell ag agos. a'r rhai hynny yn gwiliad wrth ei wely yn ddiymbaid, gan weini pob meddyginiaeth iddaw a ellynt eu dwyn ar gof a gwybod a deal, a phob ymborth bywyd a ellit gael ar ddeall myfyrbell, y nos a ddarfu, er ei weled gan yr Arglwydd mawr lawn gyhyd ag oes gwr, a thorri gwawr, ag ymlawenhau mawr a fu gan yr Arglwydd mawr ai holl geraint ei fod yn fyw. gyda chyfodiad haul dyma gloch yr Eglwys yn myned. Cnill dyn wedi marw. a danfon ag eitha brys i ofyn pwy? ateb a ddaeth taw hen wr o gardottyn dall a thlawd a gaid yn fynych yn eistedd yn fwy na hamner noeth ar ymyl y ffordd yn gofyn cardod; ag er cael gan ambell arall. byth nas celai gan yr Arglwydd mawr cyfoethawg ei gymhlwyf. a phan glybu'r Arglwydd efe a ddywedwys fal hynn. Da iawn y gwyddwn mai Lleidr a gwr Twyll a Chribddail oedd yr hen was diriaid, a chan nad oes iddaw na phlant na pherthynas, myfi yw Arglwydd y cyfoeth ag i mi wrth gyfraith gwlad y mae holl olud yr hen Gi digydwybod, Myned a chwilio r Ty'n fanolbwyll, ag ynddo ni chaid namyn Bwrnel o fanwellt a chlustog frwyn ar hen wr yn farw arnynt. ag yn y Ty nid oedd na bwyd na diod na than na dillad rhag anwyd a gwelwyd mai o newyn ag anwyd y bu farw yr hen Feudwy. ag o weled hynn trist afrifed y bu'r Arglwydd cyfoethog, ai gymmeryd yn fawr at ei galon. a gwedi ymdristhau llaweroedd o ddiwarnodau a gweddio ar Dduw, "daeth ar gof iddaw mai gwyn eu

* O'r Yniales Fach, medd Iolo Morganwg.

byd y Tlodion golychwydawl ag iddynt hwy y Golud ar Cyfoeth yng Ngwen wlad Nef." ag o hynny allan ymroddi'n olychwydawl y gwnaeth ef. gan roddi cardodau a gwneuthur llusenau, a phob gweithredoedd dwyfolion a bucheddolion hyd raccyrch einioes, a gwaddoli Crefydddai ag Eglwysau a Llusendai, a Chlafdai, ag ysgolion, a gwared pob Tlodi ag angen a gaffai nag yngolwg nag ynghlyw, ag felly marw yn sant golychwydawl, ag ei awr ddiwedd ei eiriau ef fal hynn. " Mi a gaf fyned at fy ngwell, mi a gaf fyned at yr hen feudwy. a gwyn fy myd hynny cyd bwyf sarn dan ei draed ef. ar awr y bu farw clywyd llafar Angylion yn canu groesaw Gwynfyd iddaw ag efe a gladdwyd yn ol ei ddymuniad ym medd yr Hen Feudwy. Ag felly terfyna.

X. DAMMEG Y CARDOTTYN DALL.

DYN dall oedd gynt yn byw ar gardawd a gelai gan un ac arall, etto yn fawr iawn ei chwant a'i fwriad ar gynnull Da'r byd, a chynnull goludoedd aur ac arian, a thrwy hynn bod yn wr Mawr yn ei wlad: Un diwarnod wedi cael llonaid gren bridd o laeth ai dwyn adref ai rhoi ar ogil y parth fe eisteddwys i lawr, a chan fyfyrion rhywfaint yn dawedig — fe ai clywid ar fyrr yn llafaru fal hynn: mi a werthaf hynn am fygant ag a brynaf gyw Iâr, honno a ddwg immi wy bob dydd dros amcan deg o amser, gwerthaf y wyau, ag a gadwaf yn gynnil cynnil am a gaffwyf am danynt, a rhai a ddodaf dan y Iâr a phan eisteddo, hi ai deor yn gywain immi, a phan ddelont i faint mi au gwerthaf am bris hynn a hynn. ag ir Andras gwyllt os gwerthaf un i Ddyn or Byd am lai na hynny; prynaf ddafad a'r arian, a hi a rydd immi laeth, a gwlan, ag wân, gwerthaf y laeth a'r gwlan am y pris goreu. ac am a orfudd ar a fo achos anhepior wrthynt ei roddi am danynt na bod hebddynt, a byddont hebddynt os na chaf am danynt y gwerth am boddlo; gwerthaf y gwrrywod o'r wyn hefyd, am bris ni ry neb ond angenus. y Benywaid mi au cadwaf yn ddefaid mammogion. ag yn unwedd a'r holl wyn a phob peth arall oddiworth fy nefaid a ellir eu troi yn gêd ag ynnill, ymhen amser bydd modd gennyf i bryn Tai a thir lle bo goreu daear, a dwr, a diogelweh, a phob daoedd eraill, am gwnelo yn wr golud a chyfoeth, ar pryd hynny os daw un ag arall attaf i ofyn hynn a hynn, beth bynna fo'n angen ar hwn neu arall, ni chant eithr am y parod ar law, a lle delo attaf ar oddeu cyfymrin a mi mi ymwnâf ag wynt. a na bach na mawr

na châr nag estron, ni wnaf na chyd na chyfrin a'r goreu o henynt. eithr gwedaf wrthynt ffrdd a chwi daiogion, a lle nad elont ar y gair cyntaf bwriaf fal hynn fy ffonn arnynt; a chyda hynny bwrw ei ffonn a holl nerth braich, ag ynghyd a'r grenn ydd aeth ai thorri yn chwilfriw mân, y grenn yn glechdyr, ar llaeth ar hyd y llawr ar goll. a chyda hynny yr holl dai a'r Tir ar da Byd, yn olud a chyfoeth, ar ffonn hefyd o'i law fal nas gallasai ymmod o'r mann lle'r oedd, na myned ar daith i faun o'r byd i ofyn yn dlawd anghenns a fai ai cadwai yn fyw. heb y ffonn heb y cwbl. ac am hynny y dywedir am a wneler yn rhyfyg. Mal dall yn bwrw ei ffonn ac o fodd arall, na fydd ry barod i fwrw dy ffonn o'th law fal y gwr dall gynt. ac arall gnawd i falchder fwrw ei ffonn o'i law yn ei ddallineb, ac a honno bwrw i lawr yn glechdyr ei holl fawredd. ai holl olud fal y gwr dall ai rennaid laeth.—[O bapurau cymmysg Edward Llwyd yn yr Ashmolean Museum yn Rhydychen, medd *Iolo Morganwg.*]

XI. DAMMEG Y GWR A'R EBOL.

Gwr gynt yn berchen Ebol a elai dano ag ai cwnnai yn fis oed ar ei ysgwyddau. gwneuthur bob dydd. Yr Ebol yn tyfu'n geffyl ar dyn o ymarfer beunydd a Nerth ei gorph yn ymfwyhau mewn grym fal ag oedd yr Ebol yn mwyhau mewn maint. ag yn cwnnu'r Ceffyl ar ei ysgwyddau. A'r Ceffyl yn dioddef hynny yn esmwyth. Felly Arfer a fwy nag a feddylir dros ddyn. fal y dywed y ddiarheb Arfer a wna feistrolaeth; ac, Arfer a wna'n hawdd y peth mwyaf Anhawdd; ac arall, Arfer a drech ar bob trechaf: arall etto, Arfer a ddwg pob peth dan ei Wedd. ac un arall, Arfer a ddaw hanner y ffordd i gyfarfod a phob ymgais, fal y Ceffyl yn dyfod at y Gwr ag yn goddef yn esmwyth ei gwnnu: arall hefyd, Arfer yn hanner y Gwaith. Diarhebion eraill, nid nerth ond Arfer, nid nerth ond Celfyddyd, nid Celfyddyd ond Arfer, fal y dywed y Bardd,

Arfer ag ymgais a drech ar bob trais.

ag o hynn y mae'r Ddiarheb, Cwnnu'r Ebol heddyw, Cwnnu'r Ebol y fory, cwnnu'r Ebol bob dydd onid elo'n llawn faint Ceffyl,

Arfer ag ymgais a drech ar bob trais.

XII. DAMMEG MEREDYDD AP RHOSER O LANBEDR A'R FRO.
AM GASTELL TREWARIN (SEF WRINSTWN.)

CASTELL Ffwg ap Gwarin, a elwir Ffwg Morganwg a Ffwg Vewnt Caer Dyf Un Twr mawr ag uchel ydoedd; ag uwch o lawer nag un Twr arall yn Ynys Prydain: Syr Ffwg yn son ar uchaf amser Gwyl y Sul Gwyn am y caledi a ddioddefws ef yn ymladd a gelynion a Sarsyniaid ar modd y dychymygodd ef gael y goreu ernynt A Marchogion Urddasol a Bonheddigion gwaeduchel, yn gwrando; "Mi a allaswn wneuthur felly hefyd yn hawdd ebe un Marchog, minnau hefyd ebe un arall, a mynnai hefyd ebe'r trydydd, ac felly o fynnau i fynnau onid chlywid pob Mynnau yn haeru ei hunan gystal a'r goreu, a chystal a Syr Ffwg ei hunan; Un peth arall ebe Syr Ffwg a wnaethum ond llai rhyfedd rhaid cyfaddef na dim arall ag a wnae: beth oedd hynny ebe un, ebe'r ail ebe'r trydydd, ebe pob un yn y man, ar lle: Ebe Syr Ffwg, mi neidiais i ben fy Nghastell fy hun, yr hwn yw'r uchaf gan gyfaddef pob un o honoch yn y Deyrnas, gwir yw hynny parth yr uwchder, ebe un, ebe arall, ebe pob un yno; ond am y neidio iddei ben nid ond gweled y cyfryw orchest a'm llygaid ym hunan a wna i mi gredu hynny; Da iawn yn Wir ebe Syr Ffwg, Ag os caf yr Anrhyddedd o'ch cyfeillach rhyw ddydd ar fyr o amser i gynniawa gyda mi yn fy Nghastell, chwi a gewch fy ngweled yn neidio iddei ben ef. addaw dyfod, pob un o henynt, ac enwi'r diwarnod, dyfod yno bawb o henynt. ciniawa, bwytta ag yfed yn dda; y bwydydd goreu y diodydd goreu, Ynawr ebe Syr Ffwg am neidio i ben y Castell dwr, dewch gyda mi dilynwech, a gwelwech bob un ai lygaid ei hunan; Myned at droed yr Esgynfa, yna neidiodd Syr Ffwg i'r llettring cyntaf, ag oddiar hwnnw i'r ail, ar un modd i'r Trydydd, ag fal hynny neidio o un llettring i arall, hyd yn ys neidwys ef i ben y Castell: och fynnau ebe un, ac ar ei ol bob un arall, myfi a allaswn neidio yn y rhywfodd a hynny yn hawdd iawn i ben y Castell; Gallasech, ebe Syr Ffwg, mi a wn y gallasech, ac y gellwch yn hawdd bob un o honoch, ynawr wedi fy ngweled i yn gwneuthur felly, a'r modd a'i gwnaethum, a diffyg ddeall yn unig oedd yr achos nas gwnaethoch felly, neu oleiaf nas daeth erioed ar ddeall i chwi'r modd y gellid ei wneuthur. nid mawr y gorchest ar ddim i ddeall gallu.

Perchen deall gwrandawed ag ystyried y ddammeg—a chymmered, addysg o Lettring i Lettring y mae cyrhaedd pen Castell

Gwybodaeth ag ucheldwr Chelfyddyd, ag nid ofer ar bob ofer, ond amcanu hynny mewn un Naid.

Meredydd ap Rhoser o Lanbedr ar Fro. ai dywaid yn yr Eisteddfod Llandaf, a fu yno yn yr Eglwys gan Williams Ifans Trysorwr Llandaf er dysgu'r modd y mae cyrhaedd, Gwybodau Llen a Chelfyddyd.

Ag yn y Maes Teg lle ydd ymneuaddau Beird Tir Defodwyd gan Farn Tri Chadeirfardd ar ddeg ei datgan gan Ddatgeiniai Dosparthus herwydd prif ddefod, neu ynteu ei darllain ar Osteg gan Fardd Cadair yn Mraint Ofydd can nas dylai na Phrif Fardd na Derwydd amgen na'i datgan ar osteg gan Lafar Gorsedd.

CHWEDLAU.

LLYMA GYFARWYDDYD

AM GARADAWC AP BRAN AP LLYR, AC AM FANAWYDAN AP LLYR
EI EWYTHR, AC AM GARCHAR OETH AC ANNOETH.*

PAN oedd Caradawc ap Bran ap Llyr Llediaith yn rhyfelu a Gwyr Rhufain ag yn eu lladd yn aruthr, rhai o'r Gwyr hynny yn ddianghedion a ddywedasant wrth eu Hymerawdr nas gellid na gobwyll na gobaith y gellid llaw uchaf a gorfod ar Garadawc ap Bran gyhyd ag y safaint y Coedydd ar llwyni caeadbell yng Nghyfoetheu Caradawc ai Gymry nid amgen na Phendefigaeth Essyllwg, sef ebynt yn y coedydd ar gelltydd caeadlwyn yn ym-gudd ydynt ym mraint ag ansawdd Gwylltfflod, ag nis gellir na golwg na chraff arnynt mal au lladder yny bwynt rif gwenyn o gwch yn hirddydd haf tesog ag yn ddiarwybod am ein pennau ni y Caisariaid gan ein lladd yn lleibiau; sef ydd atebwys yr ymherawdr myn fy Enw mawr am Tynghedfen, ni hir safant y coedydd ynghyfoethau Caradawc ai Gymry. mi a ddanfonaf i'r wlad honno Ganlleng om goreugwyr Cad a Rhyfel a gosgymmon Tân Gwyllt yn lle arfau minogion, ag a ddodaf ar dan holl Goedydd Gyfoetheu Caradawc ai Genedl o Gymry au Ciwdodau. ar geiriau hynny a ddaethant i Glyw Caradawc ap Bran ai wyr, sef y dywedasant gymmain un a llais a llef mal o un genau, Bach yw gennym gadw ein gwlad ag amgen na chadernyd corph a chalon, gan hynny llosgwn ein coedydd gyhyd a chyflod y gwelir dalen ou twf, hyd nas galler brigyn i grogi chwannen o geulan Hafren hyd yn afon Tywy hyd a lled y Cerddynt Gyfoetheu Essyllwg, Cyrch a dardan yr holl diroedd ar ein helw an henw. yna gwa-hodddwn y Caisariaid in gwlad ag awn gad am gad ag wynt ar y tir dof ar maesdir Oeth yn gystal ag a wnaethom ar lawr Anoeth y Tir Gwyllt. Yna llosgi'r holl Goedydd o galon Hafren hyd yn eithafodd Ystrad Tywi ffordd y cerddai Cyfoetheu Caradawc ai

* O'r Yniales, medd Iolo Morganwg.

Gymry, heb adael brigyn lle y disgynnai'r Gwybedyn lleiaf i orphwys yng ngrattes hirddydd hâf, yna danfon Cenhadon anrhydeddus at Ymherawdr Rhufain, a phan ddaethant hyd yn Llys yr ymherawdr cyfarch iddaw yn fonhedigaidd nid amgen nag ym mal hynn. Gwyr Caradawc ap Bran ap Llyr Llediaith ydym ni, gwell y cymmerasaint ein Brenin an Cenedl ni lonydd yn heddwch na Rhyfel, Bodlonach y porthasaint eu gwartheg blithion au Defaid gwlanog na'u Meirch Cad a Rhyfel, serchoecach y gwaith Cyfnawdd Ceraint na lladd gormes Estron. Bid bai beiawr nid ar genedl y Cymry na'u Brenhinoedd y saif y Bai. chwilia'n amgen am danaw gan fwrw golwg craff ar a drother dan dy law a'th lygad. buom Gad am Gad a thi ar y Tir gwyllt, a gwyddost modd y bu. mwy nid gwyllt wyneb ein Tiroedd nid edewis y llosg na phren na brigyn yn fyw ar glawr ein gwlad Tir oeth bellach holl Gyfoetheu Caradawc ap Brân, cadw ynghartref dy dan gwyllt nid oes nag achos na gwaith iddaw ar lawr Cymry dawed dy wyr gad am gad a ni ar y Tir Dof, dau Estron am un Cymro ar y Tir Oeth ag ymbrawf ynnill yn ol anrhydedd a goll-aist ar y Tir anoeth. un maes mawr ein gwlad heb fan y gellir nag ymgudd nag ymgil ynddi. mal hynn a'th annerchwn. gyrr a glywaist yn graff ar dy gof a bydd wr. Caradawc ap Bran ef a'th gyfarch, ef ei hun, ag nid amgen. rhyfedd a synn fu gan yr amherawdr y Cyfarch a blin ar ei feddwl y nawdd a gawsant y Cymry ganthaw ym mraint Cenhadau gorwlad pan wybu mai Caradawc ei hun ag nid amgen ai cyfarchai. Daethant y Cenhadon yn ol iddeu gwlad. yna galw cyhydreg ag ymladd. a gwyr Rhufain a ddodaseint Gadau ar Faes ffordd y treiglai'r Gwynt am bedryfannoedd Byd. a Charadawc ai Gymry yn eu herbyn yn galonog gan ei lladd yn lleibiau celanedd ffordd y tröid wynebau attynt, a chystal y caed Caradawc ai Gymry ar y Tir Dof ag ai caid cyn no hynny ar y Tir Gwyllt. Cystal ar oeth ag ar annoeth, ag yna dodwyd y Cof ar ddiarhebion gwlad, lle dywedir. Cystal ar y Tir Gwyllt ag ar y Tir dof. ag, ni waeth oeth nag anoeth iddaw. a, cystal ar oeth ag ar anoeth.

Gwedi llosgi'r coedydd mal y dywespydd, yng ngwelydd Caradawc ap Bran ai Gymry, bu gymmaint prinder y coed defnydd fal nas gellid modd Tai, ag o hynny y dywedir ar ddiareb Haws cael Saer na Defnydd, ac anaml saer, anamlach defnydd, achaws hynny gorfu ar y Cymry adeiladu Tai a cherrig, a'r Tai hynny a wnaed ar ddull Das yd neu wair, neu ynteu dyfaler y Tai hynny ar eilun Cwch gwenyn, sef crynion oeddynt yn ymgynnull ynghyd

yn y pen yn lle cronglwyd goed, a thwll mwg uwch ben y canol mal y gwelir wrth ddihenyddion y Tai hynny a geffir ar fynyddau ar y lleoedd yniâl hyd yr awr honn; yna dodwyd ar ymgais gwneuthur calch mal y gellid Cadernyd ar dai cerrig. a'r amseroedd hynny y dechreuwyd adeiliad Tai a chalch yng Nghymru, a threfnu Tai'n Bentrefydd mal y bai haws cydymgadw rhag gelyn ag estron a chydymgymmwynasu, a Chydfugeila Defaid a Gwartheg blithion a gwarchadw Tir âr a gwyrllawd.

Gwedi'r ymladdau hynny lle y llas gymmaint o'r Caisariaid yn ydoedd eu hesgyrn yngweddill Bleiddiaid a Chwn a Chigfrain mal eira gwynn yn gaenen mewn llawer iawn o fannau yn cloriaw gwyneb daear, ag yn y Maes Mawr yng Nghymry sef y wlad ambarth y man y mae Monachlog Margam y caed mwyaf o'r Esgyrn achaws y Gad fawr ar Dir oeth a ddoded yno gan wyr Rhufain lle au lladdwyd. A Manawydan fab Llyr yn gweled hynny a beris gynnul yr Esgyrn ynghyd yn un gludair a dwyn attynt a gaid ymhob man arall o'r cyfoeth or rhyw esgyrn yn ydoedd y Gludair honno yn dra rhyfedd ei maint. yna bwrw yn gyreh yn ei amcan gwneuthur calch, ag adeilad Carchar ar esgyrn hynn er carcharu gelyn ag estron a ddelid yn rhyfel, ag ynghylech y Gwaith a gwneuthur adeilad crwn helaeth a thra chadarn eu furiau a'r esgyrn hynny ynghyd ar Calch, sef ydoedd ar ddull Crwnn rhyfedd ei faint, ar esgyrn mwyaf yn y Crwnn tu faes a thu fewn i'r crwnn hwnnw amrafaelion dai Carchar o'r esgyrn ag oeddynt lai, a charcharau eraill dan y ddaear yn leoedd Bradwyr Gwlad. a Charchar oeth ag Anoeth y gelwid hwnnw er Cof am a wnaethant y Cymry a Charadawc eu Brenin er eu gwlad au Cenedl ar yn gystal y Tir oeth ar Tir anoeth. ag yn y Carchar hynny y dodid a ddelid yn rhyfel yn erbyn Cenedl y Cymry hyd yn ys gellid Barn Llys gwlad arnynt, ag os ynghynllwyn y ceffid dal un neu arall o'r estroniaid ei losgi, os ynghad ddosparthus ai delid a gwelid gwir ar hynny gan farn Llys ei ddadferth yn ol iddeu genedl am gymro cymmraint a gaid ar ddadferth am danaw. a chwedi hynny carcherid yno bob un a geffid yn fradwr gwlad, a lle nas llosgid gan farn Llys, eu cadw yno hyd yn oed bywyd. a'r Carchar hynny a dorwyd lawer gwaith gan y Caisariaid ar Cymry a gwaint ar ol hynny yn gadarnach nag or blaen. ag ymhen hir amser daeth mall ar yr Esgyrn mal nas gellid cadernyd arnynt canys maluriau a wnaethant yn Ulyf. yna dwyn y dihenydd yn weryd Tir ar ag o hynny caid rhyfedd ar gnydau gwenith a haidd a phob yd arall dros hir o flynyddoedd. ag felly terfyna.

HANES Y TRI ADERYN LLWCH GWIN.

DRUTWAS ap Trephin a gafas gan ei wraig dri aderyn Llweh Gwin a hwynt a wnaent beth bynnag a archai ei meist'r iddynt; ac fe osodwyd maes rhwng Arthur a Drutwas, ac ni chai neb ddyfod i'r maes ond hwy eill dau, a gyrru ei adar a wnaeth Drutwas, a dywedyd lleddweh y Cyntaf a ddel i'r Maes, ac fel yr ai Arthur i'r maes e ddaeth chwaer Drutwas oedd ordderch i Arthur ac a lesteiriodd Arthur i'r maes, er cariad i bob un o honynt. ac o'r diwedd fe ddaeth Drutwas i'r Maes, gan dybio lladd o'r adar Arthur. ac ai cippiodd yr adar ef, ac ai lladdasant. yn entyreh awyr ei adnabod ef a wnaethant, a disgyn i'r llawr drwy oernad dosturia'n y byd. am ladd Drutwas eu Meistr. ac y mae Caniad Adar Llweh Gwin ar dannau a wnaed yr amser hwnnw i goffau hynny ac o hynny y cafodd Llywarch Hen y testun i ganu'r Englyn canlynol.

Drutwas ap Trephin trin diwarnawd
 Gan drallawd ag orddin
 Adwy a wnaeth gyssefin
 Adar ai lladdodd llweh gwin.
 Llywarch Hen.

HENAI FION BYD.*

ERYR gynt oedd yn byw ynghoedydd Gwernabwy yn yr Alban. a chyntaf erioed oi rywiogaeth ai enw a gaed yno, a gwedi iddaw ef ai Eryres Epiliaw hyd ymhen y nawfed âch a thros hynny ym mhell a gweled ei lwyth ai Eppil yn aneirif eu nifer, ag yn gwledych holl goedydd a Chreigydd Ynys Prydain, bu farw yr hen eryres fammog. gan adael yr hen Eryr llwyd yn weddw adwerydd, ag ymddifad o gyfallai, heb neb ai cysurai nag ai cynhesai yn ei henaint. yna gan drymder bryd a meddwl a thristweh calon meddwl a orug mai goreu fyddai iddaw briodas a hen weddwes adwerydd gyfoed ai hunan. a chwedi clywed son am hen ddylluan Cwmeawlwyd ym Mhrydyn efe a gymmerth ar dyb y gallai honno ymgysfaddaf ag ef a bod yn ail briawd iddaw, ond efe ni fynnai

* O Lyfr Mr. Cobb, medd Iolo Morganwg.

ddadryw a llwgr ar ei waed a difwynaw ei eppil o gael plant o heni, a dodi lledryw a lledach ar ei genedl. Goreu gan hynny meddai ef wrtho ei hunan imi ymholi ac ymofyn gan y rhai ydynt hŷn na mi, am oedran y ddylluan. er gwybod pa un ai amgen ei bod dros ben oedran planta; a hen gyfaill oedd iddaw hŷn nag ef ei hunan a hwnnw Hydd Rhedynfre yng Ngwent, myned attaw a orug, a gofyn oedran yr hen ddylluan ar hydd ai atebai fal hynn dywel fy nghar am cyfaill y dderwen honn a orweddaŵ wrthi nid yw amgen yr awr honn na hen Gelffeinyn marw heb ddail heb frig arni. eithr cof gennyf ei gweled yn fesen ar frig Brenhinbren y gelliwig honn. a thyfu yn dderwen a wnaeth a thrichanmlynedd y bydd derwen ar ei thyfiant, a chwedi hynny trichanmlynedd yn ei grym ac ar ei goreu. a gwedi hynny trichanmlynedd ar ei methiant cyn marw. ac ar ôl marw trichanmlynedd yn darfod ir ddaear. ac y mae dros drigain or cant diweddaŵ wedi cerdded ar y dderwen honn. a hen y gwelais i'r ddylluan er y cof cyntaf gennyf. heb arwybod immi a wyddai am ei hoedran o'm cenedl fy hunan na golwg o iau arni nag y sydd yr awrhon. Ond y mae hen gyfaill ymy sydd hyn o lawer na myfi. Gleisiad Llynn Llifon yw hwnnw, dos atto, odid nas gwyr ef ryw gyfarwyddyd am oedran a helynt yr hen ddylluan. Myned hyd attaw a wnelai yr Eryr, a gofyn iddaw gyfarwyddyd am y ddylluan. ar Gleisiad ai atebai fal hynn, rhif y cennynau ar gemmau sydd arnaf, ac at hynny rhif y gronynnau sydd yn fy mola y sydd arnaf o flwyddi'm oedran. ac er eitha cof imi hên gyheurath oedd y ddylluan, ac nid i neb om cyfeillion ag oedd yn ei llawn oedran pan oeddwn i yn ieuange na chof na chlyw am ieuenetid y ddylluan nag ychwaith am ei phlanta hi. ond y cydymaith immi y sydd hŷn o lawer na mi, hwnnw yw mwyalch Cilgwri. dos attaw, odid nas gwyr am y ddylluan du hwnt i'r côf a'r gwybod sydd gennyf fi dos atto a gofyn iddaw. myned a wnai'r Eryr, ac a gafodd y fwyalch yn eistedd ar garregyn bychan o gallestryn caled iawn ac a ofynnes oedran a helynt y ddylluan, a'r fwyalch a'i atebai fal hynn. gwel yma bychaned y garreg fechan y tanof, nid mwy hi yr awr honn nag a gymmer bachgenyn saithmlwydd yn ei law, ag mi ai gwelais yn lwyth trychant gwedd o'r ychain mwyaf. a thraul ni bu arni erioed ond o'm gwaith i yn sychu fy mhig arni unwaith bob nos cyn myned i gysgu. ac yn taro blaen fy adain arni bob bore gwedi y desgynnwn arni o berfedd draenfrig, a thros bob cof gennyf rifiedi blynyddau'm hoedran, er hynny nid adnabum i. y ddylluan yn iau im barn am golwg i parth a welid arni nag yw hi y dydd heddyw, ac ni chlywais

erioed gan un om ceraint y sôn lleiaf am gôf oi phlanta hi. Ond y mae un sydd hÿn o lawer na myfi a hÿn na'm tad herwydd a glywais, a hwnnw y llyffan Cors Fochno yngheredigion, dos a gofyn iddaw ag onis gwyr ef, ni wn i am neb a wÿr. Myned a wnai'r Eryr hyd yng Nghors Fochno a chyffwrdd a'r llyffant yno. a gofyn iddaw oedran y dylluan. a'r llyffan ai atebai. ni fwytiais i erioed amgen o fwyd na phridd y ddaear, ac ni fwyttiais i erioed hanner fy nigon. a gwel di'r bryniau mawrion y sy'n amgyleh y y gors honn. y maent yn sefyll ar a welais yn dir gwastad, ag nid oes y gronyn lleiaf ynddynt ond a ddaeth yn dom o'nghorph i, a bwytta cyn lleied rhag ofn darfod ar bridd y ddaear cyn fy marw. tu hwnt i bob cof i mi fy mhynyddau er yr awr am ganed, nag ychwaith er y cyntaf o beth ar gof a gwybod immi. er hynny hÿn o lawer na mi yw'r ddylluan heb olwg yn y dim lleiaf o wedd ieuencid arni. eithr yn hên wrach lwyd, yn gweiddi Ty hwt ty hw y coedydd yn hirnos gauaf. yn dychrynu plant bychain ac yn torri ar hynn pob un. ac nid oes immi gof ag ni chefais i glyw er ioed am ei phlanta eithr am a welais i hen wrachiod ymhell dros ben oedran pob planta oedd yr ieuangaf o'i merched a hefyd o'i hwyron ai gorwyron. yna r Eryr a weles y galla ef ei phriodi ai chymmeryd attaw yn gywely heb ddwyn ar ei genedl na llwgr na lledryw. na lledach na llediaith. ag felly y bu. ag o garwriaeth yr hen Eryr y cafwyd gwybod pwyr hynaf o greaduriaid yn y byd, sef ydynt, Eryr Gwernabwy. a Hydd Rhedynfre a Gleisiad Llynn Llifton. a mwyaleh Cilgwri. a Llyffan Cors Fochno, a Dylluan Cwm Cawlwyd, ag nid oes namyn y Grwn Tir yn hÿn nag wynt o bethau a gawsant ddechreuad yn oes y byd hwnn.

ag felly y terfyna.

BREUDDWYD PAUL ABOSTOL.

MIHANGEL wrth orchymmyn Duw a ddangoses i Bawl Abostol boenau Uffern mewn gweledigaeth. Yn gyntaf fo welai Bawl brennau tanllyd o faes Porth Uffern, a llawer o bechaduriaid yn poeni yn crogi wrth y prennau hynny; rhai wrth eu dwylaw, rhai wrth wallt eu pennau, rhai wrth eu traed, rhai wrth eu tafodau, rhai wrth eu breichiau. Ac eilwaith ef a welai ffwrn danllyd, a saith ddialedd yn dwyn saith liw ynnddi, a phechaduriaid yn poeni ynddynt, a saith ddialedd o bob ty iddo: cynta oedd *Eira*, yn ail oedd *Ia*, y trydydd oedd Tan, y pedwerydd *Gwaed*, y

pumped *Nadroedd*, y chweched *Cessair*, y seithfed *Sawyr brwt*. Ac yn ffwrn danllyd honno ydd oeddyd yn taflu eneidiau pechaduriaid ni wnaethant eu penyd yn y Byd yma dros eu camweddau a'u camweithredoedd, sef y rhai nid edifarhasant; yno yr oeddyd yn doddi pechaduriaid mewn poenau yn ol eu gweithredoedd, ac yn ol y modd yr haeddasant yn y Byd hwn; ac yno rhai oedd yn wylo, rhai yn udo, rhai yn ochain, rhai yn llosgi, rhai yn deisyf angau ac heb ei gael, canys ni bydd marw Enaid Dyn byth mewn lle pryderus; pryderus yw Uffern lle mae tristwch llawenydd, lle mae blinder tragwydydd, lle mae tristwch calon, lle mae amllder o ddrygioni, lle mae blinder ar Eneidiau, lle mae rhod danllyd a mil o sidelli ynddi, a gormes uffernol yn ei throï fil o weithiau yn y dydd a'r nos, ac ar bob tro y mae hi yn llosgi mil o eneidiau. wedi hynny fo a weles Pawl afon fawr greulon, a llawer o gythreuliaid ynddi fal pysgod yn y mor yn llyngcu Eneidiau heb fesur, a hynny yn ddirugaredd, fal Bleiddiau yn lladd defaid; ac ar yr afon honno y mae pont, ac ar hyd y bont honno yr â eneidiau y bobl dda gywiriaid, a hynny yn ddibryder, a thros y bont y cwympa y rhai drwg ffeilsion ynghanol y llif, a phawb yn boddi yn y llif hwnnw, yn ol eu gweithredoedd; ac y mae llawer lle drwg i aros fel y mae Duw yn dywedyd yn yr Efengyl. "Rhwymwech hwy yn Sabyrniaid" a'u poeni, nid amgen na phawb at ei gyffelyb; y Gwyr a dorres eu priodasau, ar Gwragedd a wnaethant y cyffelyb; y treiswyr at y treiswyr eraill. y rhai drwg at y rhai drwg eraill, yr ocerwyr at yr ocerwyr eraill, y putteinwyr at y putteinwyr eraill; yno y gweles Pawl lawer o eneidiau yn y llif hwnnw. rhai hyd ymhen eu gliniau, rhai hyd eu gwregysau, rhai hyd ymhen eu hysgwyddau, rhai dros eu pennau, pawb fel yr haeddodd, ac yno wylo ac udo, a chan mil o gythreuliaid yn eu gwatwor a chroch chwerthlef ysgyrnyglyd, a chan yr adlef yr holl uffernoedd yn un waedd fawr ofnadwy. yna y gweles Pawl un ai

yno y gofynnes Pawl beth oedd hwn? heb yr angel drygddyn oedd, ac ni chadwes ef gyfreithiau Dduw. anniwair oedd ei gorph a ffals ei air a'i weithred. ai feddwl, a chybydd o'i dda, a bradwr a balch, am ddrwg fuchedd efe a oddef beth direswn o boenau, o ddydd y Farn allan: ac yna yr wylawdd Pawl, yna y dyfod yr angel pam yr wyt yn wylo? ni welaist etto mor poenau mwyaf ag y sydd yn Uffern, ac yna y dangosodd iddo bwl uffern dan saith glo. ac yno y dyfod Mihangel saf hwnt ymhell, ni elli oddef y trymawr y sydd yn codi o'r pwll hwn, a phan agored safn y pwll

fe godes drygsawr o hono yr hwn oedd orthrwm o'r tu hwnt i holl boenau uffern. yno y dyfod yr Angel, pwy bynnag a fwrir i'r pwll hwn ni bydd coffa am dano gerbron Duw. heb y Pawl pwy a fwrir ynddo? heb yr Angel, y sawl ni chredodd i'r Arglwydd Iesu Grist, ac ni chredodd ei ddyfod ef mewn enawd o had yr yspryd glân, ai eni o Fairforwyn, ac ni chawsant fedydd na chymmum Corph Crist, nac un o rinweddau yr Eglwys, wedi hynny fe welai Bawl mewn lle arall, Wyr a Gwragedd a gwiberod a nadroedd yn eu bwytta hwy, yr oedd yr eneidiau yno ar eu gilydd fel y defaid yn y llong, ac yr oedd cyn ddyfned y man hwnnw ac o'r nef i'r ddaear; ac yna clybu oerlefain mawr, a thrwm ocheneidio; ac yr edrychodd Pawl i fynu ac i wared, ac yno y clybu enaid pechadur rhwng saith o Gythreuliaid yn llefain ac yn udo, ar dydd hwnnw y gwahanasai ef oddiwrth y corph, ac yno y gwaeddodd angylion Duw ar yr enaid hwnnw, och y druan beth a wnaethost ti yn y byd yma? heb yr Ormes gwyl di yr Enaid yma, pa wedd y torres ef orchymynion Duw, ac yna y darlleawdd ef mewn llyfr ei weithredoedd drwg, ac ai barnes ef ei hunan yn golledig: yna y cymmerth y Cythreuliaid ef yn ei cigweiniau ac a aethant ac ef i'r tywyllwg pellaf, lle'r wylo ac ysgythru a chrynnu dannedd, ac yno y dywedodd yr Angel wrth Bawl, cred di, a thi a geffi mai mal y gwnel dyn y ceiff, wedi hynny fo ddaeth Engylion ac Enaid dyn cywir gwirion ac a aethant ac ef i'r nef; ac yno y clybu Bawl lais mil o Filoedd o angylion yn canu o lawenydd, "Bydd lawen canys ti a wnaethost ewyllys dy Dduw," yno dyfod yr Engylion "codweh ef ger bron" ac yno y darllenodd ei weithredoedd, ei weithredoedd da; wedi darfod hynny fo ddug Mihangel yr enaid hwnnw i Baradwys, lle'r oedd y saint oll, ac yno yr oedd gwaedd o lawenydd gael yr Enaid hwnnw attynt hwy fel pei crynnei Nef a daear, yna y gweddiodd y pechaduriaid a oeddynt mewn poenau, ac a ddywedasant fal hynn "Mihangel Archangel, a Phawl Abostol Crist, Gweddiiwch drosom ni ar Dduw" Heb y Mihangel chwi a ddylasech weddio tra'r oeddych ar dir gobaith, ond weithian hi aeth yn rhy hwyr, canys barnau Duw ydynt mal yntau yn anghyfnewidiol, a lle y syrthio y prenn yno yr erys. Chwithau Gristnogion da wedi clywed y poenau, a'r perygl sydd arnoch; trowch eich Calonau at Dduw, fal y galloch deyrnasu gydag ef yn oes oesoedd. *Amen.*

Ac felly terfyna.

HWEDL RHITTA GAWR.*

DAU Frenin a fu gynt yn Ynys Prydain, sef oedd eu henwau *Nynniaw a Pheibiaw*, ar ddau hynn yn rhodio'r meysydd ar un noswaith oleu serenog, ebe *Nynniaw*, gwel paryw Faes helaeth a theg y sydd gennyf fi! ymha le y mae? ebe *Peibiaw*. yr holl wybren, ebe *Nynniaw*, hyd eitha golwg a therfyn: gwel dithau, ebe *Beibiaw*, y maint y sydd o dda a defaid gennyf fi yn pori dy faes di! ymha le ebe *Nynniaw* y maent? yr holl ser a weli di, ebe *Beibiaw*. yn aur tanlliw bob un o honynt, ar lleuad yn fugail arnynt ac yn eu harail! ni chant ddim aros yn fy maes i, ebe *Nynniaw*. hwy a gant ebe *Beibiaw*; na chant ebe'r un, cant ebe'r llall, wers tra-gwers. onid aeth hi yn gynnen gwyllt a therfysg rhyngddynt. ac yn y diwedd o ymryson myned i Ryfel ffyrnig. oni laddwyd gosgordd a gwlad y naill a'r llall yn agos oll yn yr ymladdau: a chlywed a wnaeth Rhitta Gawr Brenin Cymru maint y galanastra a wnaethant y ddau Frenin amhwyllgar hynny a bwriadu a wnaeth efe dwyn cyrch a gosod yn eu herbyn, a gwedi myned wrth Farn a Rhaith ei wlad ai osgorddion, cwnnu a wnaethant. a myned yn erbyn y ddau Frenin amhwyllgar, a aethant fal y dywespwyd, wrth ddifrawd ac anraith. gan ddechymygion o wallgof, au gortrechu a wnaethant. ac yna torri ymaith eu barfau a wnaeth Ritta; a phan glybu y rhai eraill o wyth brenin a'r hugain Ynys Prydain y pethau hynn, ymgynnull a wnaethant eu holl osgorddion, er dial sarhâd y ddau frenin eraill a ddifarfwyd, a dwyn cyrch a gosod ar *Ritta Gawr* ai wyr. ac ymladd glewdaer a fu o bob tu. ond *Rhitta Gawr* ai osgordd a gawsant y maes. "Llyma fy mawr inneu! ebe Ritta, ac yna difarfu yr holl frenhinoedd eraill yno a wnaethant ef ai wyr. A Brenhinoedd yr holl wledydd eraill cylech ogylech a glywsant ac er dial sarhad y Brenhinoedd a ddifarfwyd. ymarfogi yn erbyn Rhitta gawr ai wyr a wnaethant. a thaer a glew y bu'r ymladd, ond *Rhitta* ai wyr yn ennill y maes yn bensych. "Llyma'n maes helaeth a theg ninnau! ebe Rhitta, a difarfu'r holl Frenhinoedd yno a wnaeth Ritta ai wyr. *Llyma'r anifeiliaid a borasant fy maes i* ebe *Ritta* wrth y Brenhinoedd amhwyll yno. "ac mi ai gyrrais hwy allan oll. ni chant bori fy maes i." a gwedi hynny y cymmerwys Ritta yr holl

* O Lyfr Iaco ab Dewi, medd Iolo Morganwg.

farfau hynny. ac a wnaeth o honynt ysgin helaeth o benn hyd sawdl. a gwr oedd Ritta gymmaint ar ddeuwr mwyaf a welwyd erioed. a gwedi hynny y gwnaeth efe ai wlad yn gyntaf ar a wnaethpwyd erioed oi bath. Drefn a deddf wrth gyfiawnder a phwyll rhwng Brenin a Brenin, a Gwlad a Gwlad, yn holl Ynys Prydain, a'r Werddon, a Llychlyn, a'r Almaen, a Thir Gal, ar Ysbain ar Eidal. a phoed fyth y cadwer y drefn ar ddeddf honno er gwrthladd y cyfryw Frenhinoedd a soniwyd am danynt rhag myned o honynt i Ryfel mwyach lle na bo na rhaid na chyfiawn yr achos. Amen, a phoed felly y bo dros fyth.

Ac felly y terfyna chwedl Rhitta Gawr.

KYNFFIG.

MAB gwreng yn caru merch Iarll y Clar, hi nis mynnai (am nad oedd oludog, myned i ben y ffordd fawr a gwilied ysgogyn Arlwydd y Cyfoeth yn dychwel o gynnnull arian ei Arlwydd tua'r Castell ai ladd a chymmeryd ei arian, dangos y Fath, ar Riein yn ei briodi, cynnal Gwledd anrhydeddus a gwawdd goreuon y wlad iddi a gwneuthur yn llawen hyd yr eithaf, Yr ail nos honno ym myned yn ansawdd priodas a phan lawenaf clywed llaferydd, Gwrando'n glustfain a deall, Dial daw! Dial daw! Dial daw! deirgwaeth gofyn pa bryd? pen y nawfed ach ebe'r llaferydd, dim achos i ni ofni pawb o hano ni dan y ddaer ymhell cyn hynny— ond byw er hynny a geni goresgynnydd iddynt, goresgynnydd arall i'r gwr a laddwyd a hwnnw yn gweled pen y cyfnod yn ymweled a Chynffig. yn fab ieuanc ymarweddbwyll a bonhed-igfoes a bwrw golwg ar y ddinas ai gwychedder heb un yn medd-iannu na chwys na chell ond Epil y lleiddiad ag ynteu yn fyw ei hunan a'i wraig, ar ganiad y Ceiliog, clywed lleferydd dial daeth, Dial daeth. dial daeth ar bwy y daeth? ar a laddwys fy nhad o'r nafed ach! cwnnu mewn dychryn, myned tua'r Ddinas dim iddei ond llynn mawr, ag ynddo uwchlaw'r wyneb dri phen sawell yn mygu ar mwg yn edafwr drewllyd, ar wyneb y dwr menig y gwr a laddwyd ar eu nawf at draed y gwr ieuangc, eu cwnnu a gweled enw ag arfau a laddwyd a llafar gan gwawr yn moliannu Duw a myrddiynau cerddi nefolion. ag felly Terfyna.

AMRYWIAETHAU.

GWYDDOR DEWINIAETH GILDAS BROFFWYD

A FYNNO wybod wrth Ddywiniaeth cymmered gyngor ag addysg, a gwnaed yn ei ôl.

1. Cared Dduw ai holl galon. ai holl serch. ai holl egni, ai holl ddeall. a holl gynheddfau ei enaid, ai holl ymgais, parth y rhain ôll.

2. Cared ei gymmodog ai holl ynnïau cyn belled ag nas torro hynny ar ei gariad tuag at Dduw

3. Ymryddhâed oddiwrth oll ag a allo ef ei feddwl, a hyd eitha deall a fo er lles a diddanwech neu unryw raneboddiaeth bynnag iddo ei hunan nac i a garo; ag yn unwedd ymryddhâu oddiwrth y peth a ofnai ag nas carai erddo ef ei hun ag erddynt a garai; yn y modd ag nas gellid ar feddwl unpeth o'r byd a fai a chwennyehai nag a ymwrthodai iddo ef ei hun nac i a garai, na dim ar ddeall a ddymunai ar a angharai o ddyn nag o beth.

4. Bydded wr Deddfol a Dedwydd o reddf a Chynneddf. a dwyfawl o gydwybod, a dedwydd ynnïawl.

5. Bwried ystyr a phwyll ar a welo yn y byd gan ymolrhain au bonedd au magwriaeth, au cerddediad, au peirioldeb, au diweddidiad, ac edryched a ddaeth, y sydd, ag a ddaw o honynt.

6 Yna efe a ddeall y peth a fo da, a'r peth a fo drwg, y peth a weddai fod, a'r peth nas gweddai, a phob iawn a chyfiawn, a phob cam ag anghyfiawn a phob cam a phob cymmwys ar air meddwl a gweithred. a phob lles a phob afles, a phob hardd a phob anhardd, a phob berth a phob anferth, a phob gwir, a phob celwydd, a phob cariad a phob cas, a phob llwydd, a phob aflwydd, a phob gwan a phob cadarn, a phob dechreu a phob diwedd, a phob ymmod a phob gorphwys, a phob bod a phob anfod, a phob adfod a phob darfod, a phob galledig a phob analledig, ac o ddeall a gweled ag ystyriaw hynn oll o bethau. efe a wél a ddylai fod ag a ddylai ddyfod, ag ag a ddylai adfod, ag a ddylai ddarfod, ag a ddylai gydfod, ag a ddylai orfod. ag o weled a ddylai efe a wybydd a ddylai fod,

ag o wybod a ddylai fod, ar amser y dylai fod, ar modd y dylai fod, ar achos y dylai fod, efe a wybydd a wna Duw, canys ni wna Duw ond a ddylai fod a'r modd y dylai fod a'r pryd y dylai fod, nag yn amgen o fodd nag y dylai fod, nag ym modd ond a ddylai fod, ag yn yr amser y dylai fod, ag yn nosparth y dylai fod; ag o wybod a gweled a deall a wna Duw, modd a phryd y dylai fod, efe a broffwyda a ddylai fod, ag a fydd, ag ni feth ar ei fod ai hanfod, yn ei le ai amser dyladwy.

Ag mal hynn y cawsant y proffwydi santaidd wybodaeth am a wnelai Dduw, ag ai prophwydasant. ag yn yr un modd y cawsant y Beirdd o Broffwydi ymhlith y Cymry yr wybodaeth honn, ag a broffwydasant ddamwain, a thynged, a helynt. eu Cenedl hyd ddydd brawd. a Duw a rotho'r wybodaeth honn i bob Bardd o Gymro, oi ddirfawr r ad ai ddawn, ag i bob Cymro arall, mal y gwnelo parthei hun ai genedl herwydd ewylllys Duw ymhob daioni Amen fyth.

A honn a elwir Gwers Gildas broffwyd ag efe ai dywawd gerbron Beirdd Ynys Prydain lle ydd aethant yngorsedd i broffwydaw a ddelai ar y Brenin Arthur ag ar genedl y Cymru.

TYBIAWN.

GWEDI goresgyn o'r Gwyddelod wlad Fon ag arfon a'r Cantref ag eraill wladoedd yng Ngwynedd Yspaid trichant a naw a'r hugain mlwydd daeth ar y Cymry ymgais a chyfnerth y gan Frenhinoedd Gorwlad, a'r gyrru allan y Gwyddelod. a'r Brenhinoedd hynny a ddaethant ynghyd lle y gnotteynt o brifarfer, nid amgen no Chaerllion ar wysg ym Morganwg ag yno myned ynghyngor, a gwedi hir ymddadlu, nis gellid arfeddyd am nas Gellid Braint gwlad ar a wnelai ryfel adoresgyn ar y Gwyddyl. Yna Tybiawn mab hynaf Cynneddaf wledig Brenin y Gogledd a ddywed fal hynny. Lle nis gellir Braint Gwlad Bid iawn braint arfau, ag ymarfollynt wyr ieuaine dyledog o brif deuluoedd Cenedl y Cymry, a dygent gyrech a gosawd ar wladoedd y Gwyddyl gan eu lladd a'u gyrru ar ffo drwy f r, a rhodder Teyrnedd i'r Tywysog awnelo hynny ar y wlad y gorfeddo. a Brenin Caerllion a wrandawes yn llawen ar y mab ieuanc yna dywed Tyb iawn dy dyb di, Bid Tybiawn dy enw bid ym mraint Teyrnedd Ynys Prydain a wneler yn llwrw a fernaist, a myned yn eu cyngor a wnaethant, a phwy ond meibion Cynneddaf wledig yn ymgymmeryd a'r gor

chestion, a gyrru'r Gwyddelod a wnaethant, ag ar y gwledydd a ddaregynasant rhodded iddynt i bob un ei Deyrnedd. ag fal hynny y cawsant wehelyth gyneddaf weledig braint Teyrnedd ar wledydd Cymry a diffawd yr hen wehelythoedd a fu cyn no hynny am nas gallyant Gadw eu cyfoetheu rhag gormes Estron. ag nid aroses yn e'u Braint namyn Gwehelyth Brenin dyfedd ag un Gaerllion sef honno gwehelyth Bran fendigaidd ap Llyr Llediaith. ag Urien ag yno Urien Rheged yn Ben hynaif a ddodes Gadernyd ar a wnaethpwyd yn nghyngor Tybiawn.

ARFER TYWYSOGION CYMRU

ARFER Tywysogion Cymru, oedd pan ymgydwelaint a'u gilydd mewn Gwledd Rial, oedd galw y naill a'r llall Gerfydd enwau Gwledydd, sef, Dinefwr, Aberffraw, Mathrafal, Morganwg a Maelienydd, a Gereinwg. Un amser yn y Llys Wen ar Wy a Morgan ab Ithel o Forganwg yno heb na chad na gosgordd gydag ef. rhai ai bychenynt achos hynny ai farnu yn dlawd, a dechreu son am eu gosgorddau Arfogion, a chadarned pob un pei a gelyn y cyffyrddai ar ei ymrawd, a phob un yn wych ei ansawdd yn ei odeb ei hunan. a gwedi son ag un ag eraill. a gweled Morgan yn ddilafar, gofyn iddaw a wnaeth Anarawd Gwynedd pa beth a wedi di Morganwg. ebe Morganwg, gallaf dramwy fa ngwlad man y mynnwyf heb ofni gelyn gallaf hynny yn eich gwledydd chwithau un ag eraill, gallaf Gymru a Lloegr, a gadael fy nghywiriaid bob un yn ei fan ai ansawdd, heb na galw na gormes arnynt, ond os cam a gaf man y bwyf, braidd ei glywed gan fy nghyweidiaid. cyn au gweler yn arfog ag ar ymrawd parth y bont am camweddaint. a dial arnynt, pa raid gosgordd i frenin ffyddloniaid ai carant. Tydi dy wala ebe Hywel dda. cymmer y blaen gennyf ag er mwyn Duw a pho daioni danfon attaf i'r Ty Gwyn ar Daf ni waeth ba ddeuddeg o'r Doethion Morganwg. a hynny a fu a Blegywryd ei frawd yn benymbwyll iddynt. lle bu mawr eu clod am ddoethineb. ag o hynny hyd heddyw Gair cyfarch Beirdd Morganwg. Duw a phob daioni. a gair Deheubarth Calon wrth galon, a gwedi hynny doddi ar Bywys A laddo a leddir. a Gruffydd ap Cynan a ddodes ar wynydd Iesu. a Gereinwg, un câr ymhen cant cadarn.

Gwel Cyfrinach y Beirdd.

Cyn no hynny nid oedd Cadair ar Gymry namyn un Caerllion ar Wysg.

MADAWC MIN.

FAL hynn y mae mewn llawer Llyfr am Frad Madawc Min Esgob Bangor, (Gwel achau 15 llwyth Gwynedd.)

Madawc Min, ap Cywryd, ap Ednywain Bendew Brenin Teg-eingl, Efe a wnaeth frâd y Tywysawc Llywelyn ap Seisyllt, ag o hynny y llas Lywelyn; a chwedy hynny yr Un Madawc Min a wnaeth frad y Tywysawc Gruffudd ap Llywelyn ap Seisyllt, er gwerth tri chan pen gwartheg a gafas ef ar addaw am ei frâd gan Harallt Brenin y Saeson. a gwedi llwyddaw yn ei frad Harallt ni thalai iddo y Gwartheg Yna Madawc a aeth mewn llong ar oddeu Tre Ddilyn yn y Werddon, ond boddes y llong heb golli bywyd o neb namyn Madawc Min, ac fal hynny y digwyddawdd dial Duw arnaw am ei frâd, a phoed felly y bo i bob Bradwr gwlad a Brenin yn yr holl fyd. A gwr Gymmaint ei fystryw ai ddichell oedd y Madawc hwnnw fal y daethpwyd i alw Madawc a madyn ar Lwynawc, sef mwyaf ei ystryw o'r holl wyllt filod yw Llwynog, a Bradgaraf o'r holl Fradwyr. Madawc Min

GRUFFUDD AP MEREDYDD.

GRUFFUDD ap Meredydd Gethin ap yr Arglwydd Rhys a fu yn Arglwydd Caerllion ar wysg a Chyfoeth Meredydd Ac efe a wnaith gastell Machen yng Nghaerllion, ac efe a fy yn Arglwydd Llanymddyfri a Thal y Llechey, ac efe a wnaeth Gastell Llanymddyfri, ac yn y Castell hynny y bu ef farw ar nos wyl Veir yn Awst ac a gladdwyd yn Ystroed Fflyr, a mam Gruffudd ap Meredydd Gethin oedd Wenllian Vch Syr Iorwerth ap Owain Wan Arglwydd Caerllion ar wysg.

Meredydd ap Gruffudd ap Meredydd Gethin Arglwydd Cyfoeth Meredydd a Chaerllion ar wysg a wnaeth y Castell Newydd ar wysg. Mam y Meredydd hwnnw oedd o Lann Ayron

A Syr Morgan ap Meredydd oedd ei fab yntey o Vch Gadwgan ap Madoc Arglwydd Maesyved o Vch Phe ap Meyryc ap Gwas Teilo o Went Gwraic Syr Morgan ap Meredydd oedd Grisli verch Dafydd ap Meyryc o Went, ac or Grisli honno by Merch i'r Syr Morgan hwnnw a elwid Angharad ferch Morgan yr hon Vch y canwyd yr Englyn hwnn iddi.

Hawdd fyd iawn wryd wen eirian yng Nghaer,
 Angharad ferch Morgan
 Lliw rydd ayr, llaw rodd arian
 Llwy'r oreu merch lliw'r eiry man.

Ar Angharad honno oedd mam Morgan ap Llywelyn, ap Llywelyn ap Ifor, — — — *diffyg dalen yma yn
 Llyfr Coch Pant Lliwydd.

IEUAN GETHIN.

IEUAN Gethin ab Ieuan, ab Lleison ab Rhys ab Morgan Fychan, ap Morgan Arglwydd, ap Caradoc, ap Iestin, ap Gwrgan Tywysawg Morganwg a Gwent a Gwyr. ———

Ieuan ap Ieuan Lleison a fu gydag Owain Glyndyfrdwy yn torri Cestyll y Twyllbendefigion ym Morganwg, a phan aeth y dydd yn erbyn Owain a gorfod arno fyned dan gel a Chudd. gorfu hefyd ar Ieuan ap Lleison fyned yn wr cel a chudd hyd Fôn at hen gyfaill câd iddaw, ar holl amser y bu ef yno ydd oedd y Brenin Harri'r Bummed yn lladd ag yn gormesu pob un a fernid yn gymhlaid ag Owain, ond ymhen tro cyttunwyd rhwng y Cymry ar Brenin ymiawnhâu er arian au Gwerth yn wartheg a defaid a daoedd eraill. Yna ydd ymiawnhawyd dros Ieuan ap Lleision sef Cant o bennau Gwartheg a deucant o ddyfaid, wedi hynny efe a ddaeth adref, ag ymhen amser wedi hynny fe fynnodd y Brenin ladd llawer o'r Cymry am nas gallent dalu'r iawn nag yn arian nag yn werth. achaws eu tylodi, a hynn yn dyfod i glyw Ieuan ap Lleison efe a ddywad y ddjarhebgael hon, sef.

Tri pheth nid ebrwydd au gwelir, yn sych; Mawn Môn, Gwaelod Llyn Tegid, a dwylaw Gwaedlyd Hên Harri Cân, sef Harri Cân y Galwai'r Cymry Harri Frenin y pummed. a myned a wnaeth y goel honn ar gof a llafar Gwlad ag y mae hyd heddyw. —(Llyfr Mr. Bassett, o Lann y Lai.)

RHYS BRYDYDD

[O Ysgriflyfr y Parchedig Roger Williams: sef casgliad a

* Synniad Iolo Morganwg yw'r uchod, ar wall yr ysgrif.—AB IOLO.

wnaeth o bethau amrafaelion, ond yn fwyaf neillduol, Achau,—
rhwng 1600 ac 1622.—AB IOLO.]

Rys Brydyth o lanharan or ty ym maelen kynllan a little
Ryver of that name wher Ievan gitto ap Ievā yscolaige dyd dwell.
o Rys brydyth y bu Rychard ap Rys, y Rychard y bu llēn ap
Rychard, yr hwn y elwid yn lewis morganwg yng wynedd.

Ve vy vab arall y Rys brydyth a elwid Ievā ap Rys, y Ievan
ap Rys y bu tho: ap Ievā ap Rys, yr hwn elwid tom ap Ievā ap
Rys gwndidwr, ag oeddyn trigo yn llandydwg

Rys brydyth had a sonne named Rychard, y^e sayd Rychard had
a sonne named llēn ap Rychard, the w^{ch} llēn ap Rychard was was
named lewis morganwg in north wales.

The sayd Rys brydyth had another sonne named Ievan, the
sayd Ievan had a sonne named Thomas the Thomas was comonlye
called Tom ap Ievan ap Rys gwnditor and he dyd dwell in Ty-
thigtow otherwyse called in welshe llandydwg

Llēn ap Rychard ap Rys Brydyth o lanharan.

Thomas ap Ievan ap Rys Brydyth o landydwg

llēn ap Rychard, and Thomas ap Ievan were Coossine germans.

GRUFFUDD AP IEUAN AB RHYS BRYDYDD.

[Llyfr Thos. Hopen o Langrallo; lle, gwedi enwi fal uchod, yr
ychwanegir fal hynn.—AB IOLO.]

I Ieuan ab Rhys Brydydd y bu fab arall a elwid Gruffudd, a
chan lawer efe a elwid Gutto ab Ieuan, Prydydd ynteu hefyd, a
mab iddo yn byw yn awr ym Mlaen Cynllan a elwir Ieuan Gutto
Ieuan ysgolhaig, a Ieuan Ysgolhaig, a chan eraill Ieuan Gruffudd
y gelwir ef. Gwr ysgolheigaidd a doeth o Ieithydd a Phrydydd.

RHYS BRYDYDD.

Rhys Brydydd o Lanharan oedd yn byw yn y ty ym Mlaen
Cynllan.

Dau fab oedd i Rys Brydydd, un Rhisiart ap Rhys Brydydd, a
hwnnw yn Brydydd, ag efe oedd Athraw Iorwerth Fynglwyd, ag
yn byw yn y Merthyr Mawr. ai fab ef oedd Rhys ab Rhisiart
Brydydd, o'r Wig.

Ail fab i Rys Brydydd oedd Ieuan ap Rhys Brydydd, ag ym Margam ydd oedd ef yn byw. efe a fu yno yn fynach, ond achaws ei gyfrif yn anffyddlon efe a droed i maes o'r Fonachlog, Ag a fu yno wedi hynny yn Dal tir ag yn briod ag iddaw blant a gorfu arno efe ai blant fyned oddyno achaws Syr Matthew Caradog o Abertawy, efe aeth i Ferthyr Cynon ym Mrycheiniog lle bu yn hir ag a ddaeth wedi hynny i Langynwyd i fyw ag a fu'n cadw Ysgol yno. ydd ef yn Brydydd a Chwndidwr da.

I Ieuan ab Rhys y bu fab a elwid Thomas ab Ifan ab Rhys, ag yn gyffredin Twm Ifan Pys, fe fu yng Ngharchar yng Nghastell Cynffig gan Syr Matthew Caradawc wedi hynny fe roddes Syr Matthew iddaw ei ryddydd, ag a ddodes dir dan ei law ef yn rhywle yn y gymmydogaeth hynny. bu wedi hynny yn byw ym Margam. A gwedi hynny yn Llangynwyd. ag yn ei henaint fe ddaeth i fyw i Llandidwg, ag a dreulws ei ddyddiau diwedd ym Margam. ydd oedd ef yn Brydydd da o Deuluwr a Chwndidwr, ag achos ei fod o'r ffydd newydd, efe a gafas lawer am ei benn. a chasineb gan fwy na mwy. efe a fu fyw i oedran Mawr, canys efe ddywed ar Driban fal hynn.

Un mil chwech cant yn gywrain,
A phedair blwydd yn gyfain,
Dechreu Ionor, cyfrif teg,
Wyf gant a deg ar hugain.
(o Lyfr Mr. Lewys o Ben Llin.)

Fal hynn y mae'r hanes am Twm Ieuan ab Rhys yn Llyfr Sion Bradford.

Ieuan ab Rhys oedd fynach ym Margam, eithr efe a drowyd i maes o'r Fonâchlog achos ei fod yn Loleraidd ei farn. wedi hynny efe a briodwys Fynaches a drowyd i maes o ryw Fonachlog, ag a fuant fyw yng Nghynffig, eithr Syr Matthew Caradog o Abertawy ai canlynwys ef a chyfraith am ryw beth, mae'n debyg, yn ei farn am grefydd, oni orfu arno ymadael a Chynffig, efe a gafodd le ym Merthyr Cynon yn Sir Frycheiniog lle bu yn dala rhyw faint o dir. ymhen rhyw amser fe ddaeth yn ol i Forganwg, lle bu'n cadw Ysgol. Prydydd da oedd ef.

Ydd oedd mab i Ieuan ap Rhys a elwid Thomas, yr hwn oedd Twm ab Ifan ab Rhys y Prydydd a'r Prophwyd, fe fu hynn mewn rhyw alwad yn y Fonachlog ym Margam, ag efe ai trowyd ef i maes oddyno ag a fu yngharchar amryw o weithiau yng Nghastell

Cynffig gan Syr Matthew Caradog, yr hwn o'r or diwedd ai rhows ef yn rydd ag a fu haelionus tuag atto, efe a fu'r dala tir, ym Margam a Llangynwyd a llefydd eraill, nes iddo gwympo i ryw feddylon anghyffredin, ar hynny fe ddodwyd ef yngharchar gan Syr George Herbert o Abertawy ynghastell Cynffig, ag ar ol cael ei ryddydd ni wnaeth ef nemor iawn o beth ond rhodio'r Wlad fal Cardottyn, a dyrnu rhyw ychydig weithiau, a gwneuthur Cwn-didau Duwiol a phrophwydo llawer o bethau, ag am hynny y gelwyd ef *Twm Gelwydd teg*.

Yr oedd wedi dechreu prophwydo cyn cael ei garcharu gan Syr George Herbert, a hynn, meddi'r, oedd yr achos Wedi geni mab o Difedd i Syr George fe gynhaliwyd wledd a Rhialtwch gorfoledd mawr ar fedydd y plentyn, gan bedoli'r ceffylau ag Arian, a llawer o bethau eraill costus iawn o'r cyffelyb. Twm ab Ifan ab Rhys yn gweled hynn a ddywed, *Ha! dyna Rwyg a balchder mawr wrth fedyddio plentyn a aned i ymgrogi wrth llinyn ei dalaith!* cymmerwyd ef dan graff, a dodwyd ef yngharchar ynghastell Cynffig, a dodwyd y plentyn dan ofal Mammaeth, a gorchymmyn iddi wiled yn fanol ag yn ofalus arno nos a dydd, hynn a fu dros ryw amser, ond fe aeth ar sôn yn y teulu fod y crafu ar y famaeth, danfonodd Syr George ai Arlwyddes am dani i'r neuadd attynt fal y caent weled pun ai bod hynny'n wir ai nad oedd, a chwedi gweled nad oedd dim o'r crafu arni aethant gyda hi ynol i'r ystafell lle'dd oedd y plentyn, a'r peth cyntaf a welent yno, oedd y plentyn yn ei gawell wedi gwan ei ddwyllaw dan linin ei dalaith a chwedi ei ymddrysu nhwy ynddo yn y cyfryw fodd, nes iddo dagu a marw o'r achos, neu fel y gellid gwedyd mewn gwirionedd, wedi ymgrogi yn llinyn ei dalaith, yna danfonwyd yn heinif iawn i ryddhâu Twm ab Ifan ab Rhys, ag i roi arian iddo.

Un pryd arall ydd oedd ef mewn 'scubor yn dyrnu, ag feddaeth llanc ifanc heibio ag a gyfarchwys iddo fal hynn. *Wel! Twm Gelwydd teg, py newydd sy gennyf ti heddy? y mae gennyf newydd i ti, ebe ef, Ti a fyddi farw o dri Angau cyn y nos heno. ha! ha! ebe'r llanc, ni all neb farw ond o un angau!* ag a aeth ymaith dan chwerthin. yngherdded y dydd fe aeth i llanc i benn pren mawr ar fin afon i dynnu nyth Barcut, ag wrth wân ei law i'r nyth efe ai rwygwyd gan neidr a ddygwyd yno gan y Barcut iddei hadar mal fal y main nawd iddi wneuthur, gwnaeth hynn iddo ellwng ei afael nes iddo gwympo i lawr ar golfen fawr a thorri ei wddwg, ag oddi-yno i'r Afon. ag yna y cafas ef dri Angau, ei rwygaw gan neidr, Torri Gwddwg, a boddi.

Ydd oedd Twm ab Ifan ab Rhys yn wr duwiol a da iawn meddi'r, ag yn Brydydd da, y mae llawer o gwndidau fyth o'i waith ef ar glawr gwlad. y mae son iddo ddodi rhai o henynt mewn print, ond nid oes nemor, os neb, yn fyw yn awr ag ai gwelasant erioed. dywedir iddo weled mewn llyfr bychan ysgrifen y geiriau hynn.

“Ymgais o dy dduw a'th holl allu, a'th holl fwriad, ag ath holl Ddeall, a char êf a'th holl serch ac a'th holl ewyllys ag a'th holl galon.

Câr dy gymydog fal y cerit dy hunan. a dioddef drosto a ddiodefit dros dy Dduw a thros dy gar anwylgu, a thros dy hunan.

Câr pob daionus a phob hardd, a phob gwir, a phob iawn, fal y cerit dy Dduw a'th hunan.

Glyn wrthynt oni bot gymmaint yn un ag wynt ag y mae Duw, ag o wneuthur felly ti a fyddi mor wahanedic oddiwrth pob drwg a drygionus, ac oddiwrth pob anhardd ac anwedus, a phob anwired, a phob anghyfiawn, a phob twyll a phob hud, ag y mae Duw ei hun.

Nag ofna na chosp na phoen nag un eisiau neu ddiffyg, nag un dioddef pei angau, ag na'th rwystre'r ganthynt

Na chwanta ddim o ddäoedd byd a welot nag a glywot am danynt nag a ddeallot, namyn daoedd o Dduw ai rad oi Yspryd Glân. a gadael i dy Dduw drosot ac erddot.

Ag o gaffaeliad ar hynn a gampau a chyneddffau y ceffi ddeall cyfiawn ar bob peth o'r byd, ag o ddeall cyfiawn gwybodaeth gyfiawn, ag o wybodaeth gyfiawn gwybod oll a fu, y sydd, ac a fydd. ac o hynny awen o Dduw a medr ar Brophwydoliaeth, yna y gwybyddi ac y dangosi oll a ddaw ar y byd hyd ddydd brawd, canys golwg Duw a fydd ynot.”

Wedi darllain hynn efe a ymrois yn wr Duwiol iawn ac a ddywed lawer o brophwydoliaethau, ag ni fynnai yn yn y byd o dda namyn a roddid o fodd iddo am waith a wnelai. a hynny dyrnu yd gan mwyaf.

COELBRËN Y BEIRDD.

YR HEN AWGRYMAU.

CYN amser Beli mawr ab Manogan nid oedd amgen na deg llythyren ar deg awgrymau gelwid nid amgen nac *a, p, c, e, t, i, l, r, o, s*—gwedi hynny cafad *m, ac n*, a gwedi hynny pedwair eraill

au rhoi yn unarbymtheg ar ddatrin a gosteg gwlad a chenedl. Gwedi dyfod y ffydd yng Nghrist dau lythyren eraill nid amgen *U* a *D*. ac yn amser y brenin Arthur doded ugain llythyren gyssefin fal yn awr. o gyngor Taliesin Ben Beirdd Bardd Teulu Urien Rheged. ac ar ddosparth y deunaw y trefnwyd *O*, *I*, *U*, sef Enw aflafar Duw. cyn hynny o drefn *O*, *I*, *O*, ydoedd. herwydd yr un ar bymtheg ag o brif awgrymau nid oes hyd yn awr amgen nac ugain Llythyren neu ugain awgrym. a Cheraint Fardd glas a ddosparthes ugain Llythyren a phedair. fal y mae yr awr honn a'r pedair yn adlawiaid—wedi hynny o gymhwyllog ymbwyll Beirdd ac Athrawon o Feirdd Cadeiriogion dygwyd ar fraint ac arfer, gan wellhaŭ y goelbren. ddeunaw llythyren ar ar hugain. arwŷdd, eisioes nid oes ar ddu a gwyn amgen na'r pedair awgrym ar hugain.

YSTORRYNAU.

YSTORRYNAU y gelwid y llythrennau ym mhrif amseroedd Cenedl y Cymry; a gwedi amser Beli ap Manogan y gelwid yn llythrennau a chyn o hynny nid oedd amgen o lythyr na'r deg ystorryn cyssefin. a chyfrinach y buant er yn oes oesoedd, gan Feirdd Ynys Prydain yn cadw Cof Gwlad a chenedl, A Beli mawr au gwnaeth yn unarbymtheg. a'r drefn honno arnynt efe a'i datrines, ac a wnaeth nas dylit fyth wedi hynny cyfrinach ar wybodau Llythyr, herwydd y drefn a wnaeth ef arnynt, a gadael y deg ystorryn dan gyfrin.

Gwedi dyfod y ffydd yng Nghrist gwnaeth deunaw. a gwedi hynny ugain. ag ar hynny y cadw arnynt, hyd yn amser Ceraint Fardd Glas. ag efe a ddodes bedwar ar ugain arnynt.

Ac ar hynny buant yn hir oesoedd. hyd yn amser y Brenin Harri bummed, ag efe a waharddes ysgolion ir Cymry, a llyfrau a defnydd llyfrau. ag achos hynny gorfu ar y Cymry gydymgyngymeryd a choelbren y beirdd a thorri a duo llythrennau ar wydd a gwiaill, a chymmeryd Beirdd iw dy bob perchen ty a theulu a fynnai wybodau llythyr a darllain, ac o hynny trefnwyd cym-morth Tir ac ar a buarth i'r Beirdd, ag aeth Beirdd yn niferog yng Nghymry, ag ynfwy gwybod llythyr nag y bu cyn y gwahardd. am hynny y canodd Llawdden fardd,

Ar gam gochel gwel a gwilia ergyd
 pob argoll ai redfa,
 adammeg y byd yma
 nid drwg a ddwg a fo'n dda.

sef lle nas caid ysgol namyn Saesoneg nag athraw namyn Sais y dysgai'r Cymry eu hiaith ai gwybodau yn fwy nag erioed, ag a wnaethant wellhâd ac Amlhâd. ar rhif llythyr ac ystorryn. oni ddaeth pen y rhif y sydd arnynt ynawr.

Y DEG LLYTHYR CYSSSEFINION.

YN amser Owain ap Maxen Wledig ydd enillwys genedl y Cymry eu braint a'u Coron, cymmerasant at eu mamiaith gyssefin yn lle'r Lladin ag oedd wedi lled enill Ynys Prydain, ag yn y Gymraeg y cadwasant gof a Chyfarwydd a dosparthau Gwlad a chenedl gan ddwyn ar atgof yr hên gymraeg a'u geiriau a'u hymadroddion Cynhwynolion, eithr achos angof ag anneall ar hen lythyriaeth y deg llythyr cyssefinion. hwy fuant ar wall, ac fal hyn y daeth anghydbwyll ar amrafaelion heneiriau, sef dod dau lythyren lle nad oedd gofyn amgen nag un, fal y mae Caan, a Braan, a glaan, yn ll Cän, a brän, a Glän a digerth yn lle dierth, a phlegid yn lle phlaid a llaweroedd eraill. hefyd dod T yn DD, ag I. yn lle E ag yn lle Y. ag U, yn lle E. ag nid achos dangos y cwbl, eithr hynn er cof am ai gwellhais nid amgen no Thalhiaiarn Fardd o Gaerllion ar wysg, dan nawdd y Ford gronn, ag ar ei ol ef Taliesin ben beirdd, a wnaeth drefn ar y gymraeg o iawn ddeall ar Bwyll a Theilyngdawd y deg llythyr gyssefin, a'r moddau a'r trafodau arnynt a'r treiglaethau teilyngion, ac o hyn y cafwyd yr hen gymraeg ar adver ag adgael.

PEITHYNEN.

Y PILLWYDD a fyddant yn ddau hanerog bob Carfan sef fal y gellir eu hagog au caead i gymmeryd a chyfrwymaw'r Peithwydd neu'r ebellion dwy garfan y sydd, un bob pen ymhob caeogen, ag ymhob Caeogen hefyd y bydd gan arfer yn fynychaf bedwar ar hugain or peithwydd, cyd y gellir arnynt y rhif a fynner, am hynny deunaw neu ugain a welir yn fynych. ag nid anfyndych

deg arhugain, Ag yn y peithynen gynnifer caeawg ag a fynner, eithr enhydwyth y bydd mwy na thri chaeogen Rhai a wnant peithynen o un caeogen hir fallau ddeugain neu hanner cant neu drigain neu fwy o beithwydd a lle bo felly nid hydwyth mwy nag un caeogen. Dylit y peithwydd bob un yn bedwar ochrawg, a rhathu'r ymylau sef y cornelau yn ysgawn sef hyd yn llawn ddyfnder y llythyrau fal nas gweler llythyrau un ochr yn ymddangos ar ymyl yr ochr arall, ag felly am bob ochr. lled ochrau'r peithwydd a fydd yn ogymmaint a hyd heiddyn neu wenithyn. ag o fod yn fwy bydd anhydwydd y beithynen. a throm, ag a ofyn llawer o ole yn ai cario.

Rhai a ddodent y peithwydd yn y lliw glas y lliwir gwlan ynddo, ag yn sefyll hyd nis bo glas lliw bob un o honynt, a gadael iddynt sychu, yna torri'r llythyrau . a hwy a fyddnt wynnion ag amlyceach ar y coed gleision na phetysaint heb liw, a'r llythyrau yn ogyfliw ar pren : eraill a ddodant liw du, neu wyrdd, neu goch, ni mawr waeth pa liw a fytho. cyd ydd amgeno'n daer ar liw pren y llythyrau. Goreu o bob coed eu parhâd Deri, hawsaf eu gweithio cyll neu helig neu wern. Bedwen yn bren da. felly eirin ag yspyddaden, yr hen brydyddion gynt a hoffynt gerdinwydd, Coed efeill lle au gellir yn deg nid rhaid gwell am barhâd a gweithioldeb, Berwi pillwydd a pheithwydd mewn Llyssy sur au ceidw rhag bryfed, eu twymo'n frwd ag iro cwyr gwenyn ynddynt au Lledbobi onid elo'r cwyr iddynt gan wres. au ceidw rhag mall a phydri, bynnag o bren a fythawr

COELBREN Y BEIRDD.

Llyma fal y dywed Lywelyn Sion.

WEDI Rhyfel Bargod Owain Glyn Dwr, gwaharddodd y Brenin adael i bapur a phagod gael eu dwyn i gymru nag ychwaith eu darllaw yno, fal y rhwystra hynny gyfeillach Llythyr rhwng Cymro a Chymro a rhwng y Cymry a chenedl gorwlad ag Alldir, a hynn er dial yr ochri at Owain a welid ym mhob mann ymhob dyn yng Nghymry, a gwahardd y Beirdd hefyd ar Prydyddion i gerdded ei cylechoedd ag ymweled ar ofwy a'r Teuluoedd yn ei swyddau, yna cofiwyd a daddygwyd ar arfer henffordd Beirdd Ynys Prydain sef torri'r llythrenau a elwaint awgrymmau Iaith a llafar ar goed neu wydd triniedig i'r achos, a elwid Coelbren y Beirdd ag

fal hyn ai gwnelid cynnull coed cyll neu gerdin yn y gaeaf amcan hyd cyfelin a'u hollti bob un yn bedryran sef yn bedair asseth y prenn, a'u cadw nis baint gan gyffaith amser yn sych o gwbl. yna eu canwyo'n bedryfal parth lled a thrwch, a gwedi hynny canwyo'r cornelau hyd led deg yn y fodfedd. ag gwneuthur hynn fal nas Delo torriadau'r llythrenau sef yr awgrymmau a dorrer a Chyllell ar un o'r pedwar wyneb pedryfal ar ymsathr yn wel-edig ar wyneb nesaf. ag fal hynny am bob un or pedwar wyneb, yna torri'r awgrymmau herwydd y bont âi rhai Iaith a llafar tafod, ai rhai rhif, neu arwyddion celfyddyd eraill megis awgrymau erddigan Cerdd Arwest a Cherdd dant, a gwedi torri deg o'r cyfryw sethau ag a fo gofyn arnynt parottoi pedair Asseth, dau a dau o henynt. pill au gelwir au canwyo'n deg a'u gosod dau ar unwaith yng ochr ag och ag ar draws y cysswllt nodi deg lle twll; ar ol hynny, torri'r tyllau sef hanner pob un or deg twll ar un or essayth, ar un peth ar y llall, gwneuthur felly a'r ddwy asseth eraill, yrhain a elwir y pillwydd yna trin yr essayth awgrymedigion neu lythyredigion a mwnwgl ar bob un o ddeupen yr asseth yn grwnn ei amgylch lled bys ar hydweddd yr Asseth. yna gosod y coed llythyredigion gerfydd eu mynyglau ar un o'r pillwydd y benn a felly ar y pen arall., ag ar hynny benn ag arall y pillwydd twll am dwll ag ar bob pen i bob dwy billwydden mynyglau yn leoedd llinynon iddeu clymu yn gadarn ynghyd, ar bob pen i'r gwydd awgrymedigion. a gwedi'r clymu'r cwbl fal hynn ynghyd yn gyrfinedig gelwir y llyfr a wneler yn hyn o fodd Peithynen, am ei fod wedi ei ymbyithynu ynghyd y pillwydd ar bob pen yn dal y cwbl ynghyd, ar ebillion sef yr Essayth llythyredigion yn troi yn pillwydd yn rwyddesmwyth. ac felly yn hawdd ei darllain. sef y darllenir un wyneb o'r ebill yn y lle cyntaf herwydd rhifnod ei wyneb yna troi gyda'r haul a darllain yr ail wyneb a throi felly am bob wyneb arall, ag yn unwell o ebill i ebill hyd nas darfydder darllain, nod rhif o un i ddeg ar wyneb yr clo pob un o'r ebillion a wyneb y nod rhif yw'r cyntaf iddei ddarllain, a'r rhai yn nhrefn eu tro gyda'r haul.

Deugain ochr ebill ym mhob peithinen, ar ol hynny peithyn arall hyd ddiwedd y gerdd neu'r Araith a lle bo gofyn mwy na deg ebill A llai nag ugain, cynnifer ebill ag y bo gofyn, yn un peithynen gyfunbarth yn gyfyngorf.—Achos rhoi deg yn arbennig-rif yn gydgryfin yw am mai deg yw bann adran rhif, a than rhif degan y dospertir pob rhifoedd hyd nas gall Iaith rhoi enwau arnynt, Deg yw cylch cyfiawn a deg o fewn deg, neu ddeg am ddeg a fydd

tufewn a thufaes i'r cylchyndod cylch ynghylch hyd fyth bythoedd. am hynny gorau Dosparth ar rhif a rhifoedd yw deg a degau. ag nis gellir ar amgen o drefn gadw rhifoedd yn ddosparthus mewn lleoedd cedyrn modd y gellir eu darllain au deall, au datgan yngyfun gydgyfun. Gwedi dwyn ar atgof ag adfer am achos a ddangoswyd hen brif gelfyddyd y Cymry ar lythyr ag awgrym ymrhodedd dan farn a chanfod Cadeirau a Gorseddau Cerdd dafod Deheubarth, a Morganwg, ag Eisteddfodau, Gwynedd a Phowys, i chwilio i maes a golled ar wybodau awgrym Coelbren y Beird a'r gwellhau ar helaethu a fu ar rhyw a rhif yr Awgrymau ac yna Cadarnhau un awgrym a'r bymtheg yn rai Cyffredin o'r dechreuad, a chwanegiadau a fu at hynny o rif o bryd i gilydd hyd yn amser y Bardd Glas lle ai cadarnhaed yn un ar hug obrif awgrymau herwydd llafaryddiaeth y Gymraeg. gwedi hynny doddi pedwar ar hugain ar rif y Cyffrediniaid, ag ni ddoded mwy na hynny ar addysg a gwybodau Teuluaid, eithr y Beirdd a gawsant ar eu Coelbren Cyfrin ddeunaw a'r hugain o hen gadw a Chof Cyfrin, a'u dwyn ar arfer ag adwaith. ag nis deallwyd y dylit Cyfrinach damdwng ar amgen na deg o henynt a elwaint y deg cyssefiniaid au doddi dan luniau gyfrinach Ddamdwng, a gadael y cwbl o'r deunaw a'r ugain yn gyfrinach heb arnynt adduned a damdwng ag o hynny yr aeth yn gyffredin fal y maent yn awr.

Wedi adgael gwybodaeth ar y Coelbrenni sef un y Beirdd ag un y meneich mynai bawb agos gwryw a benyw eu dysgu au gwneuthur ag o hynny myned yn waith crefft gan wegryddion a Basgedyddion ag ernynt y torrid cof am bob peth a ofynai gof cadwedig llythyr a llyfr, ag fel hynny y bu hyd amser Harri y Seithfed ag ynteu yn Gymro, cymmerodd ei genedl dan nawdd ei gymmwynasgarwech, ag au dododd ar ei gost ei hun dan addysg myneich a phapir a Chroentrin a fynnit am ddim a chael yn yr un a fynnit o'r ddwy Iaith nid amgen y Gymraeg ar Saesoneg a llawer a ddysgaint y ddwy. ag o hynny cael gwybodau llythyr yn amlach ym mhlith y werin yng Nghymru nag ai caed yn Lloegr ag o hynny Prydyddion mwy na digon, ar Abadau yn ei doddi, le ag arall, yn ysgolyddion, ag o hynny y mae bod y Prydyddion yn ysgolyddion athrawon Teuluaid hyd y dydd heddiw yn myned yn ei cylechoedd dosparthedig o dy i dy, ag o deulu i deulu. y mae'n aml dan olwg a gweled yr hen goelbrenni. ond yn awr nid aml gwneuthur peithynen eithr am radd yng Nghadair, neu am dal yn arian neu yn werth arian gan ai gofynnai wrth achos yr un ai gofynai. y mae llawer yn fyw y dydd heddyw yn cofio'r ym-

arfer a Choelbren y beirdd. a llawer Coelbren a welir fyth yn nhai hen dylwythau Bonheddigion

Y sef fal hynn y mae'r Cyfarwyddyd herwydd hen gof a Llythyr, a Chof Llafar gorsedd, Cadwedig gan Gadeiriau er y dechreuad, nid amgen

Deg nod awgrym llafar parth Iaith ag ymadrodd a fu gan genedl y Cymry yn oes oesoedd cyn eu dyfod i Ynys Prydain, a chyfrinach dan adduned a damdwng oeddent gan y Gwyddoniaid sef oedd y gwyr hynn Prydyddion a gwyr wrth gerdd dafod a gwybodau Doethineb cyn bod Beirdd Dosparthus, ag yn amser Prydain ab Aedd Mawr amcan mil a hanner o flynyddau cyn geni Crist ynghnawd o'r wenforwyn fendigaidd Mair, ag yn amser aedd Mawr y trefnyd Beirdd Dosparthus a swydd a thrwydded gwarantred iddynt, a chwedi hynny gwellhau Coelbren y Gwyddoniaid fal y bydd achaws ei deall ai darllain hyd nad oedd unawgrym ar bymtheg yn y Goelbren ag yn amser Dyfnwal Moelud amcan chwechan mlynedd Cof a Chyfrif cyn dyfod Christ yng nghnawd, y datrinwyd yr unawgrym ar bymtheg ar drefn arnynt cadw Iaith ag ymadrodd a phob Cof Gwlad a Chenedl, am nas galleid gystal ar un arall o drefn er cynhal Cof a gwybodau doethineb, a breiniau a Defodau Cenedl y Cymry ai pherthynasai ar deg nod Awgrym cyssefin hyd y dydd heddyw dan gadw Cyfrinach adduned a damdwng ag nid neb o ddynd namyn y damdynghedigion au gwyr wedi myned yr unarbymtheg yn agored pen gwlad ir holl genedl gwellhau ag helaethu'r goelbren ym mhellach a wnaethpwyd hyd ddeunaw yn amser Beli mawr ab Manogan, a gwedi hynny ugain, ag yn amser y Bardd glas yn un ar hugain sef cof arall a ddywed ddywed dau ar hugain, a hynny y sydd o lythyr-enau Cyssefion yn y Gymraeg, sef adlawiaid y gelwir y maint a sydd dros hynny o rif hyd ddeunaw ar hugain.

DOSPARTH MESURAU CERDD DAFOD CERAINT FARD GLAS.

Y DDOSPARTH hynaf ar gof a chadw cyfarwyddyd yw un Ceraint Fardd Glas ar y mesurau Cerdd dafawd, ag ar a geffir o gerdd cyn ei Amser ef nid oes namyn a ddealler gan gelfydd a'u darlleno neu ag au clywo. Y Ceraint hwnnw brawd oedd i Forgan Hen

Brenin Morganwg, ag efe a gasgles yr hen wybodau Cerdd dafawd a Barddas ac au Dosparthes mewn Llyfr o'i waith ei hunan, ag au dodes wrth Farn Cadair a Gorsedd ymhob Gwlad a Chyfoeth yng Nghymru. a goreu am wybodau a Barn y cafwyd Ceraint a rhoi Pob Cadair yng Nghymru a Lloegr iddaw ef, ac o Hynny y gelywd ef y Bardd Glas o'r Gadair, wedi hynny myned yn Fardd Teliaw i Aelfryd Brenin Lloegr. lle bu yn dysgu Gwybodau i gymry Lloegr ag ir Saeson ag yng Nghaer wynt y mae'n gorwedd, wrth Ddosparth Ceraint ydd elaint bawb o'r Beirdd a'r gwŷr wrth Gerdd dafod, hyd yn Amser Rhys ap Tewdwr Brenin Dinefwr yr hwn a fuasai ar encil o'i wlad a'i gyfoeth hyd y bu meibion Iestin ap Gwrgan yn goresgyn Cyfoeth Dinefwr ac Ystrad Tywi, sef yn Llydaw y bu ac yno y dysges ef wybodau newyddion ar fesurau Cerdd dafod ag au dug i Gymri gwedi cael goresgyn ar ei gyfoeth ac au dodes ar addysg, ac a wnaeth Eisteddfod fawr yn Nghaerfyrddin herwydd dosparth y Ford gron, a chynnal hyd Farn Cadair ac yna rhoi'r addysg newydd yn Nawdd Cadeiriau a Gorseddau Beirdd ynys Prydain yng Nghymru a Lloegr ag Ystrad Clwyd, a gwedi hynny Gruffudd ap Cynan a'i dug i Ystrad Conwy yng Ngwynedd lle y gwnaeth ef Eisteddfod anrydeddus a gwedi hynny Eisteddfod arall yng Nglyn Achled yn y werddon ag i honno y Daith Beirdd a Gwŷr wrth Gerdd Dafawd o Gymru, a Lloegr ag ysgotlont a Llychlyn ar Y werddon lle gwnaeth dosparth Freiniol ar fesurau Cerdd Dafawd a'u perthynasau, a chwedi hynny a chaffael ymwardd o'i Garchar yng Nghaerllion Gawr efe a drefnes Eisteddfod bob Tair blynedd yn ei Lys yn Aberffraw môn ag o Gadair Aberffraw y cafas Beirdd a gwŷr wrth gerdd dafod gwynedd ei gwybodau au graddau a'u Breiniau. ag ef efe addodes newyddion ofoddion a defodau yn amgen a geffir ar yr hen ddosparthau Gwlad Gymru a Gwlad Lydaw, ag yn lle Bord Gron, neuadd y Tywysog yn Aberffraw a Neuaddau Pendefigion eraill, gwel ai deallo mai o ddosparth Ceraint Fardd Glas y tynned un Llydaw, a llawer o un Gruffudd ap Cynan a elwir Dosparth Glym Achled a Dosparth Aberffraw, dan wellhâd a mwyhâd ac amlhâd, a theccâd, ac am hynny y galwes Lewys Morganwg yn ei Lyfr Cerdd dafod, Dosparth Ceraint yr hen ddosparth gysefin, ac a ddywed mai ddosparth y Ford gronn yw un Llydaw a elwir un Caerfyrddin yn ol y bu gan y Brenhin Arthur yng Nghaenllion ar wysg, ag fal y mae yn awr ynghadair Tir Iarll. ag nid oes nemmor o beth a dal arni namyn gwybod a gweled a fu gynt ar Gerdd dafawd.

CADAIR TIR IARLL.

CADAIR Tir Iarll a ddechreuwyd gan Forgan Arlwydd o Aber-avan. yn lle un Arthur yng Nghaerllion ar wysg. Gwedi hynny y dodes Iarll y Clare diweddfaf namyn un fraint Ereidr iddi ym Mettws Llangynwyd, a Llangynwyd a braint hafotta chwech mis haf o ddydd Calan mai hyd galan gaeaf, ag yna symud y Gadair o'i hansawdd yn Llanfihangel Afan I Dir Iarll, lle ai caid bob yn ail yn Eglwys y Bettws ag un Llangynwyd, ag o hynny ei galw Cadair Tir Iarll. a llawer o Brydyddion a Chymreigyddion gor-chestolion a fuant ym mraint y gadair honn lle nis gellid hynny ar neb o brydydd neu gymreigydd nas cawsai y naill a'i eni neu ynteu ei facewyaeth ym mraint y Gadair honn, gan ymgad-eriaw ynddi.

Ar wyrdon y Bettws fynychaf y cynheilid Cadair Tir Iarll. brydiau eraill ar y crug diwlith ar donn Baedan morgailla.

TREFNAU A DEFODAU CADAIR TIR IARLL.

CADAIR Tir Iarll a drefnwyd yn nawdd Sir Gilbert Clar Ty-wysawg Morganwg, ac efe a ddadnewyddwys eu Braint i'r Beirdd a Phrydyddion Cymry fal ag y bu yn oesoedd cyssefinion er cof ag addysg ar wybodau daionus a chelfyddydau Ceudawd. a llyma'r Breiniau ar defodau trefnedigion

Cadair Tir Iarll a gedwir ym mraint Pendefigaeth Morganwg, ar bob un or Gwyliau Arbennigion yn warantedig o fraint heb hawl heb arynaig dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn parth ag at y trafod a gymmyger ger ei bron, ag nid rhydd gair yn ei herbyn, a nawdd Arglwydd y Bendefigaeth i bob Bardd a phrydydd a elo gan drefn a defod ger ei bronn hyd yny gaffer yn warantedig ar naw gwybodau a chelfyddydau Cerdd dafawd ai pherthynasau, gan orddyfnaid Beirdd a Phrydyddion Cymry. a chynnal yngolwg a chlyw Gwlad ag Arglwydd ag yn wyneb haul a llygad goleuni, ag yn nawdd Duw ai dangnef.

Bardd gwarantedig o wybodau a chelfyddyd Cerdd dafawd ai pherthynasau gan farn a gradd Cadair gyfaenad a ddylai gymmeryd Mebinogion attaw ar addysg Llen a llyfrau a gwybodau Cyfaenad Hen feirdd Cenedl y Cymry nid amgen na thri ar un-waith herwydd y tair gradd a ddylit ar febinogion Cerdd dafawd.

sef hynny un ar y pryd o bob un o'r Tair Gradd sef y Cymmygeder y graddau fal hynn.

1. Mebinog Yspsyddaid yw un nas gwypo celfyddyd cerdd dafawd sef gwr ar addysg y bydd yny wypo'r Iaith Gymraeg herwydd ei ansawdd ai bonedd a phwyll ei geiriau ai hymadroddion ai deall ai darllain ai llythyru ai sylliadu yn gyfiawn ag yn gyweir. hefyd efe a ddylai wybod Prif Fannau mesurau cerdd dafawd, nid amgen na'r cyhydeddau ar odlau ar cymmeriadau a'r Corfannau ar cynghaneddau herwydd gorddyfnaid Cadair a Gorsedd, au cymmygedu, au dosparthu yn gyfiawn llwrw enw a rhiw a rhin. au dangos yn warantedig ou waith eu hunan—gwedi au dangoso efe hwynt iddei Athraw a chyffael ei air trosto ger bron cadair y gellir gwr wrth Gerdd dafawd a hynny ar ei gydwybod. neu o ddifyg gerfod yr Athraw cynnwysiad yn ysgrifenedig y dan ei law ef y gellir a'r Ai hawl ar Air a Chydwybod gwr wrth Gerdd dafawd ai chelfyddau ai gwybodau ai pherthynasau, yn nawdd addysg ag Athraw.

2. Mebinog Gorddyfnaid a fydd a wypo a ddoded ar yspyddaid, a chynn archafael a ddysgo ac a fetto, pob ansawdd a chelfyddyd ar fann a phennill addwyn i'r gymraeg, au dangaws oi waith ei hun yn warantedig o air a chydwybod Athraw, ag y dylit gwr wrth gerdd dafawd ai pherthynasau o hano, Hefyd efe a ddylai wybod pob dosparth ar y gymraeg ag ar gelfyddyd Cerdd dafawd. ag ar freiniau a defodau Deddfolion Beirdd a phrydyddion au cadeiriau au Trefnau Gorddyfnaid, a gwybod Trefn a dosparth a Chelfyddyd ar Rol achau a Bonedd Cenedl y Cymry. au Breiniau au Defodau gwarantedig o gof a chadw, a cheudawd a Chadair. a braint iddaw air a chybwybod ei Athraw. a lle nas galler o benn gynnwys ysgrifen ydan ei law yn warantedig, a rhodd cenedlad y gelwir yr ysgrifen honno.

Mebinog Braint y gelwir a wypo'r holl ddosparthau, a gwybodau a Chelfyddydau. Cerdd dafawd ai pherthynasau, yn gywair a Chadarn. herwydd Trefnau a Barn Cadair, ag nid mwy wrth air a Chydwybod Athraw. sef y saif ym Mraint ei wybodau ai Awen ei hunan. a bwrw ei hawl ai fraint ar farn Cadair a gorsedd a lle nas bytho Rhaith gwlad dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn yn Ofunedawl. a braint iddo gynnadl amryson Cerdd dafawd, a gwedi ydd enillo dair Cadair Braint a Gwaraned pencerdd iddaw. sef hynny Bardd Cadeiriaw. Ag Athraw Cadeiriaw ai gelwir a rhydd iddaw ei febinogion nid amgen nog un ar unwaith llwrw pob un o'r Tair Gradd.

Cadair gyfaenad y gelwir Cadair a Gorsedd a gedwir yn warantedig o brif orddyfnaid, ym Marn Gwlad a Chenedl. Cyfaenad pob daiar egored o haul ar wybren, sef Tyno Cerddai gelwir; ar lessin wyneb daiar, a gosod Cadeiriau nid amgen no meini a lle nis gellir meini Tyweirch, ar gadair gyfaenad a fydd ynghanol yr Orsedd.

Cyfaenad hefyd pob Cyrch golychwyd sef pob Llan ar Eglwys. hefyd pob Llys Gwlad ag Arglwydd nid amgen no llysoedd Barn a Chyfraith, a Chyfaenad hefyd pob mann a lle, ai agored ar ambor a daiar arlessin y bo. ai neuadd Tŷedig y bo. a chadarn braint ar ryw neuadd a honno gwedi ai dodder gerbron gwlad a chenedl yngolwg a chlyw dan osteg a Rhybydd un dydd a blwyddyn hyd ymhen y Tair Blynedd yn waranted o glyw a golwg gwlad a Chenedl yn Llys ag yn Llann. ag ymhob Tyrfa gyfreithiawl a dosparthus mal y bydd Ffair a Marchnad

Ymhob Cadair Gyfaenad dylit datgan Dysgogan Beirdd Ynys Prydain sef hynny y cof ar cadw ar wybodau a Chelfyddydau, a Dosparthau, a Threfnau, a Breiniau, a Defodau Beirdd Ynys Prydain, dylit hefyd datgan Cofanon Darampryd Mabon ap Medron, sef enwau a chof am Feirdd a Phrydyddion a Sywedyddion a Doethion Ynys Prydain o Genedl a Bonedd y Cymry. ag am a fu campus a molianus arnynt a pharth ag attynt. ag am Frenhinoedd Ynys Prydain au gweithredoedd anrhydeddus ag amcan ar yr amseroedd y buant, au hachau au Bonedd.

Sef ar Feirdd a Phrydyddion ynghadair a gorsedd nis dylit na hawl nag arynaig, eithr eu gadael au cadarnhau yn nawdd Gwlad a Chenedl. ag yn nawdd Duw ai dangnef, a holl nerth a phwyll a darbodau awdurdodawl gwlad ac Arglwydd.

Gwedi datgan y dysgoganau ar Cofanon, galw am ddangos, ag yno Bardd a fo gantho a chwennycho ei ddangos ai dengys i'r gadair ai Cerdd dafawd, ai Rhol achau. a cof cadw ar foliannus o gamp a gweithred. ai Bwrw wellhad gwybodau a Chelfyddydau molianus y bo. gwedi'r dangosau, gwrاندaw hawl a Braint gan ai dycco ger bron. a gwedi hynny Daphar Cynnadlau ag amrysonau Cadair a Cherdd Dafawd ai pherthynasau, a gwedi au darffer, myned gan gyngor a Rhin a Barn ar a gaffed ger bron y Gadair a'r orsedd, yna datgan y Gadair sef hynny datgan Pwyll a Barn, a rhoddion cenedlad. yna'r golychwyd a gwedi hynny'r wledd ar anrhydedd a phawb iddei Cartrefi, pob un iddei fann.

DOSPARTHAU CERDD DAFOD.

YN Amser Morgan Hen Tywysog Morganwg, ai frawd Ceraint a elwid Ceraint Fardd Glas a'r Bardd Glas o'r Gadair yn Fardd o Bencerdd ag Athraw Cadeiriog, Gwnaethpwyd Trefn a Dosparth herwydd a fu gynt gan yr hen Gymry ar Gerdd Dafod ai pherthynasai ag ar Freiniau a Defodau Cadw ar wybodau daionus a chof am bethau moliannus. a dwyn ar atgof ag adwedd ag adwaith yr Hen oreuon ar Ddefodau a Breiniau Gwyr wrth Gerdd dafod a Gwybodau anhepcorion i wlad a Chenedl ddosparthus ag addwyn-bwyll, er amser Prydain ap Aedd Mawr, er dwyn ar atgof au had-gadarnhau dann farn a phwyll a Rhaith dygynnull Doethion a nawdd gwlad ag Arglwydd. A Nawdd Deddfa Defod nad elai neb yn Brydydd o Fardd ond ym marn y dosparthau a wnaed gan y Morgan hwnnw wrth bwyll a chyngor Ceraint ei frawd a barn a bodd a gorchymyn dygynnull Gwlad ag Arlwydd gan farn doethion a Dysgedigion ag yna trefnu gorseddau a Chadeiriau herwydd yr Hên Ddefodau, ag Eisteddfodau yn Llys y Tywysog unwaith yn y Tair blynedd, a nawdd nad elai neb yn wr wrth Gerdd Dafod ond yn nawdd a Braint yr orsedd Cadair, neu ynteu'r Eisteddfod unwaith yn y Tair blynedd yn llys y Tywysog; ag yn Nawdd dysgedyddiaeth Pencerdd a Athraw Cadeiriog gwaranredig o Gadair a swydd mal y bo arno a wedd iddo yn wybodau dyledus a gofnadwy ar wrth Gerdd Dafod, ag yn amgen na hynn nawdd nad elo neb yn wr wrth gerdd dafawd, ys ef honn hen drefn a dosparth Beirdd Ynys Prydain.

Ag yn yr Orsedd honno gwnaethpwyd Trefn a gwellhâd ar gynghanedd sef cyn no hynny nid oedd cynghanedd gydsain eithr o ddamwain, eithr cynghanedd unodl yn unig sef gair ynghanol yr hanner olaf or bann yn unodl a gair gyferbyn ag ef yn ynghanol yr hanner cyntaf fal y dodoi Daliesin Ben Beirdd ar ei gerdd dafod.

A gwedi hynny gwellhau ar wellhau'r gynghanedd o amser i amser ag o Gadair i Gadair onid aeth y gynghanedd gymraeg yn benn ar holl gynghanedda'r byd ba bynnag o Iaith

Agwedi trefnu fal hynn yn gadarn hyd nad hyd y dydd heddyw y mae trefnau a Dosparthau a ddodes ef yn addunedig ag addunadwy lle a modd nis gellir yn eu herbyn. Aeth Ceraint Fardd Glas ys ef y Bardd Glas o'r Gadair at y Brenin Alffryd yn Llundain yn Fardd *Teliar* iddaw, a llawer Cymro wrth Gerdd Dafod ag

wrth Gerdd dant a aethant gydag ef i Loegr Lle dodes Alfyrd y gwyr hynny wrth gerdd Dafawd yn gadeirogion y lle ddoedd Cymry yn Gwladychu yn Lloegr ag o hynny Gwellhad ar ddysg a gwybod ym mhlith y Saeson.

Gwedi hynny Bleddyn ap Cynffyn ai frawd Rhiwallon ap Cynfyn wedi cael goresgyn ar Wynedd a Phowys a wnaeth wledd anrhydeddus yn Nant gonwy dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn ag yno gwahawdd gwyr wrth gerdd Dafod a Thant lle gwnaethpwyd Drefn a a Dosparth a Braint iddynt yn amser y dug William y Bastardd Goron Loegr oddiar y Saeson, ag yn y wledd honno y doded y gwyr wrth Gerdd dant dangessail ag yn Nawdd Beirdd o bencerddiad a gwyr eraill o brydyddion a Gwyr wrth Gerdd Dafod ag yn y wledd honno gwnaethpwyd Trefn a Dosparth Wahanred ar Achau Bonedd a threfnu arwyddfeirdd lle nid oeddent cyn o hynny ym mraint swydd wrth Farn a threfn Gwlad a Chenedl yng Nghymru, a dodi trefn ar gelfyddyd Pais Arfau ai pherthynasau.

Gwedi hynny yr Arlwydd Rhys ab Tewdwr Tywysog Dinefwr a Dyfed a Cheredigion wedi bod amser wrth ei achos yn Llydaw a ddaeth ynol i Gymry ag a ddug gydag ef Drefn y Ford gronn i Gymru lle'roedd wedi myned ar goll ag angof a chyfarwyddyd arni parth Prydyddion a gwyr wrth Gerdd Dafawd fal y bu ynghaerllion ar wysg gan yr Amherawdr Arthur, amser unbennaeth Cenedl y Cymry ar Ynys Prydain ai rhagynsoedd. ag yna ei dodi yn Nawdd Eglwys Cattwg yng Nglyn Nedd ym Morganwg, ys sef ydoedd er amser Teilo Sant Braint amgadarnededig i Blwyf ag Eglwys nis gellid dwyn cyrch rhyfel ag arfau lladd i blwyf Cattwg, gan na gwlad na gorwlad ba bynnag a hynn dan rwym a llaw cyfachred ar holl wledydd Ynys Prydain.

Ag yna wedi dodi'r Ddosparth yn nawdd yr Eglwys Cynnal Eistedfod anrhydeddus dan osteg undydd a blwyddyn a gwawdd dan nawdd gwlad a gorwlad holl wyr wrth gerdd dafod yn neuadd yr Eglwys yno lle trefnwyd herwydd Dosparth Rial y Ford Gronn, a graddu Pencerddiaid a dodi rhoddion a Chyfarwysau iddynt fal y y bu yn amseroedd yr Amherawdr Arthur. a gwedi bod deugainnydd yno fal ymadael bawb ar adwedd iddei cartrefi. ag Iestin ab Gwrgan Tywysog Morganwg a ddug Rhól y Ford Gronn gydag iddei Gastell newydd yng Nghaer Dydd dan hawl mai efe oedd Tywysog y Cyfoeth ys ef Eglwys a phlwyf Cattwg yn ei gyfoeth ef, ag y dylai bod cadwedigaeth y Ról, ag am fod Caerllion ar wysg ai Llys a honno Llys Arthur Amherawdr yn ei gyfoeth haerai

mai cadwedigaeth Llys Arthur Ymherawdr oedd ei Lys ef, ag yna dwyn Rol y Ford Gronn dan lathlud o drais a gormes i Castell Caer Dydd a bu gwaith iddaw hynny cann ys ddwyn cyrch Rhyfel ar Iestin ab Gwrgan a wnai Rys a chael y goreu arnaw yng ngwaith y cadlas yna danfones Iestyn ab Gwrgan at Robert ab Ammwn a'r Ffrancod am gyfnerth yn erbyn Rhys ai ladd ef yng ngwaith y Cynllwyn du. eithr y dieithraid wedi cael clyw a deall ar a wnelsai Iestyn yn drais a difrawd, dwyn e'i gastell a'i gyfoeth oddiarno a gyrru Ffo arno.

A gwedi hynny Robert Iarll Caerloyw mab i'r Brenin Harri ap Gwilym goch a briodes a Mabli Merch Robert ab Amwn, a chael cyfoeth Morganwg ym mraint ei wraig, efe a roddes cyfarwysau i'r Beirdd yn Nhir Iarll ag mewn neuadd iddo yno fe ddodes Rol y Ford Gronn dan gadwedigaeth Beirdd Ynys Prydain ag o hynny myned yn un y ddwy drefn nid amgen un y meini gwynion ag un y Ford Gronn fal y mae yn awr yno. sef gann Feirdd Cadair Tir Iarll yn anad neb o brydyddion Cymry y mae'r ddwy ddssparth gorddawd yn gadwedig yn eu cyfiawnder, hyd yr awr honn. gwedi hynny yr Arglwydd Gruffudd ap Rhys ap Tewdwr a ddarparas wledd yn Ystrad Tywy ag yng Nghastell Aberteifi yng Ngheredigion lle trefnwyd yn ddosparthus ag yn anrhydeddus ar wyr wrth Gerdd Dafod a Thant gan roddion anrhydeddus iddynt aur ac yn arian, a gwisgoedd a meirch ag eraill o dlysau anrhydeddus. Oed Crist 1100. a Gruff ab Cynan yn y Werddon gyda'i gereint yno cynnal Eisteddfod gwyr wrth gerdd dannau a cherdd fegin, a dychwelyd gydag ef i Gymry a phencerddiaid, cerdd dant a gwell gwybodau Cerdd Dant nag a fu cyn o hynny ym Môn a Gwynedd ar Eisteddfod honno yn y Werddon a elwir Eisteddfod Glynn achlach a goreuon y gwledydd am gerdd dannau yr amseroedd hynny y Gwyddelod.

A gwedi darfod am y Tywysogion y Boneddigion a hanoeddynt o waed y Tywysog a gymmerasant attynt y gwŷr wrth gerdd dafod a thant yn ei nawdd ag yng ngynnal mal y gellid cynnal y Iaith Gymraig. a'i chadw rhag coll a gwaethygiad, a chynnal Cof a Chadw ar y Farddoniaeth Cymraeg a'r gelfyddyd wrth gerdd Dafod ai pherthynasau, a chof a chadw ar Freiniau a Defodau Cenedl y Cymry a rhai Beirdd Ynys Prydain, a Bonedd ac Anfonedd a chof a mawl pob molianus o ddyn ag o gamp ag o weithred, a chynnal cyfiawn a Doeth ar arfer a moes a syberwyd, ag er Ddeddf a Chynneddf a phob peth a wedd ar foneddig o ymddwyn mewn gwlad a theulu wrth fodd Duw a Dyn ag wrth farn doeth achyd-

wybodus o gyfiawn wybodau, wrth gerdd dafod ar bannau Doethineb a weddant ar wr wrth raid cyfiawnder a gwirionedd a Thangnefedd parth ag at Gwlad a chenedl, ag o hyn i mae nas collasom yn gwbl y gwybodau wrth Gerdd a Barddoniaeth a'r hen gelfyddyd wrth Gerth ai pherthynasau, a Breiniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain, ag nas syrthiodd y Cymraeg i lwgr a llediaith, fal y darfu i'r Iaith Saesoneg gann ddifyg gwybodau a gynnaliant Gof a Chadw erni. ys ef bywyd Iaith yw gwybodau Ar gof a than gadw ynddi. a bywyd Gwybodau yw Iaith y lle a moddion cadw ynddi parth gair ag ymadrodd cadarnbwyll a goleuliw rhag barn o ddeall cyfiawn.

BREICHRWY BARDD.

BREICHRWY Bardd a wisgir ar yr ysgwydd islaw'r cymmal sef y enych, ac yng Ngwynedd Caw ai gelwid yn yr hen amseroedd felly hefyd yn Neheubarth, a mynych ai gelwid felly ym Morgannwg, am hynny y gelwid Bardd wedi y caffai radd Pencerdd yn fardd Caw, a thri Bardd Caw y cyfrifid y Prifardd, yr Ofydd, a'r Derwyddfardd, neu o fodd arall, Prifardd neu fardd Glâs, Arwyddfardd neu Wyn fardd, a Bargadfordd a Chylfordd.—amrwy ac aerwy y gelwid Breichrwy yn nosparth y Ford Gron, a gwedi hynny o amser i amser, ag o ychydig arfer i ddim darymollyngwyd a'r Brif orwisg gyfunlliw ac y barnwyd yr orwy yn ogymhwyll, ac yn arwyddo yr un Ceinmyged a'r orwisg yn gwbl. ac ni wisgir orwisg yn awr yn gwbledig eithr lle ai Ceffir yn rodd Braint ag anrydd gan Frenin neu Arlwydd rhiol Cyfoeth, a Neithior Pendefig Llinolin o'r hen Brif dywysogion

AM Y CREIRIAU.

Tri chrair Cyffredin y sydd, Gwisg, Brysyll, ac Aerwy.

Tri chrair braint y sydd Cadair, Bwyall, a'r Bel aur. y Bel a ddengys gyflawnder a chwbledigaeth ar awdurdod yngorsedd. y Gadair a ddengys Barn wrth fraint. y Fwyall a ddengys wellhâd a mwyhâd ar wybodau a chelfydd yn warantedig o farn

Cadair a ddengys awdurdawd a barn. a lle bynnag cadair ef ai bernir ym mraint Beirdd Ynys Prydain. cyd na bo cof ei barnu

ai breiniaw, hyd na bo cof gommedd ag ymwrthod a hi. Beirdd Gwynedd a Phowys a gynhelynt dan gadair yn nawdd y Tywysawg.

Deheubarth cynnal dan Eisteddfod a dwyn Cadair a bwyall, a Chadair y Crair.

Bwyall, arwydd Celfyddyd yw a gwellhâd Celfyddyd. a Beirdd Morganwg ai dwg ym mraint Cadair. ac ar y fwyall y mae braint, sef cyfiawn i un ai dycco yn warantedig o farn cadair ddangos gwellhad ar wybodau a chelfyddyd gerbron Cadair a Gorsedd. a blaen iddaw ar hynny, a gwarant ei air ef.

Y Bel aur, Beirdd Gorseddawg Ynys Prydain ai dwg. arwydd cwbledigaeth ydyw. a hynny a wna benn ar bob arall o beth mewn dysg a chelfyddyd. a lle dyccer y bel braint yw dwyn yr holl dlysau eraill ar holl greiriau.

Brysyll a ddengys braint a lle ydd eisteddir ym marn ag yn rhain, nid iawn arwain amgen o grair na brysyll. can nis dylid awdurdod lle ydd eler wrth raith ag ym marn. i un amgen nag i arall, cans ar ortrech y Raith y saif Barn, ac nid oes a wypo nac a wyr ar bwy y mae namyn ar y mwyaf o rif y saif, ag ni wyddys o bwy yn enwedig y mae hynny o rif. ag nis gellir uwch un nag arall mewn rhaith ag ym marn gan raith, a gwedi gwybod barn rhaith, iawn yw dodîr farn honno yn adneu a fynner o ddyn er swyddogi arni a dewis y gwr hwnnw gan raith, ag nid ar y farn y saif hynny o raith namyn ar y gwr a wneler yn farnwr.

Pencerdd Cadeiriawg a ddwg aur yn ei grair, ac ariant i bob pencerdd arall. Ariandlysog a elwir Bardd o Bencerdd ag Athraw, aurdlyssog a fo Athraw Gorseddog.

CHWEDLEU.

Nr ddylai fardd son am bethau anhygred herwydd Barn Doethion ac Athrawon molianus yn ei gerdd, megys ystorïau Arthur ai Filwyr a'r Marchog o'r llwyn Glas, ar rhyw bethau a hynny nad ydynt wirionedd herwydd Barn doethion a galledigaeth rhyw ac ansawdd. can nas dylid hynny herwydd gorddodau Prif feirdd Ynys Prydain. achaws nis gellir lles ag nis dylit diddanwch o gelwydd, ag nis gellir Bardd ond o Awen o Dduw, ag nis gellir Celwydd o Awen o Dduw. ac o cheir y cyfryw chwedleu mewn can yn y byd a gant yr hen feirdd, dealler nad oes yn hynny amgen na dammegaeth ar ryw neu ei gilydd o wirionedd galledig, a rhydd

yw canu dammeg. ac annoethion a gamddeallant ddammeg ac ai gwnant yn gelwydd oi barnu yn wir o ryw pendant, lle nid yw eithr gwir o gyffelyb ystyr, Ystoriau dammegawl a ddychymygyd yn yr hen amseroedd er dysgu doethineb. eithr annoethion a gamdroasant yr ystyr onid aeth yn anneallus o beth. ag o hynny yn gelwydd amlwg. a llanw eu llyfrau a chelwyddau anferthion, ag nid rhydd i fardd ymyrryd a'r cyfryw gelwyddau, eithr o'chan ef ddammeg gofaled ei bod yn ei hystyr y cyfryw ag y gwelir mai dammeg ydyw, ag nid hanes o ryw ddigwydd. a gofaled ei bod o'r cyfryw ddychymyg ag y caffer addysg ar ddoethineb ynddi. a phwyll a gwybodau daionus

PAIS ARFAU.

GWEDI dyfod arfer ar Bais arfau y Beirdd Cadeirogion a wisg-ynt arfau Arglwydd y Cyfoeth y beynt ynddi, megis y gwisgaint Feirdd Morganwg Bais Arfau Morgan ab Ithel sef Cwpl arian mewn maes asur ac am y cwpl tair Tywysen Aur, ac ar y Cwpl Tair meillionen gwyrddion, sef hynny Arfau Morganwg cyn amser Iestyn ab Gwrgan, ac efe ai newidwys i'r peth ag y mae yr awr honn.—ac eraill o Feirdd Cymry a wisg-ynt arfau y Cyfoeth lle y baent anoddsoddedig. a defod o syberwyd honn ac nid Deddf o brif a chyssefin ddefod.

Y Beirdd a drwsiynt y gorseddau a'r llyisiau ar coedydd hynn, sef

1. Meillion yr Alban Eilir.
2. Derwen fendigaid yr Alban hefin.
3. Tywys Gwenith yr Alban Elfed.
4. Yr uchelfar yr Alban Arthan.

LLYMA ENWAU Y RHAI A WNAETHANT EGLWYSYDD A CHORAU YM MORGANWG.

1. Eygen (eurgain medd eraill) chwaer ffydd Ilid Sant yr hwn a elwir Sioseb Armathia, a wnaeth Eglwys a Chor Eygan yn Ghaer Urgan, a elwir gan rai Caer Worgorn ag yn awr Llanyllyd o Enw Yllyd farchog a Sant.

2. Ilid Sant, a wnaeth Lanilid.

3. Lles ab Coel a wnaeth Landaf, a'r Rhath fawr, a Llawer eraill ni wyddys yn awr eu henwau.

4. Dyfan Sant a wnaeth Gor Dyfan. ag yno y lladdwyd ef gan y rhai digred, ag o hynny gelwir y lle Merthyr Dyfan.

5. Ffagan a wnaeth Llanffagan fawr wrth Landâf, a Llanfagan fach a elwir yn awr Llanfaes wrth Lanylltyd farchog.

6. Medwy Sant a wnaeth Lanfedwy yr honn Eglwys a losgwyd yn Rhyfel Iestyn ag nis ail gyweiriwyd fyth wedi hyny.

7. Doche Sant, a elwir Dochwy Sant gan rai a wnaeth dwy Gor yn Morganwg o'i enw ei hun. a Rhai a wedant mai gyda Dyfan y daeth ef i Ynys Prydain, ag eraill yn dywedyd mai gyda Chadfan y daeth o Dir Llydaw.

8. Garmon a wnaeth Lan Garfan,

10. Gildas ab y Caw a wnaeth Llanildas a elwir ynawr y Wig Fawr.

11. Tathan Sant o Dir Euas a wnaeth Landathan, a Chor fechan i ddeugain Sant Lleenawg a fu yno iddo,

12. Cattwg Sant, a wnaeth Langattwg Nedd, a Llangattwg, wrth Farri.

13. Caw Arglwydd Cwm Cawlwyd, a wnaeth Langewydd. ag oddiyno y sumudwyd yr Eglwys i Drelales.

14. Cirig Sant a wnaeth borth Cirig, er lles eneidiau Morwyr, a phorth iddynt.

15. Barrwg Sant a wnaeth Farri a Phenmarc.

16. Edeyrn ab Gwrtheyrn a wnaeth Lanedeyrn, a Chor i drichant o Saint yno.

17. Gwrgan ab Ithel a wnaeth Lanfabon ar fro, a elwir Silstwn.

18. St. Eleri, a wnaeth St. Eleri,

19. Segin Sant o Gor ylldyd a wnaeth Lanfihangel

20. Arlwydd Ysbenser a wnaeth Eglwys Brywys.

21. Peirio ab Gildas a wnaeth Lanfair y mynydd.

22. Isan Sant o Gor Ylltyd a wnaeth Lanisan

23. Morgan ab adras a wnaeth Fargam a Chynffig.

24. Y marchog Greenfil a wnaeth Eglwys Gasnedd.

25. Y marchog Lydwn a wnaeth Gor y Weni.

26. Crallo Sant Brawdd ffydd Ylltyd, a Sant o'i Gôr a wnaeth Langrallo, eraill a wedant fal hyn

Crallo Sant oedd yn amser Lles ab Coel, ag efe a wnaeth Langrallo. a myned ar adfail a wnaeth hyd oni ail wnaethpwyd yr Eglwys gan Gruff. ab Iestyn.

27. Morgan amheurig a wnaeth y Coetty.
28. Einion ab Collwyn a wnaeth Lantrisant, wedi Llosgi Llangawrdaf.
29. Tudfyl Sant a wnaeth Merthyr Tudfyl
30. Elian—a wnaeth Lanelian. (Eglwys Ilan)
31. Gwrfan Escob o Landaf a wnaeth Lansanffraid fawr ag Eglwys y Drenewydd ynottais,
32. Teilo Sant a wnaeth yr Aes fawr, a Llandeilo Forallt yngwyr, a'r aes a elwid Llandeilo Faenor
33. Catwardd Sant o Gor Ylltyd a wnaeth St Dunwyd.
34. Mar Croes Samson ag Esgob Sant o Gor Ylltyd.
35. Gwrgi Sant o Gor Docho, a wnaeth Penarth.
36. Llanfernog. Mernog Sant o Gor Tochwyr
37. Sili, Cadell Sant.
38. Treiddyd sant o Gor Ylltyd a wnaeth Lantryddyd.
39. St Andras ni wn i pwy.
40. Llanellwan a elwir ynawr Trefflemin ni wn i pwy ai gwnaeth.
41. Pendeulwyn Emyr Llydaw ai gwnaeth.
42. Bleiddan Sant o Dir Gal a wnaeth Lanfleiddan a Brawd ffydd ydoedd i Armon Sant.
43. Nudd Sant o Gor Ylltyd a Brenin a wnaeth Llysfronudd
44. Owain ab Morgan hen a wnaeth Ystrad Ywain
45. Maenarch Iarll Henffordd a wnaeth Gelli Gaer.
46. Caerllion ar Wysg Cystenin fawr a Maxen Wledig.
47. Aberavon Morgan ab Iestyn
48. Maesaleg. Arthur, a gwedy hynny Ifor ab Llewelyn.
49. Llanfihangel Fedwy Cydwaladr.
50. Machen Ynyr Gwent.
51. Bedwas. Tewdric ab Teithfalch.
52. Llandw. Tewdric ab Teithfalch.
53. Llangana. Cana Santes ael Tewdwr Llydaw.
54. Cerrig Hywel. Hywel ab Owain ab Morgan Hên,
55. Gwenfo Brychan Sant.
56. Llanfair Misgyn, Meiryg ab Tewdrig.
57. Cynwyd Sant. a wnaeth Langynwyd.
58. Llandyfodwg ag. } Dyfodwg Sant o Gor Ylltyd.
59. Ystrad dyfodwg } }
60. Llanfeithin, Cadog ab Gwynlliw.
61. Llangadell. Cadell Sant o Gor Cadoc

65. Lleirwg Sant o Gor Caerllion ar wysg a wnaeth Lanleirwg.
—lleuer mawr medd eraill.
66. Llanaran. Aran Sant.
67. Llanarai Garai Sant o Gor Bangor,
68. y Pil William Iarll Caerloyw.
69. Llanfawdlan. Yr un William Iarll Caerloyw.

Y CWTTA CYFARWYDD.

Y LLYFR a elwir y Cwttā cyfarwydd o Forganwg a ysgrifenydd gan MEURYG, Trysorydd Llandaf. efe a elwis ei Llyfr y *Cwttā Cyfarwydd o Forganwg*, ac o hynny y cafes ef ei hun yr enw hwnnw. ond y mae yn y llyfr hwnnw ynawr lawer o chwanegaidau at y pethau a oeddynt o'r dechreu ynddo. efe ysgrifenoedd y MEURYG hwnnw hanes holl Ynys Prydain, a Llyfr Diarhebion. a Dosparth Cerdd dafawd, a Theologyddiaeth Gymraig, ac a wnaeth Efengyl Ieuan yn Gymraeg o'r Lladin ac Esponiaid arni. ac yr oedd y llyfrau hynn yn Abermarlas o gylch hanner, canmlynedd yn ol. Iaco ab Dewi.

EX CWTTA CYFARWYDD. (VOL. 17. PLAS GWYNN.)

GWYBYDDET Pobyl Vrythanyeit pan yw Seith Cantref y sydd ym Morganwc. Yn y Arglwyddiaeth, ac Escobaeth. Y cyntaf yw y Cantref Bychan, yr ail cantref yw Gwyr a Chedweli. Trydydd Cantref Gorwenydd, Pedwerydd yw Canref Penychen, Pymhet yw Gwynllwg ag Edelygion, y Chweched Cantref yw Gwent is Coet, y seithvet Cantref yw Gwent uwch Coet, Ystrat yw ac Euas y rhai a elwit dwy lawes Gwent uwch Coet, ac hefyd Erging ac anerging, mal y mae cwbyl Terfyneu yn Llyfr Teilaw.

DERNYN.

a marchogaeth yn y blaen a wnaethoedd oni ddaeth i faenol ardir lle aml yd a gwair a llandir caeadberth, a thai teg maenwynion

calchaid a physgodlynnoedd—a gwinllanoedd a gerddi a pherllanau gwyrddon yn llawn ffrwythau a llysiâu a blodau perion o arbennigion twf daear. ac aml gwartheg a defaid. a phob adar can hyd frondiroedd coedwigaid lle aml y gwelid brenhinddar a dyfai er yn oes oesoedd, a llais corn a chynnydd yr arwain arianllais bytheuaid yn ymlid Cadno cochbais dichellbell ar hyd gefndir prydwylt rhedynog a lliaws urddolion gwlad a bonedd gwesteion ar ei ol, a bloedd tref a Chartref yn ymgymysg a cherdd a chorn y ffordd y ffoai leidr oen a lledfegin adar. aml y clywid llafar ffust ac olwyn a bwyall, aml bref gwartheg a defaid, ac aml cerdd gan Fardd a serchog, ynghyd a thrydar Cwn a cheiliogod a phlant bychain, ac yn ystlysau'r ffyrdd maendai calchwyn wydrynig ffenestri, a phob cael-gyfannedd yn darogan llawn a llonydd, a bodd calon doeth a dedwydd. gwae fy nhyled ebe Meilir na chawn yma fod a bywyd yr hyd ac y bai fy rhan yn hynn o fyd, onid amgen ym mhell yw'r digwydd y rhoes Dduw ar fy rhann ac mi a ymfodlonaf ynddo deued a ddel—(*ystori Meilir a Merch yr hafod wen*)

BRAINT LLANIILLTUT VAWR.

BYDDER hysbys a chyfraith i bawb yn dywysogion ag Arlwyddi, a Bonheddigion a Brehyriaid a'u Dyledogion a gwreng ac Eillion Ein bod ni Rhobert Iarll Caerloyw yn Lloegr, a Thywysog Morgangwg yn hawl a Braint Cenedl y Cymry Ac Arlwydd Gwladvorgan yn hawl a Braint, Dawn a chywlad. y rhagenwedig Genedl, ag yn Nawdd Tattref ein hunanawt, yn Deddfu yn hawl a Braint y Llythyr dangos ac edring yma, rhoddi Braint a thrywydded Dyledogion ym Mhrehyrdref Llanilltut vawr yngwlad Forgan fal y dangoser rhagllaw, nid amgen na'u braint yn rydd au Tiroedd yn rhâd, fal y bu iddynt a chanddynt yn oes oesoedd herwydd cyfreithieu a Defodau Breiniau Cenedl y Cymry ai Arlwyddi Llys ai Bonheddigion o Frehyriaid ai gwreng ai Eillion dam y bont, a phawb yn Briodorion ac amrhiodorion y bont a rhydd a'u bodd iddynt herwydd braint y Cyfreitheu a ragysbyswyd ymgynal yn eu braint au gosgordd au Llysoedd au defodau ymhob achos a threfn a thrafod, herwydd pob Iawn a chyfraith, fal y bu gynt er yn oes oesoedd iddynt ag y mal y rhoddasom yn gyflys a'r llythyr arddangos hwnn ir Dyledogion an cywiriad ym Mhrehyrdref

Cynffig heb amgenym arnynt ag erddynt na chadw golwg ar a wnelont a gweled ei fod herwydd a Chyfraith a dyledogaeth, ae ymraint ai ymraint gwlad, ai ymraint llys ai ymraint Llann, ai ymraint ai ymraint arf ai ymraint Celfyddyd a Gwybodau, ai ymraint Llongwriaeth ai ym mraint Marchogaeth, ai ymraint Ffeiriau ai ymraint marchnadoedd ai ymraint prynu ai ymraint gwerthu, ai ymraint hawl ai ymraint gwrthawl, y bo a a gweled a Threfni a gorchymyn na bo amgen na Chyfraith amgaeedig a chadarn iddynt ac erddyn i naill a'r llail ag o'r naill ir llail an hawl an dyled an breiniau a'n Pendefigaeth, herwydd cof cyfraith i ninnau an hepil dros fyth an gwrogaeth i ninnau modd y bu ac y byssei pei nas rhoddid y Llythyr Braint a dangos hwn.

SIARTR SWYDD Y WAUN.

GWYBYDDED pawb a welo neu ar a glywo y llythyr hwn, Rhisiart Iarll Arwndel, ag Arglwydd y Waun yn anfon Annerch i'w ddeiliaid o'r unrhyw Arglwyddiaeth fal hynn. Gwybyddwch weled a ddeall o honom ni Siartr ein urddasol Dad ni Edmwnd Iarll Arundel yr hon a wnaeth iw gyffredin ddeiliaid, &c. Ac ymdystiolaeth ar hynn nyini a roesom ein *sel* &c y nawfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad y trydydd Edwart frenin gwedi'r Conwest (1356.)

Gwybydded pawb ar y sydd yr awr honn ac a ddelont rhagllaw yn y byd. Nyini Rhisiart Arwndel Ac Arglwydd swydd y Waun yn gweled a deall y Siartr a wnaeth ein caredic Dad ni Edmwnd Iarll Arwndel iw ddeiliaid rhydion &c.

DIARHEBION AMMAETHYDDOL.

IONAWR a dery i lawr,
Chwefrawr yspail cawr,
Mawrth a ladd,

Ebrill a fling,
Mai a gwyn y galon,
Mehffin llawen gorsing,

Gorphenaf llawen buarth,*	Hydref llon cyfarwar,
Awst llawen gwr y Ty,	Tachwedd dechreu'r galar
Medi llawen adar,	Rhagfyr gocheler ei fâr.

* (*llawen lluarth* in Jos. Jones)

Cyded bach o lwch mawrth a dal
 cydaid mawr o aur y brenin.
 Haid wenyn os ym mai au cair
 a dalant lwyth wyth ych o wair
 Da haid mehefin os da'u hoen,
 Am haid Gorphenaf ni rown floen,
 Os ym mis Chwefror y tyf y pawr
 Trwy'r flwyddyn wedyn ni thyf ef fawr
 Os ym Mawrth y tyf y ddol
 Gwelir llewndid ar ei ol.
 Gwyn ein byd os Ebrill mwyn
 A wisg y llawr a gwrysg y llwyn
 Mai gwlybyrog gantho cair
 Llwyth ar dir o yd a gwair
 Mis Mehefin gwych os daw
 peth yn sych a pheth yn law.
 Gwenwyn blin i'r march a'r ych
 Mis Gorphenaf na fo sych.
 Awst os ceir yn anian sych
 A wna i Gymro ganu'n wych
 Hanner medi'n sych a wna
 Llyngell lawn o gwrw da.
 Gwanwyn a gwawn llogell yn llawn
 Ni edewis haf sych newyn erioed ar ei ol.
 Chwefror a chwyth y neidr o'i nyth
 Mis mai oer a wna'n ddi nag
 Scubor lawn a mynwent wag,
 Gwynt mis Mawrth a haul mis mai
 A wna hagr lle ni bai
 Gwell gweled dodith fam ar elor
 na gweled hinon teg yn Ionor
 Haid o wenyn yng Ngorphenaf
 Had rhedynen ei phris pennaf
 Tri pheth a gynnydd ar y gwres
 Gwenyn a gwenith a mes

Tri pheth a gynnydd ar y glaw
 Gwlydd ag Ysgall ag Ysgaw,
 Blwyddyn egfaenog blwyddyn arianog.
 Blwyddyn gneuog blwyddyn leuog.
 Cneuog ffrith. cynhauaf brith.
 Gwlybyn a gwres yn ebrill a wna
 i'r ffermwr ganu fel yr eos.
 Pan goller y glaw o'r dwyrain y daw
 Pan goller yr hinon o'r gogledd daw atto'n
 Ebrill sych pob peth y nych,
 Twf o bob rhyw a phob peth byw
 Mai oer a fydd yn iach ei ddydd
 yn argoel haf heb fawr yn glaf.
 Ebrill fwyn gwlych lwyn sych lwyn.
 Chwefror a leinw y cloddiau
 a mawrth ai hyf yn foleidiau

DIARHEBION ODLEDIGION.

AWR ar ol awr
 Dawn Duw sydd fawr.
 a fedd rad Duw
 goludog yw—
 Hir ei dafod
 Byrr ei wybod
 Tafod diog
 Synwyr bywiog
 ai les iw law
 y doeth a daw.
 Rhaid i segur
 waith i wneuthur.
 Cyngor ofer
 un nas ceisier
 ynfyd a gar
 Sw'n ei lafar
 a garo byyll
 ni arfer dwyll.
 Gwirionedd yw
 Mab hynaf Duw.

Goreu gorddod
 Barn cydwybod
 Dilys yw dawn
 Duw i bob iawn
 Da dros ddrwg
 I'r nef a'th ddrwg
 gwell ymroddwr
 na dialwr—
 ysbys ar ddŷn
 Beth ei wreiddyn
 aml y ceir diawl
 yng ngwisg y gwawl
 Y dwr dyfnaf
 a fydd lyfnaf
 Cartref gwîr
 y nef ys dir
 gwna di mewn prys
 a wneit mewn llys
 Cofia mhob Cêl
 Bod Duw a'th wel

Pen pob gorddod
 glan gydwybod,
 ys gwyn ei fyd,
 glan ei fywyd.
 gwna ddaioni
 nid rhaid ofni
 Anferth pob gwir
 Lle nis cerir,
 Pawb bei canffai
 Ai dyddysgai
 Dir ni byddai
 Diddysg neb rhai.
 Ys dir nid da
 Ni ymwellhâ
 Dir dichwain drwg
 I Drythyllwg,
 A gadwo Dduw
 Cadwedig yw
 A garo Dduw
 Ys diogel yw
 A gar ei Dduw
 Ystyrgall yw
 A ystyr dduw
 ystyrddoeth yw
 Dallaf o'r dall
 Dyn diddeall,
 Aed a gais glod
 o'i gydnabod,
 A fynno barch
 Bid dihafarch
 Asgwrn yr hen
 yn yr angen

Angen o ryw
 Neud angen yw
 Adfyd a phall
 gwnant ddyn yn gall
 Cadw di dy rin
 O fewn i'th fîn
 Ag nid edrydd
 neb ei ddeunydd
 nid aeth erioed
 Rhyhir i goed.
 gŵyr dyn pan êl
 nis gwyr pan ddel
 Codi'n fore
 Haner gore
 O waith gorfod
 Y diwarnod
 maes gwr diog
 yn adwyog,
 Bid hardd ar hen
 geudawd awen,
 gwaith cawdd a wnêl
 Byd ar ochel.
 I galon wann
 Da traed buan,
 Pob un a gân
 Lle ceir arian
 Claf am gyfoeth
 Clefyd annoeth.
 Buan i'r wledd
 Buan i'r bedd
 Buan ar farch
 Buan i'r arch

Buan ar droed
 A gyrech hiroed
 Trecha treisied
 Gwanna gwiched
 un drwg, un gwall
 arhoed yllall
 y câr dilys
 Ing ai dengys
 Rhysgyr camwedd
 Ar wirionedd
 ai gwna gan ddig
 yn wyn ffyrnig
 ys dir y llwydd
 llaw gyfarwydd
 Cyngor gan gall
 Barn gan ddeall
 Araf gan bwyll
 a wna'n ddi dwyll
 Bernir yn well
 a geir o bell
 Distadl a gwael
 Pob hawdd ei gael,
 Gwedi neidio
 Rhy hwyr peidio
 Tlws goreu'n bôd
 yw gwain tafod.
 Tafod annoeth
 yn dan chwilboeth

O Lyfr Esaia Powel.
 Iolo Morganwg
 1803.

PRYDYDDIAETH.

I. CAN SERCH, O'R HEN GANIAD.*

- 1 GORTHRWM a thrwm a thrist fyddaf,
Ni charaf un tro tra fo gauaf,
Oni ddel mai glasai glosydd
A gwyrddlen penn pob glwys irwydd
Mae immi glas urddas gwyrddail,
Calon hoywfron hyfryd adail.

- 2 Mewn llwyn ffyrdd duwyrdd dyfiad,
Harddgrwn yw hwn hynaws gaead,
Ni ddaw ai annedd y cas ddynion,
Na neb ond medrus moddus mwynfron,
Hyfryd ei bryd clyd pan ddeilio,
Ty glas parlas purlen arno.

- 3 Cyntedd tirion mwynion manwydd,
Ar lawr meillion gleision glosydd
a chog serchog ddoniog ddenus* * ddawnus. *al*
Yn canu n lwys lais cariadus,
A chiw bronfraith buriaith beraidd
Yn canu 'n hardd loyw hoywfardd hafaidd.

- 4 Eos o'i llwyn yn fwyn gyfannedd
Arail mewn gwyrddail gerddi maswedd.
A chyda'r dydd ehedydd hoywdon
a gan yn drylwyn fwyn bennillion.
a phob llawenydd hirddydd hyfryd
O'th gaf weno yno ennyd.

* "Llyfr John Bradford," medd Iolo Morganwg; ac felly y cyfan o'r Caniadau hynn.—AB IOLO.

(Qu ? ai can arall hon ? Iolo Morganwg.)

- 5 Moes i'm gusan eirian feinwar,
 Lliw cann ydwyd lle can adar,
 A moes er mair gair gobeithwych,
 Eigu lan fun a'i gael yn fynych,
 Fy nyn feinaal hardd fwyn benpryd
 Gwn gariad am cur pur yw'r penyd.
- 6 Cusan a'th wnelai, nid llai lledfryd,
 Yn engyn dros-benn awen ynfyd,
 Car fi'n bwyllig ddididig ddyddiad
 Fab afreolus nwyfus nofiad,
 Oni ddel amser mwynder moddus
 A dail mai ar lwyn swyn cysurus.
- 7 Dyna mi'n parlas wylas irlen
 Oed tyddiaw'n wir, hir anniben.
 Hir aros bun yn boen immi
 A bair i'r galon dirion dorri,
 A'm bedd am wenn dan brenn briglas,
 Yn iach i 'nynan ai chain wanas.
- 8 O daw ymorol fanol feinir,
 Pwy ganai i'r llwyn mwyn min glasdir,
 mab sy'n hir arwain orhoen alaeth
 Cariad dan wydd herwydd hiraeth.
 Anniwyg cadarn a geir arno,
 Oes a wnai gannoës aros Gwenno.

Rhys Goch o Dir Iarll ab Rhiccert ab Einion ab Collwyn ai cant, cylch 1140.

II. CAN I WALLT MERCH.

MÆ twf ar benn gwenn gain eiliw,
 Modd laes hirllaes Iarllës odliw,
 Llwyn llin lliw gwin gwiall dyfiad
 Hyd ei sawdl dyw ei osodiad,
 Gwiall aur arian glan glwys waneg,
 Uwch dwyael feinion gloywon glandeg,

Talcen gwastodloyw hoyw hardd hyfryd
 Lliw ffrwd geirw garw garregryd,
 Tan y tal grisial gryswyn lewych
 Tirion olygon llonn llawenwych,
 Dwy seren serch seirian ei gweled
 Ymhen gwenn feingan lan ail Luned
 Gorlliw ei grudd gwin rudd rhaspi,
 Lledawd aur addawd wedi'i roddi.
 cyfliw rhos gwylltion gellytydd deiliog
 ewrel iachusder sywber serchog,

A rhwng deurudd,
 Gwawr ysblennydd,
 Trwyn main moddus
 Bychan gweddus,
 a min fel mel
 I'm dyn dawl.

Gwefus mirain liw cain ewrel.
 A mân ddannedd a gwedd hoywgoeth
 Amlwg ymhenn gwenn gymhenddoeth,
 Gê'n bychan crwn a hwn mor hynod,
 Ag yn nydd mynydd mewn gwn manod.

Mwnwgl claerwyn
 Deuliw'r ewyn,
 Hardd ei dwyfron
 Fy mun dirion,
 o fewn meingrys
 Dau berl ysbys.
 Hardd ail Enid
 Pei mesurid

gan gymwysder glwysder gleindid,
 Bun deg dawelddawn ysgawn wisgi,
 Ni phlyg manfeillion ar donn dani,
 Alarch. Wylan. glan ei glwysbryd,
 Meindwf, iawndwf hoywdwf hyfryd.

Dwylaw gwynion
 Bysedd meinion,
 ymmod buan
 ar we sidan,
 ag ewinedd
 Gwridog ei gwedd

Medrus hwylus heiliaw gwinwledd,

Hir ei hystlys weddus wiwddyn
 A chanol main gain gymmhwysddyn,
 Bergron esgair
 Wengron iawngrair
 A throed da i lun i'm bun ddiwair,
 Pe cawn i'm byd ennyd annerch
 Dda'r byd o'i benn fe'i cae'r wenferch,
 Er cael un awr lliw gwawr lywy,
 Ym mreichiau honn tonn Gwenhonwy.
 Rhys Goch ab Rhiccert o Dir Iarll ai cant.

III. CAN SERCH.

CLAF wyf o serch annerch Anni,
 ag ni chaf honn lonn liw'r Lili,
 Ni bu Lili gerddi gwyrddion
 Mor deg ym myd na phryd gwenfron
 Gwenfron galon golwg gwisgi,
 Duw Nef ai gwyr llwyr ym lleddi
 Na'm lladd cangen feinwen fwyniaith,
 gad imi fyw rho rhyw obaith,
 Oes i'm obaith hudiaith hedydd,
 Ei chael ai ffrw hoywliw hafddydd,
 Hafddydd y sydd son am Dano,
 wrthyt fy nghwyn gwenn fwyn gwrando,
 Gwrando'n garedig orig eiriau
 Clwyf sydd fal saeth ar faeth dan f'assau,
 Dan f'ais maen glais mae'n glwyf yssig,
 O gariad merch nid serch sorrig
 Sorrig iaith lem gem gwlad Gymru
 Yt geisio'n wael fain ael fy nychu,
 Nychdod i'm dwyn trwy gwyn trengaf,
 Am liw od taen eiry gaen gaeaf.
 Gaeaf yw arnaf ernych Dybryd
 Ym o fin alaeth am f'anwylyd,
 Anwyl wyd fun.
 I'th liw a'th lun.
 Eluned am rhoes dan loes anhun.
 Rhys Goch ab Riccert o Dir Iarll ab Einion
 ab Collwyn, ai cant.

IV. CAN Y CUSANAU.

- | | |
|---|---|
| 1 Er Mair meingan,
Moes im gusan,
Moes ddau'n fuan
ydwyd wylan. | 7 Moes imi'r mil
Fy mun gynnill,
na ddos ar gil,
Moes im ganmil |
| 2 Moes dri Meinwar,
Moes im bedwar,
Moes fab a'th gar
Bump yn hawddgar. | 8 Moes fil miloedd,
Moes im luoedd,
Defni Dyfroedd.
Ser y Nefoedd. |
| 3 Moes chwech i'r mau
o'th gusanau,
Muchudd aelïau
Moes wyth yn glau, | 9 Dod yn eu plith
Na fydd gyrrith
Rif defni gwllith
Er fy mendith. |
| 4 Moes naw mun chweg,
Moes imi ddeg,
Moes un chwaneg,
Moes im ddeuddeg. | 10 Yna Bun wenn
Byddaf lawen
a cherdd o'm penn
Itti feinwen. |
| 5 Moes im ugain
Fy ngwenriain
Moes im drigain
ar fin mirain, | 11 Deune'r hinon
Dyro'n Dirion
fy llawn ddigon
Ar dy wenfron |
| 6 Moes ber ei mant,
I'm gyflawn gant,
Eiliw mangant
Moes i'm nawcant,
Rhys Goch ab Rhiccert ab Einion ab Collwyn ai cant. | 12 Eiliw mandes
Galon gynnes
Yn ôl mae'r lles
Nod y neges. |

V. CAN I DDANFON YR ADAR YN LATTEION AT FERCH.

- | | |
|--|--|
| SERCH y rhoddais,
ar ddyn feinais,
Hoen geirw mor gwyllt,
Bun ael Essyllt | Ei thegwch hi
Bu'n saeth imi,
E'm saethes honn
O'i golygon, |
|--|--|

O gwelais wenn
 Hoen eiry gaenen
 Bid gwaeth i mi
 Golwg arni
 Cyd bai fy ngwenn
 Hawdd ei gwyngen
 Bwrw gwg y bydd
 ar ei phrydydd
 Cyd gwyppo'r ferch
 Gilwg mwynserch
 a'r vab ai car
 nid dyd meinwar,

Er caru o honn
 y gwydd gleision
 Ni chaf dan ddail
 Awr ei harail,
 Cydbwyf o'm serch
 Yn ei hannereh
 ffy o'r llwyn glas
 rhag serchog was,
 Er diriaw cân
 ar ne'r wylan
 ni wrendy 'nghwyn
 Dan frig irlwyn
 Dos di'r fwyalch
 at ddyn feinfalch,
 Dangos iddi,

'mhoen am Dani
 Bronfraith a gan
 Ar wydd eirian,
 dwg oll o'm ewyn
 at loyw forwyn,
 Tithau'r hedydd
 Bardd Boreuddydd
 Dangos i honn
 Fy nhorr calon.

 Dod tithau'r gog
 a'th Don serchog
 yng nghlust y ferch
 fy nghwyn traserch.

 Cyfaill cyfnos
 Wyf i'r Eos.
 Aed honn yn ffest
 Am cerdd arwest.
 At liw calch gwynn
 Yn ael Dyffryn.

 Yna d'wedyd
 Wrth f'anwylyd
 os hi ni ddaw
 i'm cysuraw
 I goedlwyn îr
 F'anwyl Feinir,
 o'i serch lliw'r haf
 marw a fyddaf

Rhys Goch ap Rhiccert ai cant

VI. CAN I FERCH NI FYNNAI NAMYN HAFODWR
 YN WR IDDI

ECHDOE gwelais man y rhodiais
 Hoen mandes haf Bun a garaf,
 Cyfarch i honn eiliw hinon
 a son wrthi am briodi,
 yna dan wydd tyngai wenddydd,
 ni fynnai fod iddi'n briod,
 na fyddai wr o Hafodwr,
 yn fab diwarth llawn ei fuarth,
 Minnau am ferch yn dwyn traserch

a ddodais nod lle gwnawn hafod,
 Cell er ei mwyn ym min Coedlwyn
 Lle cai fy myd droi'n ei bywyd
 Plethais adail o'r mân wiail,
 Yn beth ddillyn ail gwaith gwenyn,
 Prynu defaid, pob ysgrublaid,
 A'u troi beunydd ar y mynydd,
 Mai ym dir Gwair er Bun ddiwair,
 A phorfeldir llawn dyffryndir,
 Allwest rhywiawg tir meillionawg,
 Hyd wyneb tonn Dolau gleision,
 A Buarth teg yn llawn gwartheg
 aml iawn ei blith ymhob cyfrith,
 Beudai a wnaf erbyn gauaf
 Yn westisiant yn ael gronant,
 Iair a gwyddai am y drysau
 Hwyaidd gerllaw yn cryg leisiaw
 Pob hanas blith: haidd a gwenith;
 Pob peth yn lân: Gardd a pherllan;
 Pob ymborth Byd i f' anwylyd.
 Os at ai car y daw meinwar
 Erddi mae'n wr o Hafodwr,
 Hithau 'min craig yn hafodwraig
 Bydd ryngom serch yn cydannerch,
 Pob cell yn llawn Duw a Digawn

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant.

VII. CAN YN DANGOS A WNELAI O CHAI'R FERCH
A GARAI,

CERAI wenferch aml ei hannerch,
 a hir orllwyn, y 'myd addwyn,
 er yn oed mab, bum was arab,
 I orlliw tonn taenferw eigion,
 ne terydr haul, hyd bant araul,
 Dwyn dirfawr boen, am eiry unhoen,
 Ni chaf er hynn, deccaf wenddyn,
 ymlid ydwyf, ymlyn ei phlwyf,
 Bun a garaf ag ni pheidiaf,
 Llwybrau glyn llwyn, Dol llethr a thwyn,

Pob tonn, pob âr, pob cam daiar
 Cyfriw arfaeth, pei bawn ammaeth,
 byddwn er honn, Ammaeth gwirion,
 byddwn im gwlad, yn wr arad,
 byddwn er Gwen, geilwad ychen,
 byddwn er bun, o gwbl eiddun,
 a weddei 'mod, er ne manod,
 a wnelei fodd, bun am hudodd,
 a wnelai mab, er lloer arab,
 a wnelei merch, o'i mawr draserch,
 Byddwn Feirwr, byddwn Filwr,
 Byddwn wr march, gwrdd dihafarch,
 Byddwn wr swydd yn Llys Arglwydd,
 Byddwn beunydd yn warthegydd,
 am Olwen ail byddwn fugail

Dan defyll gwydd byddwn ddedwydd dedwydd; h. y.
 Byddwn im naid, yn ddyn Diriaid, gwr wrth gref-
 Byddwn a wnai, bodd am carai, ydd.—*Iolo.*

Rhyfedd y modd, Gwen am hudodd,
 E hudai honn, adar gwylltion,
 achos ei thwyll, y mau gorffwyll,
 mileines yw, am awneddyw,
 Dywed er mair fy mun ddiwair.
 ai byw ai bedd, gennyd geinwedd,

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant

VIII. CAN YR ANHUN,

OER yw fy nghwyn, am wawr addwyn,
 Porffor ei gwisg, lwybrau difrisg,
 Gorne gwynlliw, tonn ewynfriw,
 Am dani 'dd wyf, dan loes irnwyf,
 Hoffais ei gwedd, haul rhianedd,
 Er hynn nis caf, wenddyn deccaf,
 Clwyfus wyf fi, claf am dani,
 Hir am hoywfun, yn dwyn anhun,
 ys aml i'r mau, trwm feddyliau,
 Heb gwsg y nos, heb gof agos.
 Nwyf y ddwyfron, berw y galon,
 am orne'r od yn ymdrafod.

Rhyfedd am twyll o bob amhwyll,
 Deall na chof ni cheir ynof,
 Gobaith y cawn deune manwawn,
 A nes er hyn ni fum ronyn,
 Hael yw meinwen wrth bob angen,
 Hael wrth gwynfan dyn tlawd egwan,
 Am lynn, am fwyd ; am gyleh aelwyd,
 Am nawdd wrth raid i ddieithraid
 Am aur a gwin, Degau Iesin,
 Diarhebant honn Gaillt ag Estron,
 Diarhebant wawr gwreng a brodawr,
 Diarhebant hi Byd Barddoni,
 ai llawened ymhob cerdded,
 wrth ni waeth bwy dyn ai gofwy,
 ac wrth ei bardd o ferw attardd,
 anhael yw Gwen ag aflawen,
 Rhyfeddod cred ei anhaeled
 Wrth wan ai câr gan ddywyn galar,
 Mair a wybydd am ei phrydydd
 ni chwsg y nos awr oi hachos,
 Pan ddel gwawr ddydd, dos di'r hedydd
 Dangos i honn Iâs fy nghalon,
 maint am wenfun fy hir anhun.
 mawr ymboeni, marw am dani.

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant.

IX. CAN HIRAETH AM A GARAI.

MAE im lwyn balch lle can mwyalch
 befrgoed bill diwedd Ebrill,
 Llawen i'm llais dydd a welais
 yn arail can ym caid yman,
 yn arail merch ar lawr llannerch,
 Gyda gwenddydd byw'n y coedydd.
 Teccach meinwar na ffrîw toniar,
 Ban ferw gweilgi gan wynofi,
 gwynnach gwenfron hoen ewyndon
 nag ar ddail drain glân Lenlliaïn.
 aethum o'i serch hardd edlinferch
 yn gul fy mron a digalon,

Claf wyf dan wydd o'i serch Wenddydd,
 yn dwyn trymhaint a gofeiliaint,
 rhaid yw immi dan wyrddlwyni
 Feithrin hiraeth am ddyn wenfaeth,
 cyrchu didrain erddi Riain.

Lle'm daw dyball cof a deall.

anwr ydwyf achos irnwyf

Pa les fy myw gan am doddyw.

un ym mewn rhwyd wyf a ddaliwyd

Lle'dd wyf yn gaeth gan hudoliaeth.

Gwae fi o'r fann dan wydd eirian

Lle gwelais honn orne gwendon.

Cyd bum lawen gweled meinwen,

Dybu'n ebrwydd immi'n aflwydd

yn adeg maeth cydnabyddiaeth.

Lliw blodau mai mwyn y byddai.

cawn wenau serch gan dawelferch.

cawn ei harail dan y manddail.

Cawn iaith addwyn gan loyw forwyn,

ai chusanu Bun lygeittu.

Rhyfeddod yw modd y deryw

serch hoyw Wenddydd at ei phrydydd.

Darfu'r gair mwyn a'r cyforllwyn,

mwythusder mad, pob cyfliwiad.

ni chaf yn awr gan od Ionawr,

air bach yn serch na cyfannerch,

ni fynn fy myd leihâu 'mhenyd,

o fedd ni fynn gadw ai gofyn,

Tost fy nhynged am ail Luned,

gwae fi f'anrhaith, darfu ngobaith

am wawr eigain marw yn gelain.

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant.

X. CAN Y FRONFRAITH

Bum yn ael Maes

Dan bren briglaes

yn clywed ton

adar gwylltion

yn gwrandaw iaith,

Ceiliog bronfraith,

o goed y glynn

Prydai englyn,

o goed y rhiw
 canai'n gywiw,
 Brith oedd ei fronn
 mewn dail gleision
 mal ar gangau
 mil o flodau,
 yn ymyl nant
 pawb ai clywant,
 gan wawr y cân
 mal cloch arian,
 cynnal aberth
 hyd awr anterth
 ar allawr las
 Heiliaw Barddas.
 o gangau cyll
 gwyrddion defyll
 y cân gywydd
 I Dduw Ddofydd,
 a charol serch
 o las lannerch,
 I bawb ar bant
 glyn ai carant,
 Eli calon
 I'r serchogion,

Cefais oi benn
 Cyflais awen,
 Cerdd o fitres
 am boddlonnes.
 Llawen a'm gwnaeth
 Ei ganiadaeth.

Yna drwy barch
 Dodais gyfarch
 o glais y glynn
 I'r aderyn,
 Erchais yn ffraeth
 Ei Latteiaeth
 at y wenferch
 Lle mae'm traserch.
 Aeth Bardd y dail
 o'r man wiail,
 at ail Luned
 Haul y merched.
 I glais y Fro
 Mair ai llwyddo.
 Er dwyn immi
 Dan ir lwyni
 Hoen ôd unnos
 yn ddiaros

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant.

XI. CAN HIRAETH Y BARDD AM NAS MYNNAI EI GARIAD EF.

HOYWDEG Riain hydwf lwysgain,
 Eiliw gwenyg geirw am gerryg,
 Heno i'm clwyf heinus ydwyf
 Heiniais o'i serch hardd lawenferch,
 Hauodd i'm bron heiniar gloesion
 a honn a hyllt. o'm hud gorwyllt,
 oed dydd ni chaf nai nawdd arnaf.
 na heddwch Bun na gair cyfun.
 Hudoles deg hoyw adameg
 ni rydd air serch i'm cyfannerch
 Herwr mal hydd wyf dan goedydd,

amgwr ei phlwyf herwr ydwyf.
 Gwae fi nhynged am ail Luned
 Na chawn arail Gwen dan irddail,
 Bun wen am rhoes dan engeirloes,
 Hir iawn y trig dan ais yssig,
 Hiraeth i'm bronn ac im calon.
 Hiraeth a'u hyllt am dwf Essyllt.
 Hualwyd fi yng ngresyni
 gofal i'm hais a ryfegais,
 gofal am Wen, droedled Olwen,
 Hir yw'm anhun achos Gwenfun,
 Eled yn iach y Byd bellach,
 gobaith nid oes, budd o'm heinioes,
 na modd i mi fod awr hebddi,
 Hi onis' caf marw a fyddaf.

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant.

XII. CAN I YRRU'R WYLAN YN LLATTAI.

Yr wylan deg ar fol gwaneg,
 ymhlith dystrych yr heli crych,
 Brenhines wenn geirw mor Hafren
 a'th Deyrnas di nawton gweilgi.
 ymborth ydd wyd ar bysgodfwyd,
 Gwisgi meinwen wyd ar aden,
 ag er mwyn hynn wyf yn d'ofyn.
 Dwg erof gan o'm oer gwynfan
 At feindwf ferch yn deg annerch,
 Claf wyf am wenn hoen ôd gaenen
 Fe ddodes hon saeth im dwyfron,
 A'u dwyn ydd wyf gloesion irnwyf,
 Dywed wylan wrth liw'r od man,
 Fy mod wen gu yn ei charu,
 Cyrch hyd ei chaer Bun oleuglaer,
 a chan om pen ei mawl meinwen,
 Pei gwnawn arwest o'r pum gorchest
 ni thraethwn fawl a fai moddawl,
 na chanfed rhan clod bun eirian,
 oni chaf honn tyrr fy nghalon,
 af i boeni dan wyddeli,

yno'n draphell yng nghudd coedgell
Meinwar a fydd fy nihenydd.

Rhys Goch ab Rhiccert ai cant.

XIII. CAN I DDANFON MERCH I RUFAIN I DDWYN
PENYD AM LADD EI CHARIAD.

Gwae fi wenferch erioed d'annerch,
gan ni bu nes imi'm neges.
ag ni chawn dal am hir ofal,
a marw ydd wyf o haint gwiwnwyf,
mawr o bechod yt liw manod
Ladd dy was mwyn a fu'n d'orllwyn,
Cymmer di ffonn bert o linon
a dos ddyn fain hyd yn Rhufain.
Pab a ofyn itti wenddyn
"Pa ddrwg benna a'th ddug yma?"
"O mynni Nef rhaid cyfaddef,
yno ydd eddy gwenddyn anhy
Ei bod ar fai am ai carai
Mai hi a wnaeth ei farwolaeth
Torri calon a fu ffyddlon,
I fab o'i gwlad farw oi chariad,
a bod ei benn dan dywarchen,
yna gwisgir rhawn am feinir
Er dwyn penyd dros ei bywyd,
am ladd oi bodd mab ai carodd.
Maddeued Mair i'm dyn ddiwair
Mal ydd wyf fi n maddeu iddi.
Fy nyn gannaid nef iw henaid.

Rhys Goch o Dir Iarll, ab Rhiccert ab Einion
ab Collwyn ai cant.

XIV. CAN YR HAF.

- 1 CANAF yd haf wyd hoywfeirdd Bennaeth,
Canhewydd llwyn drain gain ganiadaeth,
Caniadau adar gwâr gwydd irion
Cynnadl cerddoriaeth cain dderw Coedfron,

Coedfron blagurlawn dawn dadeni
 Caeadfrig addien gwyrdd llen llwyni
 Llwyni llawn gwial gwelir beunydd
 Llennyrch lle i dygyrch Degau elfydd.
 Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
 Til dy rwm tal dy rwm canu twm teini.

2 Elfydden geimiad ceidwad coedydd,
 Elfyw dail meillion llonn llawenydd.
 Llawen Bardd awen ewybr enau,
 Llywy maes arlwy ar lawr bryniau,
 Bryn a phant tyfant tewfawr waneg
 Brenin hin hoenus hynaws adeg,
 Adeg serchogion dynion dawngar,
 ydwyd haf irlas ar lwyn adar.
 Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
 Til dy rwm tal dy rwm canu Twm Teini

3 Adar Bydafau heidiau hedant,
 a daw cain gogau dolau deilbant,
 Dail bawrlwyth garddlwyth amgyleh gwyrddlwybr.
 Deiliad gwlad gaead gywen loyw-wybr,
 Gloywybr mandes cynnes ceiniad anterth,
 Glas barlas berwlith blith blawd glynberth,
 Glyn, bryn, brwyn llwyn llawn llewych gwenhaul,
 Glân bryd yn diffryd dyffryn araul.
 Taro tant alaw nant ael y naw twyni
 Til dy rwm tal dy rwm canu Twm Teini

4 Araul dy fore dy fardd ydwyf
 Eirian dy hinon hynaws irnwyf.
 Irnwyf am doddyw dydd ymadfynn,
 Eurner wyd immi dymor gloywyn.
 gloyw a hoyw hygar daiar duedd
 glyw wyd haf hyfaeth hoywfeirdd drasedd,
 Trasawl cariadawl croydwwf irddail,
 Trasyw tres adar llu gwar gwial.
 Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
 Til dy rwm tal dy rwm canu Twm Teini.

5 Gwieildwf newydd, neuadd immi,
 Gwâl dan frig cyngerth berth bedweni,

Bedwen min gorallt ai gwallt gwyrddlas
 Bydaf i Brydydd Bryd cyweithas.
 Cyweithas mwynwas mewn lle didrain,
 Caeth ei gerdd draserch i ferch firain,
 Mirain ei sain iesinfalch Eos,
 Meirwon gwydd herwydd ei hir aros.
 Taro tant alaw nant ael y naw twyni
 Til dy rwm tal dy rwm canu twm teini.

6 Hir aros hafddydd bydd barddoni
 Herwyr hyd briffyrdd gwyrdd gwyddeli.
 Gwyddeli carant cywres ymgyrch,
 Gwedd ael bryn heulawg hoywlawr llennyrch,
 Llennyrch aml ymgais amgaer mangyll,
 Llawenydd canau ceinion defyll.
 Tefyll oed dyddiau tewddail annedd
 Tyfiad paradwys mammwys mwynedd.
 Taro tant alaw nant, ael y naw twyni
 Til dy rwm tal dy rwm canu twm teini.

7 Mwynedd cain adwedd adeg hirddydd,
 Mynnwn i nwyfron nwyf dywenydd,
 Dywenydd gwynferch merch ne mandes
 Dwynwen syberwyd menwyd mynwes.
 Mynwes bun berwen, berw an dyfu,
 Miniaw cusanau swynion caru.
 cerais ne'r wylan Olwen wisgi,
 Cyweiriaais adail irddail erddi.
 Taro tant, alaw nant, ael y naw twyni,
 Til dy rwm tal dy rwm canu twm teini

8 Erddi rhygenais geinion odlau,
 Irddyn ganolfain gain gynheddfau,
 Cynneddf serchogwas o dai glaswydd
 Canu mawl didawl dyn ysplennydd
 Ysplennydd dan wŷdd dyn wen eirian
 Ys blin immi'r anhun am fun feingan.
 Meingan Lloer arian lliw'r eiry gwynnaf,
 Meingorph harddlun im ceinfun canaf
 Taro tant &c. &c.

Rhys Goch ab Rhicert ab Einion ab Collwyn ai cant.

XV. CAN Y DEILDY.

ERLYNAIS ferch ar las lannerch.
 Liw blodau man efeill perllan
 Grudd eiliw rhos ar ôd unnos
 Golwg serchog, llygad bwyog (qu. bywiog ?)
 Eurwallt melyn uwch tal gorwyn,
 Ar ben dŷn fau yn fodrwyau.
 Eiliais i honn dan gyll gwyrddion
 Wielin gell yn hoyw babell.
 ym mysg llyisiau a fflawr blodau,
 Lle gwahoddais fy nyn lednais
 ys bernid hardd Llys fferyllfardd
 Lle daw meinwen dan gaeadlen
 Lle caf annerch hardd edlinferch
 a rhoi cusan i'm dyn eirian.
 Tra phery'r haf aml y cyrchaf
 I goedlwyn ir gyda meinir
 ymyl dol gain mewn tir didrain.
 ymherfedd cell gwnaethum babell
 Er mwyn bun deg elain waneg,
 Er caru honn mewn encilion.
 aros y dydd ynghêl coedydd
 Ymgaru'r nos lle can ëos
 Gwyrdd yw'r ty mau gwrdd ei assau,
 Gwaith llaw Duw lwyd ar ei gronglwyd,
 Gwead cadarn heb waith isarn.
 Gwial cymmhleth uwch cain eneth
 addurn i fardd ymhlith glasdardd,
 addail i ferch a gar draserch.
 Meinwen a gâr gytgerdd adar,
 mae uwch ei phen ar bob cangen.
 cywedd y can ednaint diddan
 cywyddau serch cwbl gyfannerch.
 canant i fun hoyw ei meinllun
 cydfolant honn adar gwylltion,
 mi o'm serch mawr at fireinwawr,
 nim dawr o ged eithr ei gweled.
 coffleidiaw honn hardd ei gwenfron
 a chael cusan ei min bychan.

Nid âf at wrach draw i gilfach
 Er cael oed dydd gyda Gwenddydd,
 af i lys dail dan bleth gwiail,
 yr hafddydd hir gyda meinir.

Rhys Goch ab Rhiccert ab Einion ai cant.

XVI. CAN MAWL MERCH.

Bu bwyall brenn, Bardd anghymen
 Yn naddu can i Wenllian
 yn braenu gwawd i ferch wengnawd
 Heb air oi benn dan nod awen.
 o bu gwas pwl oi wag feddwl
 Truan ei fod er lliw'r manod
 yn gwatwar serch er hudaw merch,
 un anghelfydd dan enw Prydydd
 yn son caru wrth geinwawr gu
 Cybydd anghawr dan enw Cerddawr,
 yn gwarthu honn hoywne hinon,
 Nid o gerdd hwn dengair dyngwn,
 ydd a clod merch ar lef traserch
 ac y clyw byd mawl ei glanbryd,
 ac y clyw gwlad ei gwedd ganiad,
 ac y clyw un son am wenfun.

Minnau'bellach, bwyf amgenach
 O wyddgell werdd fau rieingerdd,
 am serch a'r gan i Wenllian,
 Bun a welais man y rhodiais
 Ne'r Alarch gwyn ar lawr dyffryn,
 Cerddai dyn war wyneb daiar
 yn hardd baunes drwy'r melyndes,
 ag ni phlygai man y cerddai,
 dan wyndraed hon un or meillion,
 Harddwch Bun fain na chyflen gain
 Blawd o gylchon ar ddrain gwynnion,
 Lliwber ei grudd lliw rhosyn rudd,
 Deuwridd ei boch rhosyn deugoch,
 Gwawr cyferbyn o'r gwrid a'r gwynn,
 a mawr y mel ar fin ewrel,
 Gwineufain ael gwyndal urael,

Trwyn moddus hardd medd ei chanfardd,
 medd ai rhygar hoywdeg Feinwar,
 mwnwg lliw kann neu od ar fann,
 a bair i mi ymbendroni.
 Bronnau gwynion tlysau glwysion,
 Eiliw gan ddydd manod mynydd,
 angau am daw o'u trasylliw,
 a thecced yw mynwes bun syw,
 a thecced llun meingorph gwenfun
 a thecced gwedd gwawr rhianedd,
 Dwylaw bychain agwedd mirain.
 Gwawrne gwinedd meinion fysedd,
 cywraint ai caf neddair alaf,
 Bun bryd éirian yn gwau sidan
 Alaf ei gwaith pob manylwaith
 alaf llaw Gwenn mud yn gymmen,
 Troed bychan teg Bun hardd waneg,
 ysgawn fal hydd hyd y meusydd,
 ni plyg llyisiau dan liw blodau
 Llyna bryd cain a llun mirain
 Bun a garaf om calon glaf,
 Campau Bun hardd medd ei gwanfardd,
 Tra rhagorant mal dan warant,
 Ei mwynder gwenn ai gair cymmen,
 ai llafar doeth Lloer awengoeth
 ai goslef gwar lle can meinwar,
 ai goslef maws nawcan eaws,
 am dettry'n llwyr o'm holl synwyr,
 am dwg mal twyll o'm holl ymbwyll,
 a ddod walleof cadarn ynof
 a'm rhy mewn bedd llyna'r diwedd,
 onis caf honn claf fy nghalon,
 onis caf hi yn chwaer immi,
 Cyn diwedd haf marw a fyddaf,
 meddylid honn iachau nghalon
 ag onis gwna ys gwenn yn dda,
 Ei serch a fydd fy nihenydd.

Rhys Goch ab Rhiccert ab Einion
 ab Collwyn ai cant.

XVII. CAN Y GWYNT.

- | | |
|---|---|
| <p>1 Gorwyllt o'm nwyf
Gwae fi 'ddydwyf
Mynag ym mhlwyf
Man y byddwyf.
Neud gochel wyf
Nad ymbwyllwyf</p> | <p>7 Dolydd nithiaw,
Neb i'th rwystraw,
Rhwysdren rodiaw
Rhydrais bwyllaw ;
Noethdir chwiliaw
Nerth draig arnaw</p> |
| <p>2 Ymbwyll ni'm daw
Nag ystyriaw
Ni wnaeth ba'm traw
o rybuddiaw
am liw od ffraw
gwae fi gwynaw,</p> | <p>8 Arnat fy nghwyn
a'th drais ymddwyn,
Attal Bardd mwyn
Rhag Bun addwyn,
Gwr wyd ar dwyn
Garw i'm gorllwyn.</p> |
| <p>3 Cwynaw am wenn
Fain fynyglwen
A'm ias im penn
gwallgof cyfrben,
Hoen hynt aerdren
Haerwynt wybren,</p> | <p>9 Gorllwyn meinwen
wyf im hamdden,
Heb fyth i benn
Bodd ai pherchen,
Mydwyf fardd Gwenn
O'm gwawd aren.</p> |
| <p>4 Wybrenwynt gwrdd
I'th daer ymwrdd
Lle dd elych ffwrdd
Llew ynghysgwrdd
A'r a'th gyffwrdd
I'th daith agwrdd</p> | <p>10 Aren wyt ti
arawd weini,
Dwg erof fi
Wawr fain iddi
Mau gân cynni
Mad y medri.</p> |
| <p>5 Agwrdd dy gyrech
Coed a llennyrech
Taendardd tonndyrch
Wybren entyrch
ar ffo drwy ffyrch,
Ergyr aergyrech.</p> | <p>11 Medri hadeg
at fun wendeg
Hyd arw a theg
Yn ddiattreg.
A'm cerdd anrheg
at ail Indeg</p> |
| <p>6 Aergyrech ar wýdd,
Gwarrau gellyydd,
Myssaing mynydd,
Myssarn meysydd,
Murn adeilwydd
A dail dolydd,</p> | <p>12 Indeg feiniais
un a gerais
Hoen gwendonn bais,
a ryserchais,
ag oer fy llais
am wawr lednais</p> |

- 13 Llednais ne cann
wrth bawb pob man
Ond wrth druan
Ai câr meingan,
wrth ei bardd gwann
Gwenn nid yngan.
- 14 Yngan wrth honn
Hoywne hinon,
Maint blinderon
A briw calon
Maint cur i'm bronn
Am bryd gwendonn.
- 15 Gwendonn Riain
a'i thwf mirain
myth draed elain,
Ar lwybr gwyrain,
mawr am ddyn gain
Mau hir ochain.
- 16 Ochain a'm hyllt
am ail Essyllt,
ym mangre byllt
Gorsaf gweryllt.
Serch am eddyllt.
Au gur gorwyllt.
Gorwyllt o'm nwyf
acⁿ. acⁿ. acⁿ.
- Rhys Goch ap Rhiccert ab Einion ab Collwyn ai cant.

XVIII. CAN EIDDIG.

GWNEYTHUM o'm serch
Oed a gwenferch,
Dan gangen cyll,
Gwyrddion defyll,
Fe ddaeth Meinwar
at fab ai câr,
Yno Bun dlos
Mi'n ei haros.
Dodi eusan
Ar fin Meingan,
Ar y min mau
Cael cusanau,
Ensail ymgred
ac ail Luned,
Clo cyfaredd
Nwyf cyslynedd,
O'n amgyleh hâf
Haul gorphennaf,
Ac ar glawr maes
Glas dwf hirllaes.

Meillion yn frith
Manddail cymmhlith,
Minnau a gwenn
yno'n llawen.
Gorwedd ein dau
ym mysg blodau,
Gorwedd ar donn
ymhlith meillion,
Finfin a gwenn
O'm holl awen,
Gwledd a gefais
ar fin meinais
Gwledd Dewi Sant
Ynghor Hodnant
Gwledd Taliesin
Yn Llys Elphin,
Gwledd y fort gronn
yng Nghaerllion,
Gwledd angel glwys
ym Mharadwys.

Ninnau ddeuddyn
 ar wledd fal hynn
 Heb ofalu
 Am ddim a fu
 Heb fyfyriaw
 Am ddim a ddaw,
 Gwynfyd y sydd
 Byth ni dderfydd
 yn cyfymnawdd
 yn un ansawdd.
 Hyn ar ein cân
 oedd y cyfan,
 Felly mynni
 cydfoddloni
 I fyw yn lân
 Ar wledd cusan
 I farw ein dau
 O gusanau
 Nycha uwch benn
 Gwr aflawen
 Hen Eiddig du
 Dan wargrymmu,
 Wyneb tomlyd
 Golwg barllyd
 A barf lwydgoch
 Cyfliw gwrych moch
 Dwylaw gwas gau
 yn gigweiniau,

A minbryd glas
 Gan ail Suddas,
 Derchafael ffonn
 Parth a gwenfron
 Ac heb oedi
 Ffonnawd arni
 Ergydiaw gwenn
 ar ei thalcen
 a doddi clais
 Ar gain arlais,
 Ffonnawd neu ddau
 I'm penn innau,
 A meinael gu
 yn llewygu.
 gorfod codi
 ac ymffrommu
 A gyrru tarf
 A was bychfarf.
 a gyrru braw
 a ffwyr arnaw,
 a gyrru ffo
 a mefl iddo.
 Am a wnaeth ef
 Ai oer ddolef
 I ddeuddyn gu
 Yn ymgaru,
 A'n rhoi mewn braw
 Oerfel iddaw.

Rhys Goch ap Rhiccirt o Dir Iarll ai cant.

XIX. CAN Y DIEILRHYW.

TRIPHETH ni cheir ei heilryw
 Grymialog, serchog a syw,
 Grymialog a fynn rymial,
 Achwyn heb achos a dâl.
 Grymial a grymus dafawd
 Gremian heb daw pei dydd brawd,

Dioer ni fynn o fodd dewi
 Dywedwyf a fynnwyf fi,
 Grymialu grymaldawd maith
 Un ai haw yn anhywaith,
 Ni char daw na diwedd sôn,
 Am y modd y mae dynion,

Beunydd y dydd fal y daw
 Aflonydd pawb iw flinaw.
 Bai ar bawb bei wybai'r byd,
 A ddaw drostaw yn dristyd,
 ag ni fydd wrth ei fodd neb
 Na dyn heb ddwyn dau wyneb,
 Gwell fydd imi ddydd a ddaw
 Nai ladd rhyadael iddaw,
 A grymialed a fynno
 Yma'n y byd man y bo.

Serchog ni serch ar dafawd
 Flas y gerdd na fo lais gwawd,
 I fursen, ar fawrserch fydd
 Orn a boen arni beunydd.
 dim arall gan wallofain,
 Nid annerch ond rhyw ferch fain.
 Llauer iw fryd llwyr iw fron
 Lloer ai henwi lliw'r hinon.
 Ni fyynn son na sain amgen
 Dyma ei waith ond am wenn,
 Dim yw ei gais ond am gael,
 Ne manod gain ei meinael.
 Honn y cwbl cablu arall
 Cylch cerdded a gweled gwall;
 Goreu yw oll a gar ef
 Gwira gwynn dan gaer gwiwnef,
 Lle bo pei yno llu byd,
 Un a wel yn anwylyd.
 ni fyynn y dynyn dawnsyth
 ymoralw am arall fyth.
 A chlust dyn dinag annerch
 Nid yf sw'n ond ef ai serch.
 Syw a ddilyn swydd alathr
 Ail serch ar fun bob llun llathr,
 Ni chais aur nag arian fyth,
 Nawsfwy na phlwm trwm trasyth,
 Mynn gywraint ar faint a fo
 ym myd unawr am dano,
 Mynn lân ar bob mân fal merch,
 A ymdrwsiai am draserch,

Ni thal sôn nid digon da
 Diamomedd dim yma,
 Rhaid ar oll amgylch bylch byd
 Ei wellhau a llaw ddiwyd,
 Ag ar bawb cyd bei gorau,
 Ymlaen o hyd ymlanhau.
 Nid iawn o'r byd llyd lledryw
 nid digon byth boddhau syw.
 Mynnu manol ar bob peth
 Ei Ddofydd braidd yn ddfifeth.
 Mawr am y mawr mae bob dydd,
 Ai ddirfawr boen ni dderfydd.
 Felly ef heb fall ofeg
 Am oll i ben diben deg
 Ni fyynn weled un lled llaw
 Heb oernad mae bai arnaw.
 Na llythryn o'r llythrod mân
 Ar un gronyn o'r graean.

A minnau yn nyddiau nwyf
 Trwy adwyth y tri ydwyf,
 Grymialus wyf trwyf traserch
 Am nas caf ddifeiaf ferch.
 I'm lleferydd bob dydd dioer,
 Grymialus egr am wiwloer,
 Serchogwas serchogaidd wyf
 Yma ornais o'm irnwyf,
 Holl waith fy nghalon sôn serch
 Mal ynfyd am edlinferch,
 ag ni ddaw taw im tafawd
 Fy holl swydd i gweini gwawd,
 I ferch, am holl serch y sydd
 Ar loyw geinddyn liw gwenddydd
 Ym mhob mann, er ei mawl hi,
 y mae dyn, son am dani.

Wyf Syw er honn Gwenonwy
 Ni bu o fab gwn neb fwy.
 Ymgallhâu ag i m gwellhâd
 Uniawn ystyr yn oestad.
 O'm holl nerth ymbrydferthu
 ymboenu gwn er Bun gu

A lle gwelych gwyh im gwisg,	Hi'n iach yn uchel fawredd,
Difriw er hoen eiry difrisg.	Ai Bardd yn myned i'r bedd.
Glan pob mann a modd arnaf	Rhys Goch o Dir Iarll,
Gwae a nŷch ym, gwenn ni chaf,	ab Rhiecert ai cant.

XX. CANU'R MARW O'I SERCH.

DEULIW blodau meinion aeliau,
Mwyn ei champau wrth gydchwarau,
Serw yng ngolau dan aur dlysau,

Gwae fi tlysau

Gwae fi tlysau.

Tlysau oedd rhaid im dyn gannaid
Pentre nis caid wrth droi'r defaid,
A gwenn ni phaid a dwyn fenaïd,

Gwae fi fenaïd

Gwae fi fenaïd.

Fenaïd yw'r ferch ar gwr llannerch
ac am wenferch marw o draserch

A mi'n llawn serch yn ei hannerch

Gwae fi annerch

Gwae fi annerch.

Annerch Wenddydd gan ei phrydydd

Annerch beunydd ar don newydd

A mwy ni bydd lle ddaf trennydd.

Gwae fi trennydd.

Gwae fi trennydd.

Trennydd ydd âf gwenddydd ni chaf

Gwae fi dd wy'n glaf a marw fyddaf

Ai chlod liw'r hâf mwy ni chanaf,

Gwae fi canaf

Gwae fi canaf,

Canaf ogan i'm Bun eirian

O draws amcan lle bum druan,

Mwyn fy nghwynfan wrth ymddiddan

Gwae fi 'mddiddan

Gwae fi 'mddiddan,

Diddan y bu Cyn ei serchu

Ynawr dygnu a gwallweddu,

Yn gruddlasu wrth ei charu,

Gwae fi caru
 Gwae fi caru.
 Caru meinwen wyneb lawen
 Heb oed i benn a dŷn irwen,
 Am nis caf wenn gwnn fy Nien,
 Gwae fi dien
 Gwae fi dien,
 Dien i mi meingorph wisgi
 Dioer os tydi am gwrthodi,
 Gwn wynofi gan ymboeni,
 Gwae fi poeni,
 Gwae fi poeni,
 Poeni beunydd dwyn ei cherydd
 Ochawr ni'm bydd o lawenydd,
 Y fory'r dydd ac fe dderfydd,
 Gwae fi derfydd
 Gwae fi derfydd.
 Derfydd poeni, Bun am deni
 Gwnaeth gwenn imi a welweh chwi,
 Dyn deg yw hi am dug oerni,
 Gwae fi oerni
 Gwae fi oerni,
 Oerni angau dan wraidd f'asau,
 Mi 'mhen tridiau dan fy ngolau,
 Am fun yn fau deuliw blodau,
 Gwae fi blodau
 Gwae fi blodau.
 Rhys Goch ab Rhiccert o Dir Iarll ai cant.

CHWEDLAU'R DOETHION*

1	3
A GLYWAIST ti chwedl Ciwg, Bardd cyweirddoeth Gwynhylwg Perchen pwyll pell ei olwg	A glywaist ti chwedl Cynrain, Pen cyngor Ynys Prydain, Gwell ydyw cadw nag olrhain.
2	4
A glywaist chwedl Cadeiriaith, Bardd awenfawr ei araith, Cam cyntaf hanner y daith.	A glywaist ti chwedl hen idloes, Gwr gwâr hygar ei Einioes, Goreu cynneddf yw cadw moes.

* O Lyfr Tre Brynn.—*Iolo Morganwg.*

5

A glywaist ti chwedl Meigant,
Yn ysgar ai Ysgarant,
Enwir difenwir ei blant.

6

A glywaist ti chwedl Cattwg
Ddoeth, mab Gwynlliw Essillwg,
Bid galon lle bo golwg.

7

A glywaist ti chwedl Cyngar
Sant wrth a fu'n ei watwar,
Hwy pery llid na galar.

8

A glywaist ti chwedl Gildas
Y Coed aur mawr ei urddas,
Ni ryfein ffawd i atgas.

9

A glywaist ti chwedl Ystyphan
Bardd Teilaw ateb buan,
Dyn a chwennych Duw a rann.

10

A glywaist ti chwedl Madog,
Mab Idwal, Prydydd serchog,
Ni lwydd i anghalonog.

11

A glywaist ti chwedl Cynllwg
Fardd llwyd llydan ei olwg,
Cafas dda ni chafas ddrwg.

12

A glywaist ti chwedl y cynfyd.
Ai glyw gloywa dywedyd.
Chwardd pan y bawdd, yr ynfyd.

13

A glywaist ti chwedl Cynog, [iog,
Sant Penrhaith gwlad Brychien-
Deuparth addysg ym mhenglog.

14

A glywaist ti chwedl Ildud
Farchog Aurdorchog astud,
A wnel ddrwg drwg ai dylud,

15

A glywaist ti chwedl y Car eu
Gwedi gorfod ar gadlu,
Nid anghlod ymwelïanu.

16

A glywaist ti chwedl Urien
A phwy a ddywaid amgen?
Dichon Duw trist yn llawen.

17

A glywaist ti chwedl Heinin
Fardd o Nangon* Llanfeithin
Gwrawl ni fydd disgethrin.

18

A glywaist ti chwedl Ceinddar
Wrth a weles aflengar†
Ai gwatwores Crist niw car.

19

A glywaist ti chwedl Cynfarch,
Milwr esgud dihafarch,
Y neb na'th bareho na pharch.

20

A glywaist ti chwedl Cadgyffro
Hen, yn darllain llyfr Cato,
Nid mad gwr ni bai Gymro.

21

A glywaist ti chwedl Dewi
Gwr llwyd llydan ei deithi
Goreu defawd daioni.

22

A glywaist ti chwedl Ystudfach
gyda'i Feirdd yn cyfeddach
Wyneb llawen calon iach.

* Qu? Bangor.—Iolo Morganwg.

† Afeugar.—Iolo Morganwg.

23

A glywaist ti chwedl Cibddar,
Wrth a weles yn anwar,
Ni thal husting a byddar.

24

A glywaist ti chwedl Bedwini,
Oedd Escob da diwegi,
Rhagreithia'th air cyn noi ddodi.

25

A glywaist ti chwedl y Cwтта
Cyfarwydd wrth gynnutta,
Nid edwyn diriaid ei dda.

26

A glywaist ti chwedl Dwynwen
Santes, merch deg Brychan hên,
Nid caruaidd ond llawen.

27

A glywaist ti chwedl Huail
Mab Caw, cymmhwylliad arail,
Mynych y syrth mefl o gessail.

28

A glywaist ti chwedl Cawrdaf
Fab Caradawc Freichfras Naf,
Llwyddid gorchwyl llaw araf.

29

A glywaist ti chwedl gwr call
Yn cynghori gwas arall
A wnel ddrwg arhöed y llall

30

A glywaist ti chwedl Lleynewg,
Milwr urddol ardderchawg?
Gwellbeddnabuchedd anghenawg.

31

A glywaist ti chwedl Cynan
Wledig, Sant da ei anian?
Dryccai* bob ammhwyll ei rann

32

A glywaist ti chwedl Gwrgi
Ar y sul yn cynghori?
Nid rhaid i Ddedwydd namneieni.

33

A glywaist ti chwedl Cynon
Yn ymochel rhag meddwon?
Cwrw da yw allwedd calon.

34

A glywaist ti chwedl gwr hylwydd,
Oedd henwr call cyfarwydd?
Nid treftad anrhydedd Arglwydd.

35

A glywaist ti chwedl Hu Arddar,
Yn ymddiddan ai gylbar?
Dedwydd un ai gwyl ai câr.

36

A glywaist ti chwedl Rheged,
Oedd ffyddlawn cyfiawn ei gred?
A wnel ddrwg ymogeled.

37

A glywaist ti chwedl Cynghellawr
Yn ymddiddan a lliw gwawr?
Ni phery pryd ond unawr.

38

A glywaist ti chwedl Ifor
Hael, Neuaddbyrth egor?
Gwae'r hên a gollo'i mogor.

39

A glywaist ti chwedl y gwr hy?
Bid lawen pawb yn ei dy,
Wyneb trist drwg ai ery.

40

A glywaist ti chwedl Llywarch,
Oedd henwr dryd dihafarch?
Onid cyfarwydd cyfarch.

41

A glywaist ti chwedl Dingad
Yn ceryddu mab drygdad?
Moch ddysg nofiaw mab hwyad.

42

A glywaist ti chwedl Mordaf,
Oedd un o'r Triwyr haelaf?
O'r drygau gorau'r lleiaf.

* Dyccid, al.

43	53
A glywaist di chwedl Dynolwas, Goreu mab yng Nghymdeithas? Deddfol neud hir ei garas.	A glywaist ti chwedl Cewydd Sant. wrth aml ei garenydd? Nid car cywir ond Dofydd
44	54
A glywaist ti chwedl Afaon Mab Taliesin gerdd gofion? Ni chel grudd gystudd calon	A glywaist ti chwedl Endigant Fardd. lle bu hardd ei amgant? Geiriau drwg adwedd nid ant.
45	55
A glywaist ti chwedl Morgan Mwynfawr, mwynfawr ei anian? Nid doeth ni chel ei amcan.	A glywaist ti chwedl Cydwgi Bach, a orffai ar gewri? Nid afiechyd ond diogi.
46	56
A glywaist ti chwedl y Famaeth Yn cynghori ei mab maeth? Celfydd celed ei arfaeth.	A glywaist ti chwedl Haearnwedd Fradawg, filwr Teyrnedd? [edd. Trech nerth na gwir wrth ddigas-
47	57
A glywaist ti chwedl Ysgafnell, Mab Dysgyfundawd Gad-gym- Nid anrhegir tlawd o bell. [hell?	A glywaist ti chwedl Bleddyn, Yn ymddiddan ai elyn? Nid gwir gwir heb ei ganlyn.
48	58
A glywaist ti chwedl y Caw? Cyt bei hawd datrhewi rhew, Byd anhawdd datrywiaw rhyw	A glywaist ti chwedl Eildderw Marchawg serchawg ger syberw? Hir y cnoi'r tammaid chwerw.
49	59
A glywaist ti chwedl Ysperir, Yn ymddiddan a Menw hir? Câr cywir yn yr ing ai gwelir.	A glywaist ti a gant Caradog Breiniol fab Bran ardderchog? Bid pob hir ledrad i grog
50	60
A glywaist ti chwedl Ifan Brawd ffydd Cattwg Llancarfan? Tywyned graienyn ei rann	A glywaist ti chwedl Cennydd Fab Aneurin Fardd celfydd? Nid diofal ond dedwydd.
51	61
A glywaist ti chwedl Heledd Ferch Cyndrwyn, fawr ei rheuf- Ni ellir llwydd o Falchedd. [edd?	A glywaist ti chwedl Ffollweh O gymmryd edifeirwech? Gnawd gwedi rhedeg* atregwch.
52	62
A glywaist ti chwedl Eleri Lle ni chaid llaw yn rhoddi? Nid llusen a bair tlodi.	A glywaist ti chwedl Hugyflwydd Yn cynghori rhag tramcwydd? Gnawd gwedi afrad afrwydd.

Rheg mewn llyfr arall.—Iolo Morganwg.

63

A glywaist ti chwedl Geraint
Mab Erbin. cywir cywraint?
Byrr hoedlawg digasawg saint.

64

A glywaist ti chwedl Andras
A ddioddefwys Croestear?
Rhannwys Duw nef a gafas.

65

A glywaist ti chwedl gwr hywydd,
A fuasai berchen swydd?
Gnawd gwedi traha tramcwydd.

66

A glywaist ti chwedl Padarn
Pregethwr cywir cadarn?
A wnelo Dŷn Duw ai barn.

67

A glywaist ti chwedl Rhydderch
Trydydd hael gorseddawg serch?
Gnawd rhygas gwedi rhyserch.

68

A glywaist ti chwedl Mygotwas
Mawr wybodau ym Marddas?
Ys drwg y ceidw y diawl ei wâs.

69

A glywaist ti chwedl Anarawd,
Tywysawg doniawg didlawd?
Rhaid wrth amhwyll pwyll
parawd.

70

A glywaist ti chwedl Pen Gwlad
Yn rhybuddiaw pob anllad?
Haws llosgi ty no'i adeiliad.

71

A glywaist ti chwedl Mabon
Yn rhoi addysg iw feibion?
Ond Duw nid chwiliwr calon.

72

A glywaist ti chwedl Sandde
Bryd Angel yn ysgardde?
Nid cadarn ond Brodyrde.

73

A glywaist ti chwedl Crallo
Lle nid oedd dim yng nghyffro?
Hawd pery i fingam wyllo.

74

A glywaist ti chwedl Marthin
Breiniol Sant i gyffredin?
Namyn Duw nid oes Tefin.

75

A glywaist ti chwedl Gwrthefyr
Fendigaid, doeth ei ystyr?
Llinyn rhy dynn hawdd y tyrr.

76

A glywaist ti chwedl Gwrhir
Gwas Teilaw, Bardd iaith gywir?
A wnel dwyll ef a dwyllir.

77

A glywaist ti chwedl Teilaw,
Pan ydoedd yn penydiau
A Duw nid doeth ymdaraw

78

A glywaist ti chwedl Rhioged
Gwedy caffael Teyrnged?
Ni chwsg Duw pan ry wared,

79

A glywaist ti chwedl Dyfan
Ferthyr yn nydd cyflafan?
Trech Duw na drwg ddarogan.

80

A glywaist ti chwedl Ilid
Sant, o'r Israel ei hendid?
Nid ynfydrwydd ond trallid.

81

A glywaist ti chwedl Gwynlliw
Fab Glywis yn cyfymliw?
Cymmhwyl ag ynfyd, nid gwiw.

82

A glywaist ti chwedl Arthur
Amherawdr mawr Benadur?
Nid difrawd on geudur.

83

A glywaist ti chwedl y Fran*
Fendigaid wrth y Clodfan?
Nid da ond Duw ei hunan.

84

A glywaist ti chwedl Angar
Mab Caw, Catfilwr clodgar?
Bid tonn calon gan alar.

85

A glywaist ti chwedl Tyfodwg
Sant o Flaenau Morganwg?
Ni ddaw da o drythyllwg.

86

A glywaist ti chwedl y Penwyn,
Yn gwrthod y medd melyn?
Nid anferthwech ond meddwyn.

87

A glywaist ti chwedl Bleiddan
Sant o Frodir Gwladforgan?
Meddu Pwyll, meddu'r cyfan.

88

A glywaist ti chwedl y Bardd
Yn rhoi cyngoreyweithas? [Glâs.
Gwell cariad y ei na'i gas.

89

A glywaist ti chwedl Rhiwallawn
Yn athrawiaethu Rhadlawn?
Lle na bo dysg ni bydd dawn.

90

A glywaist ti chwedl Gwiawn,
Dremynwr, golwg uniawn?
Duw cadarn a farn pob iawn.

91

A glywaist ti chwedl Taliesin
Yn ymddiddan a Myrddin?
Gnawd i anghall trachwerthin.

92

A glywaist ti chwedl Goliffer
Gosgorddfawr, gwyech ei nifer?
Cas pob gwir lle nis carer.

93

A glywaist ti chwedl Beuno,
Wrth bawb a gyrchant atto?
Rhag Angau ni thycia ffo.

94

A glywaist ti chwedl y Bergam
O Faelor, wrth ei lysfam?
Hwyr cam ar foethus ei tham.

95

A glywaist ti chwedl Dirynig
Milwr doeth detholedig?
Digawn Duw da i unig.

96

A glywaist ti chwedl Mathafar
Yn rhoi addysg i Fab Câr?
Hir bydd mud ym mhorth byddar.

97

A glywaist ti chwedl Ffagan?
Gwedi dangos ei ddatgan?
Lle taw Duw nid doeth yngan.

98

A glywaist ti chwedl Bardd Cwm
Yn ei henainta'i heddwch? [Llweh
Dedwydd a gar ddadolweh.

99

A glywaist ti chwedl Clodri,
Gwedi Gormes a Nidri?
Dedwydd a gar ddadoli.

100

A glywaist ti chwedl Hywel Grwm,
Wrth ei gydenw Hywel Llwm?
Pan tery Duw tery'n drwm.

101

A glywaist ti chwedl Eldad,
Yn cynghori gwyr ei wlâd?
Dedwydd, Dofydd a'i rhydd rhâd.

102

A glywaist ti chwedl Gwgan,
Gwedi dianc o'r ffwdan?
Addaw mawr a rhodd fechan.

* Brân, ond odid.—Iolo Morganwg.

103

A glywaist ti chwedl Cadwaladr,
Brenin Cymru Benbaladr?
Goreu cloff yw cloff aradr.

104

A glywaist ti chwedl y melyn,
Yn ymddyraith ai elyn?
Goreu canwyll pwyll i ddŷn.

105

A glywaist ti chwedl Comminawd
Gwr ffraeth ffrwythlawn ei geu-
dawd?

Bydd wrthgrybwyll pwyllparawd.

106

A glywaist ti chwedl Hywel
Arglwydd Cadarn yn rhyfel?
Lle bo Cariad nid ymgel.

107

A glywaist ti chwedl Talhaiarn
Wrth Arthur yrthwayw tryddarn?
Namyn Duw nid oes gadarn.

108

A glywaist ti chwedl Dathan
Sant wedi colli'r cyfan?
Duw yn anghyfiawn ni rann.

109

A glywaist ti chwedl Cadrawd
Calchfynydd, fawr fyfyrdawd?
Goreu gwraig, gwraig heb dafawd.

110

A glywaist ti chwedl hen Wrlais
Lle'dd oedd dau Bia'n creglais?
Pob cyffelyb a ymgais.

111

A glywaist ti chwedl Idwallon
Hen wr llwyd ar bwys ei ffonn?
Ag annoeth nag ymryson.

112

A glywaist ti chwedl gwrhyddysg
Yn cynghori rhag terfysg?
Nag ymryson ag annysg.

113

A glywaist ti chwedl ni wyl neb
Air ynndi'n annoethineb?
Nid harddwch ond cyttundeb.

114

A glywaist ti'r chwedl rhwng dau
Yn eiste'n eu cornelau?
Ni chymmydd Dedwydda Dadlau.

115

A glywaist ti chwedl Guttyn,
Ni wyddai o'r dorth ba du'r me-
nyn?

Naill ai cadno ai llwyn rhedyn.

116

A glywaist ti chwedl hen Awdur
A chwilwys holl dyllau Nattur?
Ni cheir afal pêr ar bren sûr.

117

A glywaist ti chwedl yr Henddyn
Wrth Arglwydd balch ysgymmyn?
Meddwl dyn Duw ai terfyn.

118

A glywaist ti chwedl hen Garadog
Pan golles hanner ceiniog?
Ni wyr llawn gwyn anghenog.

119

A glywaist ti chwedl yr hen frawd,
Am drin celfyddyd barawd?
Nid Dosparth ond Gwalystawd.

120

A glywaist ti chwedl Gwr Doeth,
Yn ymbwyllaw am gyfoeth?
Ni lwydd a gaffo annoeth.

121

A glywaist ti chwedl Matholwch,
A garai bob llonyddwch?
Gwledd i bob Dedwydd heddwch.

122

A glywaist ti chwedl un Mwynwas
Oedd Frenin mawr ei urddas?
Gwledd i Gigfrain Galanas.

123

A glywaist ti chwedl y Penllwyd
Wrth gyfeillion ei aelwyd?
Ymborth pob Dedwydd ydfwyd.

124

A glywaist ti chwedl Myfennydd
Bardd, llyfreugar ei wenydd?
Namyn Duw nid madlywydd.

125

A glywaist ti chwedl agant Nonn?
Mam Dewi Sant ydoedd honn.
Nid ynyd ond ymryson.

126

A glywaist ti chwedl Pryderi
Doetha Gwr yn cynghori?
Nid Doethineb ond tewi.

127

A glywaist ti a gant Maelwg
Marchog pellgyrch ei olwg?
Nid ymgar y da a'r drwg.

128

A glywaist chwedl Peredur,
Ynys Prydain Bennadur?
Calettach glew na llafn dur.

129

A glywaist ti chwedl Lleuddad,
Er Athraw gwr anynad?
Digared pob digariad.

130

A glywaist ti chwedl Dysgyfn-
dawd,
Ar ei Osgordd yn Bendawd?
Goreu gafael y parawd.

131

A glywaist ti chwedl Cadell
Dywysawg, ni chaid ei well?
Ni ddaw da o dra dichell.

132

A glywaist ti chwedl Anarawd
Brenin Gwynedd Bro ddidlawd?
Ni wyl annoeth ei ystawd.

133

A glywaist ti chwedl Merfyn
Brenin Powys oedd y Dŷn?
Heb ddechreu ni cheir terfyn.

134

A glywaist ti chwedl Gwrgan
Brenin clodfawr Gwladforgan?
Pob Trugarog Duw o'i rann.

135

A glywaist ti chwedl Elystan
Glodrydd, doethaf ei amcan?
Gwell rhy draws na rhy druan.

136

A glywaist ti chwedl Elfyw,
Gwr tradoeth heb ei gyfryw?
Eled rhyw ar barth pa yw.

137

A glywaist ti chwedl hen wr tlawd
Y lle ni chaffai gardawd?
A fo a blawd a gaiff flawd.

138

A glywaist ti chwedl Cybi
Sant o Fôn wrth fab Gwrgi?
Nid anffawd on drygioni.

139

A glywaist ti chwedl hen wr clau,
Athraw pryffwnt wybodau?
Taer yw'r gwir am y golau.

140

A glywaist ti chwedl gwr geir-
wir
Perchen gwybodaeth gywir?
Ni chydfydd Doeth ag enwir.

141

A glywaist ti chwedl hen Uriad
Escob doethaf yn ei wlad?
Hawdd cymmod lle bo cariad.

142

A glywaist ti chwedl Mab Merfryn,
Wrth ei chwaer yng nghoed y
Nag ymddiried i'th Elyn. [Glyn?

143

A glywaist ti chwedl Meudwy
Gwynn

Tlawd lle nid oedd llaw'n estyn?
Clyd pob clawdd i Gardottyn.

144

A glywaist ti chwedl Cyfarwydd
A weles lawer digwydd? [wydd.
Gwell crefft nag arllawd Argl-

145

A glywaist ti chwedl Difwg
Bardd hen Forgan Morganwg?
Na chais y da arhoed y drwg.

146

A glywaist ti chwedl Einion Sais
Am ddoethineb mawr ei gais?
Ynfyd ymryson a'i bais

147

A glywaist ti chwedl gwr doeth,
Wrth a golles ei gyfoeth?
Ni llwydd golud i annoeth.

148

A glywaist ti chwedl Dafydd
Brophwyd, wrth wr annedwydd?
Ymgais a Duw tra chei Ddydd.

149

A glywaist ti chwedl Gwiawn
Bach yn dangaws deddf gyfiawn?
Iawn pob iawn lle bo Iawn

150

A glywaist ti chwedl hen Bryd-
A fu Athraw yn ei ddydd? [ydd,
Heiniar Celwydd Cywilydd.

151

A glywaist ti chwedl Gwaith Foed
Lle ni charai hir addoed
Hwya'i oed aed bella i'r Coed.

152

A glywaist ti chwedl gwr hy-
bwyll,

Wrth ni wnai a ddylai pwyll?
Ni hir lwydd a geir o dwyll.

153

A glywaist ti chwedl y Derwydd
A weles ansawdd Gwledydd?
Odid o fil un Dedwydd.

154

A glywaist ti chwedl gwr cymmen
A wyddai syrth Tynghedfen?
Hiraeth pob un ei Awen.

155

A glywaist ti chwedl Cadair,
Ymhob ateb byrr ei air?
Ysgafn lwyth a glud y gwaith*

156

A glywaist ti chwedl dan y dail
Hen wr doeth ni chaid ei ail?
Pob Dedwydd Duw ai arail.

157

A glywaist ti chwedl y caeth.
Wedi gorfod pob hiraeth?
Duw da nid adwna a wnaeth.

158

A glywaist ti chwedl Ceredig
Brenin doeth detholedig?
Pawb ai droed ar syrthiedig.

159

A glywaist ti chwedl gwr golau,
Yn treiglo'i fyfyrdodau?
Uwch pob dim cofier angau.

160

A glywaist ti chwedl Ieuan
Ebostol gloyw ei ddatgan?
Cael rhad Duw cael y cyfan.

Ag felly terfyna wythugain o chwedlau'r Doethion a doeth dŷn a'u deallo, ag a elo y ganthynt.

* Gwair, ond odid, herwydd synwyr a phrifodl.—AB Iolo.

LLYMA CHWEDLAU DOETHION ERAILL, I DDOETH
AU DEALLO.

- | | |
|--|--|
| 1. | 10. |
| A glywaist ti chwedl y Fran
Yndarogan Tynghedfen? [wenn,
Llaw lan diogel ei pherchen. | A glywaist ti chwedl y fwyalch
Yn ymguddiaw rhag y Gwalch?
Nid oes ond amser i Falch. |
| 2. | 11. |
| A glywaist ti chwedl yr Eös
Yn y Coedydd yr hafnos? [ddos.
Gnawd uwch benn Dedwydd di- | A glywaist ti chwedl y Bi
Le 'ddoedd nyth i'w chysgodi?
Trech llafur na diriedi. |
| 3. | 12. |
| A glywaist ti chwedl y Pelau,
Gyda'i adar yn chwarau?
Ymhob rhith y daw Angau. | A glywaist ti chwedl y Grugiari
Wrth y Barcut ym mlaen dar?
Doeth a Diriaid nid ymgar. |
| 4. | 13. |
| A glywaist ti chwedl fach y Dryw
Yn y nyth lle'dd oedd yn byw?
Elid rhyw ar barth pa yw. | A glywaist ti chwedl y Llyffan
Yn ymgaru ai Maban?
Car pob rhyw rhith ei hunan. |
| 5. | 14. |
| A glywaist ti chwedl yr Hebog
Yn ymddiddan a Budrog?
Cyfaill Blaidd Bugail diog. | A glywaist ti chwedl y Gath
Am y llygod yn chwiltath?
Gnawd i bob rhyw ei gydfath. |
| 6. | 15. |
| A glywaist ti chwedl Dylluan
Yn y coed wrthi i hunan?
Dedwydd digon ei amcan. | A glywaist ti chwedl y Llew,
Yn ymddiosg ai henflew?
Ymhob gwlad y megir glew. |
| 7. | 16. |
| A glywaist ti chwedl aderyn
O ganol y llwyn celyn?
Ni ddaw da hir arofynd. | A glywaist ti chwedl yr Enid
Yn y gwyddel rhag ymlid?
Drwg pechawd oi hir erlid. |
| 8. | 17. |
| A glywaist ti chwedl Morgrugyn
Yn y gaeaf o'i dyddyn?
Bid gwsg Haf gaeaf newyn. | A glywaist ti chwedl y colwyn
Gwedi dyfod dydd achwyn?
Nid twyll ond Gwenaith morwyn. |
| 9. | 18. |
| A glywaist ti chwedl ysguthan
Ar goedydd yn lle cwynfan?
Gossymdaith Dÿn Duw ai rann. | A glywaist ti chwedl y Pysg
Wrth ymdraphull ymhlith gwrwg?
Ys trech nattur nag addysg. |

19.

A glywaist ti chwedl yr ŵydd
Gwedi gweled pob damcwydd?
Nid ymgais diriaid ai swydd.

20.

A glywaist ti chwedl y Frân,
Ar bren uchaf y Berllan?
Gwell rhy draws na rhy drïan.

21.

A glywaist ti chwedl y Gegin
Yn ymddadwrdd am ddatrin?
Na fid dy wraig dy gyfrin.

22.

A glywaist ti chwedl y Barcud
Wrth ddŷn ysglyfgarglewddrud?
Moch fydd barn pob ehud.

23.

A glywaist ti chwedl y Fronfraith
Wrth wr a rodiai'r diffaith?
Na fid gelyn dy gydymaith.

24.

A glywaist ti chwedl yr hwch
Yn ymloi mewn llaid a llwch?
Anferth a gar anferthwch.

25.

A glywaist ti chwedl y Ci
Yn y clawdd wedi cloffi?
Gwybydder barn cyn crogi.

26.

A glywaist ti chwedl yr Eryr
Gwedi treiglaw pob tymyr?
Nid rhwystr un gwaith ei ystyr.

27.

A glywaist ti chwedl y llinos
Yn ymborth ar Addon rhôs?
Dyfydd dihirwaith aros.

28.

A glywaist ti chwedl yr hedydd
Yn yr wybren foreddydd?
Ni all drwg drygu Dedwydd.

29.

A glywaist ti chwedl yr wylan
Wrth ei chwaer yn ymddiddan?
A rwy gwyn ni ry gwynfan.

30.

A glywaist ti chwedl Peneuryn
A ganai 'ng ngŵydd y Dyffryn?
A lygrwys Duw a lygrwys Dŷn.

31.

A glywaist ti chwedl y Gôg,
Wrth ganu ar fore gwllithog?
Anhydyn pob afrywiog.

32.

A glywaist ti chwedl Bronrhuddyn
Y lle bu er yn Blentyn?
Na chais Ddiriaid yn ei dyddyn.*

33.

A glywaist ti chwedl y Mochyn
Yn ymswyn rhag Camp Bryntyn?
Nid ffaidd ond y Meddwyn.

34.

A glywaist ti chwedl y mau
Gwedi datgan pob chwedlau?
Nid doeth ond dethol y gorau.

Ag felly terfyna hynn o chwedlau'r Doethion.

A gwynn ei fyd y Dyn a fo mor ddoeth ar Mochyn.

* Cais Ddedwydd yn ei dyddyn.—Felly mewn llaw ddiweddar yn yr hen lyfr.—Iolo Morgangwg.

ENGLYNION*

Goreugwaith un dyn Gwarchadw ty a thyddyn	Goreugwaith ar y cyfan Dedwydd ymgais ag amcan.
Goreugwaith un mab mad Syberwyd i fam a thad.	Goreugwaith Bardd Arail molianus hardd.
Goreugwaith un merch Ystyriaw'n dda pa annerch	Goreugwaith Arglwydd Ymdrefn yn gyfiawn ei swydd
Goreugwaith un gwr Ystyr a ddylai gwladwr	Goreugwaith pob call Ymoludaw yn neall
Goreugwaith un gwraig Syw ar ei choroph ai saig.	Goreugwaith pob doeth, Dangos yn neddf pa goeth.
Goreugwaith un dydd Dala Tifedd wrth fedydd.	Goreugwaith pob gwybod Chwiliaw ei galon ai hadnabod
Ag felly terfyna.—O Lyfr Esaia Powel.	

ENGLYNION Y GORUGIAU

Sef y Bardd Glas o'r Gadair ai cant

1.	4.
Goruc Menw ap y Teirgwaedd Gof glud ar a glywai floedd. A chyd a chadw cyfarwydd.	Gorug Rhufawn ar gledrad A cherdd a chof caffaeliad Iawnder greddf ar ddeddf cywlad.
2.	5.
Gorug Einigan Gawr hên Llythyru llafar addien A dosparth dispwyll Awen.	Goruc Gwron gyfreuau A threfn lefn ar lef odlau A chyfawd gorddawd goreuau.
3.	6.
Goruc Tydain Tad Awen Oi fyfyrdawd fawr aren, Glof ar gof gan gerdd gymhen.	Goruc Hugadarn Gymmhrain Ar Gymry Ynys Prydain I ddyffryd o ddeffro Bain

* Maent yn ddiennw yn rhagysgrif fy Nhad.—AB Iolo.

- | | |
|---|--|
| <p>7.
Goruc Prydain ab Aedd Mawr
Gyfrdanc ystre gyfarlawr
Barn gan Benraith gymmrodawr.</p> | <p>16.
Goruc Brân ap Llyr Llediaith,
Rhag drwg o dranc yn Niffaith,
Ffydd ynghrist ynghrair dyraith.</p> |
| <p>8.
Goruc Arthen ap Arth Hen
Rhag ffwyr Esgar ac asgen,
Llafn ynghad ynghadr aerfen.</p> | <p>17.
Goruc Coel fab Cyllin Fardd
Drefn gynneddf ar gain Osgordd,
Golychawd a gwawd Gwengerdd.</p> |
| <p>9.
Goruc Dyfnwal Dâr moelmut
Rhag anneddf a ffawdd ehut
Deddfeu a cherddeu cydlut</p> | <p>18.
Goruc Manawydan ddoeth,
Gwedi galar a Bâr poeth,
Gaer Esgyrn Oeth ac Annoeth.</p> |
| <p>10.
Goruc Ffermael ap Ffêr Gwyllt
Gwallofiad Gwelleifau Gwellt
Agwrdd yn âr Dâr Dryollt.</p> | <p>19.
Goruc Lleirwg gwâr unben
Fab Coel fab Cyllin Aren,
Gyfyrygeu a Llyfreu Llên</p> |
| <p>11.
Goruc Coll ap Collfrewi
Rhag amgyrch amgymphelri
Yd yn ar a chyferi.</p> | <p>20.
Goruc Gwdion ap Dôn Ren
Gan gynghor Mor ap Morien
Ar Dir Gwynedd Dynghedfen.</p> |
| <p>12.
Goruc Beli mawr mynawg
Ab Myhogan* wr bannawg
Wyr meirch a threfneu march-
awg.</p> | <p>21.
Goruc Sefyr Udd waith Cain
Ar draws dros Ynys Prydain,
Rhag Gwerin Gythrawl gwawl
Tain.</p> |
| <p>13.
Goruc Greidiawl lynchgesawe
Unben mawr mor ewynawe,
Gweilgi gwelwgan yn eichiawe.</p> | <p>22.
Goruc Garmon Gwr mwyn ef
Waith cyfrain cain cyfystref,
Saint yng Nghôr yng nghaeraddef.</p> |
| <p>14.
Goruc Alawn Fardd Prydain,
Gofrodeu cleu clodysgein,
Coel cyd celfyddyd cyfrein.</p> | <p>23.
Goruc Cynwyd Cynwydion
Cynnwyre cain Ddefnogion,
Ag ar Gorau Deddfau doethion.</p> |
| <p>15.
Goruc Caswallawn wallofiad
Ffo ystrin ar Estrawn Gâd
A gwared gwerin a'u Gwlad.</p> | <p>24.
Goruc Manawydan ddoeth
Rhag Twyll Brad Gwlad a Chyf-
oeth
Garchar Pyd Oeth ag Annoeth</p> |

* I. e. Mynogan.—(Iolo)

25.

Goruc Urien fab Cynfarch
Yn Aberllyw lladd dihafarch
Ugeinmil Gwyddyl Gwr March.

26.

Goruc Morfudd Merch Urien
Gwerinaw gwybodau Llên ;
A dangaws deuparth Awen.

27.

Goruc Owain ap Urien
Yn Aberllychwr rhag Asgen
Rhaith Barn a Charn a Chaer
Wenn.

28.

Goruc Plennydd ab Hu hydr
Arwain coel cylmau cymydr,
Awgrym cof cyfawd ar glydr.

29.

Goruc Llew ap Cynfarch Fardd
Orwyddawd ar blagawd Hwrdd
Yn addawd Llên a chof Cerdd.

30.

Goruc Arthur amherawdr
Eirf ar bais Sais yn ffoawdr,
Ger Llu ef Goreu Llywiawdr.

31.

Goruc Rhodri ap Merfyn
Frych ei wyneb, Gwr terwyn ;
Gymmrawd ar Gymru Derfyn

32.

Goruc Hywel Fab Cadell,
Da oedd, ac ni chaid ei well
Rhaith a chyfraith ar Freithell
Y Bardd Glas o'r Gadair ai cant.

Bu farw Alfred yn 899. Gwnaeth Hywel ei Gyfraith yn 927.
Gallasai'r Bardd Glas fyw i ganu Clod a chof Hywel Dda.

I OLO MORGANWYG.

GORUGIAU ETTO,

Goruc Hywel fab Cadell
Hynaf Rodri Ystafell
Ddosparth Brawd a defawd gwell.

Goruc Bran ap Llyr Llediaith,
Gorddawd arawd yn Nifaith,
A chyfawd rhawd rhag anraith.

Goruc Cystenin Carneu,
Deddf yng ngreddf anrhyfertheu,
A gwleith gweith gorwyau

Goruc Garmon mab Rhedic
Arwedd ar wŷr eglwysic
A ffydd yn Nydd neuedic.

Goruc Mor ap Morien Fraint
Ar Dir Cymru gyfurddaint
Arad yn rhydd a ffydd Saint

Goruc Garmon Sant Gymri,
A Braint Saint ag Eglwysi,
A llaith llawd Llyr Merini

LLYMA BROFFWYDOLIAETH Y CORONOG FAB*

1. CORONOG Faban medd Aneurin
Wrth Seiniau Cylfeirdd Cor Llanfeithin,
Canol ei oes ef nertha'i werin
Ac yn y diwedd y bydd Frenin.
2. Coronog Faban yn y dydd cynta
A gant ganon yn y gwenydfa
Ac Awen gogoniant o'r uchelfa
Gan dardd bydoedd a byw Adda
Ganfloedd Bydoed (mewn llyfr arall)—H. Y.
3. Coronog Faban goreu dawn Deön
A Ddyfu o nef er nawdd dynion
Yn arwedd ei addysg yn oen tirion,
Ac yna a las gan lu Iuddewon,
4. Coronog Faban penna yw Iesu,
O dir Gogelau y daw i Gymru,
Gwynfyd geli pan weler Teulu,
A meibion dyddon dysg weinyddu.
5. Coronog Faban llyma beth rhyfedd
gan ddyfod cawod a gil i'r gogledd,
Ef gyll yn Lloegr Arglwyddiaeth mawredd,
Ac etto Brenin fydd e'n y diwedd.
6. Coronog Faban medd *Barddoni*
A nertha Brydain o gefn Gweilgi,
Pan ddel Llynges daer hyd Gaer Ceri,
Yno gwae Saeson a'u holl gymhelri.
7. Coronog Faban a dynnir ei adanedd
O waelod Lloegr hyd llwybr y gogledd.
Ond un o'i esgyll a dyf yn y diwedd,
Yn nheyrnas y beilechion a bydd rhyfedd.

* O Lyfr Mr. Sanders, o'r Nortwn.

8. Coronog Faban medd hen Dderwyddon
A wna ryfeddod ym mysg Iuddewon,
Pair iddynt gredu fal Cristnogion
I Grist a golles waed ei galon.
9. Coronog Faban medd doethion Dwyrain,
A dry dros foroedd i diroedd Deain,
I ddwyn tair Coron, cariad ddarwain,
Ac i ddwyn urddas i Ynys Prydain.
10. Coronog Faban credwn yn ddiau,
Yn Nhrw Bablon a gyfyd Eglwysau,
Brenin Coronog fydd ef heb ammau,
Ar bawb fe orfydd yn ddiarfau.
11. Coronog Faban a orchfyga,
O'r mor gogledd hyd Tir Iwdaia,
Pob cenedl ai cais am y cynta,
Gwae Feilch o'i ddyfod i fawr ddifa.
12. Coronog Faban gwedi'r gadfel
Er moroedd a thiroedd a thra rhyfel,
A glywir yn glaer a llais Archangel
Yn Nyffryn Euron ar y tir isel.
13. Coronog Faban medd y Barddas,
a eilw yn galonog o'r galanas,
Yn ol caethyd cyfyd ei urddas,
Hyd glawr y byd y bydd gwynias,
14. Coronog Faban â dan irgyll
A Chaerau Cedyrn y pair yn gandryll,
Fe gyfyd Baner yn ei sefyll,
Gwae Arglwydd wrth gledd. Pen y Pebyll,
15. Coronog Faban gan gaseion
A sengir yn llaid a chaiff drallodion,
Ac yn y diwedd, dial ar Alon,
A thra bo byth bydd Frenin ar ddyinion.

16. Coronog Faban ceir ef gyferbyn
 Angerdd y llew a llif dyffryn,
 Ac am ei orsedd, fal y perthyn,
 Gwyn ei fyd o fab a fo'n ei ganlyn.
 Aneurin Gwawdrydd ai Cant.

ENGLYNION ERAILL I'R CORONOG FABAN, A GANT
 IONAS ATHRAW MYNYW.

1. CORONOG Faban medd y Beirddion
 A ddaeth or nef i wlad Iuddewon.
 Ac yno ei erlid a llid creulon,
 A'i ladd ar y grog rhwng dau ladron.
2. Coronog Faban Wawr y trydedydd
 A Gyfodes o'r bedd yn ysplennydd,
 Ac yn ei lawnoed ef a ddyrydd
 I bawb o'r holl fyd gred a bedydd
3. Coronog Faban gwedi mawr draha,
 Medd Ieuan Broffwyd drei y passia
 ef a gaiff orfod ar bob tyrfa,
 Ac ar frenhinoedd Byd bydd y penna.
4. Coronog Faban a gaiff mawr urddas
 Medd Bardd o broffwyd a elwir Gildas,
 yn Rhufain dir ef a wna farddas
 Ai gasogion a syrth mewn anras.
5. Coronog Faban a gaiff ei gyfarch
 gan werin ym Mhrydain er cael ammharch
 Ef ddiane o ddwyllaw fal hen Lywarch,
 Fal y diengis Ionas o fol y morfarch
6. Coronog Faban medd Taliesin
 Ac y lleir yn llyfrau Merddyn,
 Gwae a gant ragddaw ruthr ei elin
 Ban dyddwg yn wlad ei gad gyflin.

7. Coronog Faban medd Ernigus
 Hen Broffwyd yr Alban a fydd allus
 Gwisg yn ei Ieunctid goron ddestlus,
 Ag yn ei henaint bydd Ior dawnus.
8. Coronog Faban medd Bardd arall,
 Mydonwy Escob, a fydd rÿall
 Ef yn ei Ieuenctid a las yn ddiball
 Ef yn ei lawnoed a ladd a bwyall
9. Coronog Faban gwedi'r gorymfel
 Ar foroedd a thiroedd a thwrw rhyfel,
 Ef a glëddir tra thridiau medd yr Archangel
 Yn Nyffryn Josaphat yn y tir isel.
10. Coronog Faban credwch yn hylwydd,
 A ddwg y groes gyda Sancteiddrwydd,
 Ac yn ei amser ni ludd un aflwydd
 Efe ymddengys yn wir ac yn ebrwydd.
11. Coronog Faban a gyfyd Dduw Gwenar
 Yn erbyn Gog Magog a'u holl nifer
 Yno gwae'r Sarsin a fo'n ei amser,
 A gwae battelu dan ei faner.
12. Coronog Faban a gyfyd lynges,
 Medd Sibli ddoeth a fu Frenhines,
 Ac i'r Twrciaid gwna'r mawr afles,
 A chilio rhagddo nid oes neges.
13. Coronog Faban ar dir a moroedd
 A geidw yn gadarn ei holl luoedd
 Er llid yr anghred a'u niferoedd,
 Ag yn y diwedd a'n dwg i'r nefoedd. *al.* au dwg &c
 Ionas Athraw M ynywai Cant.

ENGLYNION ETTO I'R CORONOG FABAN A GANT RHYS
GOCH O'R RYRI.

1. Coronog Faban medd Rhys o'r Ryri,
A ddenfyn llynges i Aberteifi,
Ag yn Swydd Benfro y bydd gweiddi
Pan ddel ai wyr i dir Pryderi.
2. Coronog Faban medd merddin Emrys
A gwr a elwir *Iohannis Collescensis*,
Yn ei Ieuenetid y bydd gwr ofnus
Ac yn ei henaint y bydd gwr grymmus,
3. Coronog Faban a ddenfyn i'r Coedgyll
Ac at y gwyr sy'n cadw'r Cestyll,
ac yna codi Banerau'n eu sefyll,
Gwae Arglwydd Rhaglan pan wel y Pebyll.
4. Coronog Faban pan ddel ei henaint,
Drwy nerth Iesu, pen yr holl-Saint
A fyn gyfiawnder i'w holl geraint,
Er ei fod heddyw yn Salw ddichwaint.
ddifraint, in al.
5. Coronog Faban a dynn i'r mawredd.
O waelod Lloegr y cyrch i'r Gogledd,
Ef yw un asgell a gyfyd o Wynedd,
I ynnill Prydain hynn fydd ryfedd.
6. Coronog Faban credwch yn ddiau,
A ddaw a'i llynges i Aberdaugleddau,
yno crÿn Lloegr pan clywir chwedlau
Am un nis bawdd dwr deyrnas faddeu.
7. Coronog Faban a gaiff Dir Prydain
Ei enw adwaenir ym Mharlant Llundain,
Trwy gyngyr saith iaith a saith ugain,
Gwae'r Sais a'i clyw onid ar ddamwain.

8. Coronog Faban medd Doethion Rhufain
 Yn ol amser Iesu mab Rhiaïn,
 Mil pumcant deg a phedwar ugain
 a ddial draha gwyr Tre Llundain,
 Rhys Goch o'r Ryri ai cant. (Quære ?)

Y Caniadau rhagflaenol a gefais o Lyfr Huw Huws, y Bardd Coch o Fon yn niwedd y flwyddyn 1771.

Fe allai mai gwir waith Aneurin yw'r gan gyntaf, a'r Testun mewn rhann i'w tralodion ac, agos, dadymchweliad yr Eglwys Gristnogawl yn Ynys Prydain dan ormes y Saeson. Ac mewn rhann darogan ei hadfywiad ymhen hir o amser yn Ynys Prydain, ai gwaith yn goresgyn yr holl fyd; nid oes yn honn nemawr neu ddim o'r ofergoelion pabaidd; ac am y meddyliau, ni pherthynant i oesoedd diweddarach nac Aneurin, ag nid oes ynddi ddim yn y byd a ellir meddwl a barnu ei fod wedi ei ysgrifenu ymhlaid ac er annogaeth a chefnocid i unrhyw Farn neu ragfarn, i unrhyw Drefn a Dosparth, mewn na gwlad nag Eglwys yn unrhyw oes ac amser canlynawl. Hefyd, nid yw'r Bardd, pwy bynnag ydoedd, ai Aneurin ai arall, yn cymmeryd arno i brophwydaw am ddim yn y byd ond a geffir yn amlwg yn yr ysgrythyrau, Sef er maint y rhwystr ar amgudd a ddelai ar Gristnogaeth, yr adgyfodai yn y diwedd, megis o farw yn fyw; ac os felly, ceid ei weled yn ddilys yn Ynys Prydain, yn gystal ac mewn gwledydd eraill; canys ynnill yr holl fyd yn y diwedd a wna'r Grefydd Gristnogawl ai hegwyddorion tangnefgar. Y mae iaith a mydr y gân, hefyd, yn cyttuno'n dda ddigon ac Iaith amser Aneurin. Ac nid oes yn hon, nac yn un o'r amgylchiadau eraill a nodais, a ludd i Aneurin y Gan hon. Er hynny nid analledig iddi fod yn waith mwy diweddar. Ni fyddwn haerllug ymhlaid y naill na'r llall o'r ddwy farn. A fo cyfarwydd a'r hen Farddoniaeth Gymraeg, barked hid eithaf ei wybod ai ddeall; nid iawn i amgen agor ei fin.

Gildas ap y Caw ai cant medd rhau Lyfrau. Brawd Aneurin oedd Gildas, medd ambell hen Lyfr achau, eithr yr un, yn fy marn i, oedd Aneurin a Gildas, canys yr un peth yn y Saesoneg yw Gildas ac yw Aneurin yn Gymraeg, a Chrysostom yn y Groeg. Y mae rhai amgylchiadau eraill, pe bai lle yma iddynt, a brofant yn lled amlwg hynn o beth.

Am yr ail gan, hawdd y dichon mai gwaith Ionas, Athraw Mynyw, yw hi. Ni ellais erioed ddeall i'm boddlondeb, pa amser

ydoedd Ionas yn byw, fy marn yw mai ynghyleh y flwyddyn 1200 yr oedd ef. Hoff oedd gantho, yn ei gerddi, ddynewared Taliesin, ac eraill or hen feirdd. Yn ei gan ef, *Iesu Grist*, fal ynghan Aneurin, yw'r *Coronog Faban*. Amcan y Gan hon yw annog i ymarfogi yn y Crwysgadau (Crusades) yn erbyn y *Sarsiniaid* ar *Turciaid*. Yr oedd Athraw Mynyw, debygid, yn rywfaint o ysgolhaig; y mae yn ei gerddi rai Meddyliau lled anghyffredin, yn enwedig i'n hamseroedd ni.

Dywedir mai Gwaith Rhys Goch o'r Yri yw'r drydydd Gân; nid annhebyg i wir hynny. Nid mwyach *Iesu Grist*, eithr Harri, Iarll Rhismwnt, neu yn hyttrach ei hynaif, Owain Tudur, o Fon, yw ei Goronog Faban ef. Yn amser Rhys Goch, yr oedd gwybod-aeth grefyddol ac ysgrythurol, mor isel ei sawdd ynghymru, fal y gellir barnu'n dêg ddigon, nad oedd hen Fardd yr Yri yn deall achos ac amcan caniadau Aneurin ac Ionas Mynyw. Cymmerer hynn, bydded a fynno, yn lle meddwl, neu ddychymmyg, yn hyttrach na'm barn, yn hynn o beth.

Y mae'r Tair Can uchod wedi eu cymmysgu, neu eu cymhlethu, yn un, mewn llawer llyfr; ac ynddynt fwy neu lai o ddiffygion a chamsynniadau, fal y gwelir, mewn rhan, yn y Copïau canlynol.—(*Iolo Morganwg.*)

AWDL Y CORONOG FABAN.*

1. CORONOG Faban medd Taliesin
A ddarlleir yn llyfrau Merddin,
Ynghanol ei oes ef nertha Werin
Ac yn niwedd ei oes ef a fydd Brenin.
2. Coronog Faban a gyfyd Dduw gwener
Yn erbyn Gog Magog ai holl nifer
Ac a dynn battelu o dan ei fanner
Yno gwae'r Sais a fo'n ei amser.
3. Coronog Faban penna yw Iesu
O dir y Gogledd y daw i Gymru,
Gwynfyd Elise pan welir teulu,
A meibion *Gruffudd* ac wyrion Dyddgu.

* O Lyfr Mr. Williams, Llanrhwst.

4. Coronog Faban llyma beth rhyfedd
Rhag ofn cafod ef a gilia i'r Gogledd,
Fe gyll yn Lloegr Arglwyddiaeth ryfedd,
Ac etto Brenin fydd e'n y diwedd.
5. Coronog Faban credwn yn ddiau,
Y daw llynges i Aberdaugleddau,
Yna y cryn Lloegr pan glywer chwedlau,
A'r ynys bawdd dwr Deyrnas maddau.
6. Coronog Faban medd proffwydi
a ddaw i Brydain dros gefn Gweilgi
Pan ddel llynges daer i Gaergybi.
Yna gwae'r Saeson ai holl gwmpeini gymhelri, *in al.*
7. Coronog faban a dynnir adanedd
O waelod Lloegr hyd y gogledd,
Ond un o'i esgyll a geidw Gwynedd
Ac yn nheyrnas y beilchion hyn sy ryfedd.
8. Coronog faban medd Henric^{ws}
Hen brophwyd yr Alban a fudd gall^{us}
Ac yn eu ieuencid y goron ddystl^{ws}
Ac yn ei henaint a fydd ddown^{ws}
9. Coronog faban medd prophwyd arall
Mettonys Esgob a fu rygall,
Ac yn eu ieuencid ef a ladd a bwyall,
Ac yn ei henaint ef a ladd yn ddiball.
10. Coronog faban a gyfyd Llynges,
Medd Sibli ddoeth a fu Frenhines,
Ac i'r Twrciaid ef a wna afles,
a chilio rhagddo nid oes neges.
11. Coronog faban medd Apostolion,
A wna rhyfeddod ym mysg yr Iuddewon.
Ef a bair iddynt gredu fel Cristnogion
I Grist golli gwaed ei galon.

12. Coronog Faban medd doëthion Rhufain
 A â dros for i dir y Dwyrain,
 I ddwyn tair Coron ef fydd ar ddamwain
 Ac i ddwyn urddas i Ynys Prydain.
13. Coronog faban a gaiff mawr urddas
 Medd hen broffwyd a elwir Gildas,
 Yn Rhufain tir ef a wna urddas,
 Ai gasogion a syrth mewn anras.
14. Coronog faban gwedi mawr draha,
 Medd Ioannes drei y passia
 Ef a gaiff gorfod hyd Gaerdroea,
 Ac yn mysg Brenhinoedd ef a fudd *penna*.
15. Coronog faban yn ddiammau,
 Yn Nhwr Babilon a gyfyd Eglwysau
 Brenin coronog fydd yn ddiammau
 Gwae'r Twre a'r Sarsiniaid pan ddel heb ammau.
16. Coronog faban a gaiff ei gyfarch,
 rhag ofn i Loegr gaffael ammharch,
 fe ddianc o ddwylo hil Lwarch,
 fel y diengis Sionas o fol y morfarch.
17. Coronog faban wedi mawr drafel,
 Dros foroedd a thiroedd a chwedi rhyfel,
 fo ai clywir medd yr Archangel,
 Yn Nyffryn Siossifath yn y tir isel.
18. Coronog faban a dan irgyll
 At y gwyr sy' yn y Cestyll,
 fo gyfyd baner yn ei sefyll,
 Gwae Arglwydd Rhaglan penn y Pebyll.

Ag felly y Terfyna

O Lyfr J. Wms. o Lanrwst
 gan Owain Jones.

AWDL CORONOG FABAN MEWN MODD ARALL*

1. CORONOG faban medd Aneurin·
ac a ddarlleir yn Llyfrau Merddin
Ynghanol ei oes ef a nerth ei werin,
Ac yn y diwedd bydd eu brenin,
- 2: Coronog faban yn y dydd cynta
A gant ei ganon yng ngwenydfa,
A cherddi gogoniant yr uchelfa
gan floedd bydoedd a byw Adda.
3. Coronog faban credwn yw'r Iesu
O dir y Gogledd y daw i Gymru,
Gwynfyd ei wal ban wele'r teulu
A meibion Dyddon dysg weinyddu
4. Coronog faban medd Barddoni
Daw i dir Prydain dros gefn gweilgi
Ai llyngesdaer o Gaer Geleri
Yna gwae Saeson gan gymhelri,
5. Coronog faban a dynnir ei adeinedd,
O waelod lloegr hyd lwybr y gogledd
A'i holl esgyll a dyf yn y diwedd
Yn nheyrnas y beilchion a bydd rhyfedd.
6. Coronog faban credwn yn ddiau
A ddenfyn llynges i Aber Cleddau,
yn y cryn Lloegr lle delo'r chwedlau,
Yn ysbawdd dwr deyrnas maddau.
7. Coronog faban llyma beth rhyfedd
Rhag ofn cafod a gil i'r Gogledd,
Cyll yn Nhir Lloegr yn llwyr ei fawredd,
Ac etto brenin bydd ef yn y diwedd.

* O Lyfr Ifan o'r Fferm.

8. Coronog faban a gyfyd Ddyw Gwener,
Yn erbyn Gog Magog a'u henifer,
yna gwae Sarsin a fo'n ei amser,
A gwae rhyfelu dan ei faner.
9. Coronog faban medd Derwyddon
A wna waith rhyfedd ym mysg Iddewon,
Pair iddynt gredu yn Gristnogion
I Grist a golles waed ei galon
10. Coronog faban medd Doethion Deäin,
A dry dros foroedd o Dir y Dwyrain,
I ddwyn tair coron cariad ddarwain,
Ag i ddwyn iawn i Ynys Prydain.
11. Coronog faban creder yn ddiau
Yn Nhwr Babilon y cyfyd Eglwysau
Brenin coronog y bydd heb ammau,
Ar bawb fe orfydd yn ddiarfau.
12. Coronog faban a orchfyga
O For y gogledd hyg gaerau Iwdaia,
Pob cenedl ai cais am y cynta,
Gwae ddiriaid oi ddyfod gan fawr ddifa.
13. Coronog faban medd y Barddas
A eilw yn galonog o'r galanas,
Ynol caethfyd cyfyd i urddas
Hyd bannau byd y bydd gwynias.
14. Coronog faban a â dan irgyll
A gado'r gwyr sydd yn y Cestyll,
Fe gyfyd baner yn ei sefyll
Yn Arglwydd eurglod pen y pebyll.
15. Coronog faban gwedi'r gadfel
Ar foroedd a thiroedd a thra rhyfel,
A glywir yn glaer medd yr Archangel
Yn Nyffryn Ebron ar dir isel.

16. Coronog faban ceir ef gyferbyn,
 Ag angerdd y llew a llif dyffryn,
 ag am ei orsedd fal y perthyn
 Gwyn ei fyd o fab a fo'n ei ganlyn.
17. Coronog faban gan gaseion
 A sernir y llaid a chaiff drallodion,
 Ac yn y diwedd dial ar alon
 Ac hyd fyth brenin y bydd ar ddynion.
18. Coronog faban goreu dawn Huon
 a ddyfu o nef er nawdd dynion.
 Yn arwedd ei addysg yn oen tirion,
 Ac efe a las gan lu Iuddewon.
19. Coronog-faban a ddaw fal Ionas
 O fol y morfarch mawr fydd ei urddas,
 Efe a esyd pob gradd yn ei addas
 Ef yn bennaf un Gwr Twr Teyrnas.
20. Coronog faban medd Aneurin
 Wrth Seiniau Cylfeirdd Cor Llanfeithin
 Ef goreu Ner nerth ei werin,
 Ag ar bobloedd byd y bydd frenin.
 Gildas Broffwyd ai cant.

LLYMA ETTO AWDL ARALL I'R CORONOG FABAN,

(anghof o ba lyfr a'i tynnais, fallai mai o ryw Lyfr yn Ysgol y
 Cymry yn Llundain.) Medd Iolo Morganwg.

1. CORONOG faban medd Taliesin
 A ddarllëir yn llyfrau Merddin
 Ynghanol ei oes ef a nertha werin,
 Ac yn niwedd ei oes ef a fydd brenin.
2. Coronog faban yn y dydd cynta
 A gant ganon yn y gwenydfa
 Ac Awen gogoniant o'r uchelfa
 Gan dardd bydoedd a byw Adda.

3. Coronog faban er nawdd dynion
A ddyfu o nef i wlad y Ganon
Yn arwedd ei addysg yn oen tirion,
Ef yno a las gan lu Iuddewon.
4. Coronog faban a gyfyd dydd gwener
Yn erbyn Gog Magog a'i holl nifer
Yno gwae'r Sais a fo'n ei amser
A gwae battelu dan eu faner.
5. Coronog faban penna yw Iesu
O Dir y Gogledd y daw i Gymru,
Gwyn fyd Elise pan weler teulu
A meibion dyddon dysg weinyddu.
6. Coronog faban llyma beth rhyfedd,
Rhag ofn cafod a gil i'r gogledd,
E gyll yn Lloegr Arglwyddiaeth Rheufedd
Ac etto brenin y fydd ef yn y diwedd.
7. Coronog faban credwn yn ddiâu
Daw a'i llynges i Aberdaugleddau,
Yno y cryn Lloegr pan glywer chwedlau,
Ar Ynys bawdd dwr deyrnas maddau.
8. Coronog faban medd Barddoni
a ddaw i Brydain dros gefn gweilgi
Pan ddel llynges daer i Gaer Gybi,
Yno gwae Saeson au holl gymhelri,
9. Coronog faban a dynnir ei adanedd
O waelod Lloegr hyd llwybr y Gogledd,
Ond un o'i esgyll a dyf yn y diwedd
Yn Nheyrnas y beilchion a bydd ryfedd.
10. Coronog faban medd Ernigus
Hen broffiwyd yr Alban a fydd allus,
Gwisg yn ei ieuenctid goron ddestlus
Ag yn ei henaint bydd Ior dawnus.

11. Coronog faban medd Bardd arall
Mydonwy Escob a fydd rýall,
Ef yn ei ieuenetid a las yn ddiball
Ef yn ei lawnoed a ladd a bwyall.
12. Coronog faban a gyfyd llynges
Medd Sibli ddoeth a fu Frenhines,
Ac i'r Twrciaid efe a wna afles,
A chilio rhagddo nid oes neges.
13. Coronog faban medd Derwyddon
A wna ryfeddod ym mysg Iuddewon,
Pair iddynt gredu fal Cristnogion
I Grist Golli Gwaed ei ddwyfron.
14. Coronog faban medd doethion dëain
A dry dros for i Dir Prydain,
I ddwyn tair Coron, cariad ddarwain
Ag i ddwyn urddas i Ynys Prydain
15. Coronog faban a gaiff mawr urddas
Medd Bardd o broffwyd a elwir Gildas,
Yn Rhufain dir ef a wna farddas,
A'i gasogion a syrth mewn anras.
16. Coronog faban gwedi mawr draha
Medd Ieuan broffwyd drei y passia,
Ef a gaiff orfod ar bob tyrfa,
Ag ar frenhinoedd byd bydd penna.
17. Coronog faban credwn yn ddiâu,
Yn nhwr Bablon a gyfyd Eglwysau,
Brenin coronog fydd ef yn ddiammau,
Ar bawb fe orfydd yn ddiarfau.
18. Coronog faban a orchfyga
O'r mor gogledd hyd dir Iwdaia,
Pob Cenedl ai cais am y cynta
Gwae'r Twrc oi ddyfod gan fawr ddifa.

19. Coronog faban a gaiff ei gyfarch
 Rhag ofn i Brydain gaffael ammharch
 Fe ddianc o ddwylo fal hen Lywarch,
 Fal y diengis Sionas o fol morfarch.
20. Coronog faban gwedi'r gadfel
 Ar foroedd a thiroedd a thra rhyfel
 A glywir yn glaer medd yr Archangel
 Yn Nyffryn Ebron yn y tir isel.
21. Coronog faban medd y Barddas,
 A eilw yn galonog o'r galanas,
 Ynol caethyd cyfyd ei urddas
 Hyd bawr y byd y bydd gwynnias.
22. Coronog faban a dân yr irgyll,
 Ac at y gwŷr sydd yn y Cestyll,
 Fe gyfyd baner yn ei sefyll
 Gwae Arglwydd wrth gledd Pen y Pebyll.
23. Coronog faban cair ef gyferbyn
 Angerdd y llew a llif dyffryn,
 Ac am ei orsedd fal y perthyn,
 Gwynfyd o fab a fo'n ei ganlyn.
24. Coronog faban gan gaseion
 A sengir yn llaid a chaiff drallodion,
 Ac yn y diwedd dial ar Alon,
 A thra bo byth bydd frenin ar ddynion.
 Ac felly terfyna.

AWDL Y CORONOG FABAN.

O Lyfr Printiedig gan mwyaf yn Saesoneg, a elwir fal hynn
 "*British and Outlandish Prophecies, &c. Published by Thomas
 Pugh.* London printed by Lodwick Lloyd, at his Shop next to
 the Castle in Corn hill. 1658."

1. CORONOG faban medd Taliesin
 a hynny a ddarllenir yn llyfrau Merddin
 Ynghanol ei oes i rhuthr iw elin,
 Ag yn ei diwedd y bydd brenin.

2. Coronog faban dyma beth rhyfedd,
Rhag ofn cafod i cilia i'r Gogledd,
Ef a gyll yn Lloegr Arglwyddiaeth a mawredd
Ag etto Brenin fydd ê'n ei ddiwedd.

3. Coronog faban medd Hen Riccus
Prophwyd yr ^{Alban} _{almaen} yn Abergassis.
A gyll yn ei ieuenctid y goron ddyledus
Ag yn ei ieuenctid y bydd gwr dawnus.

4. Coronog Faban medd prophwyd arall
Estodiws esgob a fydd anghall
Pan el yn ei henaint i ladd a bwyall
Ag yn ei ieuenctid yn farnwr angall.

5. Coronog faban a gyfyd lynges
Medd Sibli ddoeth a fu Frenhines,
Ag i'r Twrciaid ef a wneiff afles,
Ffoi rhag hwnnw nid oes neges.

6. Coronog faban medd yr Apostolion,
A wna ryfeddod ym mysg yr Iuddewon
Par iddynt gredu fal Cristnogion
I Grist a golles irwaed ei galon

7. Coronog faban medd llyfrau Rhufain
Ef â dros foroedd i dir y Dwyrain,
I ddwyn coronau yn ol y damwain,
Ag i ddwyn urddas i Dir Prydain.

8. Coronog faban a gaiff fawr urddas
Medd hen Brophwyd a elwyd Gildas
Ag yn Rhufain Dir ef a wna Bwreac
Ai gasogion syrth mewn andras.

9. Coronog faban credwch yn ddiâu
Yn Nhwr Babilon i cyfyd Eglwysau,
Brenin coronog fydd yn ddiammau,
Gwae i'r Twrciaid pan ddel i'w difau.

10. Coronog faban a gyfyd ddydd Gwener
 Yn erbyn Gog Magog a'u hannifer
 Ag a rydd fattel dan ei faner
 Gwae'r Sarasiniaid pan ddel ^{ei} anifer

11. Coronog faban medd doethion Rhufain
 Yn ol amser Iesu mab Rhiaïn,
 Mil pumcant deg a phedwar ugain
 A ddial Draha Gwyr Tre Llundain.

12. Coronog faban pan ddel i henaint
 Trwy nerth Iesu pen yr holl saint
 A fyn gyfiawnder iw holl Geraint
 Er ei fod heddiw yn salw ^{ddichwaint} _{ddifraint}

13. Coronog faban medd Merddin Emrys
 A'r gwr a elwir *Johannis Collescencis*,
 Yn ei ieuentid y bydd gwr ofnus
 Ag yn ei henaint i bydd gwr grymus.

14. Coronog faban a ddenfyn dan irgyll
 At y gwr a fo'n cadwr Cestyll,
 Ag yna codi'r manerau'n eu sefyll,
 Gwae Arglwydd Rhaglan pan welo'r Pebyll.

15. Coronog faban medd Rhys o'r Yri,
 A ddenfyn llynges i Aberteifi,
 Ag yn swydd Benfro i bydd gweiddi
 Pan ddel ei wyr i dir heb ballu.

16. Coronog faban a gaiff ei gyfarch
 Er iddo yn Lloegr gaffael ammharch
 Ef a ddiane o ddwylo hil Llywarch,
 Fal y diengis Ionas o fola'r Morfarch.

17. Coronog faban wedi mawr amrafael
 Ar foroedd a thiroedd a chwerw rhyfel
 Ef ai cleddir medd yr Archangel,
 Yn nyffryn Iehosaphat yn y tir isel.

18. Coronog faban a dynn i'r moroedd,
O waelod Lloegr hyd y Gogledd,
Ef yw un asgell a gyfyd o wynedd
I ynnill Prydain hynn fydd ryfedd.
19. Coronog faban a gaiff dir Prydain,
ei enw adwaenir ym Mharlment Llundain,
Trwy gyngor saith iaith a saith ugain
Gwae'r Sais ai clyw onid ar ddamwain.
20. Coronog faban credweh yn hylwydd
Y groes fe ddwg gyda Sancteiddrwydd,
Ag yn ei erbyn ni ludd dim aflwydd,
Pan ymddengys yn wir ag yn ebrwydd.
21. Coronog faban credweh yn ddiâu
A ddenfyn llynges i Aberdaugleddau,
ag a gryn Lloegr pan glywer chwedlau,
Nis bawdd dwr dur nis maeddau.
Diwedd.

MYRDDIN WYLLT

koronog Faban a dynn i'r moroedd
o waelod Lloegr hyd y Gogledd
ef yw un asgell a gyfyd o'i omedd
i enill prydain hynny fydd ryfedd

koronog faban a gaiff tir brytain
i enw adwaenir ym harlament llundain.
trwy gyngor saith iaith a saith igain
gwae'r sais ai klyw onid ar ddamwain

koronog faban a gymer arwydd
Y groes fendigaid ai santaidrwydd
ag yny erbyn ny lydd dim aflwydd
pan ymddengys yn wir ag yn ebrwydd

koronog faban kredweh yn ddiau
 a ddenfyn llynges i Aber dau gleddau
 ag a gryn lloegr pan glyw r chwedlau
 nis bawdd dwr dur nis maeddau.

koronog faban médd Taliesin
 a hynny ddarllenir yn llyfrau Myrddin
 ynghanol i oes i rhythur yw elyn
 ag yny diwedd i bydd brenin

koronog faban dyma beth rhyfedd
 rag ofn kafod i kilia ir gogledd
 ef a gyll yn lloegr arglwyddiaeth a mawredd
 ag etto brenin fydd yn i ddiwedd

koronog faban medd hên Elennys
 proffwyd yr Almaen yn abergasis
 a gyll yny iengtid y goron ddyledis
 ag ny henaint i bydd gwr dawnis

koronog faban medd proffwyd arall
 Estodiws esgob a fydd angall
 pan el yn y henaint i ladd a bwyall
 ag yn y ieuenctid yn farnwr angall

koronog faban a gyfyd llynges
 medd Sibli ddoeth a fu frenhines.
 ag ir Twrkiaid fe a wnaeff atles
 ffoi rag hwnnw nid oes neges

koronog faban medd yr apostolion
 a wna ryfeddod y mysg yr iddewon
 par iddynt gredu fal gristnogion
 i grist a golles irwaed i galon

koronog faban medd llyfrau Ryfain
 ef a dros foroedd i dir i dwyrain
 i ddwyn koronau yn ol y damwain
 ag i ddwyn urddas i dir prydain

koronog faban a gaiff fawr urddas
 medd hen broffiwyd a elwid Gildas
 ag yn Ryfain a wnaiff bwrkas
 ai gasogion fyth mewn atcas

koronog faban kredweh yn ddiau
 yn hir babilon i kyfyd eglwysau
 brenin koronog fydd yn ddiammau
 gwaer Twrkiaid pan ddel yw difa

koronog faban a gyfyd ddydd gwener
 yn erbyn Gog a Magog ai hanifer
 ag a rhydd fattel dan i faner
 gwaer Saraseniaid pan ddel yr anifer

koronog faban medd doethion ryvain
 yn ol amser iesu mab y rhain
 mil pum kant deg a ffedwar ugain
 a ddielyff draha gwyr tre lundain

1594

koronog faban pan ddel i henaint
 trwy nerth iesu pen yr holl saint
 a vynn gyviawnder yw holl geraint
 er i fod heddyw yn salw ddisgaint

koronog faban medd Myrddin Emrys
 a gwr a elwir johanis kolosencis
 yny ienetid y bydd gwr ofnis
 ag yny henaint i bydd gwr grymis

koronog faban a ddenfyn dan ir gyll
 aty gwyr a fon y kadwr kestyll
 ag yna roddir mannerau yn y sefyll
 gwae Arglwydd Raglan pan welor pebyll

koronog faban medd Rys o r yri
 a ddenfyn lynges i Aberteifi
 ag yn swydd benfro i bydd gwaiddi
 pan ddel i wyr i dir heb balli

koronog faban a gaiff i gyfarch
 er iddo yn lloegr gaffael amarch
 ef a ddiank o ddwylo hil lowarch
 fal y diengis jonas o fola r morfarch

koronog faban wedy mawr amrafael
 ar foroedd a thiroedd a chwerw ryfel
 ef ai kleddir medd yr archangel
 yn nyffryn jehosaphat yn y tir isel

ENGLYNION AR ENWAU DUW GWAITH SION Y CENT.*

1. Duw Tri, Duw Celi coeliwn, (Daf, Eli,
 Dwyf eilwaith dâ folwn.
 Gwiwner ei glod a ganwn
 Arglwydd Dad mawr gariad gwn.
2. Ener, Muner, Ner, naf ydyw, heb au
 Pob bywyd a wneddyw,
 Cynnon neb un nis cenyw,
 Modur y Byd am du'r byw.
3. Ior, Por, puraf Iaf, iawn weithiau Dëon
 Yn dyall calonau,
 Huon, Ion, goreu i ddoniau,
 Duw, Dofydd mawr, Ionawr, Iau.
4. Crist, Rhion, Dafon, difeth, Creawdur
 Cariadawl ei Achreth,
 Mab Mair dianair Eneth,
 Pab Byd yn peri pob peth.
5. Pannon ar Ganon gannaid ai gelwir
 Da gwelwn ef o'n plaid,
 O. I. ac W. yw a gaid
 Oïw beunydd i pob enaid.
 Sion Y Cent ai Cant.

* Llyfr Wm. Rosser.

OEDRAN A PHARHAD PETHAU.

Tri oedran hoywlan helynt	
Trioedd a fu gyhoedd gynt,	
Tair blwydd oedran yn fannawd	
Yw pawl gwern medd eppil gwawd	
Tri oed pawl gwern a fernir	
Ar gi da mewn argoed ir—	9 blwydd.
A thair oes ei gwaith eryw	
Ar farch dihafarch da yw, Da ei barch i'r 27	
Tri oed march dihafarchdroed	[byw.
Ar wr a bychan yr oed,	81
Tri oed gwr toriad gwiwrym,	
Ar yr hydd llambhdydd llym,	243
Tri oed Carw hwyrfarw hirlfain,	
Ar fwyalech goed eirfalech gain,	729
Tri oed y Fwyalech falchdeg,	
Ar Dderwen Daiaren deg,	2187
Tri oed Derwen a fernir	
Gwarant yw ar y Grwn Tir	6561
Oll honyn fal rhwymyn rhod	
A dderfydd yn ddiarfod	
Ac nis gall neb wrth hebu*	* wrnebu
Awr ing y daw'r angau du,	
Angeu ni ad fwy'n angof	
Y gwyllt na'r diwyllt ar dof,	
Fal gwar a'r un drugaredd	
Y rhydd glew i Bydew bedd,	
Dywain ef ni ad yn ol	
Anrhydedd fwy na'r hudol.	
Ceisiwn anrhydedd gwiwsyth	
Y Gwr fry a bery byth,	
Yn y nef yn bendefig	
Heb dranc heb orphen a drig,	
Lle mae pob prif ddigrifweh	
A phlas ein Penadur fflweh	
Dydd heb nos cunos canu	
Heb fwg heb dywyllwg du,	
Iechyd heb orfod ochain	
O glwyf cy iached a'r glain,	

Pawb yn ddengmlwydd, herwydd Ior,
 Ar hugain heb ddim rhagor,
 Y lle mae pob pwyll awen
 Heb un bach a phawb yn bèn,
 Awen a llên yn ei lle
 Da i achreth fal bu'r dechre,
 Gochel uffern Gethern gaeth
 Ai helwyr drwy hy alaeth,
 Lle mae'n barod cyfnod cas
 Bachau eigweiniau gwynias,
 A rhew er hynn cynn canoed
 Ar iâ ni thoddwys erioed,
 A maglau rhwydau mal rhod
 Meginau peiriau parod,
 A chloi uffern o iernyn
 Ar fuchedd dialedd dyn,
 A phawb yn taflu a fflon
 Eneidiau am anudon,
 Ag yfed mewn gogofydd*
 Gyda'r ffeils a gwadu'r ffydd,
 Yno bydd llwm trwm trymfryd
 Dyn a fu da iawn ei fyd,
 Heb rhoi cardod i dlodion
 Na dim er mwyn enw Duw Iôn
 Gwrthod pader a fferen
 Sul a gwyl a Selwi† gwenn,
 Nid o hynny gwedy'r gwaith
 Mawr gwybydd y mae'r gobaith,
 Trown on bai trueni byd,
 Yw awch hudlawn pechodlyd
 Am gyfoeth annoeth unawr,
 A phrif wyd ni phery fawr,
 Awn heb au er golauad
 I Eglwys Duw ein glwys dad,
 Gwnawn gyfiawnder arferol
 Er nef heb droi'r gwir yn ol,
 I wan, bid ei enw yn ben
 Hael Iesu rhown elusen
 Os hynn a wnair gair gwrol
 Ar hynt ni a gawn yr hawl

* gwagofydd

† Selu,

A thrugaredd a wedda
 Yn y Bedd, a Diwedd da.
 Yr Athro Gân Sion y Cent ai Cant,

Yr oedd ef yn byw yn amser Wicliff ac yn un o'i blaid.

LLYMA GYWYDD

A wnaeth Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Einion Lygliw, i Forgan Dafydd Llywelyn ab Philip Trehaern o Rydodyn yng Nghaeo pan ydoedd yn myned ar Gwest am ladd Ustus Caer o hanaw ar Faine Caerfyrddin. Yr hwn Forgan Dafydd Llywelyn ap Philip Trehaern oedd frawd i Ifor hael o Wern y Cleppa yn Sir Fynwe.—(O Lyfr Mr. Lewys o Ben llin.)

SYR Dafydd ddiheurydd* hawl	* ddihedrydd
Saer y gyfraith fesurawl	<i>in al.</i>
Helm eurdo o hil Mordaf	
Henw mawr yn wyd Hanmer Naf,	
airian berffaith gyfrithiwr	
Ail Dafydd i'n dydd wyd wr	
Pell glod o'th dafod a'th dyf	
Pell y seiliaist pwyll Selyf.	
Dyred i Gaer drwy dy gof	
Fawrddawn wr Fyrddin erof.	
I gynnal dros ganol y drin	
Rhisiart farwnwart frenin,	
Pan welych anwylwylch Naf	
Holi gwr hael a garaf	
Mil gydag mi ai diaur,	
Morgan un a rann yr aur,	
Par i hwn cyn cyfrwn cant	
Gwest lwyswylch gwas dilysiant,	
Ni fyn hael moel helm wiwlas	
Na thaelwyr procurwyr cas,	
Na chryddiaid, haid ddi hyder,	
Na phorthmyn o gyndyn ger,	
Na gwyr dyrif a rifir	
Ar y gwaith† ni wyr y gwir	† Gwalch, <i>al.</i>

1. *Griffydd ap Rys*, Gwr hoffhael
Gwinionydd hoyw brydydd hael
Gwr er aur, nid garw ei rôn,
Awdur ni thwng anudon,
2. *Llywelyn* rathlyn rythloyw
Berchen gwych awen goch hoyw
Nid anhawdd cael, hael hoywlys,
3. Barn gywir o rhifir *Rhys*,
Un o'r gwyr goreu ieuaine
dyry farn ef aed i'r faine.
4. *Moel y Pantri*. nid milain
Eurwr cerdd yw'r eryr cain,
Gair honnaid y gwr hwnnw
Gyda'i wlad a geidw ei lw,
5. Rhifer *Rhys* hysbys ei hawl
Brydydd y gerdd briodawl,
6. A *Dafydd* awenydd wawd.
Gerth fab *Iorwerth* bybyrwawd,
7. Deddf yw dioddef *Owain*
Fab *Dafydd* SAER CYWYDD cain
Gwr a gân organ irgoed
Gwiliadus certh gwlad is Coed,
8. A rhwydd fydd cywydd y *Cyw*,
Ag afrwydd cael ei gyfryw,
9. Gwr yw'r *Pasned* a gredir
Awdur Serch adar y Sir
Nid amheuwn gwn gannair
10. Lw'r *Crach* ai law ar y crair,
Rhoer yn y gyfraith ar hynn
11. Rhifer ar Swpper *Syppyn*
Rhemnant ydyw'r moliant mau
12. Rhifer pan fynner finnau,
Neu'm gwnaeth Duw Nef dangnef dôn
Un ni âd dyngu nidon,
Onid awn gwynlawn ganlyn
Un ai twng am enaid dyn,
Os dydd y cydeisteddir
Yn nhal ty gwenllian hir
Diddau* yw ynt y deuddeg
Om barn yn y dafarn deg.

* diddau
Glam.

Er deulong o aur dylth,
 Ni adwaenan Forgan fyth,
 Boed melldith Mair feurgrair fro
 A Duw ar ai gadawo.

Gruffydd Llwyd Dafydd ap Einion Lygliw
 ai cant, ynghylch 1390.*

A hynn a fu yn amser Rhisiart yr ail Brenin Lloegr, a'r Syr Dafydd Hanmer rhagenwedig oedd Penn Ustus ar faine Caerfyrddin pan y cafas y Morgan a enwyd ei ddodi ar Gwest am ladd y ddau Ustus ar y Faine.

* Cymmerais y Cywydd uchod, (ac felly y cyfan yn agos o barthred Gymmraeg y llyfr hwnn,) o dynysgrifau fy NHAD; ond gann fod y bummed linell yn eisiau yno, herwydd y cyfryw ddiffyg yn y cynysgrif, lloffais honno o hen ysgrif arall yn fy meddiant, tua 250 mlwydd oed: pa un, beth bynnag, a fernais yn rhy lygredig, parth y cyfansoddiad trwyddo, iddei dilyn ym mhellach. Ar ol y Cywydd, yn yr hen ysgrif grybwylledig, rhoddir, yng Nghymmraeg a Saesneg, y cyfarwyddyd canlyniadol, parth y ddichwain hynod a gyfeirir att i yn y rhagymadrodd:—sef—

“griffith llwyd davyd ap Inon Ligliw ai kant y vorgan davyd llên ap phillipp traharne orydodyn yng hayo, pan ydoedd y mynd ar gwest, am ladd iestys Caer a Canaw, ar vauk Caerfyrddin, rwn r vorgan dđ llên ap phe traharn oedd vrawd un vam y Ivor hael o wern y kleppa in sire vonwe

and this was don in y^e tyme of Rychard the second then king of England, and the above named Sir davyd hanmer was cheif Jestys in the countye of karmarthinshire when this morgan was rayned for the killinge of the sayd two judges viz Caer and Canw”—AB IOLO.

ENGLYNION A GANT SION CENT AR EI WELY ANGAU.

1. BETH a gaiff Cristion o'r Byd a dirawd
 Daiaroedd a golud,
 Ond bedd i orwedd wryd
 Ag un amwisg bach i gyd.

2. Ni lenwir i'r corph lonaid byth yma
Beth ammall melldigaid
Ceisio'dd wyf o'm rhwyf am rhaid
Wrth rann ymborth i'r enaid.

3. Un doeth yw Cristion a da yn gysson
o geisio Duw'n benna
A gaffo Dduw a gaiff dda
Dawn a gaiff dŷn o'i goffa.

4. Da yw'r diēn yn y diwedd i ddŷn
A ddywed y gwiredd,
Duw a digon wiwdon wedd,
Heb Dduw gwynn heb ddigonedd.

5. Tostedd dialedd yn dielwi y sydd
ysowaeth i'm poeni,
gwae'r ūn a gwae 'rieni,
A gae rann om gweywyr* i, *pro gweywyr

6. Clyw fi yn ochi ag yn achwyn yn flin
ail i flaidd wrth gadwyn
Paid Iôr Nefol adolwyn
O fyd yn danllyd a'm dwyn.

7. Oes undyn nag un a gair yn ddifai
I ddyfod i'r gadair ?
Oes un er nad oes anair ?
Oes, mab ein Arglwyddes Mair.
(Fab *al*) (Fair *al*)

8. Duw Geli imi maddeu o bechod
A bechais ersdyddiau,
Cyn treng, cyn cwŷn taer angau,
'Y nydd y sydd yn neshâu.

9. Ir Bedd oer ddygnedd ddignawd asgrwn
Heb ysgog un aelawd,
Heb olwg gwiw heb le gwawd
Hyd ddiweddbrawf hyd ddyddbrawd.

10. Balch yw'r Cristion llawn mewn llwyn (llynn)
 a rhyfedd yw'r Englyn [ar ryfig
 Ystyria'r dyrfa derfyn,
 I'r ddaear dew ydd a'r dŷn.
11. Da fydd ar rywddydd rhyddyd mab Duw
 ym mhob dyn ei Ysbryd,
 gwedi'r dydd ni bydd bywyd
 Dyn na dydd ni bydd na byd.
12. Ni bydd gwedi'r dydd dyddhun yn llwyr
 Haul na lloer iwch attun
 Na ser na llais aderyn.
 Na bref hydd na dydd na dŷn.
13. Goreu gair myn Mair ymaraw a Duw,
 Am nad oes dim hebddaw.
 Angau dall i'n wng dwyllaw
 a'r angau'n ddiâu a ddaw.
- Sion Cent ai Cant ar ei wely Angau, yn amser y Brenin
 Harri'r pummed ydd oedd ef.—(Llyfr T. Bona.)

LLYMA GYWYDD VLLTUD SANT

[O Ysgrif yn llaw Thomas ab Ievan o Dre'r bryn, plwyf Llan-
 grallo ym Morganwg, cylch 1670.]

☞ sant ŵr da saint wâr dir
 vlltyd o waed llydaw dir
 marchog o lin olin oedd
 ymrytain wr mawr ytoedd
 Bikanys vab kenais vawl
 barrwn hen waed brenhinawl
 brenhinferch bur vu henfam
 brytaen vawr brytwn i vam
 dysgai nâf dŷsg iawn ovwy
 ny ddysgawdd vab ddysg oedd fwy
 arfer yn wr fry a wnaeth
 o lorig a milwriaeth

milwr düw yn malur dūr
 marchog mawr waithog Arthur
 Oi dir ogyrch drwy aigion
 i troi sant yr ynys hon
 i ymweled a milwyr
 a thair wyl Arthur au wŷr
 brenin gwlad vawrgad vorgan
 bu wr o lais mewn brô lân
 aeth i weled wrth helynt
 ansodd gwŷr yn soddi gynt
 ef ai dy o vadwyaeth
 ag at ei gar gatwg aeth
 ymadaw megis maudwy
 or byd mawr ar bywyd mwy
 a bwrw i vâb wryy a vedd
 i holl vaich wella i vychedd
 gwrthodes gwyrth ehydwych
 gwleddau gynt i Arglwydd gwŷch
 ynglynn nant Angel ai nawdd
 oi hun fwyn ai hanvonawdd
 hyd y mann i damunwyd
 hyd y nant lynn hodnant lwyd
 lle sailiawdd llys a welwn
 lle glwys hardd oll eglwys hwn
 Dy frig a fyn bendigaw
 urddal i iad ar ddwy law
 yno i bu yn dwyn bywyd
 ai drefn bwys dra vy ny byd
 yn weddiwr yn dduwiol
 i dduw nef am a ddoi'n ol
 un pryd a phenyd i ffydd
 yn bennoeth a wnai baenydd
 A phaenoeth mewn oer ffynnon
 awr yn hoeth ir ai i hon
 gwnaeth wrthau ar liniau r lyd
 wrth fôr hâllt wrthfawr Ullyd
 llafur dwys llafirio i dir
 llif vordwy vy'r holl lavurdir
 mor a yrroedd mor wrol
 oi ffon ef i ffo yn ol

lle ni ddoi y llanw i ddawon
 lle dodai ffwys Ulltud ffonn
 y karw ymlaen kri emlyniaid
 yw nawdd i'r aeth ban oedd raid
 kyvaill march a thwarchawr
 kario main a wnaï'r karw mawr
 bu lawen wrth y brenin
 bu or dwr barod i win
 bu or halen dduw gwener
 bu or pysg ar bara pêr
 pen swyddwyr pan nas hoeddynt
 yn oes gwr marsianws gynt
 un a doddes enw diddawr
 y llall a lynchawdd y llawr
 bâr a llid lle bo'r lledwg
 bu arnon drist brenin drwg
 aeth vlwyddyn aeth vawl yddaw
 gâuaf drüd ir ogof draw
 i boenyddiaw ban ydoedd
 ar vara dwr i vryd oedd
 Marsianws lle mrysonid
 mynnai ladd er mwyn i lid
 lle gwelas yn lle gelyn
 llid ai dwg ar Ulltyd wynn
 ddoer gwyr yn y ddaear gau
 i syrthient lle roes wrthau
 danfon yd noevio a wnaeth
 draw i dynnu drydaniaeth
 dwy sgibor lawn dros voroedd
 i lydaw aeth i wlad oedd
 i briod dâll brid diwg
 a gae ailwaith i golwg
 y ddau laidr i ddiawl ydynt
 y gwyr caeth aen gerrig gynt
 Adar yngwarcha ydoedd
 wÿllt a dôf gan ulltud oedd
 ymladdoedd a mil addef
 liw nos wrth olau o nêf
 marchog kaidw i blwyvigion
 moled düw am y wlad hon

Aros heddyw ras yddynt
 wrth i ras ai wrthau'r ýnt
 aros ir wyf awr sy raid
 i minnau nef ym enaid

lewys Morganwg ai kant.

(O Ysgriflyfr Thomas ab Ievan o Dre'r bryn.)

LLYMA GYWYDD TEILO SANT.

radau dalm Rô düw deilaw
 ryeddogloew aurog law
 gwych vu r term yth gonffermwyd
 glan val diddig ensig wyd—
 llin hychdwn pen varwn pür
 dawn i wiwglod yn eglur
 A llin yrddedig sant llwyd
 kedig karedig ydwyd
 mawr oedd vonedd cynedda
 wiw loewdeg ddawn wledig dda
 doвраeth benadur divreg
 dy orügaw deilaw deg
 esgob santawl vrainiawl vryd
 a vuost o iawn vywyd
 Aur lythr diorwâg ragor
 yn llann dâf karaf y kôr
 Wr gwleddrym o Arglwyddryw
 ef ath gonffermwyd lwyd lyw
 yn benn raith drwy saith iaith sant
 morganwg mawr ogoniant
 val i mae gwarau gwiwras
 o rym gwrthau düw ai ras
 dewi dy iawngar diwael
 yn hir deheubarth w'r (yn) hael
 wr kadr val i mae padrig
 vcheddawl o vrainiawl vrig
 yn benn or saint iawnfaint iôn
 aur wiwddull ar iwerddon
 megis tomas yrddasaawl
 merthyr lle kyr bwyllyr mawl

Arlwydd ar fonedd aur lyn
 o gantrbri gwn honni hyn
 velly sant trwy warantrwydd
 ir wyd rywiog broffwyd rwydd
 yn saith gantref nef nifer
 morganwg fy niwg nêr
 un or tri per voli pür
 da ydwyd myn düw awdür
 oedd yn myned ged gyfoeth
 ti a Ryvain deml gain goeth
 per voliant pan gânt yn gain
 gloywach ryvedd gloch Ryvain
 yn wir praff i honnir hynn
 wych hirbarch yn ych erbyn
 yno yn ffÿs union ffawd
 ath bregeth diveth davawd
 ti a gefaist teg avael
 tailaw yth ddeulaw hael
 gloew chwaen wimp y gloch yn wir
 velen glaer gain a volir
 yr hon a wna wiwdda wedd
 byw o varw heb overedd
 wedi hynny i honnir
 da len wych deilaw yn wir
 ar ôl mae duw yth voli
 aüryn dy wir derfyn di
 tri llu pwnk blin vy r trallawd
 a aethant trwy ffyniant ffawd
 i ben alyn gyvyn gâr
 dyvod gwaith di edivar
 ai bryd ar gael ddiwael ddydd
 dy gorff deilo deg aur ffÿdd
 yna rhag terfysg annoeth
 am danad y kywrad koeth
 tailwng waith glan di anair
 tri chorff a wnaeth mab maeth mair
 pob un or tri ddifri ddawn
 a gafas korff yn gyfiawn
 da vy ran gwyr morganwg
 düw ir rai grasys ai dŵg

kael yno nyd koel annoeth
 y korff kysegredig koeth
 ath drwsiad glanwedd heddiw
 ath dlwsau gwrthfawr gwawr wiw
 ath goron trwy ddaioni
 wasgad düw a wisgyd ti
 Ath gloch mi yw un oth glêr
 ath grib ath lyfr iaith groewber
 duw a wnaeth llawer erod
 da wrthau glan di warth glod
 gwna dithau mygr drwy wrthau mwyn
 draw deilaw dros adolwyn
 dewin wyd o daw yn nes
 llongau gwyr lloegr ai llynges
 lladd rai ar drai o ryw draill
 bydd ddewra sant bawdd eraill
 dial yn sorr am dorri
 da glôs duw dy eglwys di
 teilo vâb llewych fâb llais
 ensig na ado un sais
 gyrr hwynt oer vraw bwynt ar vrys
 aürfawl enw ar vel ynys
 teilwng wynfyd pryd prydf berth
 tegan wyd ti a gau nerth
 o rai ysbrydol ar hynt
 atad dy genedl tynt
 gwenllaw práff gwinlliw proffwyd
 diwael iw a dewi lwyd
 gwedy keffych koeth wych kâd
 gwir ytiw y gwÿr attad
 na vydd wâr na thrigarawg
 bydd groelawn radlawn yr hawg
 ynghilbant ny lyniant lês
 wrthynt lin alis arthes
 teilwng gwna ddinist tylwyth
 hen sais o lin heinsies lwyth
 aür oedd dy sens vab ensig
 er düw ai wrthau iôr dig
 hêl ar unwaith hil Ronwen
 vryt iawn waith o vrytwn wen
 ievan llwyd ap gwilym ai kant.

LLYMA GYWYDD DEWI SANT

(O Ysgrifyfr Thomas ab Ievan o Dre'r bryn.)

wrth glybod chwedl tafod tyfyr
 a darllain pôb diwair llyfyr
 o lyfyr aür lythyr loewfrait
 a son am vycheddau saint
 nyd gwell sant ffyniant i ffawd
 na dewi iawn i dywawd
 deng mlynedd kyvannedd kôr
 arigain teg vy ragor
 kyn geni dewi i doeth
 kanu teg kaniad hoewgoeth
 i yrru padrig orior
 er mawl i ddewi ir mor
 a gadyr tir a güddiwyd
 o dduw lân i ddewi lwyd
 sant i dad o vwriad vy
 a nillwyd o iawn allu
 o nonn santes wenn annwyl
 verch gynyr nâf hoewaf hwyl
 rwydd i manegaf yr hawg
 vychedd nonn dra vu vaichawg
 bara or haidd a berwr rif
 a dwfr fy ymborth difrif
 Gildas yna gas anair
 hêb alli pregethu gair
 am vöd non wiw gainlliw gynt
 is gil y ddor nys gwelynt
 yn eglwys y groes oesir
 i ganed hwn ganiad hir
 pan esgores y pennaeth
 y llêch yn ddwy lêch y ddaeth
 duw wrth vedyddio dewi
 a wnaeth ffons o ddwfr i ni
 roes yw dad bedydd medd rai
 i olwg gynt ny welai
 gwelad kalomen wen wâr
 yny ddysgu iawn ddwysgar

palinus gwn pa lyniaeth
 dull o nych dallu a wnaeth
 gwnaeth dewi rodde ar hynt
 i lygaid fal na lwygynt
 pan vy ŵr wiw gyflwr wêdd
 aeth i Ryvain waith ryvedd
 klych Ryvain aurgain ergyd
 a gânt i hunain i gyd
 kroeses heb vôt ar osteg
 yr enaint twym ryw nant tég
 gwnaeth yn rydd luniaeth y wlad
 gwanwyn y grawys gwynnad
 bwyd dewi gu dra vy vyw
 bara a dwfr bwriad afryw
 i dad ef ai hôll daid oedd
 arglwyddi mawr i gwleddoedd
 angel a ddoeth goeth gerynt
 i gor llann gyvelach gynt
 i yrru dewi aüriaith
 i vedd kaerysalem vaith
 dyg hynt y ddau sant dêg hael
 gydag ef i gadw gavael
 pwy a dry rann padarn rwydd
 a theilo sant iaith hylwydd
 daüthant a phob meddiant mawr
 i vyniw santaidd vaenawr
 düw a roes meddiant nys dŵg
 i deml dewi naid amlwg
 ryw dyd nêf rydid i ni
 a roes duw o ras dewi
 roes yn deg lynn rosyn dir
 rydid i gymry lle redir
 velly i gwnaeth aürfaith arfoll
 dewi deg yn diwyd ôll
 a da i gwnai vagna oi vagl
 o varw yn vyw oi vyragl
 mawr vy r nifer am gerynt
 a gad ynghwm brevi gynt
 saith igain mil syth ganiad
 o saith mil kynnil i kâd

a ddauth i bregeth ddethol
 a wnaeth dewi sant yn ôl
 kyvodes bryn kôf ydoedd
 dan i droed arglwydd gwaed oedd
 klywad ef klav wawd ofeg,
 val cloch yn llann dydoch dêg
 karas vod kyvoesi vydd
 yny bennaf or saint baenydd
 teml dewi sant saith gant sathr
 teg olaule tai gloew lathr
 davydd broffwyd loywlwyd lem
 a sailiodd kaerysalem
 yn un rodd i ddiw'n anreg
 yngwlad dda diwidia deg
 velly davydd ddedwydd w'r
 da ddifri dewi ddyfrwr
 sailiodd deml glan di seml glau
 ail kaerysalem olau
 pefr waith dwys amlwaith di seml
 pryd ystaen paradwys deml
 a thoi y plas a tho plwm
 a chrbl a nonn a chriblwm
 a sainsau einioes iawnsyw
 sens a mwg ail sain siom yw
 ryw le hardd ry olav hoew
 Relix a gwisgoedd ryloew
 delwau hoywdeg lampau hydr
 disglair waith dwys eglurwydr
 eglur gôr a gloew organ
 eglur gerdd a gloew ar gân
 a chlywed kerdd wych lewych
 a chlau lêf musig a chlych
 cystal om ordal i mi
 dwywaith fyned at dewi
 a phe delwn kystlwn kain
 o rif unwaith i Ryvain
 myned dairgwaith araith yw
 am enaid hyd y mynyw
 i maen kystal a myned
 i vèdd krist unwaith vydd krêd

bedd krist kynny ddi drist kain
 a ryvedd deml o Ryvain
 dewi a bair gywair gêd
 i werin Gymro wared
 dewi ddyfrwr yw'n diwyd
 dafydd bensaint bedydd byd
 o nef i doeth ffyrf goeth ffydd
 i nef i ddaeth yn yvydd.
 ieuau Rydderch ap ieuau llwyd ai kant

LLYMA GYWYDD SANT KATTWG.

Y SANT dewis syn tyedd
 i ddwyn i vyw ddyn oi vedd
 mawr i ddeall aü allu
 aü wrthau n vab wrthun vy
 kyrechu tân ny bu lanach
 aü ddwyn ny bais yn ddÿn bâch
 nydoedd ar edau yddi
 un ôl tân ny welad hi
 or yd gyrrwys yr adar
 o rad düw nêf i'r ty n wâr
 ag yna rwn dwy gynor
 i byon ddydd heb un ddôr
 mawr yw rif o chyfrifir
 mwy wyrth ef na mor a thir
 i karw union koronog
 ae dynnu llwyth aidon llôg
 ef a wnaeth ni fynnai wâll
 wrth ddewrion wrthau arall
 yn gerrig ynÿ gorwedd
 ar dir glas i vordwy gwledd
 pan roed sopynniau redyn
 ir tir gynt ar y tarw gwynn
 ar dda byw arwydd i bôd
 ar gam ny wraï gymod
 kattwg i wayn llwg un llaw
 au talodd dan gor Teilaw

nid ae o vab düw ôi fôdd
 nid oedd ddysg ond a ddysgodd
 ni chae Ryvain aü chreyydd
 yn lle i phab un wêll i ffydd
 tra gŵr mwyn trwy gairau main
 travael ty hwnt i Ryvain
 wrth dduw byth aü nerth i bo
 wrth unair ir aeth yno
 i dy grist un da i grêd
 i doi angel aü dynged
 esgob lle mae vyingobaeth
 o nef er kael anfri kaeth
 ir oedd yr iddew main
 aü gefn yny ddigovain
 a gwaew ar vronn y gwr vry
 ag ar hwn gwir yw hynny
 mâb santes arglwyddesryw
 mab sant têt a mâb sant yw
 kadwed venaid synned syr
 kattwg fawr wrthfawr verthyr

Risiart ap Rys (o Langarfan)
 ai kant. I. M.

LLYMA GYWYDD KYNOG SANT

kadw yn tir kaedwad da
 kynog o wlad vrekania
 pen raith y wlad yth adwyd
 perchen a mab brychan wyd
 bôdd drosom ymhôb gôddeg
 brenin Dolff geyr bronn yn deg
 a bydd ble bynnag i bôn
 vigail ar dy blwyvogion
 dygais hwy ath vendigynt
 yn iwerddon goron gynt
 gwrthodaist gŵr yth edir
 o gariad düw dâd dy dir
 gwrthon coron ffrwythlon ffraith
 a dewis i vaüdwyath

pan ddaüthost penn i ddoethion
 eirian sant ir ynys honn
 kawr dros blwyf kaer wedros blant
 a leddaist rag aflwyddiant
 blaidd ne ryw ddiawlaidd elyn,
 bwytta ddoedd o bob ty ddÿn
 pan guddiaist pennaig addwyn
 Ragddo vâb y wraig weddw vwyn
 golwyth a roest or gelain
 yn lle r mab o ddÿn llerw main
 y kawr a wyby r kerynt
 o ddamwain y gelain gynt
 y gŵr llwyd goryw i llid
 a gaisawdd lle krogysid
 ag yna ir aüthog Cynog
 yn lle hwnn ir prenn krwn krôg
 torres y gormes dy gig
 dy vorddwyd ti o vawrddig
 tyvoedd ar vorddwyd davad
 gwlan gwynn ar dy glun a gâd
 aü vryd oedd vwriad addig
 ailwaith gael i wala oth gig
 yna i daüth enaid ethawl
 arf i ti i orfod diawl
 torch o nêf trychu a wnaeth
 trwy vilain torf o alaeth
 diwg i roed ar dy grair
 dyviad heb naviad navair
 dygaist wŵr o bendigaeth
 dorch ag nid aürych ai gwnaeth
 krair o vetel rydd velyn
 kyngron dorch kangrwn dyn
 odid o thorrid o thân
 nag un gof aü gwnai n gyfan
 y gôf yn *Evana* gynt
 ei thorri bu waith hirynt
 tair darn kadair i küdiawdd
 iesü hwn aü iasau n hawdd
 penn raith hêb ovailwaith vy
 pan welad iasad iesu

ban dorred dy ben dewrwyh
 i gwnaeth gwyrth a gwrthau gwych
 kerddaist ath ben wrth dennyn
 wrth dy gorff o wyrth düw gwyn
 ny allay r byd hyd hyfryd hwyl
 ddwyn deinoes ddÿn da anwyl
 hyd pan gad daliad dilys
 dwyn dy grair o dan dy grys
 penn raith rag poenau yr hawg
 yweh annwyl y Mrycheinawg
 a phan aeth dofriaith wyd ðr
 aü phenn aü hamddiffynnwr
 amddifin wlád y tád tau
 iaith o ddiüw ath weddiau
 bydd veddig ir gynvigen
 bwrw on mysg yn bar amen
 galw dy hun ynyn gwlad hedd
 ag airiol am drigaredd.

Howel ap davydd ap jevan ap Rys aü kant

KYWYDD I LYFR ARALL.*

Dilys gan anfedrys gaü
 taerys vawr i anturiaü
 llyfr wyd heb roi llafar iawn
 dalennog diwael iniawn
 Arwest gekr o bymthekryw
 aro dy farn or wyd vyw
 nau dithau kryn airau krêd
 a i ffo rwng hên gist a phared
 drüd wyd ymhôb diraidi
 darfy dy ddivainti di
 paid erof onid kôf kwymp
 oleastr ti a gair ailkwymp
 dig yw r kedyrn klochwyrn klyd
 dig iawn nas diogenid

* O gasgliad gann Thomas ab Ievan o Dre'r Bryn; ysgrifenedig tuag 1670.

dig hefyd wiw ffÿd i ffordd
 yw r esgyb gwael yw r ysgordd
 dig yw r gwÿr llen ar menaich
 dygn vyth dwyn dogon o vaich
 dig yn ryw odrig rydris
 ywr brodyr krefyddwyr krist
 di wann gannoedd dan gynnull
 dig ywr offairiaid ny dull
 tryth noeth traethu a wnaethost
 na chânt hwy gwn achwyn tost.
 groen dü ffôl graen yw dy ffêd
 gaürydd nef yn agored
 nawdd y goruchel geli
 ny thraäthais ny soniais i
 na ddelynt yn un ddolef
 ai llü o nerth oll i nêf
 dywedaf chwedl gwiraf chwyrn
 om kaüdawd am y cedyrn
 ony chânt nêf drêf dradoeth
 o vôdd düw wr yvydd doeth
 meddir o bydd kywir kant
 i minnau hwy ai mynnant
 airau glew ar y glywais
 orddwy drüd ar ddüw o drais
 hoewdda rwysg heddiw r esgob
 ai sidan ny gyvan gôb
 gwin a vynn nyd gwann i vâr
 awch a gaidw a chig adar
 llefain na bai alluvawr
 a llyfrau n damaidiau mawr
 ny wÿdd o gwÿl i arglwyddes
 vennaïd têt aür vannau tês
 annwyl oedd a wnêl yddi
 yny lle i hune hi
 y menaich aml i mwnai
 müriaü teg mawr yw i tai
 braisgon ynt ar i brasgig
 braisgon dinwygyddion dig
 ba hawl drom ba hwyl dramwy
 ne ddeallynt i hynt hwy

twyn unfodd tinau unfaint,
 tyrched yn synned ar saint
 ar brodyr prygethwyr gynt
 a oeddyn heb dda yddynt
 ar i traed airau trydyn
 wrth bwys heb orffwys oi ffynn
 i maent hwy hoeywbwy hybairch
 yn dri llü ym meddu mairch,
 nyd amlach kyfeddachwyr
 gwleddau na gwarau y gwÿr
 kryfion ynt yn y krefydd
 kryfion diffodyddion ffydd
 y ffairiaid yn amlaid ni
 mae ar hwntan i renti
 pob un heb na llun na lles
 over iawn ai vorones
 ni biau r gwragedd meddant
 hwyntau biau r plwyfau ar plant
 pob plwyf heb berchen dwyvüw
 ai plant yn bwytta da düw
 i weddu nid oedd wiwdda
 i wlad nêf medd ef i dda
 mynnau om dysg am anian
 a thrwy lyw r ysgrüthyr lân
 mi a gaf gwiraf gwarant
 oi gwrs ef y gorau sant
 na lewas gwiwras gwerin
 ddewi ar i weddi win
 na medd glas gloew eglwyslew
 na rost mawr i sawr na sew
 na gwisgo krys gwiw ysgawn
 na phais ond yr un bais rawn
 na llanw yn ddi salw i sain
 y pot na rythro pütain
 kyd bod hynof kof kawdnwyf
 a medr oll mae awdür wyf
 nyd un nerth yn ymdynnu
 unig ag eglwysig lu
 gwn gyfraith aüriaith arâb
 y tad airau mad ar mâb

i nifer hwy nêf ar hynt
 am i gael ymogelynt
 wedy r kig rôst vôt vaethrin
 ar lliain gwynvain ar gwin
 ar gwleddau gwarau gwiwreg
 ar gwagedd tyd aürwedd tég
 astyd wyf ystad ofwy
 ystyrn twyll ystyrient hwy
 nad o wleddau gau gymen
 i ddair i nef ddioer nenn

Sion y kent ai kant.

CYWYDD CYFRINACH

DEWRDDRYD lywelyn daerddraig
 dyred taer grêd tiar graig
 lle mae penn brawd Gystenin
 vendigaid lafn drafn y drin
 yngwyl derw angel daürüdd
 ynghoed Pharaon ynghudd
 ar oer garreg Eryri
 mae ged vawr lle magwyd vi
 pai delyd aür vryd ir vro
 enaid prydyddion yno
 kaid gerddawr air mawr a mêdd
 a gwin ynraigiau Gwynedd
 Rygl benn rag mor gymen goeth
 i roddaist ateb ryddoeth
 ymliw kall aml yw kellwair
 om brys gerdd am bris y gair
 ar gair yn gyviawn nid gau
 moes air yn y mesürau
 gwddost yn valch walch o wên
 deall hynn o beth dien
 pai prisid airid erof
 pob gair om gwawd kaüdawd kôf
 yn ddrûd anianawl mawl Mair
 doeth ringamp diaithr un gair

tal odl ni byddwn tylodach
 na mi na neb wyneb iach
 er bod un gair lle kair kél
 brys osod ar bris isel
 mefl a ddél am lywelyn
 yn voes dig vydd anfoes dyn
 o'r bydd gair hagr gorwagrwydd
 Rôn i kawn y byd yn rwydd
 raid yn sôn kerddorion kain
 o blegid awen bylgain
 ymlynwn râd provadwy
 ymhenn y maes am hynn mwy
 di seml i dywedysoch
 eirias y gerdd i Rys goch
 i mae r sül gwynn syn vy r sôn
 yngolau sampl angylion
 i dangosed nawdd géd nâf
 i gant awen yn gyntaf
 daü kant mlynedd haelwedd hil
 nôd hôff amod a phumil
 ys düw a oedd ystiwart
 kyn y sül gwyn kwnsel gwart
 i kad llen gloew awen glau
 or trwn lle maer taranau
 ai bonedd hu odl baunoeth
 o ddysg Ganapla* a ddoeth * Einigan
 ynglynn maes maillonwyn mwy (*Iolo Morganwg.*)
 Ebron angylion obrwy
 ag yno gloew gyffro glwys
 i prydwyd vydr paradwys
 ag Addaf düw naf dy nawdd
 o dasg Alpha ai dysgawdd
 y gerdd gyntaf llathr naf llwyd
 a genau doeth a ganwyd.
 ar mesur o rym oesoedd
 hwnn ar gerdd hen aurawg oedd
 a ddyg henw o ddig hynod
 ir glynn aeth etto ar glôd
 pont hu ag yn gu gywir
 o gwn wawd, ag e yn wir

a roes düw oi räs i dêl
 ir gobr yngenau Gabriel
 a Gabriel yn air gobraff
 da gwnn grêd ai dygyn grâff
 or nêf gatholig ar naid
 vawr gynnydd i vair gannaid
 ysbryd tâd urddâd aürddellt
 glân a mab golaini mêllt
 or tair llythyren air têt
 byw vyrainryw vy r anreg
 drwy unryw lythr dro iawnrôdd
 on balch gelfyddyd an bôdd
 ir ysgrivennir wir *wen*
 daw pyrth düw daüparth dawen.
 ar hain o HENW VENW vanol
 o nef gyda hynny n ôl
 gwrdd ennill gerddau anian
 ag am hynn lywelyn lân
 dywedaist diau wewdydd
 yn eglür ffyrfir y ffydd
 Myr uwchder mydr mawr echdoe
 yn iawn ddysg am awen ddoe
 enaid y bairdd onid bod
 gorau baibl G AIR HEB WYBOD
 gwrdd ir attebaist dêg ach
 a hu odl yny haiiach
 daeth ddi vagl i doeth Eva
 o nef ddoeth anavai dda
 felly doeth awen gennym
 gwrdd räs yn vam y gerdd rym
 nid kamp lythr aurgamp len
 na bywyd krefft heb awen
 Taliesin hydr ar vydr vy
 gobraith proffwyd ai gwyby
 llywelyn hynod glôd glaer
 naddwr kerdd awenyddair
 a mefl ir dyn tremyn tro
 na thraetür ar ethrotto
 kar bax o dir mab Maxen
 i ti gan wr briglwyd hên

a chrio klod ochrawg klêdd
 awch ymrwydr a chymrodedd
 Rys gôch o eryri ai kant.

CYWYDD I FAIR

[O ysgriflyfr yn llaw Llywelyn Sion o Langewydd: sef Casgliad
 o hen Brydyddiaeth a wnaethpwyd tuag 1590.]

MAIR yw n hyder rag perigl
 morwyn wyr y mür yn arogl
 murain nevawl vain vwnwgl
 mawr yw yn gael oi müragl
 gorff düw lwys nyr eglwys rygl
 ag airw i waed o garegl

da vair loewair olau wemp
 dangos rex nyd symplex swmp
 da beth i kevaist dy bump
 llawenydd chwaer ddedwydd chwimp
 da anrheg deg yw dy dymp
 dwyn düw goeth da iawn dy gamp

diasgembwynt—dysg iawn bibl
 disgin krist di drist dew drebl
 dwysgbarch yth vry vair dysg bobl
 dysgaf ganu vel disgibl
 dwysglaurgerdd düw disglairgwbl
 dysg deg odl pefr dasg digabl

mawr glaerlaes Mair eglür lathr
 dysg heb gyd aml kaethvyd kethr
 vab düw gloew hoew loew i lythr
 er gwresgin kroes garw ysgwthr
 degn wawd lwybr dygyn waedlithr
 dygyn hoelion orion arüthr

Mair loew megit blas kroew sÿwgr
 krist vab düw aürfab air vegr
 ywn gwiw gwbl ymborth an gogr

a düw er dynion deagr
 a vynnoedd bystl a vynegr
 ar y groes dogn loes dygn lwgr

püraf wawd tavawd tivedr
 ar lan wryr ar lun arodr
 hoew vab düw aeth yn hyvedr
 yth vry vair ddawnair ddianidr
 mal haul wybr byw lwybr baladr
 drwy ffenestr wawd restr o wydr

Mair ürddedig vendigedig
 etholedig yth aülodau
 vam grist wledig, ddivethedig
 ior ganedig or gwiw nodau

klyw dy warant, klod a barant
 hwynt ath garant, hawnt iaith gorau
 kar dy waison, nid yn vraison
 kai kül glaison rag kael gloesau

kai vawl telyn, nad yn gelyn
 kythraul melyn, kaeth rol moelau
 yn dü bwylo, wan godwylo
 er kür bwylo, i'r korr byllau

dwg vorynion, a gwyr gwynion
 a holl ddynion o holl ddoniau
 ras wawd baredd, heb waith karedd
 yth drügaredd, oth dro gorau

dwg brydyddion, yn wyr ryddion
 awenyddion, i wiw noddau
 kair yn llawen, gair gorawen
 o gain awen wiw genauau

morwyn bwysyd maint yth gwysyd
 o saint hoewsyt, a santesau
 yt arfaethant, nef a wnaethant
 ag a wnaethant egin waethau

mam grist geli, seren heli
 luna seli, lan y sŷlau
 oportere, nos habere
 miserere, moes ar airau

Mair ny hena grasia plena
 sine pena, son heb poenau
 qui vo caris, salutaris
 stela maris dalm o airau

imperatrix, consentatrix
 miseratrix, mois ar otrau
 o maria, vyrgo pia
 recte via, rag tew vaiau

pe peristi, iesu cristi
 sine tristi, son nid trystau
 mundi rosa, et presiosa
 esbesiosa hysbys oesau

nwnc vidamus, et ploramus
 adoramus, daear rwy mau
 et codamus, ut vidamus
 te lawdamus tal di am mau

Mair vorwynaidd, mŷr addfwynaidd
 Mair gyflawnaidd, mŷr gyflawnau
 er dy weddiant, anrydeddiant
 er dyveddiant, er duw vaddau

drwy holl niver, daear diver
 pan yth river, poen iaith rwyvau
 ir lle tradwys, lle maer tadwys
 i baradwys o bŷr oedau
 ir nef telir, kerdd ny chelir
 yn lle gwelir yn lliw golau

Mair ywn hyder rag perigl

ieuan ap Rydderch ap iéuan llwyd ai kant (i Vair o Benn
 Rys, medd IoloMorganwg.)

AWDL I'R BRENIN HARRI'R SEITHFED.

(O Lyfr Hafod Uchtryd.)

MOROG mawrwyrthiog a roes i'n Harri
 Caiff hiroedl ac einioes
 A ffared Crist ffrydiau croes
 I fab Iemwnt fyw bumoes.

Oes oesoedd rhaid oedd anrhydeddwr Lloegr
 Llugorn Cenedl Dewdwr
 Na bai raid ofni Bradwr,
 Na llanw gwyllt, na llew na gŵr.

Nis lladd gwr na thwr na tharan na draig
 Na dragwn na Melldan,
 Nag arswyded grys sidan
 Neidr na thwyll na dwr na than.

Er Tan nag ymwan na bo gwaith na Pholax
 Na phelydr Marchogaeth,
 Nag a gwenwyn goginiaeth
 Na ffonn sais na phenn i saeth.

Er saith na bo gwaith na draig wen na glaif
 Neu gledd nag ysgien* * Ysgien, a rapier.
 Na glin March nag olwyn Menn I. M.
 Na chyhyrwayw na chwarren.

Chwarren, teg i benn nyw baidd na bwa
 Na bwyall na dyrnflaidd
 Gwaew nag isarn haearnaidd,
 Geneu blwng neu gi na blaidd.

Na bleiddiau deâu neu ysdiwart Gwyddil
 Nag Iddew neu Lwmbart
 Na byw osler na Baslart
 Na maen o dwr na min dart,

Na Llewpart na dart na daint anghenfil
 Na henfaedd o grynfaint
 Na chyrn hydd na chur na haint
 Na dihennydd ond henaint.

Henaint a rann saint i'r Ynys honn
 Harri a adon yn hir oediog
 Mair Gabriel Sariel Tomas Uriel
 Mihangel, Rhiniel, a fo rhannog,
 Nawdd Bened, Berned, yn lle i barno
 A nawdd Duw arno a nawdd Dyrnog
 Brothen a Sulien a Sain Silin,
 Buan, Cylynin, Beuno Clynog,
 Cynin ai weision, Cynan Assaf,
 Cowrdaf Car Eudaf fab Cariadog,
 Collen, llaw Elien a Llywelyn
 Cynwyd Cynfelyn. Cedwyn Cadog,
 Cadfan a Dyfnan ys da Dyfnig,
 Caron a Churig Padrig, Pedrog,
 Peris, Cristiolis, Denis, Dwynwen,
 Pedr, Ieuan, Gwnnen, Padarn, Gwnnog,
 Sain Ffagan, Afan esgob Ifor,
 Sain Grugor, Sain Sior, Môr, a Mwrog.
 Sain Clar nawdd Ilar, a Chynddilig,
 Sain Domnig, Peblig, Meilig, Maelog,
 Dochwyn, a Theccwyn, ef a Thycewy,
 Dochdwy, Gwenfrewi, a Thyfriog.
 Derfel, a Dwyfel, a Gredifel,
 Dogfel, nai Daniel, a nawdd Dwynog,
 Deinioel, a Seirioel, a nawdd Saeran,
 Dirdan, Ystyffan, Cynan, Cynnog,
 Deiniolen, Llowdden, Cathen, Ceithyw,
 Dewi o Fynyw, nawdd Dyfaenog,
 Tybie, Nonn, Einion yna,
 Tegla, Agatha, Anna Enwog,
 Tanwg a Thrinio, Iago Egwad,
 Tyssyllo, Lleuddad, Tyssul, Llwyddog,
 Lawres ai croeses, marc a Rhissiart,
 Luwc, Lambart, Edwart, a Thyfrydog,
 A doddi iechyd o Dydecho,
 A Theilo iddo, a Thylyddog.

Yn Arglwydd Rhismwnt Ior hwnt y rhed
 Yn Arglwydd Swmrsed a gred i'r grog,
 Yn Farchog urddol y detholwn,
 Yn eurlliw i wên, yn Iarll enwog.
 Yn ddug i weled, newydd goler,
 Inni Dewiser yn Dywysog,
 Ag yn Frenin Gorllewin Llywiawdr
 Ag yn Ymerawdr y gwna Mwrog.

Dafydd Nantmor ai cant. (Quære?) Ai nid rhy ddiweddar
 ydyw i fod yn waith Dafydd Nanmor, yr oedd y Bardd hwnnw
 yn byw yn amser Rhys Goch Eryri.

(Rhys Nanmor medd Llyfr arall.)

Y mae fal hynn mewn un llyfr a welais yn Hafod Uchtryd.
 Dafydd Nanmor ap Rhys Nanmor o Faenor Fynyw, ap Dafydd
 Nanmor o Wynedd y Bardd.—I. M.

LLYMA GYWYDD MAWL

A gant Gutto'r Glynn i Ddafydd Llwyd o Gedewain am yr
 Eisteddfod a wnaeth efe ir Beirdd yn ei Dy. ar
 uchelwyl y Sul Gwynn.

DAFYDD mae'r Beirdd yn dyfod,
 Daw'r Gler oll ith dy ar glod,
 Dafydd fab Dafydd fy Ion,
 Da ' rannwyd orwyr Einion
 Dyfal mae'r Beirdd yn d' ofyn
 Dafydd Llwyd difaddau llynn,
 Degle fab carediglwyd
 Tra fych cymmanfa Tref wyd.
 Ty sydd yt tes oi ddeuty
 Teg ael Glynn Tywyn yw'r Ty,
 Ty Ddewi dai fri'n dy Fro
 Neu Sîn yr Ynys yno,
 Ynys y Saint neu Sain Siam
 Ysbyttu Eos Bettam.
 Pererindawd pob rhandir
 Pab Rhufain Cydewain dir,
 Cadell ail i'n cadw oll wyd
 Cu Deyrnllew cadarnllwyd,

Croes naid cywiriaid Ceri,
 Cydewain Nudd a'n ceidw ni,
 Ni chiliaist ni ochelud
 I Arbed traul o'r Byd drud,
 A dal ty y dulwyd hael
 A rhoi da i'r rhai diwael,
 Pei brenin, PAB yr Ynys,
 O daw ith wlad aed ith Lys,
 Pob clerwr pob rhodiwr hy
 Pobl attad pawb iw letty,
 Pob Gwann hyd ym Morganwg,
 Pob ffol mal pei'r *Pab a Ffwg*.
 Pob genau pawb a ganawdd,
 Byth yt a llyna beth hawdd,
 Po amla fo cerdd dafawd
 Anhawsa fydd cael *gwydd gwawd*,
 Ag e oedd ar *gywydd* ym
Goed talm pei *gattai* wilym
 Mae *deuſin* ir mau dafawd
 I *dorri gwydd*, *Deri gwawd*,
Naddu mae'r awenyddion
 Eu gwawd fry o *goed* y fronn,
 Fel nas gellir in hiroed
Gael defnydd cywydd o'r coed,
 Aeth y *Gwydd* ith *gywyddau*
 A'r *ffridd* nid hir ei pharhâu.
 Dau a chywyddau i chwi
 Drwy fydr yn ymdrafodi,
Swerdwal waisg *Saer dilysgerdd*
 Yn *bwrrw coed i beri cerdd*,
Llawdden a'r *fwyall* eiddaw
 Ni âd *wydd deunydd* lle daw,
 Ehangwaith yw ei hoengerdd
Lladd coed er *allweddau cerdd*,
 Dau ydynt o'u dyedir
 Ni *adant hwy goed i'n tir*.
 Ychydig yw *coed* brig bronn
 Yn eu hól yn *wehilion*,
Naddu cerdd newyddu coed
 Nid a'r *wangyll* na *dreingoes*,

Dechreu gwawd diochri gwydd* *dyochri I. M.
 Etto 'dd wyf itti Ddafydd,
 Ym mhen *Catterwen* teiriaith
 Mae lle 'i roi *mwyall ar waith*,
 O derfydd *coedydd ceudawd*
 Dafydd ti yw *gwydd tai gwawd*
 Goreu *deunydd* Ddafydd wyd
Gwydd awdl neu *gwydd* ydwyd.
 Ti yw *coed Deunydd* Ty Cerdd,
 Trafn iawngefn trefni angerdd,
 Trawst ein iaith trosti ai nenn
 Ai chambost ai gwy ch ymben,
 Post union o Einion ym,
 A Chalon wych o Wilym,
Catterwen Ceri wenn wyl,
Coed nenn Cydewain anwyl,
 Tre tad nid rhaid dy oedi,
 A Bwrdd Tal y Beirdd wyt ti,
 Ifor y dref a'r ford rydd
 Nid Ifor un ond Dafydd,
 Un hyfryd yng nglann Hafren
 Anhyfryd Byd hebdo'n Benn.

Gutto'r Glynn ai cant.

(O Lyfr Mr. Dafies, Penegos.)

CYWYDD MARWNAD LLAWDDEN FARDD.

Och am Lawdden y leni
 O brudd nwyf a gwae'n Beirdd ni
 Awen gatterwen torred
 A grym Barddoniaeth holl gred,
 Bwrw *Saer* gwawd tafawd hyfedr,
 Berw eurwawd bwy mwy ai medr,
 Bwrw pencerdd bu wr pynciau,
 Bu hoyw dra fu'n eu bywhâu,
 Bardd ydoedd nid Braiddwydiwr
 Buan au wawd a bu'n wr,
Tydain ddoeth Tad Awen dda,
 TALIESIN *Teulu Asia*,

Adferai diau fwriad
 A gwirddawn glaer gerdd ein gwlad,
 Adferyd celfyddyd faith
 Cain geraint Cân ag araith
 Dyn a fu'n dwyn y *Fwyall*
 Yn bann ai caid ai benn call,
 A gwr oedd un goreu'i air
 A gaid yn dwyn dwy *gadair*
Aur gadair ddianair ddysg
Caerfyrddin carai fawrddysg
Cadair unwedd ae gweddai
 A mawredd *Gwynedd* a gai,
 A *bwyall Aur*, da'i bwyll oedd,
 Morganwg lle mae'r gwinoedd,
 Llyna Fardd llawn ei fawrddysg
 un mawr oedd Llawdden i'n mysg,
 Trefnau *Rol* tra fu'n wr hardd
 O iawn brawf imi'n Brifardd.
Rhol rhynciau mesurau sydd
Ar waith parodiaith Prydydd.
Rhol achau oedd ry lychwin
 Ei threfn cyn iddaw ei thrin
Rhol Statud, nid mud y mawl
 A nillai ynddi'n ollawl,
Rhol hylwydd pob *Cyfrwyddyd*
 Ar gampau gwybodau byd.
 Pwy mor lan a gân i goed
 Hoewblaid agwedd blodeugoed ?
 Pwy a gân Serch i ferch fain ?
 Ag eurwawd gwr mor gywrain ?
 Pwy ar *wydd* un gelfydd gainc ?
 Ag eilgamp pwy ar *goelgainc*,
 Pwy ai *nadd* cerdd mor addwyn
 I gariaw mawl a'r gwr mwyn ?
Bwyall oedd drwy bwyll iddaw
 Un a wnai les yn ei law,
 Ai *holion* gwych ei helynt
 Ar wawd y gerdd dafawd ynt,
 Ef a *naddai*'n fwyn wiwddoeth
 Ei luniaidd wawd ai law'n ddoeth,

Ar *wydd* rhoi hoyw arwyddon
 Iawn ei hwyl a wnai a honn,
 Rhoddai'n ei gerdd ryw ddawn gall
 A fai yn *ol ei fwyall*,
 A *naddai*'r cynghaneddion
 Mal Prifardd yn hardd a honn
 Pob mann heb gel fe welir
Ei hol naturiol i'n tir,
 Ar bob cân, a'i hamcan hi,
 Rhoi gwarant, a rhagori,
 Gwarant yw i bob byw byd
 Gloewfoddion ei gelfyddyd,
 Ar bob cynghanedd meddaf
 Y gwir ar ddosparth a gâf,
 Ar bob mesur pur yw'r pwyll
 Iawn ddodiad odlau'n ddidwyll
 Am *saerwaith* y mesurau
 Nid oes o braidd fwy na dau
 Fal ef ai gwyr llwyr wellhâd
 Newyddodd ddull ei *naddiad*
 Gwyddai rif campau'r Prifeirdd
 Holl *Rolau* gwybodau Beirdd,
 Pob swydd a phob cyfrwyddyd
 A gwaith athraw cerdd i gyd.
 Athraw heddawn athronddysg
 Awenaidd oedd yn ei ddysg
 Disgybl efe ai dysgai
 Dasg lawn ag yn iawn y gwnai,
 Dwned a roe mhlith dynion
 Dawn hoeyw o rodd Duw yn honn.
 Rhoi gwellhâd gwirgall ydoedd
 Ar waith cân ei amcan oedd,
 Rhoe iach ystyr gorchestawl
 Ar iaith ai mydr, eurwaith mawl,
 A *Rhol* lefn a threfn a thrin
 Ar fawrddysg *ynghaerfyrddin*
 Rhoe *Rol*, rhag afrëol fraith
 Oferfeirdd, a fu'n fawrfaith,
Defodau difai ydynt
Rhys fab Tewdwr, da'r gwr gynt

A *Rhol Arthur* o bur barch
 Da hefyd a dihafarch,
 Athraw ym oedd aeth a'r mawl
 Am wybodau mebydawl
 Am gelfyddyd gwynfyd gwr
 A medrai bob gwaith mydrwr,
 Gwae oer a brwyn gwae awr brudd
 Gwr ai hoffai mab Gruffudd
 Ab Nicolas ai dras draw
 Ai genedl o'i fawr gwynaw.
 I'n hoes bwy geir i iawnhâu
 Deddf adail Eisteddfodau
 wedi Llawdden dall heddyw
 ydynt feirdd am nad yn fyw
 Un ai dysgai'n benn dwysgwbl
 Ar waith llên ag awen gwbl,
 Mae'n y bedd gwae ni heddyw, Aeth i'r bedd. *al.*
 Ai fath ni welir yn fyw,
 Aeth Llawdden ai dalcen doeth
 yr unwedd a gwr annoeth.
 Aeth i Gôr bencynghor cant
 Ar ei ôl a fawr wylant,
 Lle ochaf, yng Nglynn Llychwr (llynn, llyfr
 Ym medd y gorwedd y gŵr, arall.)
 Yng Ngwyddfa, oer drigfa draw,
 Ei dylwyth yn Llandeilaw,
 Ai enaid aeth yn uniawn
 I'r nef mewn hedd i wledd lawn.
 Ag yno'n fardd ai gan fyth
 Yn addoli Duw'n ddilyth.
 A minnau fal y mynor ☞
 Yn wylaw a'm f'athraw'n for.

Iorwerth Fynglwyd ai cant.

Iorwerth Fynglwyd yn ymweled a Bedd Llawdden Fardd ym
 Mynwent Llandeilo Tal y Bont, a gant yr Englyn hwnn.

LLAWDDEN ai AWEN EOS a ballodd,

Pwy bellach i'n dangos?

Dan y ddaear mae'n aros;

Dall yw'n Iaith mae'n dywyll nôs.

Iorwerth Fynglwyd ai cant.

CYWYDD I OFYN RHWYD BYSGOTTA A'I DDYFALU.

IFAN ddoeth o fewn ei ddydd,
 Goreu'i ofeg ai grefydd,
 Pendefig pwy un dyfiad
 Penadur o Dudur dad,
 Llin union llew un anwyd,
 Llaw Nudd a llin Ruffudd llwyd.
 Hil ag ettifedd haelwych,
 Hael un fRAINT o Heilin frych,
 Ni bu Eryr na Barwn
 Mor hael ac fu'r Cymro hwn,
 Da wr i fodd dewr ar farch
 Wyd y llew o waed Llowarch,
 Da yw'r lliw y darllewr,
 Da dy nerth od adwaen w'r,
 Dy ras sy un dro o Siob
 Yn* ddysg fel Dafydd Esgob
 Mowrddysg synhwyrâu Merddin,
 Mae'r ddwy gyfraith faith i'th fin,
 Mewn dadl ni chaid man didwyll,
 Cymen ond o'th bèn a'th bwyll,
 Drudwych yn y frwydr ydwyd,
 A Sant yn yr Eglwys wyd,
 Oen difalch yn y dafarn
 Athraw y beilch wrth roi barn,
 Yn wr tal yn yr oed dydd
 Yn Ifor yn Llan Ufydd,
 Pawb a wyr bod tafod doeth
 I chwi Ifan a chyfoeth,
 Poed hir, gair gwir, y gwr gwych,
 A fo'ch nerth f'achwyn wrthych,
 hel 'rwyf heolau'r Afon
 Ar hyd dwr a dryll rhwyd don
 Gweled pysgod brig Alun
 Gwilio'r wyf heb gael yr un,
 Praff awdur in proffwydwyd
 Prudd yw Meredydd am rwyd

* Dy

Efo i praw, gwell gan fab Rhys,
 Eitha'r dwr no thir dyrus
 Esgud i'r af i'r Afon
 A chael haf i chwilio hon
 A chael unwaith ei cheulennydd,
 A chael rwyd uchelwr rhydd,
 Mae rhwyd lân mawr huodl Ior,
 I chwi Ifan awch Ifor,
 O cha rodd chwenychu'r wyf
 iwch rhwyd a'i herchi ydwyf,
 Rhawd fr^thylliaid o rhodir
 Rhwng deuddyn a dyn i dir,
 Ei dwy ffôn ydyw ei ffyniant,
 Ai diwyd waith ai dau dant,
 Ai gwydraidd blwm i'w godrau,
 A thramwy hön i'w thrymhau,
 fry yn bert yw dwyfron barch,
 Obry'n gau wybren gowarch
 Gwe deg i anrhegu dŷn,
 Gannaid fal diliau gwenyn,
 Brwydrai'r dwr bwriad ar dant
 Breccini Aber Ceunant.
 Lluric o waith llaw wrol,
 Llaes ei hun llawes o'i hól,
 Dwr hardd a dorri'r a hi
 Dwr a dreiddia dioer drwyddi,
 Drwy y dwfr dy rwyd Ifan
 A ddaw o led i'r ddwy làn,
 Gras mawr y grawys ym oedd
 Gael rhwyd a gwilio rhydoedd,
 Ai chael yn rhodd gennyeh chwi,
 A cherdd hwdiweh chwi erddi

Meredydd ap Rhys ai Cant o ddeutu'r flwyddyn 1440.

COWYDD I DDIOLCH AM Y RHWYD

PA wr ydwyf tra fwyf iach?
 Pysgodwr pwy esgudach?
 A mil o bysgod Maelawr,
 Ar fy mwrdd llyna rif mawr

pawb yno sydd pob nos Iau
 yn aros y *Gwenerau*,
 Deliais ar Nos Nydolg
 Pam waeth *dydd caeth no dydd cig?*
 Hawdd Amor i'r Cateoriau,
 Hawdd fyd bwrw'r Ynyd brau.

Pam na ddaw y garawys

Fal y daw Mefiliau dwys,

(*Mal y daw mywil-
 [iau dwys]*)

Ystyried ter Ystôr ty

o. Rwyd aml a roed ymy.

Ysgo ebrwydd ysgybwraig,

Ysgipiol ar ol yr aig,

Mân a bras y mae'n brysur

A ddeil y rhwyd a ddylu'r *hur*.

Pwy ai rhoes o hap a rhan?

Pendefig pwy *ond* Ifan,

Ap Tudur, Awdur ydyw,

Llew doeth ap Gruffudd Llwyd yw.

Llin Heilin (llan i hiloedd)

Frych, ai law ail Frochwel oedd

Llyna'r mab o'r llun a'r modd

Yn wr addwyn a wreiddodd,

Bonheddigaidd yw'r gwraiddyn

O Bwriwyd twf ar brÿd dyn,

Gwraidd a geidw i gweryl,

Gwalchmai y galwai ai gwyl,

Gwr dryd, wrth egori'r drin,

fo ar wanas iw frenin ;

Gwr yn rhaid gwir anrhydedd



Gwych ei law a gwaew a chledd

Ar ddydd ef a wyr ddyddio

Ac ar far goreu yw fo,

Heliwr yw'r gwr a garwn,

Hoedl hir fo i'r huawdl hwn,

Helied Ifan *hael dyfiad*

Ar ei dir teg wir dre Tâd,

Mewn awr dda minnau ar ddôr

O fodd hael a fydd heliwr,

Mahog wych mwyedig wedd

Iawn genau Owain Gwynedd,

Ni fynnai dir, f'enaidd oedd,
 Na da mawr ond y moroedd,
 Madog wyf im oed ai gais
 ar foroedd hyn arferais,
 Rhodiaf hyd For ag Afon
 ar hyd eu gro a'm rhwyd gron
 Gwell bod yn wraig pysgodwr
 Nog i'r rhai nid elai i'r dwr
 Pedr gwr mawr eu hap ydoedd
 Pysgodwr oreugwr oedd,
 Ir un helwriaeth i'r af
 Mwy no Phedr mi ni pheidaf
Meredydd ap Rhys ai Cant

CYWYDD

I ofyn benthg y Gréal, i Dryhaearn ab Ieuan Amheyrig ab Hywel
 Gam, o Waun llwg, Dros Abad Llanegwestl.

OED Triwyr yt Tryhaearn
 Awdur Beirdd i dorri Barn,
 Ab Ieuan Rên o Ben Rhôs,
 Amheyrig wyd i'm haros,
 Yr ail gwr o Hywel Gam
 Y Trydydd at Ryw Adam,
 Cyd-teyrn yw Coed teyrnaidd
 Cynfyn a Bleddyn a Blaidd,
 Dy Lîn o Wysg i Lynn Nedd,
 Dy Genedl Deau a Gwynedd,
 Dy waed rhywiog Tryhaearn,
 Dy ddiwedd byd fo Dydd Barn,
 Gwreiddodd a cherddodd ych Iau
 Glod Dwywent a Gwlad Deau
 Llygaid Gwaun Llwg wyd i gyd,
 Llaw a Llyfr y lleill hefyd,
 Aberthau gwybodau'n bur
 A barthaist mal bu Arthur,
 Llaw Nudd Caerllion oeddych,
 A'i llu a ddo'nt i'r lle'dd ych,

Genau dysg Beirdd Morganwg,
 Gwiw enau Llên Tir Gwaun Llŵg,
 Genau holl gampau Gwynedd
 O Deirnon wyd i Dir Nedd
 A thafod ein Iaith hyfedr,
 Tâd ai maeth tydi ai medr,
 Awn i'ch Cwrt yno y'ch cair
 Uwch Hawlffordd fal Uchelffair
 Wyth gan mîl a'th ganmolant,
 O'r Berffro i Benfro Bant
 Doeth wyneb, da i'th enwîr,
 Defodau holl Dyfed hîr,
 O Aber teg, lle berw tonn,
 Daugleddau hyd Gelyddon,
 Un o welch a'i waew ai Nerth,
 Iarll Herbert gerllaw Arberth
 A chael henw, uwchlaw hynny,
 Wyth wlâd dy hûn a thal Ty ;
 Enw Dysgawdr llywiawdr pob Llên,
 Un mesur ag enw Moesen
 Abad, o'n gwlad a wna'n gwledd,
 Llanegwestl oll un agwedd,
 Un gost gwîn a rhost yn rhydd
 Yw'ch dwyfort chwi a Dafydd ;
 Un ddiwig yn y Ddwyallt
 Eithr ei wisg a thorr ei wallt,
 Holl Gymry yn y Ty tau,
 Holl Wentoedd, felly yntau ;
 Ef o i wraidd y Gyfrwyddydd,
 Chwithau o Wybodau Byd,
 Holl Wynedd yma'n llinyn,
 Wythwlad Gwent ith loywdy gwynn
 Gwybodau Argyffrau Gwydd
 Gwirio 'ddwyf a gar Ddafydd
 Am un llyfr y mae'n llefain
 A gâr mwy nag Aur, a Main,
 A chwynfawr am i'ch anfon
 Y Gréal teg i'r wlad honn,
 Llyfr y Gwaed, llyfrau y Gwÿr,
 Lle syrthynt yn Llys Arthur,

Llyfr am enwog Farchogion,
 Llyfr teg râdd yr holl fort gronn ;
 Llyfr etto yn llawfryttwn,
 Llîn Hors ni ddarllenai hwn ;
 Benthig hwn Bennaeth y Côr,
 A gais Dafydd Gost Ifôr,
 Brenhinllyfr Barwn henllwyd,
 Bes cai byw fyddai heb fwyd,
 Swnd* menyeh sy'n dymunaw (* Saint)
 Sain Greal i Dir Ial draw ;
 A thrachefn ni tharia chwaith,
 O Dir Ial y daw'r eilwaith,
 Y Gutto Ef ai Gattel,
 Eich hen Ddall ywch yny ddel.
 Da Duw fal o Dai Dewi,
 Diau y Tal daw i Ti.

Gutto'r Glynn ai cant.

Y mae'r copi sydd yma'n llawnach nag un o'r copiau eraill ; felly y gwelir ambell cywydd arall ; a'r achos bod rhai felly sy'n lled amlwg, sef y Prydydd yn gwellhâu ag yn chwanegu at ei gywydd, ag yn rhoi allan copïau o'r cyfryw gywydd neu awdl mwy cwbledig ;—ond nid cyn y bo'r un cyntaf wedi cael ei gopio, f'allai gan lawer un, mwy neu lai yn amrafaelu ar y llall a'r llail. Y mae amrafaeliadau, hefyd, wedi cymmeryd lle achos gwallau ac ysgaelusdod ysgrifyddion ; ag hefyd, mae'n debyg ddigon, drwy fod ambell un a fedrau hynny yn gwellhau, neu yn tybied ei fod yn gwellhau, rhai bethau ; eraill yn ysgrifenu oddiwrth a wypai ar dafod, a thrwy anghof, yn camddatgan rhai bethau, yn camlêaw eraill, ag yn gadael allan ar anghof ambell peth.

I. MORG.

Y mae Iolo Morganwg, rhwng y cywydd a'r synniadau, yn yr ysgrif dann olwg, yn cyfeirio at ysgrifau eraill o'i eiddo ; ym mharhai, hefyd, y mae y cyfryw gywydd yn gynnwysedig ;—ag yna yn myned ym mlaen fal uchod.—AB IOLO.

CYWYDD I OFYN Y GREAL I ABAD GLYNN NEDD.

Y GWR a'r Llyfr geirwir llwyd
 O Lynn Nedd a lunieiddwyd,
 A drawdd mewn deuair neu dri
 Gymmendod Magamwndi,
 Saith gwybod da cydnodwn
 Mae'n y saith ym mynwes hwnn,
 Gramer a ffyrfer y ffydd
 Grym deugain Gramadegydd,
 Ym mewn art y mae yn wr
 Mewn suful y mae'n waesafwr,
 Mewn soffstri mae'n berwi'n bur
 Mewn Miwsig mwy na mesur.
